

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Gruffudd ap Maredudd

II · Cerddi crefyddol

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPHIL

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, MPHIL, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH  
GRUFFUDD AP MAREDUDD  
II · CERDDI CREFYDDOL

golygwyd gan

BARRY J. LEWIS



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
2005

© Prifysgol Cymru ©, 2005.

Adargraffiad PDF gyda mân gwiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 57 2

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, [apo@cymru.ac.uk](mailto:apo@cymru.ac.uk).

## *Dull y golygu*

Golygwyd gwaith Gruffudd ap Maredudd am y tro cyntaf gan Glenda Jones yn 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1990). Er fy mod yn cyflwyno golygiad newydd o gerddi Gruffudd ap Maredudd yma, hoffwn gydnabod gwaith arloesol Dr Jones.

Testun Llyfr Coch Hergest (J 111) yw prif ffynhonnell yr holl gerddi. Gan fod yr holl gopïau diweddarach yn tarddu o'r llawysgrif hon, ni ddangosir darlenniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlenniad yn y Llyfr Coch, dangosir y darlenniad gwreiddiol ar waelod y testun. Eithriad yw cerdd 15. Ceir hon gyda'r lleill yn y Llyfr Coch, ond y mae hefyd ar glawr mewn nifer o lawysgrifau nad ydynt yn tarddu o'r llawysgrif honno. Dangosir darlenniadau amrywiol yn achos y gerdd hon.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *gwedy*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Dyma'r ail o dair cyfrol yn cyflwyno gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd. Cyhoeddir geirfa gyflawn a mynegai llawn i'r holl enwau priod yn y drydedd gyfrol.

## *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; a Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol y gyfres hon. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Ann Parry Owen, i aelodau eraill y prosiect hwn, yn enwedig Mr M. Paul Bryant-Quinn am rannu ei wybodaeth am grefydd yr Oesoedd Canol, ac i Mr Daniel Huws.

## Cynnwys

DULL Y GOLYGU .....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol .....	ix
Termau a Geiriau .....	xix
RHAGYMDRODD .....	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1.    Awdl i'r Grog o Gaer .....	21
2.    Awdl i Dduw .....	34
3.    Awdlau i Dduw .....	39
4.    Englynion y Sul .....	55
5.    Englynion i Dduw .....	59
6.    Englyn i Grist y Creawdwr .....	61
7.    Englynion i Dduw .....	62
8.    Englynion Gwynedd .....	68
9.    Englynion i Dduw .....	71
10.   Awdl i Fair .....	74
11.   Awdl i Fair .....	79
12.   Englynion y tair llythyren .....	83
13.   Englynion y tri gŵr doeth .....	85
14.   Englynion y pedwar efenglydd .....	88
15.   Awdl gyffes .....	91
NODIADAU .....	109
LLAWYSGRIFAU .....	223
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....	229





# Byrfoddau

## Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- Act ‘Actau yr Apostolion’ yn y Testament Newydd
- ASCent *Apocryffa Siôn Cent*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
- Barn ‘Llyfr y Barnwyr’ yn yr Hen Destament
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BCN *Y Beibl Cymraeg Newydd* (Swindon, 1988)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- Bedo Aerddrem, &c.: Gw Robert Stephen, ‘The poetical works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach’ (M.A., Cymru, 1907)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)
- BI B XIV *Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)

Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Can	‘Caniad Solomon’ yn yr Hen Destament
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
J. Cartwright: ForF	Jane Cartwright, <i>Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfydod a Diweirdeb yng Nghymru’r Oesoedd Canol</i> (Caerdydd, 1999)
CBPM	G. Hartwell Jones, ‘Celtic Britain and the Pilgrim Movement’, Cy xxiii (1912)
CCG	J.E. Caerwyn Williams, <i>Canu Crefyddol y Gogynfeirdd</i> (Abertawe, 1977)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
CO <sup>3</sup>	<i>Culhwch ac Olwen</i> , gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)
1 Cor	‘Epistol Cyntaf Paul ... at y Corinthiaid’ yn y Testament Newydd
CT	<i>Canu Taliesin</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
Cylchg LIGC	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1939–</i>
CyT	<i>Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol</i> , gol. R. Iestyn Daniel <i>et al.</i> (Caerdydd, 2003)
DACL	<i>Dictionnaire d’archéologie chrétienne et de liturgie</i> (Paris, 1907–)
Dan	‘Llyfr Daniel’ yn yr Hen Destament
Dat	‘Datguddiad Ioan’ yn y Testament Newydd
Jacobus de Voragine: GL	Jacobus de Voragine, <i>The Golden Legend: Readings on the Saints</i> , translated by William Granger Ryan (Princeton, New Jersey, 1993)

- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- Ecs 'Llyfr Ecsodus' yn yr Hen Destament
- Eff 'Epistol Paul ... at yr Effesiaid' yn y Testament Newydd
- ERLMA Rosemary Woolf, *The English Religious Lyric in the Middle Ages* (Oxford, 1968)
- Esec 'Llyfr y Proffwyd Eseciel' yn yr Hen Destament
- Eseia 'Llyfr y Proffwyd Eseia' yn yr Hen Destament
- Études *Études celtiques*, 1936–
- FfBO *Ffordd y Brawd Odrig*, gol. S. J. Williams (Caerdydd, 1929)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- Galarn 'Galarnad Jeremeia' yn yr Hen Destament
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)

- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a beirdd eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, i, Canu i deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, i ymddangos)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)

- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIV *Detholiad o waith Gruffudd ab Ieuan ab Llywelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2004)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GM *Gwassanaeth Meir*, gol. Brynley F. Roberts (Caerdydd, 1961)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, gol. Enid P. Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a cherddi dychan dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)

- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- Gruffudd ap Maredudd: Gw Glenda Jones, 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1990).
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii<sup>2</sup> *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddion Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io 'Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan' yn y Testament Newydd
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- Job 'Llyfr Job' yn yr Hen Destament
- KAA<sup>2</sup> *Kedymdeithyas Amlyn ac Amic*, gol. Patricia Williams (Caerdydd, 1982)

L&P	H. Lewis and H. Pedersen, <i>A Concise Comparative Celtic Grammar</i> (Göttingen, 1937)
LBS	S. Baring-Gould and J. Fisher, <i>The Lives of the British Saints</i> (4 vols., London, 1907–13)
Luc	‘Yr Efengyl yn ôl Sant Luc’ yn y Testament Newydd
LIA	<i>The Elucidarium ... from Llyvyr Agkыр Llandewi-vrevi</i> , ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
Llanstephan 6	<i>Llanstephan 6</i> , ed. E. Stanton Roberts (Cardiff, 1916)
Llawdden, &c.: Gw	M.G. Headley, ‘Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor’ (M.A. Cymru [Bangor], 1937)
LIB	<i>Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd</i> , gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
LICy	<i>Llên Cymru</i> , 1950–
LIDC	<i>Llyfr Du Caerfyrddin</i> , gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
LIGC	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
LII	<i>Llyfr Iorwerth</i> , ed. Aled Rhys Wiliam (Cardiff, 1960)
Llst	Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MA <sup>2</sup>	<i>The Myvyrian Archaiology of Wales</i> (second ed., Denbigh, 1870)
2 Mac	‘Ail Lyfr y Macabeaid’ yn yr Apocryffa
MAng	A.D. Carr, <i>Medieval Anglesey</i> (Llangefni, 1982)
Marc	‘Yr Efengyl yn ôl Sant Marc’ yn y Testament Newydd
Math	‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd

- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn crom-fachau)
- MERL Patrick S. Diehl, *The Medieval European Religious Lyric: An Ars Poetica* (Berkeley, California, 1985)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (New York, 1967–79)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBMLV *Oxford Book of Medieval Latin Verse*, ed. F.J.E. Raby (Oxford, 1959)
- ODCC<sup>3</sup> *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
- OIG *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, i (Caerdydd, 1928)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- l Pedr ‘Epistol Cyntaf Cyffredinol Pedr’ yn y Testament Newydd
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)



- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RC *Revue celtique*, 1870–1934
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- Rhuf 'Epistol Paul ... at y Rhufeiniaid' yn y Testament Newydd
- Salm 'Llyfr y Salmu' yn yr Hen Destament
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- SDR *Chwedleu Seith Doethon Rufein*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1925)
- Sech 'Llyfr Sechareia' yn yr Hen Destament
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TCHSG *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- 1 Tim 'Epistol Cyntaf Paul ... at Timotheus' yn y Testament Newydd
- 2 Tim 'Ail Epistol Paul ... at Timotheus' yn y Testament Newydd
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- Tri Llanc 'Cân y Tri Llanc Sanctaidd' yn yr Apocryffa
- TYP<sup>2</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)

- WML *Welsh Medieval Law*, ed. A.W. Wade-Evans (Oxford, 1909)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- Yst Addaf T. Gwynn Jones, ‘Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog: Tarddiad, Cynnwys ac Arddull y Testunau Cymraeg a’u Lledaeniad’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1936).
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896–

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	ff.	ffolios
adf.	adferf	Ffr.	Ffrangege
amhff.	amherffaith	g.	(c.) canrif
amhrs.	amheronol	g.	gwrywaidd
anh.	anhysbys	gen.	genidol
ardd.	arddodiad, -iaid	gn.	geiryn
arg.	argraffiad	gol.	golygywd gan
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gr.	Groeg
b.	benywaidd	grch.	gorchymnnol
ba.	berf anghyflawn	grff.	gorffennol
be.	berfenw	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
bf. (f.)	berf, -au	gw.	gweler
bg.	berf gyflawn	gwrth.	gwrthrych, -ol
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	Gwydd.	Gwyddeleg
c.	<i>circa</i>	h.y.	hynny yw
c. (g.)	canrif	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
c.	cyffredin	<i>id.</i>	<i>idem</i>
C.	Canol	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
cf.	cymharer	ll.	lluosog; llinell
cfrt.	gradd gyfartal	Llad.	Lladin
cmhr.	cymharol	llau.	llinellau
col.	colofn, -au	llsgr.	llawysgrif
cpl.	cyplad	llsgrau.	llawysgrifau
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	n.	nodyn
dng.	dangosol	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
Diw.	Diweddar	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dyf.	dyfodol	pres.	presennol
e.	enw	prff.	perffaith
eb.	enw benywaidd	prs.	person, -ol
ebd.	ebychiad	pth.	perthynol
ed.	<i>edited by, edition</i>	r	<i>recto</i>
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
eith.	eithaf	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
e.p.	enw priod	td.	tudalen
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	tt.	tudalennau
f.	ffolio	un.	unigol
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	v	<i>verso</i>
		vols.	volumes



## *Rhagymadrodd*

Golygir yn y gyfrol hon dros fil o linellau o ganu crefyddol Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, bardd o Fôn a flodeuai yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>1</sup> Hi yw'r ail gyfrol mewn cyfres arfaethedig o dair a fydd yn cyflwyno holl waith y bardd hwn. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf, a oedd yn cynnwys canu mawl a marwnad i aelodau o deulu Penmynydd, Môn, yn 2003, a chwblheir y golygiad â chyfrol o ganu amrywiol ynghyd â geirfa gyflawn a rhestrau cyflawn o'r enwau personol a'r enwau lleoedd a grybwyllir yn y cerddi.

Yn ddiamau, Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yw bardd crefyddol pwysicaf ei ganrif. Iddo ef y perthyn agos i draean o'r canu crefyddol sydd wedi goroesi o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Os yw nifer y cerddi a olygir isod yn fawr o'u cymharu â gwaith crefyddol beirdd eraill yr oes, trawiadol hefyd yw amrywiaeth eu testunau. Awdlau i Dduw mewn cywair penydiol yw rhai ohonynt, cerddi sy'n dwyn i gof awdlau crefyddol Beirdd y Tywysogion. Yma hefyd y gwelir un o'r cerddi cynharaf ar glawr a ganwyd i grog benodol, ac yn sicr hi yw'r fwyaf uchelgeisiol o'r holl gerddi i grogau, math o farddoniaeth a ddaeth yn boblogaidd iawn yn y Gymraeg erbyn y bymthegfed ganrif os nad ynghynt. Y mae'r ddwy awdl i Fair a'r englynion sy'n dathlu'r cyfarchiad iddi hwythau'n rhagflas o waith beirdd y bymthegfed ganrif a ganodd yn helaeth i'r Forwyn. Troes Gruffudd hefyd at bynciau megis y pedwar efengyllydd, y tri gŵr doeth ac arwyddocâd Dydd Sul. Anodd meddwl am ddim byd tebyg i'r cerddi hyn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Y mae amlygrwydd Gruffudd ap Maredudd, wrth gwrs, i'w briodoli yn bennaf i oroesiad swm cymharol helaeth o ganu dan ei enw. Petai cymaint o waith ei gyfoeswyr wedi ei gadw, byddai modd cyd-destunoli barddoniaeth Gruffudd yn amgenach. Ond rhaid i ni weithio gyda'r hyn sydd gennym, ac yn achos Gruffudd ap Maredudd y mae gennym gorff swmpus ac amrywiol o ganu crefyddol sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr iawn ar dymer grefyddol ei oes. Nid peth hawdd yw pontio'r gagendor o saith canrif sydd rhyngom a meddylfryd Gruffudd ap Maredudd, yn enwedig yn achos y sawl nad ydynt yn arddel y ffydd Gristnogol, a diau hefyd na fydd Cristnogion yr unfed ganrif ar hugain yn teimlo'n llwyr gartrefol â phopeth a gredai ef. Bwriad gweddill y rhagymadrodd hwn yw wynebu'r dieithrwch hwn drwy ymdrin ag amcan a chyd-destun y cerddi.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Ymdriniwyd â dyddiadau, bro a noddwyr Gruffudd ap Maredudd yn y rhagymadrodd i GGMD i.

<sup>2</sup> Yr ymdriniaeth orau â syniadaeth canu crefyddol y beirdd Cymraeg yw MWRL. Ceir llawer o

*Cymhellion y canu crefyddol*

Erbyn oes Gruffudd ap Maredudd, yr oedd barddoniaeth Gristnogol wedi ymwreiddio'n gadarn yn y Gymraeg ers canrifoedd. Gallai Gruffudd edrych yn ôl ar awdlau crefyddol ei ragflaenwyr yn llysoedd y Tywysogion a diau ei fod yn gyfarwydd hefyd â cherddi crefyddol ei gyfoeswyr. Nod y canu—nod a welir ar ei egluraf yn yr awdlau i Dduw—yw mynegi ar fesur briod ymatebion y Cristion i ddaioni Duw: Ei ganmol am Ei haelioni, gresynu oherwydd annigonolrwydd dyn, edifarhau am bechodau a gyflawnwyd, ymbil arno am drugaredd i'r enaid a gweddïo am ras i fyw'n rhinweddol. Mewn diwylliant a roddai gymaint o bwys ar awdurdod barddoniaeth a'r bardd, datblygiad naturiol oedd barddoni i Dduw. Gall fod gwreiddiau cyn-Gristnogol, hyd yn oed, i farddoniaeth grefyddol,<sup>3</sup> ond nid yw hynny o bwys mawr wrth geisio deall beth oedd arwyddocâd diwylliannol y canu hwn i Ruffudd ap Maredudd a'i gynulleidfa yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Canai Gruffudd a'i debyg i Dduw am fod hynny'n gyfraniad, yn eu tyb hwy, tuag at achub eu heneidiau ac eneidiau eu gwrandawyr rhag uffern. Y mae'r amcan deublyg hwn—lles y bardd a les y gymuned—wrth wraidd y canu i Dduw, a gwelir ei ôl ar wead gramadegol y testunau, sef y mynych wibio rhwng y person cyntaf unigol a'r lluosog.<sup>4</sup>

Credai'r beirdd fod eu cerddi crefyddol yn ystyriaeth o'u plaid a gâi ei phwyso yn y fantol pan bennid eu ffawd dragwyddol. Dyma syniad pur hen: yn y diwylliant Lladin a fu'n feithrinfa i'r canu crefyddol yn yr ieithoedd brodorol, mynegwyd ef yn loyw gan Juvencus (*fl. c.* 330), un o'r awduron cynharaf i gyfansoddi cerdd Gristnogol yn Lladin.<sup>5</sup> Y mae'r syniad fod bardd yn ymrwymo i wasanaethu Duw yn atseinio drwy'r Oesoedd Canol ac yn ategu gobaith Gruffudd ap Maredudd yntau am iachawdwriaeth:

N'ad na thwyll na brad ar Dy brydydd,  
N'ad freg (wyd wiwdeg!) ar Dy wewdydd ...<sup>6</sup>

Yn yr 'Awdl i'r Grog o Gaer' (cerdd 1), mynega Gruffudd ei awydd i ddilyn y trywydd iawn i'r nef, a hynny drwy gyfrwng ei farddoniaeth:

I ddelw un Mab Mair ydd addolaf  
O ddilys araith, gwaith gwerthforaf,

ddeunydd gwerthfawr hefyd yn ERLMA. Er mai barddoniaeth Saesneg Canol yw pwnc y llyfr hwnnw, y mae llawer o gefndir crefyddol a chymhellion y canu yn gyffelyb i'r deunydd Cymraeg. Cymherir nifer o draddodiadau canoloesol o ganu crefyddol yn MERL, gan gynnwys Lladin a Saesneg Canol, ond ni roddir sylw i'r Gymraeg.

<sup>3</sup> Gw. CCG am ddadleuon o blaid hyn.

<sup>4</sup> Cf., e.e., 3.121–4.

<sup>5</sup> Yn y rhagymadrodd i'w 'Evangeliorum Libri Quattuor', cerdd sy'n adrodd hanes bywyd Crist, gw. *The Cambridge Juvencus Manuscript: Text and Commentary*, ed. Helen McKee (Aberystwyth, 2000), 97 (llau. 21–7).

<sup>6</sup> 3.271–2.

I ddaly ynof cof cyfiawnaf—dremyn,  
I ddylun tyddyn llwyth plant Addaf.<sup>7</sup>

Cyd-fynd â'r gobaith hwn a wna argyhoeddiad y beirdd fod eu hawen yn tarddu o'r Ysbryd Glân. Unwaith eto, syniad yw hwn a'i wreiddiau'n ddwfn yn y traddodiad Cristnogol.<sup>8</sup> Er nad yw Gruffudd yn cyfeirio'n benodol at y gred hon yn ei ganu crefyddol, arni hi y seilir y deisyfiad am ysbrydoliaeth sy'n cyflwyno'r awdl fawl i Oronwy ap Tudur o Benmynydd:

Cyfarchaf i'm Naf, nefol rinwedd,  
Cyfarch parch parawd, ffawd ffyddlonwedd,  
Canmol fy rhiau, modd wleddau medd,  
Ceinmyg rhoddfudd rhudd, Rhun gymrodedd.<sup>9</sup>

Dull o agor cerdd fawl a oedd yn dra phoblogaidd ymhlith Beirdd y Tywysogion yw hwn, ac er nad yw'r cyfarchiad i Dduw mor gyffredin erbyn amser Gruffudd, deil y cysyniad gwaelodol yn ganolog i'r amgyffrediad o farddoniaeth, fel y tystia Siôn Cent, Llywelyn ab y Moel a Rhys Goch Eryri, er enghraifft.<sup>10</sup> Dyletswydd bardd sydd wedi cysegru ei gelfyddyd i Dduw, wrth gwrs, yn moli Duw:

Molaf, arwyraf ar eirau—prydiad  
Mawr Dad y Mab Rhad, mad amodau;  
Molaf hefyd, bryd brodiau—diadnair,  
Un Mab Mair ddiwair o'r Gair gorau;  
Molaf yn ffraethaf, yn ffrwythau—'r hollfyd,  
Y Glân Ysbryd, pryd priod wyrthau.<sup>11</sup>

Gwelir Gruffudd yn pwysleisio'r ddyletswydd hon droeon yn ei gerddi crefyddol. Ar un olwg, mawl i Dduw yw'r cwbl o'r cerddi hyn, ni waeth beth yw'r pwnc arwynebol (boed y Forwyn Fair, edifeirwch a phenyd, arwyddocâd y Sul, neu ryw bwnc arall), oherwydd er Ei anrhydedd Ef y'u canwyd. Ystyrier yr englynion i'r pedwar efengyllydd (cerdd 14). Duw yw canolbwynt y cyfan. Ef a ganmolir am greu'r efengylwyr (14.1–4) ac ato Ef y mae cwpled olaf pob englyn yn dychwelyd. Dehonglir symbol pob efengyllydd unigol fel arwydd o ryw agwedd ar y Duwdod.

Ac eto, gwneud cam â chymhlethdod eu themâu a'u delweddau fyddai galw'r cerddi a olygir isod yn gerddi mawl heb fanylu arnynt. Nid traethiad unplyg foliannus yw'r gyfres o awdlau i Dduw a olygir isod fel cerdd 3 (na wyddys hyd sicrwydd ai un gerdd ynteu sawl un ydyw), ond enghraifft o

<sup>7</sup> 1.61–4. Cymerir bod *dilys araith* yn cyfeirio at y gerdd ei hun, cf. ll. 73 *Enwi Ei farddlef, lôn nef, a wnaif*.

<sup>8</sup> Y mae Juvencus yntau'n arddel ysbrydoliaeth ddwyfol, gw. uchod troednodyn 5.

<sup>9</sup> GGMD i, 4.1–4.

<sup>10</sup> Gw. Barry J. Lewis, 'Trafod Barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: y Traddodiad Mawl a Chrefydd', *Dwned*, viii (2002), 1–34; Bobi Jones, 'Pwnc Mawr Beirmiaeth Lenyddol Gymraeg', *YB* iii (1967), 266–9.

<sup>11</sup> 3.195–200.

ganu mewn cywair penydiol. Lluniwyd yr awdlau hyn yn ôl gofynion sagrafen penyd. Mynegant, felly, deimladau o edifeirwch, gan gyffesu pechodau a lleisio'r penderfyniad i ymddiwgyio'n foesol a chan ymbil ar Dduw am gymorth Ei ras, y cyfan yn arwain at fynegi gobaith am iachawdwriaeth yn y pen draw. Dyma hefyd sylwedd yr 'Awdl gyffes' (cerdd 15), cerdd sy'n batrwm o ymateb celfyddydol y beirdd Cymraeg i ofynion penyd. Ar y llaw arall, mawl mwy unplyg a geir yn yr 'Awdl i'r Grog o Gaer' (cerdd 1) neu yn y cyfresi o englynion i Dduw (cerddi 7 a 9).

Os oedd barddoniaeth grefyddol yn gyfrwng i ddwyn lles i enaid y sawl a'i cyfansoddodd, yr oedd iddi hefyd amcan cymunedol. Cynrychiola'r bardd ei gynulleidfa wrth ymbil ar eu rhan o flaen Duw:

O gwnaetham, Eurllyw byw, bechodau,  
 A cheryddus ddrwg a chareddau,  
 Braisg Ddewin, Brenin breiniol seiniau,  
 N'ad Dy fâr arnam am gam gwypau;  
 Er Dy gythrudd loes, er Dy gythrau,  
 Er Dy goron ddrain, Wrda gorau,  
 Oeda ni, fy Rhi, rhiniau—tystoliaeth,  
 Rhag tost ddolur angau!<sup>12</sup>

Dro arall, try'r bardd i annog ei wrandawyr i wella'u bywydau eu hunain. Enghraifft o hyn yw cerdd 5, cyfres fer o englynion sy'n gresynu nad yw'r hil ddynol yn ymdrechu'n ddigon caled i dalu'n ôl am aberth Crist drosti. Lleisr y gerdd hon yn y person cyntaf lluosog drwyddi draw. Ffigur awdur-dodol yw'r bardd, yn gyfryngwr ar ran pobl eraill, lai breintiedig, a hefyd yn ffynhonnell doethineb a gyfrannwyd iddo drwy ras yr Ysbryd Glân.

### *Bydolwg y canu*

Ar brydiau, gall Gruffudd ap Maredudd orfoleddu yn naioni'r cread a'r byd hwn:

A Duw yw fy Llyw, lle mae doethder—mawr,  
 A daearllawr Gwawr, gwawd a ddirper:  
 Adar gwyllt a gwâr, gwir ddoethder—frodiau,  
 Wybr, eigon, ffrydiau, sygnau a sêr.<sup>13</sup>

Dyma'r bardd yn cydnabod bod haelioni'r Creawdwr yn haeddu ei ganmoliaeth ef (*gwawd a ddirper*). Darnau fel hyn, bid sicr, a ysgogodd sylw D. Myrddin Lloyd fod canu crefyddol Gruffudd yn nodedig am ffresni ei ddelweddaeth.<sup>14</sup> Cerddi llawen, dathliadol eu naws yw sawl un a olygir isod,

<sup>12</sup> 3.123–30.

<sup>13</sup> 3.59–62.

<sup>14</sup> GWL ii<sup>2</sup>, 39: 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd's religious poetry is notable for its freshness of imagery. The beauty of the creation meant much to him, and he observed it in detail with a loving



er enghraifft cerddi 7 a 9 (englynion i Dduw), yr englynion i'r Sul, i'r tair llythyren, i'r gwŷr doeth ac i'r efengylwyr (cerddi 4, 12, 13 a 14), ac yn bennaf oll yr awdl fawreddog i'r Grog o Gaer (cerdd 1). Dathlu enghreifftiau o ras Duw a wna'r cerddi hyn, enghreifftiau lle y mae'r gras hwnnw i'w weld yn loyw ar waith yn y byd. Neges 'Englynion y tair llythyren' (cerdd 12) yw fod gobaith i'r hil ddynol oherwydd i Grist gymryd cnawd a dioddef poen er mwyn ei hachub rhag angau. Y mae 'Englynion y Sul' (cerdd 4) yn amlygu gras Duw ar waith drwy hanes. Yn 'Englynion i Dduw' (cerdd 7) cawn ein cysuro yn wyneb marwolaeth yn sgil ei dehongli'n arwydd o ras Duw ar yr hil ddynol. Gan fod Duw wedi ennill nef ar ein cyfer—

Gwnaeth wledd hedd diwedd Duw byw—goruchaf,  
Gwir gwplaf loywaf Lyw,  
Heb dranc, heb dro, Clo clodryw,  
Heb orffen, a Nen ynn yw.<sup>15</sup>

—nid oes rhaid galaru yn wyneb marwolaeth:

Iôr côr coeth, Wŷr doeth, er dwyn—a brynnod,  
Arglwydd breiniol addfwyn  
(Neud trafyn Bedr Bab Mab Morwyn),  
Nid rhaid uchenaid na chwŷn.<sup>16</sup>

Fodd bynnag, o ddarllen y corpws ar ei hyd, nid gorfoledd y bardd sy'n gadael yr argraff ddyfnaf arnom. Perthyn ofn a thristwch i weledigaeth grefyddol Gruffudd hefyd, ansicrwydd ynghylch ffawd yr enaid ar ôl marwolaeth, ansicrwydd am y farn a gaiff yr unigolyn a'r hil ddynol gyfan. Â'r ansicrwydd hwn yr ymdrinnir nesaf.

### *Hynt a helynt dyn yn y canu crefyddol*

Crewyd dyn yn berffaith, ond syrthiodd yn sgil arfer ei ewyllys rydd yn erbyn gorchymyn Duw (Gen iii). Efa a gaiff y bai am hyn gan y beirdd Cymraeg gan mwyaf (e.e. 3.150, 182, 12.9–10) oherwydd iddi arwain Adda ar gyfeiliorn, ac o ganlyniad y mae'r hil ddynol dan ddedfryd o farwolaeth (Gen iii.19; Rhuf vi.23; cf. 12.2 *A'n dug yng nghyfrgoll golled*). Derbyn gras drwy sagrafen bedydd yw'r unig ffordd y gall unigolyn ymryddhau o'r ddannedigaeth hon (3.234 *Trwy fedydd cynnydd cyn no beddau*, cf. Io iii.5), ond bedydd neu beidio, erys y *duedd* i bechu yn gynhenid i ddynion. Rhaid dibynnu ar ras Duw, felly, i ymgadw rhag pechod ac felly rhag colledigaeth:

eye.' Ynglŷn â lle natur yng nghanu crefyddol rhagflaenwyr Gruffudd, gw. MWRL 108–9.

<sup>15</sup> 7.21–4.

<sup>16</sup> 7.69–72. Cf. GMB 33.51 *Na cheryd y Du6 dŷyn yr eida6* (Meilyr ap Gwalchmai, ond gw. Nerys Ann Jones, 'Meilyr ap Gwalchmai: Rhithfardd!', *Dwned*, ix (2003), 24–36).

Dy rad a geisiaf, Dy nerth a archaf,  
 Dy nawdd a alwaf, Naf nefolwledd,  
 Rhag cwyn diaflig, rhag cŵn gwenwynig,  
 Rhag cynnygn dremyg, ddiig ddigasedd ... <sup>17</sup>

Taith tuag at farwolaeth a barn yw bywyd dyn. Arnynt hwy y dylai hoelio'i sylw, oherwydd ni wŷr neb pa bryd y daw'r awr dyngedfennol:

Can ni wn pa bryd, pa awr, pa ennyd  
 Y'm dygych o'r byd, ddiwyd ddiwedd ... <sup>18</sup>

Duw yw *Arglwydd terfyn dyn* (3.101) ac Ef yn unig biau'r hawl i ddewis pryd y gwysia ddyd ato. Nid hen bobl neu gleifion yn unig sydd i boeni am farwolaeth, felly, ond pawb yn ddieithriad a thrwy gydol yr amser (cf. 15.6 *Erglyw fi bob awr*; Math xxv.13). Rhaid pwysleisio hyn oherwydd tueddwn i ddarllen cerddi cyffes fel cynnyrch henaint neu glafwely'r beirdd, tuedd a gaiff rywfaif o gefnogaeth yn y teitl 'marwysgafn' sydd ynghlwm wrth dair o gerddi cyffesol Beirdd y Tywysogion. Mewn gwirionedd, ni wyddys pryd yn union yng ngyrfa Gruffudd y canodd ef ei 'awdl gyffes', teitl y gellid yn hawdd ei roi wrth gerdd 3 yn ogystal.

Pan fydd dyn yn marw, bydd ei enaid tragwyddol a'i gorff meidrol yn ymwahanu, a bydd y corff yn mynd i'r pridd i bydru. Y mae celf a llên yr Oesoedd Canol Diweddar yn gosod pwys mawr ar y pwnc annymunol hwn, oherwydd ystyrid myfyrio ar fanylion aflan pydredigaeth yn fodd ardderchog o drechu balchder, y pennaf o'r pechodau marwol. Hyn sy'n ysgogi disgrifiadau fel y canlynol:

Cyn gwisgo mywn gwasgod maenfedd,  
 Cyn gwisg rhisg rhwysg-gaen dydwedd,  
 Cyn gwas wherw irdderw oer ddyedd,  
 Cyn gloesion, cyn glasu'r dannedd,  
 Cyn glasar diweddar diwedd,  
 Cyn gweithlawr, cyn gwythlawn gyntedd,  
 Cyn gwythlaith saith drudfaith droedfedd ... <sup>19</sup>

Pydru a wna pethau'r byd hwn, boed yn gyfoeth bydol neu'n gnawd dynion. Yr hyn a erys sydd o bwys, sef yr enaid anfarwol a'i dynged. Pennir y dynged honno erbyn marwolaeth dyn, cred sy'n esbonio'r pwyslais aruthrol ar bwysigrwydd cymodi â Duw cyn marw. Ambell waith, gofyn y beirdd am ychwaneg o amser i baratoi ar gyfer marw:

Oeda ni, fy Rhi, rhiniau—tystoliaeth,  
 Rhag tost ddolur angau!<sup>20</sup>

<sup>17</sup> 15.33–6. Cf. hefyd MWRL 95–7 am bechod, y pechod gwreiddiol a'r angen am ras.

<sup>18</sup> 15.3–4.

<sup>19</sup> 3.26–32. Trafodir yr agwedd *macabre* hon ar gelf a llên yr Oesoedd Canol yn Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400–c. 1580* (New Haven and London, 1992), 303–10; gw. hefyd ERLMA, pennod 3 *passim*.

Maga'r gofidion hyn agwedd ddiystyrlyd tuag at y byd meidrol: *Rhag trallod byd* (2.41); *Gwae a greto bro breuolder—fuchedd* (3.71). Yn y llinellau canlynol, try'r bardd at ddelweddau o fyd natur er mwyn cyfleu mor egwan a thila yw bodolaeth dyn:

Unwedd hawl ddiawdl, hudawl fyrder—derfyn,  
 Yw hoedl dyn, tremyn trwm orober,  
 Ag adeilad brad bryd salwder—drydw  
 Â'r dail o du'r bedw, nid arbeder,  
 Neu hydd awr echwydd yn ochr creigfer—lefn,  
 Neu leisiad a'i gefn mywn trefn tryfer.<sup>21</sup>

Y mae'n ddi-ddorol gweld yr agwedd ddi-brisiol hon tuag at natur, a hynny yn dilyn darn o foliant gorfoleddus i'r cread (cf. llau. 59–62 a ddyfynnwyd uchod).

Gelyn pennaf dyn ar [*d*]remyn trwm orober (3.76) y bywyd hwn yw balchder, y mwyaf o'r pechodau a gwraidd y pechodau eraill.<sup>22</sup> Rhestra Gruffudd falchder ymysg ei bechodau yn 3.18–19 a 15.15. Fel y gwelwyd eisoes, ffordd o ddifa'r balchder hwn yw pwysleisio mor ddiwerth yw popeth bydol a disgrifio diffyg urddas y corff dynol ar ôl iddo gael ei gladdu. Felly y mae dyn marw yn gwisgo pridd a cherrig yn lle gwisgoedd cain (3.26–7); caiff ei ysu gan bryfed (3.168–9); ac ni waeth pa mor helaeth oedd ei feddiannau bydol gynt, cwta saith droedfedd o dir yw ei ran ef bellach (3.32, 84).

Er hyn oll, y mae'n anochel y bydd dyn yn pechu ac felly'n colli ffafr Duw, ac o ganlyniad y mae angen dull o ailgymodi ag Ef. Sagrafen penyd yw'r dull hwnnw. Golyga'n gyntaf deimlo'r euogrwydd a ddaw o'r ymwybod â phechod. Rhaid mynegi'r euogrwydd hwn â'r gostyngeddwydd priodol:

Can wyf cyffesol, a Mair i'm eiriol,  
 Ac edifeiriol oed oferedd ...<sup>23</sup>

Y cam nesaf yw symud o'r cyffredinol i'r penodol a chyffesu'n ffurfiol y pechodau a gyflawnwyd. Gan fod rhaid i'r pechadur gyfrif am bob pechod marwol a gyflawnodd, datblygodd eglwyswyr yr Oesoedd Canol ddulliau o ddod â phechodau cudd neu anghofiedig i olau dydd. Rhannent y pechodau yn saith categori, yr enwog saith pechod marwol: balchder, cenfigen, dicter, llesgedd, cybydd-dod, glythineb a thrachwant. Gellid cynnwys pob drygioni dan un neu ragor o'r penawdau hyn, ac felly gofynnid i bobl feddwl am bob un ohonynt wrth gyffesu. Patrwm arall a ddefnyddid oedd y deg gorchymyn; holid y penydiwr dan bob pennawd fel na fyddai'r un pechod heb ei gofnodi.

<sup>20</sup> 3.129–30.

<sup>21</sup> 3.75–81.

<sup>22</sup> Bernard Hamilton, *Religion in the Medieval West* (London, 1986), 134.

<sup>23</sup> 15.81–2.

Trydydd patrwm oedd y pum synnwyr, y meddylid amdanynt fel cyfryngau pechu.<sup>24</sup> Unwaith eto, holi'r penydiwr dan bob un a wneid fel na fyddai'n anghofio dim (cf. 15.9 *A bechais yn llwyr o bob rhyw synnwyr*). Y trylwyredd hwn sy'n cyfrif, i raddau, am y rhestrau hirfaith o bechodau a geir yn 3.14–25 a 15.11–30. Y mae'n annhebygol fod Gruffudd ap Maredudd ei hun wedi cyflawni'r cyfan a honnir yn y ddwy restr hyn, ac eto rhaid oedd cyfrif am bopeth. Ystyriaeth bwysicach, fodd bynnag, oedd amcan addysgiadol y canu. Cynnig patrwm o'r penydiwr a wna'r bardd yn y ddwy gerdd hyn, er mwyn i'w gynulleidfa ei efelychu. Priodol, felly, fyddai enwi cymaint o bechodau ag y gellid meddwl amdanynt.

Wedi cyffesu pechodau a mynegi edifeirwch amdanynt, byddai'r penydiwr yn derbyn rhyddhad oddi wrth y ddamnedigaeth dragwyddol a berthyn yn anochel i bob pechod marwol. Ond yn ogystal â'r ddamnedigaeth hon (Llad. *culpa*), wynebai hefyd gosb faterol neu benyd (Llad. *poena*) a osodid arno gan yr offeiriad y cyffesai iddo ac yr oedd rhaid iddo ei chyflawni cyn marw. O fethu â chwblhau pob penyd cyn marw, rhoddid llesteiriau ar lwybr yr enaid i'r nef.

Felly, dyletswydd y crediniwr yw defnyddio'i einioes fer ar gyfer ennill tragwyddoldeb. Bernir pob enaid yn syth ar ôl marw.<sup>25</sup> Os yw enaid mewn cyflwr o ras a heb ei lesteirio gan fân bechodau heb eu cyffesu na chosbau penydiol heb eu cyflawni, yna â'n syth i'r nef i fwynhau'r weledigaeth ddwyfol. Ar y llaw arall, â pob enaid nad ydyw mewn cyflwr o ras yn syth i uffern i ddioddef ei gosbi'n dragwyddol. Bydd llawer enaid, fodd bynnag, mewn cyflwr o ras, ond serch hynny'n amherffaith yn sgil mân bechodau nas cyffeswyd neu gosbau penydiol nas cyflawnwyd cyn marw. I'r purdan yr â'r eneidiau hyn, ac yno yr arhosant nes eu bod yn deilwng i fynd i'r nef.<sup>26</sup> Y mae'n bwysig deall nad 'ail gyfle' i ennill bywyd tragwyddol yw'r purdan, oherwydd y mae pob enaid a gaiff fynd yno eisoes yn achubedig. Coethi eneidiau nes eu bod yn lân ar gyfer y nef yw pwrpas y purdan. Credai Cristnogion er yn bur gynnar fod rhai eneidiau yn cael eu puro yn y modd hwn: y sail ysgrythurol i'r syniad yw 1 Cor iii.12–15. Cred arall a fodolai er yn gynnar iawn oedd fod modd cynorthwyo'r meirw i gyrraedd y nef drwy gyfrwng gweddïau, cred sy'n awgrymu bodolaeth rhyw stad rhwng nef ac uffern ar ôl marwolaeth.<sup>27</sup> Eto, ymsefydlogi'n araf a wnaeth y syniad am y purdan fel trydydd lle, ochr yn ochr â nef ac uffern, fel y dangosodd Jaques le Goff,<sup>28</sup> ac nid yw'n amlwg iawn mewn barddoniaeth Gymraeg. At buredigaeth, yn ôl pob tebyg, y cyfeiria Gruffudd yn y cwpled canlynol:

<sup>24</sup> Cf. GBF 33.25–6 *Corff a'e pump synnbyr, llwyr y llywych, / Caer ureu y doreu ual daear sych* (Madog ap Gwallter).

<sup>25</sup> Gw. ODCC<sup>3</sup> 1224 d.g. *particular judgement*.

<sup>26</sup> Ceir arolwg o syniad y purdan yn *ib.* 1349–50 d.g. *purgatory*.

<sup>27</sup> Gw. 2 Mac xii.39–45.

<sup>28</sup> *The Birth of Purgatory*, trans A. Goldhammer (London, 1984).

Rhag hirddilyd prid praw ufullter—bryd,  
Rhi y byd a'm dyd dysg a challter ... <sup>29</sup>

Ar wahân i hynny, y gwrthgyferbyniad moel a grymus rhwng nef ac uffern sy'n mynd â bryd artistig y bardd, ac yn wir y beirdd eraill, beth bynnag am bwysigrwydd y purdan i'r gymdeithas ehangach; a chan hynny, rhoddir mwy o sylw i'r Farn Olaf ar ddiwedd amser nag i'r farn unigol ar bob enaid:

Ti a ddaw Ddyddbrawd, ddidlawd ddadlau,  
Er barnu'r trillu, trallwyr byncau ... <sup>30</sup>

Dyddbrawd, blas urddas Eurddar—bron hynwyf,  
Brenhinedd y ddaear  
A ostyngant, blant blaengar,  
Yt, Iôn irddrem, goron Gâr.<sup>31</sup>

Yr adeg hon, daw enaid a chorff ynghyd o'r newydd i wynebu'r farn derfynol ar yr hil ddynol. Rhennir dynion yn ddwy garfan, y gwaredigol rai ar yr ochr dde a'r damnedigion ar yr ochr chwith (yn dilyn Math xxv.31–46; cf. 15.56 *A'm dwyn i'th ddehau, olau wyledd*).

Pen y daith oedd nef neu uffern. Anodd yw disgrifio perffeithrwydd, a phrin fod y beirdd yn manylu am natur y nef. Yr oedd yn well ganddynt ddibynnu ar nifer gyfyngedig o ddelweddau trosiadol, yn bennaf trosiad y wledd neu'r wledd win:

I'th wynllawr, i'th winllad orsedd,  
I'th winllan, i'th wenllys annedd,  
Iaith Wledig, y Meddyg a'n medd,  
I'th wenwlad, Arglwydd, i'th winwledd!<sup>32</sup>

Cymharer Eseia xxv.6 a Math xxv.1–13 (dameg y morynion priodas). Ceir ychydig rhagor o fanylion gan Ruffudd ap Maredudd:

Lle mae llu difrad ar llawr llathr gwenwlad,  
Lle mae goleuad rhad anrhydedd,  
Lle mae digrifwch a phob rhyw degwch,  
Lle mae dadolwch, deilwng rysedd,  
Lle mae cywirdeb, lle mae diweirdeb,  
Lle dibechod neb, lle da buchedd,  
Lle mae gorffowys uch law paradwys,  
Lle mae mirain lwys, lle mae mawredd,  
Lle mae nefolion, lliaws urddolion,  
Lle mae engylion gwirion gwaredd,

<sup>29</sup> 3.81–2.

<sup>30</sup> 3.107–8.

<sup>31</sup> 7.45–8.

<sup>32</sup> 3.37–40.

Lle mae eglurder, lle mae dwywolder,  
Lle mae Nêr nifer nefol orsedd.<sup>33</sup>

Dyma brif nodweddion y nef: goleuni, rhinweddau dirifedi, perffeithrwydd moesol, gorffwysfa gysurus, llu'r angylion a'r achubedig rai, ac yn bennaf oll, y weledigaeth o Dduw: sylwer ar y modd celfydd y mae'r disgrifiad uchod yn cyrraedd yr uchafbwynt hwn yn y cwpled olaf.

Caiff y beirdd well hwyl ar ddisgrifio uffern, fel y gwna Gruffudd yma:

Rhag tân uffern	a'i drycethern	a'i drwg hithau
A'i chas ofaint	a'i gofeiliaint	a'i gefelau
A'i chaeth wenwyn	a'i choeg wanwyn	a'i chigweinau
A'i chynyddion	a'i chŵn duon	a'i chŵyn diau
A'i phyrth hëyrn	a'i thanllyd gymr	a'i thinllwyd gau
A'i tharth a'i llwch	a'i thirionwch	a'i tharanau
A'i rhost brynnig	a'i rhestr ffyrnig	a'i rhwystr ffyrnau
A'i breiferiad	a'i bront bariad	a'i brwnt beiriau
A'i hôd genllysg	a'i hir derfysg	a'i hoer dyrfaeu
A'i gwythlonder	a'i gwan nifer	a'i gwanafau
A'i dygn gymwrn	a'i duoer ffwrn	a'i daear ffau. <sup>34</sup>

Ceir disgrifiadau estynedig eraill yn 3.210–14 a 15.35–46. Fel yn achos delwedd y wledd ar gyfer y nef, perthyn i draddodiad rhyngwladol a hir-sefydledig y mae'r lliaws manylion erchyll hyn. Y mae uffern yn fan lle y profir gwres ac oerni eithafol. Poenydir pob synnwyr: y llygaid gan erchyllter yr olwg, y clustiau gan ddwndwr byddarol, y trwyn gan ddrewdod ffaidd, y ceg a'r trwyn eto gan gymylau o lwch ym mhobman, a'r corff cyfan gan gosbau arteithiol. Berwir pechadurion mewn peiriau, rhwygir hwy â chigweiniau, gosodir cŵn ffyrnig arnynt a phobir hwy mewn ffyrnau. Nid oes dianc rhag y [*p*]yrth hëyrn (2.46). Poenedigaeth arall yw cwmni cythreuliaid a pechaduriaid eraill.<sup>35</sup> Manteisia'r beirdd Cymraeg yn fawr ar yr odl gyfleus rhwng *uffern* a *cethern* (sef 'ciwed', 'poblach') a hefyd *gwern*, gan fod disgrifio uffern fel cors eto'n ddelwedd rhyngwladol gyffredin.<sup>36</sup>

Dyma, felly, y ddeuoliaeth sy'n wynebu pob dyn: dedwyddwch yn y nef neu artaith yn uffern. Bywyd dyn sy'n pennu pa un a gaiff. Y mae'n ddealladwy gan hynny paham y ceir cymaint o ganu ar y pynciau hyn, gan gynnwys cerddi hir a mawreddog Gruffudd ap Maredudd (yn enwedig cerddi 3 a 15; cf. hefyd gerdd 2). I'r beirdd, yr oedd barddoni i Dduw yn gyfraniad tuag at achub eu heneidiau ac eneidiau eu cymuned. Trwy beri ofn ac arswyd, y mae'r cerddi hyn yn agor y ffordd i ddedwyddwch. Hynny yw,

<sup>33</sup> 15.63–74.

<sup>34</sup> 2.42–52.

<sup>35</sup> Cf. MWRL 115.

<sup>36</sup> E.e. 15.37–8; cf. hefyd MWRL 113–14; ac am gyfuniadau geiriol mewn disgrifiadau o uffern, gw. Barry J. Lewis, 'Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd', LICy xxiv (2001), 37–8.

cerddi emosiynol ydynt. Anelant at ddeffro'r emosiynau hynny sy'n arwain dyn at edifeirwch. Ac os yw'r pedwar peth diwethaf—marwolaeth, barn, nef ac uffern—yn ysgogiadau grymus ar gyfer hyn, ysbardun arall sy'n gallu ennyn y teimladau angenrheidiol yw meddwl am aberth Crist.

*Ymgawdoliad a dioddefaint Crist*

Yn sgil y cwmp, colodd yr hil ddynol ei lle ym mharadwys a mynd yn gaeth i ddioddefaint, marwolaeth a chosbedigaeth yn uffern. Am nad oedd yn bosibl i ddyn wneud iawn am hyn, cymerodd Crist gnawd ac aberthu Ei hun ar y Groes.<sup>37</sup> Gorfoledd a llawenydd sy'n nodweddu ymdriniaeth Gruffudd ap Maredudd â'r ymgawdoliad:

Rhad mad Mair, Gair rhagori,  
A'n dug o'n dygn a'n ymdro,  
Gras oesoedd ar Groes Iesu,  
Ar annerch teg Wyr Anna.<sup>38</sup>

Adroddir hanes y cyfarchiad yn Luc i.26–38. Aeth yr archangel Gabriel at Fair a datgan y byddai'n esgor ar blentyn a genhedlwyd gan yr Ysbryd Glân. Cydweithrediad parod y Forwyn Fair â grym Duw, felly, a achubodd yr hil ddynol (cf. 10.53–4 *Rhad mad Mair, Gair rhagori, / A'n dug o'n dygn a'n ymdro*; Luc i.38).<sup>39</sup> Neilltuodd Gruffudd ap Maredudd gerdd gyfan (cerdd 12) i ddathlu'r digwyddiad hwn. Adeiledir hi o gwmpas y gwrthgyferbyniad rhwng Efa, y wraig a fu'n gyfrifol am ddwyn gwarth ar yr hil ddynol, a Mair, y wraig a ddiddymodd y gwarth hwnnw.<sup>40</sup> Y mae awdl arall (cerdd 2) yn dathlu genedigaeth yr Iachawdwr, a dichon mai ar gyfer ei datgan *ar gatholig ddydd Nadolig* (2.21) y'i cyfansoddwyd yn wreiddiol. Gorfoledd yw cywair llywodraethol y caniad cyntaf:

Ar lwyr wared, Grist, y'th aned,  
Naf nef drefred, naws gogoned (nis goganain'),  
Ar ddysg, ar dda i lwyth *terra*  
(Rhag murn mawrbla o ben Efa Ei boenofain) ...<sup>41</sup>

Gwrthgyferbynnir dyndod Crist, a awgrymir gan Ei enedigaeth o wraig (2.1), â'r ffaith Ei fod yn Dduw (2.2). Droeon y mae'r canu'n adleisio bod Crist *yn ddyn o air, yn Dduw nef* (7.36):

Tydi a aned, ged gred greirau,  
O Fair, wir Eurair, fawr wryy orau;

<sup>37</sup> Am esboniadau diwinyddol ar waith achubol Crist, gw. MWRL 90–1.

<sup>38</sup> 10.53–6.

<sup>39</sup> Gw. ymhellach ERLMA 141–3.

<sup>40</sup> Gw. ymhellach y nodyn cefndir i'r gerdd hon am y gwrthgyferbyniad rhwng enw Efa a gair cyntaf y cyfarchiad, sef *Afe*.

<sup>41</sup> 2.1–4.

Tydi a fedd fry freinau—ysbrydol  
Ysbrydoedd gweddiau ... <sup>42</sup>

Tuedd a gynyddai yn ystod yr Oesoedd Canol oedd pwysleisio natur ddynol Crist a'i gwneud yn destun myfyrdod. Drwy orfodi pobl i feddwl am Ei boenedigaeth gorfforol, sef yr artaith a ddiodeffodd er mwyn achub yr hil ddynol rhag uffern, gellid eu darbwylllo o'r angen i edifarhau a gwneud penyd am eu pechodau hwy eu hunain. Y mae ôl y defosiwn affeithiol hwn, fel y'i gelwir, yn drwm ar waith Gruffudd ap Maredudd.<sup>43</sup> Fe'i hamlygir yn y disgrifiadau cignoeth o boenau'r dioddefaint ac yn enwedig o boenau'r croeshoeliad, yr *Oerlaith arlwy, yngloes ddirwy, ynglas ddyrain / Ar Groes irwydd, ar gadair ffydd* (2.12–13). Tyfodd defosiynau yn yr Oesoedd Canol Diweddar o amgylch offerynnau'r dioddefaint (e.e., y Groes, yr hoelion, y waywffon a drywanodd Grist yn ei ystlys (Io xix.34), y fflangellau a'r goron ddrain) a hefyd o amgylch y pum clwyf a gafodd Iesu, sef yn Ei ddau droed, Ei ddwylo a'i ystlys.<sup>44</sup> Ar y poenedigaethau hyn y pwysa Gruffudd wrth ymbil am drugaredd yn ei 'Awdl gyffes':

Er Dy ddiweddloes, er Dy greuled Groes  
Rhag poenau pumoes, pumystl egrwedd,  
Er y gwayw efydd a wânt yr efrydd  
Dan Dy fron, Ddofydd, dwywol agwedd,  
Er Dy fawr loeson gan dduriol hoelon,  
Er Dy ddrain goron, Dy drugaredd ... <sup>45</sup>

Corddi calonnau'r gynulleidfa yw nod y manylu hwn, a'r ymateb a ddisgwylir yw euogrwydd a chywilydd oherwydd pechod, yn gymysg â chariad a diolchgarwch tuag at Dduw. Dengys cerdd 5, cyfres fer o englynion yn ymwneud â phriod ymateb dyn i'r dioddefaint, yn loyw beth yw defosiwn affeithiol:

A roddest, f' Arglwydd, ar oddau—mawredd,  
Dros ein meirw bechodau:  
Gwaed o'r fron doll archollau  
I redeg o'r cnawd teg Tau.<sup>46</sup>

Er ein mwyn ni y mae *cnawd teg* yr Arglwydd wedi ei rwygo a'i boenydio mor erchyll. Credai pobl yr Oesoedd Canol y byddai Crist yn ymddangos ar Ddydd y Farn yn yr un dull yn union ag y gwnaeth wedi Ei groeshoelio, gan ddangos Ei glwyfau gwaedlyd i'r cynulliad fel edliwiad i'r sawl na ddilynodd Ei orchmynion. Felly, byddai pob Cristion yn gweld yn y cnawd

<sup>42</sup> 3.103–6.

<sup>43</sup> Trafodir effaith y defosiwn affeithiol ar farddoniaeth Gymraeg yn GIBH 12–17; gw. hefyd MWRL 42–6; ac amdano mewn barddoniaeth Saesneg Canol, gw. ERLMA, pennod 2 *passim*.

<sup>44</sup> Gw. Eamon Duffy, *op.cit.* 234–248; GIBH 10.3n.

<sup>45</sup> 15.85–90.

<sup>46</sup> 5.5–8.



yr hyn a ddiodeffodd Crist drosto. Ceir y ddelwedd hon yn llinellau 9–12 o gerdd Gruffudd ac, fel y dywed y bardd, *mawr gywilydd* fydd ymateb llawer (5.9).<sup>47</sup>

Y mae'r dioddefaint yn bwysig iawn i Ruffudd ac i'r beirdd Cymraeg eraill, ond nid y dioddefaint yn unig sy'n symboleiddio iachawdwriaeth yn eu gwaith. Ymddengys Crist hefyd fel goresgynnwr uffern. Y mae'r gred fod Crist wedi disgyn i uffern ar ôl marw yn un hen iawn. Fe'i ceir hyd yn oed yn y credoau, y crynodebau o brif athrawiaethau'r Eglwys a luniwyd yn ystod canrifoedd cynnar y ffydd. Hybwyd y motiff gan un testun yn benodol, sef 'Evangelium Nicodemi' (4g.). Disgrifia'r 'efengyl' hon sut y disgynnodd Crist i ranbarthau'r isfyd, torri'r pyrth a rhyddhau o'u carchar eneidiau'r holl ddynion cyfiawn a fuasai farw cyn yr ymgawdoliad.<sup>48</sup> *Pumoes byd* yw enw'r beirdd Cymraeg ar y bobl hyn, oherwydd fod yr amser rhwng Adda a Iesu wedi ei rannu'n bum cyfnod.<sup>49</sup> Yr oedd yr hanes hwn yn hoff destun gan y beirdd Cymraeg, gan gynnwys Gruffudd ap Maredudd:

Ar ddawn cwplaf, Dewin doethaf,  
Pan gyrchaist, Naf, lluoedd Addaf lle ydd oeddain' ...<sup>50</sup>

Mawr Greawdr, Brynawdr ar brennau—gloywGroes  
Pumoes o bumloes o lys angau ...<sup>51</sup>

Cf. hefyd 10.17–20. Dyma adael tristwch ac erchyllter y croeshoeliad ar ôl a dychwelyd at orfoledd y bardd yn wyneb iachawdwriaeth yr hil ddynol. Symbol yw anrheithio uffern o'r *Christus triumphans*, y Crist a drechodd farwolaeth, yn *fyw ddigon*, yn *fuddygiawl* (10.36). Sonia Gruffudd hefyd am yr atgyfodiad, eto mewn cywair gorfoleddus:

Duw Sul, Eurgrair Mair, mawredd—y doethion,  
Y doethost, Lyw Nasaredd,  
Gwerthefin Ddâr trugaredd,  
Gwyrthfawr Iôr buddfawr, o'r bedd.<sup>52</sup>

Cf. 3.117–18. Gan fod y Groes yn symbol o fuddugoliaeth Crist yn gymaint â'i ddiodeffaint, nid oedd rhaid ymgyfyngu i gywair prudd wrth sôn amdani. Dengys yr 'Awdl i'r Grog o Gaer' (cerdd 1) gymaint y gallai meddwl am y Groes ysbarduno llawenydd a diolchgarwch. Y mae Crist y gerdd hon yn ffigur digamsyniol orchestol, yn *Fab Mair wen ar bren*

<sup>47</sup> Am enghreifftiau Cymraeg eraill, gw. BI BGCC 184–5 (20.109–34); GBF 43.13–26. Ymdrinnir â'r ddelwedd yn MWRL 93–4.

<sup>48</sup> Gw. *The Gospel of Nicodemus*, ed. H.C. Kim (Toronto, 1973) am olygiad a chyfieithiad S.; ac am y fersiynau Cym.C., gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Efengyl Nicodemus yn Gymraeg', B xiv (1950–2), 108–12, 257–73.

<sup>49</sup> Gw. 1.188n.

<sup>50</sup> 2.9–10.

<sup>51</sup> 3.205–6.

<sup>52</sup> 4.9–12.

*brenineiddiaf* (1.52) ac yn *Llyw byw buddygol llawir ysbrydol* (1.147).

Coffeir y fuddugoliaeth hon yn sagrafen yr ewcharist, a sefydlwyd gan Grist Ei hun ar y noson olaf cyn Ei groeshoeliad. Cynigiodd fara a gwin i'w apostolion, gan ddatgan mai Ei gnawd a'i waed Ef Ei hun oeddynt (Math xxvi.26–9; Marc xiv 22–5; Luc xxii.15–20; 1 Cor xi.23–6). Byth ers hynny y mae Cristnogion wedi cwrdd i rannu'r elfennau hyn rhyngddynt. Adlewyrcha Gruffudd ap Maredudd, fel y disgwyliid, y gred Gatholig fod cnawd a gwaed Crist yn wirioneddol bresennol yn y ddwy elfen ar ôl iddynt gael eu cysegru gan yr offeiriad yn ystod gwasanaeth yr offeren:

Trwy faint Ei loywfraint a'i lyfrau—cyfa  
A wna y bara yn bur gorffau,  
Trwy'r gred, trwy'r giried, trwy'r geirau—Lladin  
A wna'r gwaed o'r gwin, rhin ein Rhiau ...<sup>53</sup>

Ymglywn yma â pheth o'r parch aruthrol a deimlai pobl tuag at y wyrth a ddigwyddai'n feunyddiol yn eu heglwysi. Ceir digon o dystiolaeth fod y defosiwn i'r offrwm, yn enwedig i'r bara (ni châi lleygwyr brofi'r gwin), yn danbaid yng nghanrifoedd olaf yr Oesoedd Canol. Credai pobl fod gweld y bara cysegredig yn dwyn gras i'r enaid ac felly'n cwtogi'r amser y byddai'n rhaid ei dreulio yn y purdan wedi marw.<sup>54</sup> Felly, y mae Gruffudd ap Maredudd yn rhestru mynychu offerennau ymhlith y seiliau i'w obaith am gyrraedd y nef (3.236 *Trwy wedd ffair annedd efferennau*). Ar y llaw arall, yr oedd peidio â mynd i'r offeren ar y Sul ac ar wyliau'r eglwys yn bechod difrifol, cf. yr 'Awdl gyffes':

Colli pregethau ac efferennau,  
Maddau fy Suliau er meddw salwedd ...<sup>55</sup>

Yng Nghrist, felly, y gorwedd gobaith y Cristion am fywyd tragwyddol. Y mae canu crefyddol Gruffudd ap Maredudd yn sylfaenol Gristgreiddiol, fel yn wir y mae canu crefyddol y Gogynfeirdd yn gyffredinol.<sup>56</sup> Yr oedd i eraill, fodd bynnag, eu priod le yng nghynllun yr Iachawdwriaeth, sef Mair a'r seintiau, ac at y rhain y trown yn awr.

### *Y Forwyn Fair a'r seintiau*

Deublyg yw swyddogaeth y Forwyn Fair yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd. Hi yw mam Iesu ac felly y mae'n wrthrych mawl a diolchgarwch. Y mae hefyd yn eiriolwraig fwyn y gelwir arni am nawdd i'r bardd ac i'w wrandawyr. Cadwyd dwy gerdd gan Ruffudd ap Maredudd (cerddi 10 ac 11)

<sup>53</sup> 3.24–4.

<sup>54</sup> Cf. Eamon Duffy, *op.cit.* 91–107.

<sup>55</sup> 15.19–20.

<sup>56</sup> Cf. sylwadau M. Paul Bryant-Quinn, '“Archaf Weddi”': Rhai Sylwadau ar Farwysgafn Meilyr Brydydd', *LlCy* xx (1997), 12 am y 'marwysgafnau'. Y mae'r hyn a ddywed lawn mor berthnasol i'r corpwys cyfan.

sy'n ei chyfarch yn benodol—tair os cynhwysir 'Englynion y tair llythyren' (cerdd 12)—ac fe'i crybwyllir hefyd mewn cerddi eraill. Y mae ymdriniaeth Gruffudd â'r cyfarchiad ac ymgawdoliad Crist yng nghroth y Forwyn yn bur orfoleddus:

Gabriel geudod	o'i aur dafod	a'i air dwywawl
A fu gennad,	ymhell ddodiad,	ym mhwyll ddiawl,
Pan gad Mab Mair,	henw o farddair,	Hynaf urddawl,
O deilyngdod	gwir forwyndod	gwyryf fireindawl. <sup>57</sup>

Pwysleisia deilyngdod Mair i esgor ar Fab Duw, ac yn enwedig ei diweirdeb.<sup>58</sup> Delwedd a geir droeon yw ei bod yn noddfa sicr i'r baban yn ei chroth, delwedd a gyplysis â'i swyddogaeth fel amddiffynnydd yr hil ddynol hefyd:

Teml i'th Fab maeth y'th wnaethpwyd,  
A neuadd yw fy nawdd wyd.<sup>59</sup>

Cyfarch Duw, Ei foli ac ymbil arno am drugaredd yw sylwedd y rhan fwyaf o ganu crefyddol y Gogynfeirdd. Y gred fod Mair yn eiriolwraig drugarog a ffyddlon, un sy'n barod i ymbil ar ei Mab ar ran pechaduriaid o bob math, a roddodd sail dros ganu cerddi annibynnol iddi hi. Ni cheir cerddi fel hyn ymysg yr hyn a gadwyd o waith Beirdd y Tywysogion. Gellir priodoli'r diffyg hwn i draul amser neu gall fod yn arwydd nad oeddynt yn niferus yn y lle cyntaf. Hyd yn oed mor ddiweddar â'r bedwaredd ganrif ar ddeg, y mae cerddi o'r fath yn gymharol brin.<sup>60</sup> Eto i gyd, dangosant fod ymbil ar Fair i eiriol drosom yn rhan o ddefosiwn y beirdd. Rhydd Bleddyn Fardd, a ganai yn y drydedd ganrif ar ddeg, bwys mawr ar sicrwydd yr eiriolaeth honno:

Can góneuthost ßeithrin Brennhin breinyawl,  
Can góneir er dy eir, ßeir ßuddugawl,  
Góna, dan gof yrof, eiryaßl—ym dangnef  
Yn teyrnas nef naf ysprydawl.<sup>61</sup>

Gan Bernard o Clairvaux (1090–1153) y ceir y mynegiant clasurol o'r gred hon:

Ac nid wyf yn petruso rhag dweud y caiff hi wrandawriad yn sgil y parch a haedda hi. Yn ddiamau bydd y Mab yn gwrando ar Ei fam, a bydd y Tad yn gwrando ar Ei Fab.<sup>62</sup>

<sup>57</sup> 10.13–16.

<sup>58</sup> Trafodir pwysigrwydd diweirdeb y Forwyn Fair yn yr Oesoedd Canol yn J. Cartwright: ForF 15–75.

<sup>59</sup> 10.63–4.

<sup>60</sup> Gwaith Casnodyn (GC cerddi 9 a 10) yw'r prif enghreifftiau eraill.

<sup>61</sup> GBF 57.17–20.

<sup>62</sup> *Nec dubius dixerim, exaudietur et ipsa pro reverentia sua. Exaudiet utique matrem Filius, et exaudiet Filium Pater* (dyfynnwyd yn ERLMA 118, a gw. y drafodaeth yno; am Bernard ei hun, gw. ODCC<sup>3</sup> 192–3).

Geilw'r syniad hwn yn 'ysgol y pechaduriaid, sail fwyaf fy ffydd, y rheswm cyfan am fy ngobaith'.<sup>63</sup> Estynnwyd 'ysgol y pechaduriaid' ymhellach drwy ychwanegu gris arall, y seintiau, sydd hwythau'n eiriolwyr dibynadwy dros ddyinion. Adlewyrchir hyn yn y *Confiteor*, y gyffes ffurfiol a adroddir yn ystod gwasanaeth yr offeren:

Cyffesaf i Dduw, i Fair fendigaidd, i'r holl seintiau, ac i chwithau, fy mod wedi pechu'n ddirfawr ar feddwl, gair a gweithred ...<sup>64</sup>

Y mae Gruffudd ap Maredudd yntau'n cydabod yr hierarchaeth hon:

Archaf, Gulwydd	diwaradwydd,	Dy wiw radau,
Ac i Fair deg,	hael o Röeg,	hil o riau,
A chwbl a llwyr	ynof synnwyr	o nef seiniau
Ac engylion	a gweryddon	a gwiw raddau ... <sup>65</sup>

Rhydd sylw i nifer o seintiau, er enghraifft Ioan Fedyddiwr (cf. 3.231–2) a'r Ymerodres Helena a ddarganfu'r Wir Groes (1.83–4). Dengys ei ganu secwlar enghreifftiau da o ymbil ar y seintiau am nawdd, gan gynnwys nifer o seintiau brodorol Gwynedd:

Trwy aur borthair Mair, Maethlu,—Mihangel,  
Pawl, Pedr, Gradifel, y dêl o'i du!<sup>66</sup>

Trwy wyrthiau gorau digaredd—Dudno  
A Beuno, y tyfo ei etifedd ...<sup>67</sup>

Canodd Gruffudd ddwy gyfres fer o englynion i seintiau, y naill i'r tri gŵr doeth a'r llall i'r pedwar efenglyydd (cerddi 13 a 14 isod). Ystyrid y *magi* neu'r gwŷr doeth a ymwelodd â'r Iesu ym Methlehem yn seintiau gan Gristnogion yr Oesoedd Canol, ac yn wir yr oedd eu creiriau yng nghadeirlan Köln yn yr Almaen yn gychfan boblogaidd iawn i bererinion. Ond o safbwynt barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, anarferol o fanwl yw'r sylw a rydd Gruffudd iddynt. Mwy canolog o lawer i grefydd oedd y pedwar efenglyydd a'u symbolau a oedd i'w gweld yn gyffredin iawn yng nghelf y cyfnod. Dengys cerdd Gruffudd ei fod yn llwyr gyfarwydd ag arwyddocâd diwinyddol yr arwyddion hyn, ac unwaith eto y mae manylder yr ymdriniaeth yn anarferol yng nghyd-destun barddoniaeth Gymraeg. Y mae'r

<sup>63</sup> ERLMA 118: *haec peccatorum scala, haec mea maxima fiducia est, haec tota ratio spei meae.*

<sup>64</sup> *Confiteor Deo, beatae Mariae, omnibus sanctis, et vobis, quia peccavi nimis cogitatione, locutione et opere* (y clerigwyr eraill sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth yw *vobis* 'chwithau'); dyfynnir o ddull Sarum (Caersallog), sef y dull litwrgiol mwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr tua diwedd yr Oesoedd Canol, gw. *Missale ad Usam Insignis et praeclarae Ecclesiae Sarum*, i, ed. F.H. Dickinson (Burntisland, 1863), 580.

<sup>65</sup> 2.27–30.

<sup>66</sup> GGMD i, 2.55–56.

<sup>67</sup> *Ib.* 3.121–2.

cerddi hyn yn arbennig yn codi cwestiynau am nawdd a chyd-destun perfformio barddoniaeth grefyddol Gruffudd ap Maredudd, cwestiynau y mae'n rhaid troi atynt nesaf.

### *Cyd-destun y canu*

Y mae'r noddwyr a'r achlysuron y cyfansoddodd Gruffudd ap Maredudd ei farddoniaeth grefyddol ar eu cyfer yn anhysbys am nad oes unrhyw gyfeiriad pendant atynt yn y testunau nac ychwaith yn y llawysgrifau. Gwyddom fod o leiaf un o noddwyr Gruffudd, sef Hywel ap Goronwy, yn glerigwr a ddyrchafwyd yn archddiacon Môn.<sup>68</sup> Gall mai dan ei nawdd ef y cyfansoddwyd peth o gynnwys y gyfrol hon. Eto i gyd, Cristnogol oedd diwylliant yr Oesoedd Canol, ac nid oes rheswm dros ffafrio nawdd eglwysig yn benodol. Gallai cerddi fel hyn fod wedi cael eu perfformio lawn mor aml yn llysoedd ei noddwyr hysbys eraill, er enghraifft brawd Hywel, Tudur ap Goronwy, a'i fab yntau, Goronwy ap Tudur, heb sôn am Syr Hywel ap Gruffudd o Eifionydd a'r cylch anhysbys y perthynai Gwenhwyfar, gwrthrych y farwnad enwog, iddo.<sup>69</sup> Dichon fod ganddo noddwyr eraill yn ogystal na wyddys amdanynt. Posibilrwydd arall yw fod rhai o'r cerddi'n perthyn i *répertoire* cyffredinol y bardd ac y gallai ef eu cyflwyno pryd bynnag a b'le bynnag yr oedd galw amdanynt. Hynny yw, ni raid chwilio am ffynhonnell nawdd benodol ar gyfer pob un. Yn sicr, yr awdl fawreddog i'r Grog o Gaer (cerdd 1) sy'n crefu fwyaf am enw noddwr. Y mae'n debygol iawn fod y gwaith eithriadol hir a chelfydd hwn yn gerdd a gomisiynwyd gan rywun, ond ni wyddys am unrhyw gysylltiad pendant rhwng Gruffudd a Chaer (nac ychwaith rhwng Caer ac un o'i noddwyr hysbys). Rhaid cofio hefyd nad Cymro o reidrwydd a'i comisiynodd. Ceir digon o dystiolaeth fod Eglwys Ioan, lle y cedwid y crair, yn gyfyngedig iawn ei hadnoddau ac yn dibynnu'n drwm ar offrymau i'r grog. Hawdd credu bod rhyw glerigwr o'r eglwys a'i lygad ar ddenu pererinion o Gymru wedi cyflogi Gruffudd, ond erys yn ddirgelwch paham y dewiswyd ef. Posibilrwydd arall yw mai rhodd i'r grog gan y bardd ei hun neu un o'i noddwyr yw'r awdl, ond hyd yn oed felly, erys yn ddirgelwch b'le, pryd ac o flaen pwy y'i perfformiwyd.

Y mae achlysuron y cerddi eraill yr un mor ansicr. Y mae'n bur debygol fod rhai ohonynt yn gysylltiedig â gwyliau eglwysig. Er enghraifft, byddai'r Ystwyll (6 Ionawr) yn achlysur rhesymol ar gyfer 'Englynion y tri gŵr doeth' (cerdd 13). Y mae'n demtasiwn ymhellach gyplysu 'Awdl i Dduw' (cerdd 2) â'r Nadolig ac 'Englynion y tair llythyren' (cerdd 12) â Gŵyl y Cyfarchiad (25 Mawrth), ac yn yr un modd byddai'r ddwy awdl i Fair

<sup>68</sup> Gw. GGMD i, 12–14.

<sup>69</sup> Gw. GGMD i. Golygir y cerddi i Syr Hywel ap Gruffudd a Gwenhwyfar yn GGMD iii (cerddi 2 a 5).

(cerddi 10–11) yn gweddu i un o'i gwyliau niferus hi. Ceir dwy wyl a neilltuir i'r Groes Sanctaidd; y mae'r naill, sef 3 Mai, yn coffáu ail-ddarganfyddiad y Groes gan Helena, gwraig yr Ymerawdwr Custennin, a diddorol yw nodi bod Gruffudd yn cyfeirio at y dyddiad hwnnw yng nghorff ei gerdd (1.84). Llai tebygol yw Gŵyl Ddyrchafael y Grog, 14 Medi, o ystyried bod y gerdd yn ddistaw ynghylch y digwyddiad a goffeir ar y diwrnod hwnnw. Ond beth am Ddydd Gwener y Groglith? Ni wyddys ychwaith a oedd dathliad arbennig yn Eglwys Ioan i goffáu dyfodiad y grog i Gaer. Byddai'r cerddi penydiol, yn enwedig yr 'Awdlau i Dduw' a'r 'Awdl gyffes' (cerddi 3 a 15), yn gweddu i dymor y Grawys, ac eto nid oes rheswm dros eu cyfyngu i'r amser hwnnw. Yr unig un o'r cerddi a ysbardunwyd yn bendant gan ddigwyddiad allanol yw 'Englynion Gwynedd' (cerdd 8), gweddi Gruffudd ar i Dduw atal y pla rhag difa'i wlad. Perthyn hon i'r cyfnod 1348–9 neu efallai i un o ymweliadau diweddarach y pla, megis yn 1361–2. Ni ellir cynnig dyddiad ar gyfer y cerddi eraill, a soniwyd eisoes am beryglon darllen cerdd megis yr 'Awdl gyffes' (cerdd 15) yn gynnyrch henaint y bardd, oherwydd yr oedd cyffesu pechodau'n rheolaidd yn rhan aruthrol bwysig o Gatholigiaeth yr Oesoedd Canol.

Y mae dysg y bardd yn broblem arall. Yma eto yr ydym yn ymbalfalu yn y tywyllwch.<sup>70</sup> A yw'n dangos mwy o wybodaeth ddiwinyddol nag a ddis-gwylid gan leygwr? Y mae'r cwestiwn ei hun yn gorwedd ar seiliau bregus. Nid categori unplyg oedd 'lleygwyr', ac yr oedd Gruffudd ap Maredudd yn perthyn i haen uchel yn ei gymdeithas. Yr oedd yn dirfeddiannwr cyfforddus a ymgyfathrachai â gwŷr mwyaf blaenllaw Môn a Gwynedd, heb sôn am gymuned y beirdd wrth broffes yr oedd yn amlwg yn aelod ohoni.<sup>71</sup> Ceir toreth o dystiolaeth am dduwioldeb a gwybodaeth ddofn pobl o'r haenau cymdeithasol hyn yn y cyfnod dan sylw,<sup>72</sup> ac y mae angen pwysleisio crefyddoldeb yr oes. Nid oes rhaid tybied bod bardd sy'n dangos diddordeb eang a brwd mewn crefydd wedi ei hyfforddi i fod yn glerigwr, heb sôn am dderbyn abid mynach.<sup>73</sup> Nid peth prin nac ymylol yw canu crefyddol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond rhan bwysig o *répertoire* beirdd megis Bleddyn Ddu, Casnodyn, Dafydd y Coed, Madog Dwygraig, Iolo Goch, Gruffudd Llwyd a Dafydd ap Gwilym.

Byddai'n ddiddorol gwybod mwy am addysg Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd a hefyd am ei hyfforddiant yn ei grefft. Ond y mae gofyn pryd neu ymhle y byddai Gruffudd wedi dysgu'r wybodaeth a arddengys yn ei gerddi

<sup>70</sup> Am ddysg y Gogynfeirdd yn gyffredinol, gw. D. Myrddin Lloyd, *Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977).

<sup>71</sup> Gw. GGMD i, 11–12 am restr—anghyflawn, bid sicr—o'r beirdd y byddai Gruffudd wedi cyfarfod â hwy yn llysoedd Penmynydd a Threacastell.

<sup>72</sup> Eamon Duffy, *op.cit. passim*; R.N. Swanson, *Religion and Devotion in Europe, c. 1215–c. 1515* (Cambridge, 1995), *passim*; gthg. MWRL 81–2 am agwedd lai cadarnhaol at wybodaeth ddiwinyddol lleygwyr.

<sup>73</sup> Cf. GMB 322–3, 473, 507–8; GC 6.

crefyddol cystal â gofyn i ninnau pryd yn gyntaf y clywsom hanes genedigaeth Crist neu'r croeshoeliad, neu o ran hynny ar ba achlysur yn union y cawsom ninnau'n gwybodaeth am Siôn Corn neu Gadi Cwswll Coch. Perthyn i'r diwylliant yr oedd crefydd yn yr Oesoedd Canol, a byddai Gruffudd wedi amsugno'i wybodaeth amdani o'r crud. A wyddai Ladin ac a fedrai ddarllen? Yr un cwestiwn yw'r rhain mewn gwirionedd ac un nad oes ateb iddo. Ceir ambell air Lladin yn y canu, ond afresymol fyddai disgwyl i farddoniaeth Gymraeg ddatguddio beth yw safon medrau'r bardd mewn iaith arall.

### *Y llawysgrifau*

#### *J 111 'Llyfr Coch Hergest'*

Y llawysgrif hon yw prif ffynhonnell y cerddi yn y gyfrol hon. Trafodwyd lleoliad canu Gruffudd ap Maredudd ynddi yn y gyfrol gyntaf, a gweler yno am y manylion.<sup>74</sup> Adran o ganu crefyddol sy'n cyflwyno gwaith y bardd yn y Llyfr Coch, colofnau 1194–1202 (sef cerddi 1, 10, 2 a 13 isod); ar ei hôl daw canu secwlar gan Ruffudd. Ceir adran arall yng ngholofnau 1213–20, sef cerddi 11, 3, 4 a 5, ond y mae darn o awdl secwlar yn y canol (gw. GGMD i, cerdd 8). Daw cerdd 12 yng ngholofn 1329 a'r englyn sengl, cerdd 6, ar frig colofn 1330 a darn o waith Dafydd y Coed ar ei ôl. Ceir gweddill y canu crefyddol dan enw Gruffudd, eto mewn adran ddi-dor, yn ymestyn o golofn 1330 hyd frig colofn 1334. Cerddi 7, 8, 14, 9 a 15 yw cynnwys yr adran olaf hon. Y mae'n anodd gweld unrhyw arwyddocâd yn nhrefniant y cerddi, ond efallai mai rhwysg a rhodres yr 'Awdl i'r Grog o Gaer' a'i gwnaeth yn agoriad teilwng i'r casgliad yn nhyb y copiyydd. Ar y llaw arall, awgryma lleoliad yr 'Awdl gyffes' ar ddiwedd y casgliad fod copiyydd yr adran honno'n ei hystyried yn gynnrych diwedd gyrfa'r bardd, neu o leiaf yn ddiweddglo addas i'w waith. Hywel Fychan, prif law'r Llyfr Coch, oedd copiyydd pob cerdd yng ngholofnau 1194–1202 a 1213–20, ac ychwanegwyd y cerddi crefyddol eraill gan law C, yn ôl pob tebyg ar ôl i ymwneud Hywel Fychan â'r llawysgrif ddod i ben.<sup>75</sup>

#### *Y llawysgrifau eraill*

Fel yn achos gweddill gwaith y bardd, copïau uniongyrchol neu anuniongyrchol o destun y Llyfr Coch yw'r dyrmaid o lawysgrifau eraill sy'n cynnwys barddoniaeth grefyddol Gruffudd ap Maredudd. Ymhellach arnynt, gweler tt. 223–7 a hefyd GGMD i, 19–20. Yr eithriad yw llawysgrifau'r 'Awdl gyffes' (cerdd 15). Ceir hon mewn 62 o lawysgrifau ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn ddibynol ar y Llyfr Coch. Y mae'n amlwg fod y gerdd hon yn fyw ar lafar i raddau helaethach o lawer na thrwch gwaith y bardd a diau mai'r ffaith ei bod wedi ei phriodoli i Iolo Goch yn y rhan fwyaf o'r

<sup>74</sup> GGMD i, 18–20.

<sup>75</sup> Gw. *ib.*; CyT 6 (ac 18 am undod llawiau C a Ch; cf. hefyd y llun ar d. 15).

copïau sy'n cyfrif am ei phoblogrwydd.

*Dilysrwydd y cerddi*

Priodolwyd cerddi 1, 7, 9, 11 a 15 i Ruffudd ap Maredudd yn Llyfr Coch Hergest. Saif cerddi 2, 3, 4, 5, 8, 10, 13 a 14 gyda gweithiau eraill gan y bardd, ac felly y mae eu hawduraeth hwythau'n sicr. Dichon ei bod yn ddiogel derbyn cerdd 12 yn waith Gruffudd ar yr un sail, a hefyd cerdd 6, ond gweler y nodiadau cefndir i'r cerddi hyn.

Fel y nodwyd uchod, priodolir yr 'Awdl gyffes' (cerdd 15) i Iolo Goch yn y mwyafrif o'r llawysgrifau. Eto, y mae tystiolaeth y Llyfr Coch yn gyfoes neu'n agos at fod yn gyfoes â'r ddau fardd hyn ac felly'n haeddu parch. O'r herwydd, cymerir yr 'Awdl gyffes' yn waith dilys ein bardd ni.<sup>76</sup>

<sup>76</sup> Hepgorodd Dafydd Johnston yr 'Awdl gyffes' o'i olygiad o waith Iolo Goch, hefyd ar sail dyddiad cynnar y priodoliad yn y Llyfr Coch, gw. 'Gwaith Iolo Goch' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1984), 47.



1  
*Awdl i'r Grog o Gaer*

	Caraf Benrhaith	côr arianwaith,	carai rinwed,
	Crair Gair a gad	i drwy gariad	Ei drugaredd:
	Crog Galfaria,	faerdy <i>gratia</i> ,	fawrdeg rysedd,
4	Crededun Ben	hael Forwyn wen,	haul firain wedd,
	Cred Bendefig,	lys wyrennig,	Lwyswawr annedd,
	Cannaid wyrthiau,	canon rhadau,	cain anrhydedd,
	Cadair ffair ffydd,	cedol ufydd,	ced aelofedd,
8	Cyflawn ddawn Ddâr	i rwym galar	ar ymgeledd,
	Coelfain Elen,	eurai Foesen	ar ei fysedd,
	Celennig rhad	cadarn wenwlad	cedyrn winwledd,
	Corf ardderchog	Caer deg eurog,	côr digaredd,
12	Coron euraid,	cariad fwyaid,	ciried feuedd,
	Ceinllun tecaf	Brenin hynaf	y brenhinedd,
	Coed berfeddnod,	cain Ei fawrglod,	Cun nef eurgledd.
	Cael ym, grym grair,	rhad o'i borthair,	rheidiau berthedd,
16	Culwydd Ener	a dyng nifer	o'i dangnefedd,
	Colofn llu Cred	a ran wared	o'r enwiredd,
	Coel engylion	o lin fanon,	o lân fonedd.
	Dylan natur	fawrdeg eglur	fordwy Gogledd,
20	Delis arwain	o ddwfr dwyrain	i Ddeifr diredd;
	Dyddug mordon	ar ei dwyfron,	arw ei dyfredd;
	Dyfrdwy waeddgreg,	arial gwaneg	ar ael Gwynedd,
	Delw werthforaf	a glodforaf	o gludfawredd:
24	Dadl ysbrydawl	o'r geiriau mawl	i'r Gŵr a'm medd!
	Dôr côr ceinmyg,	Duw yw'n rhyfyg,	Dewin rheufedd,
	Dâr eneidiau,	dilid frodiau	diledfrydedd,
	Dawn tlawd a noeth	daear wiwgoeth,	diorwagedd,
28	Dinam loywder,	diwair Ener,	Duw'r wirionedd.
	Da yw Ei borth,	a diamorth,	a diomedd,
	Delw fyw f' Arglwydd,	eurlliw arwydd	Iôr llaweredd,
	Dysg ffysg ffyniant	a gwir foliant	y gorfoledd,
32	Deddf leddf loywddoeth,	euraid gyfoeth	arod Gyfedd.
	Doeth Gaerlleon,	deg anrhegion	digynrhygedd
	(Didrai foliant,	Duw da farant	dioferedd!),
	Didrist Grist Groes,	organ hoedloes	aur gynhadledd,
36	Delw fireinryw,	er prynu byw	o'r pren a'r bedd.

- Dug môr-waneg deg o du gaeaf  
 Llys llawr Lleon Gawr llun Gwawr gwympaf,  
 Difai Iôn erfai, arfaf—Ei ganmol,  
 40 Delw fyw Fab dwywol Duw nefol Naf.  
 Diwarth Drysor côr, Pôr perffeithiaf,  
 Diwyd Grair i Fair, fawredd hoffaf,  
 Dewin cain iesin, cyn isaf—feddrawd  
 44 Annudd ddiwyrnawd Ei nawdd arnaf!  
 Doeth dros frig toniar Câr cadarnaf,  
 Detholwalch balch byw, Llyw llawenaf,  
 Dogn Fedydd grefydd, ddirgrifaf—dramwy  
 48 Drwy fordwy Dyfrdwy Deifrdir eithaf.  
 Dwywawl hawl Haelwawr a fawr folaf,  
 Defawd wawd wiwder ffêr ffurfeiddiaf,  
 Dofydd lun Ei hun, henw goruchaf—Nen,  
 52 Fab Mair wen ar bren brenineiddiaf.  
 Didwyll bwyll bellwawd, ffawd ffyddlonaf,  
 Dadiain cain cynnydd dydd diwaethaf;  
 Didawl faith Ei daith, doethaf—Bendefig,  
 56 Wyrennig Feddyg, fudd iach a chlaf.  
 Doddyw nod eurglod Iôr gwlad bellaf  
 Lloegr (llwyr y'n gweryd), fyd Fodrydaf,  
 Duw Iesu, Arglwydd dewisaf—gynagr,  
 60 Dihagr eirw llinagr â'r llun gwympaf.  
 I ddelw un Mab Mair ydd addolaf  
 O ddilys araith, gwaith gwerthforaf,  
 I ddaly ynof cof cyfiawnaf—dremyn,  
 64 I ddylyn tyddyn llwyth plant Addaf.  
 Eryr engyldorf, Hoywlorf haelaf,  
 Iôr didwyll o nef, euraid adaf,  
 Arddelw Moesen hen, hynaf—Ei gynnydd,  
 68 Urddas llin Dafydd, gwŷdd gweddeiddiaf.  
 Anfones canlles caenllanw breiscaf,  
 Anrheg Loegr fawrdeg, fordwy gloywaf,  
 Arnhaith a gobaith, gwbl ffrwythlonaf—Iôr:  
 72 Ys bryw dylan môr ysbrydolaf!  
 Enwi Ei farddlef, Iôn nef, a wnaif,  
 Enwant llythr decant lllathredicaf;  
 Enwog ardderchog, archaf—Ei nodded,  
 76 Rhodded trwy gired Tri a garaf!  
 Awr arwydd Mab Mair o air araf,  
 Arwrol cedol, cadair decaf,

- 80 Eryrod eurglod, Arglwydd pennaf—yw,  
A Llyw marw a byw, rhyw rhadlonaf.  
Arwyrain Croes Crist a oreuraf  
Ar oror côr Caer glaer egluraf;
- 84 Elen a'i cafas, alaf—ysbrydawl,  
Trydydd dydd deddfawl (awr hawl) o'r haf.
- 88 Doeth delw fyw fy Llyw, llyrion—prif obaith,  
Praff Adeiliad iaith proffwydolion,  
Dawn a phlaid gweiniaid, uwch gwynion—foroedd  
A phrifdeg lysoedd ffrydau gleision.
- 92 Darogan dylan, dail geirw gwelwon—môr,  
I fyddinfawr gôr fu Ei ddanfon:  
Dug o gaeth alaeth, faith alon—ofid,  
Ei bobl i rydid, Bibl arodion.
- 96 Dehau rybudd mad, Dihaerebion—mawl,  
A Naf arwrawl nef eryron,  
Dôr côr coeth cyfoeth, Dâr cofion—arllwybr,  
Gwawr yng ngolau wybr gwir engylion,  
Gwerthfawr Eurllorf torf, tirion—Ei bleidiau,  
Da i eneidiau dianudon.
- 100 Gwared a roddai Gwirion—goludog  
A Gwawr dlyedog i'r gwir dlodion,  
Cruplaid didwyllaid, deillion—canhwynol,  
Budd awr amodol byddair mudion,  
Clefyd anianol cleifion—difrawbwyll
- 104 Neu anfedydd bwyll o ynfydion.  
Gŵyr berffeithiau draw Dragon—gogoned,  
O euro gwared, Ei rai gwirion,  
Gwareddog Fynog, fanon—brenhinbryd,
- 108 Gwaisg urddas y byd a'i gosgorddion.  
Gwynfyd o'i febyd i feibion—Addaf,  
A'i ddifai alaf i ddwyfolion,  
Gwyp arwyrain cain, canon—berfeddnod,
- 112 Ac awraraith glod y gorwyron.  
Llyna anrheg dda, ddeon,—ei gwyrthau,  
O fyw alloriau efill aeron;
- 116 O ryfawr goelfain geir Afon—Ddyfrdwy!  
O lawen obrwy o Lyn Ebron,  
O luchynt helynt, holion—dwyreinfor,  
Ac o Lyn Tabor (glân atebion!),  
O awr geudod ffrwyth, o ergydion—mad,
- 120 I ddwyn addurn rad i ddyniaddon!

- Llithrodd gwaneg deg dogn arwyddion—ffydd,  
 Llywydd merwerydd llin Mair wirion,  
 124 Llathraid Blaid enaid, Iôn—y gogoniant,  
 A dehau foliant diofalon.  
 Llwybr berffeithrwydd rhwydd, rhoddion—goludog,  
 Llydwog gwareddog llydw gweryddon,  
 128 Llun llawnrad cariad coron—y dangnef  
 Ac Iôr lluoedd nef o Gaerlleon.
- Dug môr côr cywir delw fyw Llyw llawir  
 A Nen (ni phlygir) nawn a phlygain,  
 132 I lys lwys farddlef, i Leon wendref,  
 Llun Amerawdr nef gan llanw mirain,  
 Eryr pum weli, traws hawl tros heli,  
 Aur fawredd Geli ar fwrdd gwylain,  
 136 Anrheg brifdeg bryd i roi budd i'r byd,  
 I Fair y deiryd, o fôr dwyrain.  
 Credadun Un yw, Crair Mair marw a byw,  
 Croesteg eurog Lyw, Crist a garain'.  
 140 Ceidw rhad Ysgrythur cadarn Benadur,  
 Creadur, Modur, Creawdr madiain,  
 Côr Iôr eurdrefnad, cywraint wneuthuriad,  
 Mawr Uchelfab rhad Mair a'i choelfain.  
 144 Cofl gwaneg, deg dist, cofion diathrist,  
 Cyfarodd â Christ mywn cyfwyrain,  
 Llathr grog ofanaig, llythr arawd ffawd ffaig,  
 Llurig arian Ddraig, Llyw'r goron ddrain,  
 148 Llyw byw buddygol llawir ysbrydol,  
 Llawen arwrol, llên arwyrain,  
 Llwyddiant nerth berth byd, llw gwir hir hyfryd  
 Yn trosi iechyd rhag traws ochain,  
 152 Lloer côr, Iôr arab, llwyr gyfarch parch pab,  
 Llun Ei orau Mab, llawn aur a main.  
 Doethineb Elen a'm gwnaeth gorawen,  
 A hirwaith Moesen fu ei harwain,  
 156 Dwywawl wawl wahodd, Dafydd a'i hurddodd,  
 Duw a'i goreurodd, deg arwyrain,  
 Delw ysbrydolaf, dogn rad Tad tecaf,  
 Da wiail Addaf, diwael oeddain'.  
 160 Dôr côr, Pôr pefrlwys a ddoeth (goeth gynnwys)  
 O lys baradwys i lwys Brydain.  
 Rhywnaeth saer glaer glod, delw loyw hoyw hynod,  
 Er didwyll orfod o Iôr dadiain.

- 164 Rhadllawn ddawn a ddoeth, Rhi Tri trichyfoeth,  
 I loyw Gaer goeth o fro Loegr gain:  
 Rhywogaeth *cedrus*, rhwydd swydd *cypressus*,  
 O geingiau *pinus* a rygyngain.  
 Rhinweddawl fawl fudd, ni faeth gaeth gythrudd,  
 168 Rhod Dduw o'i ddeurudd rhad ddyddwyrain!  
 Bonedd medd moliant, bydd ysydd o sant  
 Â naws gogoniant, nis goganain'.  
 Balch ddelw, elw eiliad, a Naf nef wenwlad,  
 172 A Nêr oedd Wirdad, naw radd Wardain;  
 Braisg ddiwair Grair grym, braint y saint ni'm sym,  
 Bid eu harddelw ym, byd a'u hurddain'!

- 176 Doeth delw Nêr aber, wybr Uchelfaer—nef,  
 Naf gwerthfawr mireinglaer,  
 Dwfr dir côr eglurwir Caer  
 Dyfrdwy o'r mordwy mawrdaer.

- 180 Môr o ddysg Mab Mair a ddug,  
 Mawredd daith, gwaith gwynfydig,  
 Olygawd grair, loywged grog,  
 I Loegr dir oleuGaer deg.

- 184 Llyna gain goelfain fu gael—yn Lloegr  
 Llawged grair o'r Israel;  
 Llanw a'i dug o'i deg afael,  
 Llun Crist Ei hun, Croes Duw hael.

- 188 Llanw llwybr glud Lloegr dud y dug  
 Llun Llyw pum oes ar groes grog;  
 Mawrchwedl llawen gan wenyg,  
 Marchog bron mordon mawrdeg.

- 192 Doeth delw Nen ar bren, breiniol nef—ac wybr,  
 Yn Ei gwbl ddioddef;  
 Ni ddoeth rhag o deg dangnef  
 Duw byw Gaer Ei debyg Ef.

- 196 Doeth croes o wial Moesen  
 A delw ar frig môr dylan:  
 Nêr o Dduw, nawradd Ddewin,  
 Naf, gerllaw, nef, Gaerlleon.

- 200 Creawdr llun eiddun, Addaf Lyw—o nef,  
Ni wyl neb Ei gyfryw:  
Crair Caer mawrglaer a'm erglyw,  
Croes deg dan eurddelw Crist yw.
- 204 Teg fu dro to ton welwgaen  
A'th fu i fro Gaer i'th ddwyn;  
Tor, grair gwerthfawr, fy mawrboen,  
*Terra Calfaria* firain.
- 208 Lles hynod, llin clod, llun claer—Llyw nefol,  
Llawn afel llwybrwaith saer;  
Llethr Dyfrdwy, mordwy mawrdaer,  
Llithrodd môr llathrgair côr Caer.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 149<sup>v</sup> B—Card 4.140, 529 C—J 111, 1194 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 257<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 215<sup>v</sup> F—Llst 133, 283<sup>r</sup> [= rhif 832] G—Llst 147, 66<sup>v</sup>, 67<sup>r</sup> H—Pen 118, 63

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

7 eloued. 10 kelemic. 20 dwyrein (re *mewn llaw wahanol*); devyr (*ychwanegwyd i uwchben mewn llaw wahanol*). 21 arwy dyfôred. 23 a glutuaôred. 28 du6 yr. 34 da (*dilewyd gair hwy ac ysgrifennwyd da mewn llaw ddiweddarach*). 35 goes. 42 uawred (ua *mewn llaw wahanol*). 44 a nud. 48 va6rdwy. defyrdir. 72 ysbriw. 89 gerw. 91 uaeth. 118 lynnt. lan. 121 llith[ ]. 125 rwy[ ]. 146 llyw yr. 148 lleir arwyrein. 154 yarwein. 161 glaer glaer (*yr ail un wedi ei ddileu gan law ddiweddarach*). 163 tri trichychyuoeth. 166 epinus ar y. 168 da dwyrein. 174 ardel6. 175 v6ch eluaer. 191 awybyr. 204 ath v[ ] (*y mae un llythyren yn annarllenadwy yma*). ythwn. 208 auael (*pwyntiau dileu dan yr ail a*). llwybyrwaeth.

*Teitl*

Gruffud uab maredud vab dd' aecant yr groc.

*Olnod*

AMEN (*ar ôl ll. 174*).

*Awdl i'r Grog o Gaer*

- Caraf Bennaeth [y] gangell wedi ei haddurno ag arian, carai [Ef]  
rinwedd [ynof innau],  
[Sef] crair [o'r] Gair a gafwyd drwy gariad Ei drugaredd:  
Croes Calfaria, hafoty [lle y dosrennir] gras, mawr a theg [ei]  
rhysedd,
- 4 Arglwydd ffyddlon [y] Forwyn fendigaidd urddasol, gwedd [yr] haul  
teg,  
Pennaeth byd Cred, ffrwythlon [Ei] lys, trigfan [yr] Arglwydd  
sanctaidd,  
[A chanddo] wyrthiau disglair, ffon fesur [yr holl] fendithion,  
gwyh [Ei] anrhydedd,  
Gorsedd deg [y] ffydd, hael [ac] ewyllysgar, [llawn] parodrwydd [â]  
rhodd,
- 8 Arglwydd cyflawn [Ei] ras ar gyfer [datod] rhwym galar [sy'n  
cyfyngu] ar gysur,  
Gwobr Elen, goreurai Foses ar ei fysedd,  
Rhodd [o] ras [y] wlad fendigaidd gadarn [lle y mae] gwledd win [y]  
rhai cadarn,  
Cynheiliad gwyh Caer deg ragorol, cangell ddi-nam,
- 12 Coron euraidd, bendith [lawn] cariad, digonedd [o] haelioni,  
Delw wych dra theg Brenin hynaf y brenhinoedd,  
Canolbwynt [yr holl] goed, gwyh Ei fri mawr, Arglwydd aur Ei  
gleddyf [y] nef.  
[Boed] imi gael, [O] drysor grymus, ras o'i air cynhaliol,  
angenrheidiau [llawn] golud,
- 16 [Yr] Arglwydd [a'r] Pennaeth sy'n ordeinio llu i'w dangnefedd,  
Cynheiliad llu byd Cred sy'n dosrannu gwaredigaeth o'r drygioni,  
Gwarant angylion o linach brenhines, o fonedd dilychwin.  
Rhyferthwy môr mawr a theg [a] disglair [y] Gogledd [a chanddo]  
natur [yr] eigion,
- 20 Cynhaliodd [hwn ei] harwain o ddŵr [y] dwyrain i diroedd [y]  
Saeson;  
Cludodd ton môr ar ei bron, garw ei dyfroedd,  
I Ddyfrdwy groch ei llef, nwyf ton ar ymyl Gwynedd,  
Y ddelw fwyaf buddfawr a glodforaf oherwydd [ei] chyfoeth:
- 24 [Boed] ple ysbrydol drwy gyfrwng y geiriau mawl i'r Gŵr sy'n fy  
rheoli!  
Amddiffynnydd cangell urddasol, Duw yw [ffynhonnell] ein hyder,  
Dewin golud,  
Arglwydd eneidiau, di-lid [Ei] farnau hyfryd,

- [Ffynhonnell] rhodd [i] rai tlawd a noeth [y] ddaear wych a hardd,  
 [Un sy'n] ddiogferedd,
- 28 Disgleirdeb di-fai, Arglwydd di-lwgr, Duw'r gwirionedd.  
 Da yw Ei gynhaliaeth, a dilestair, a diwarafun,  
 Delw fyw f'Arglwydd, arwydd eurlliw Arglwydd [y] lluoedd,  
 [Ffynhonnell] ffyniant bywiog doethineb a [thestun] gwir foliant  
 [oherwydd] y gorfoledd,
- 32 [Ac iddo] foes dyner ddisglair a doeth, Cyfaill gweddi [a'i] deyrnas  
 [yn] wych.  
 Daeth i Gaerlleon, bendithion teg di-fai  
 ([Boed iti] foliant di-drai, [O] Dduw da [Dy] gyfoeth dioferedd!),  
 Croes Crist gwynfydedig, [megis] organ [yn datgan] einioes bythol  
 [y] cynulliad gwych,
- 36 Delw wych ei natur, er mwyn prynu bywyd o'r pren a'r bedd.  
 Cludodd ton deg y môr o barth [y] gaeaf  
 Lun [o'r] Arglwydd gwychaf i lys tir Lleon Gawr,  
 Arglwydd gwych di-fai, [y] cadarnaf [o ran] Ei ganmol,
- 40 Delw fyw Mab dwyfol Duw[r] Arglwydd nefol.  
 Trysor di-fai[r] gangell, yr Arglwydd mwyaf perfffaith,  
 Anwylyd ffyddlon i Fair, [ac iddo]'r ysblander mwyaf hyfryd,  
 Dewin gwych [a] hardd, cyn y beddrod dyfnaf
- 44 [Boed] gorchudd dianwadal Ei nawdd arnaf!  
 Daeth y Cyfaill cadarnaf dros frig tonnau,  
 Pendefig goruchel gwych byw, yr Arweinydd mwyaf llawen,  
 [Gwrthrych] defosiwn [y] byd Cristnogol yn ei lawnder, taith dra  
 hyfryd
- 48 Drwy lifeiriant [Afon] Dyfrdwy [i] oror gwlad y Saeson.  
 Arglwydd hael dwyfol [Ei] hawl a folaf yn fawr,  
 [Un ac iddo]'r gwychedr cadarn mwyaf lluniaidd [sy'n destun]  
 moliant defod[ol],  
 Llun [yr] Arglwydd Ei hun, [yr] Arglwydd [ac iddo'r] enw  
 goruchaf,
- 52 Mab Mair sanctaidd ar y pren mwyaf brenhinol.  
 [Yn ennyn] canmoliaeth faith [oherwydd Ei] feddwl didwyll, [yn  
 cynnig] y ffyniant mwyaf ffyddlon,  
 Ysblennydd [a] gwych fydd [Ei] oruchafiaeth [ar y] dydd olaf;  
 Maith ddi-dor Ei daith, y Pennaeth doethaf,
- 56 Meddyg ffrwythlon, [ffynhonnell] lles [i'r] iach a[r] claf.  
 Y mae arwydd euraid ei glod Arglwydd y wlad bellaf wedi dod  
 I Loegr (yn gyflawn y'n gwareda), Rheolwr [y] byd,  
 Duw Iesu, Arglwydd mwyaf dewisol [Ei] ... ,
- 60 Tonnau ?!lugoer prydferth [yn dod] â'r llun gwychaf.  
 Delw unig Fab Mair a addolaf



- Drwy draethiad diffuant, llafur tra buddfawr,  
 I gadw ynof gof am yr hynt fwyaf cyfiawn,  
 64 I gyrchu trigfan cenedl disgynyddion Adda.  
 Pennaeth llu'r angylion, Amddiffynnwr gwych tra hael,  
 Arglwydd didwyll o[r] nef, gwych [Ei] law,  
 Sicrwydd Moses hen, yr hynaf Ei ffyniant,  
 68 Urddas llinach Dafydd, y tras mwyaf cymwys.  
 Anfonodd y llanw gorlifol mwyaf nerthol fudd lawer,  
 Anrheg i Loegr fawr a theg, y rhyferthwy môr disgleiriaf,  
 Trysor a gobraith, yr Arglwydd mwyaf llwyddiannus oll:  
 72 Bywiog yw llifeiriant mwyaf egniol [y] môr!  
 Datgan Ei foliant, [sef] Arglwydd [y] nef, a wnafl,  
 [Fe'i] datgana mil o'r llythrennau disgleiriaf;  
 Un enwog ardderchog, deisyfaf Ei nawdd,  
 76 Boed iddo [ei] rhoi drwy haelioni[r] Tri a garaf!  
 Arwydd euraid Mab Mair o leferydd addfwyn,  
 Un arwrol hael, yr orsedd decaf,  
 [Un sy'n] glod hynod [i'r] penaethiaid, yr Arglwydd goruchaf  
 ydyw,  
 80 Ac Arweinydd [y] marw a[r] byw, [a chando]'r natur lawnaf o  
 ras.  
 Cân o foliant [i] Groes Crist a addurnaf  
 Ar ymyl cangell Caer ddisglair [a] thra amlwg;  
 Elen a ddaeth o hyd iddi, trysor ysbrydol,  
 84 [Ar y] trydydd dydd yn ôl defod (chwiliad rhagorol) o'r haf.  
 Daeth delw fyw f'Arweinydd, llwybrau[r] prif obaith,  
 Creawdwr grymus iaith [y] proffwydi,  
 [Ffynhonnell] budd a chefnogaeth rhai gwan, uwchben moroedd  
 gwyn  
 88 A llysoedd tra theg [y] ffrydiau glas.  
 Proffwydoliaeth [o du'r] eigion, dail tonnau gwelw[r] môr,  
 I gangell fawr ei llu fu Ei anfon:  
 Arweiniodd [Ef] o dristwch caethiwus, gofid maith [o law]  
 gelynion,  
 92 Ei bobl i ryddid, [yn ôl] adroddiadau[r] Beibl.  
 Rhybudd cyfiawn dedwydd, Pennaeth diarhebol [y] moliant,  
 Ac Arglwydd arwrol gwroniaid [y] nef,  
 Amddiffynnydd [y] gangell hardd [lawn] golud, Arglwydd [sy'n]  
 llwybr [i] feddyliau,  
 96 Gwawr yn wybren olau[r] angylion ffyddlon,  
 Amddiffynnydd rhagorol buddfawr [i] lu, mwyn Ei finteioedd,  
 [Ffynhonnell] budd i eneidiau digelwydd.  
 Gwaredigaeth a roddai[r] Un pur cyfoethog [Ei fendithion]  
 100 A[r] Arglwydd breiniol i'r tlodion ffyddlon,  
 [I'r] rhai cloff didwyll, [y] rhai dall o natur,

- [Ffynhonnell] budd [ar yr] amser a addawyd [i'r] rhai byddar [a] mud,  
 [Yn erbyn] haint cynhenid cleifion dihidio eu meddwl  
 104 Neu [yn erbyn] feddwl anwar o du gwallgofddynion.  
 Gŵyr Arglwydd [y] gogoniant sut i berffeithio draw,  
 Drwy anrhydeddu gwaredigaeth, Ei ddiniwed rai,  
 Arglwydd trugarog, [Mab] brenhinol Ei wedd [y] frenhines,  
 108 Urddas cadarn y byd a'i osgorddion.  
 Dedwyddwch [a ddaeth] yn sgil Ei blentyndod i feibion Adda,  
 A'i gyfoeth di-fai i rai dwyfol,  
 [Testun] cân foliant hardd [a] chain, canolbwynt [y] canon,  
 112 A [thestun] moliant traethiad rhagorol y disgynyddion.  
 Dyna anrheg dda ei gwyrthiau, [O] wyrda,  
 O[r Un sy'n] ffrwythau [ar] brennau afalau [sy'n] allorau byw;  
 O rodd dra mawr ger Afon Dyfrdwy!  
 116 O wobr lawen [a ddaeth] o Lyn Ebron,  
 O daith [megis] rhuthr mellten, [drwy] ymosodiadau môr y dwyrain,  
 Ac o Lyn Tabor (atebion pur!),  
 O ganol euraid ffrwyth, o wial dedwydd,  
 120 I ddod â gras addurnedig i ddynion!  
 Parodd ton deg i lawn fesur [o] arwyddion [y] ffydd symud yn llyfn,  
 Llywydd dygyfor y môr [o] linach Mair bur,  
 Amddiffynnwr disglair [yr] enaid, Arglwydd y gogoniant,  
 124 A [thestun] moliant gweddus [gan] bobl ddibryder.  
 [Un â] pherffeithrwydd rhwydd [o ran Ei] lwybr, [a chando] roddion cyfoethog,  
 Un minteiog trugarog torf [y] rhai pur,  
 Llun gras llawn cariad [yn gwisgo] coron y tangnefedd  
 128 Ac Arglwydd lluoedd [y] nef o Gaerlleon.
- Cludodd [y] môr i[r] gangell ffyddlon ddelw fyw Arweinydd hael  
 Ac Arglwydd (ni[s] trechir) nawn a phlygain,  
 I lys hardd [ei] foliant, i drigfan fendigaid Lleon,  
 132 Llun Ymerawdwr nef gyda[r] llanw gwych,  
 Pennaeth [y] pum clwyf, [Un] grymus [Ei] hawl [a ddaeth] dros [yr] heli,  
 Arglwydd rhagorol [Ei] ysblander ar fwrdd [y] gwylanod,  
 Rhodd wych iawn [yr] olwg i roi budd i'r byd,  
 136 I Fair y perthyn, o fôr [y] dwyrain.  
 Un ffyddlon ydyw, Anwylyd marw a byw Mair,  
 Arweinydd rhagorol teg Ei Groes, Crist y byddent [hwy] yn Ei garu.  
 Ceidw[r] Pendefig cadarn ras [yr] Ysgrythur,

- 140 Lluniwr, Arglwydd, Creawdwr a aned yn ffodus,  
 Arglwydd [y] gangell gwych Ei drefn, cywrain [Ei] wneuthuriad,  
 Mab dyrchafedig mawr graslon Mair a'i rhodd [hi].  
 Mynwes ton, trawst teg, [testun] meddyliau llawen,
- 144 Cadwodd gwmni â Christ mewn gorfoledd,  
 Gobaith [o] grog ddisglair, wyneb [yn cynnig] bendith [a ddethlir]  
 drwy draethiad[au] llên,  
 Pennaeth [mewn] llurig arian, Arweinydd y goron ddrain,  
 Arweinydd byw buddugol hael [a] sanctaidd,
- 148 Llawn [ac] arwrol, [testun] moliant clerigwyr,  
 [Ffynhonnell] llwyddiant [o] nerth hardd [i'r] byd, addewid gwir  
 hirhoedlog hyfryd  
 Yn rhoi gwardigaeth rhag ochneidio grymus,  
 Lleuad [y] gangell, Arglwydd mwyn, cyfarchiad cyflawn [iddo â'r]  
 parch [sy'n gweddu i] arglwydd,
- 152 Llun Ei fab tra rhagorol, llawn [o] aur a gemau.  
 Doethineb Elen a wnaeth lawenydd imi,  
 A gwaith hirfaith Moses fu ei chludo [sc. y Groes],  
 Gwahoddiad [drwy] oleuni dwyfol, Dafydd a'i hurddodd,
- 156 Duw a'i hanrhydeddodd, dyrchafiad teg,  
 Y ddelw fwyaf ysbrydol, gras helaeth y Tad tecaf,  
 Gwiall da Adda, gwych oeddynt [hwy].  
 Daeth Amddiffynnydd [y] gangell, Arglwydd disglair a hardd  
 (croeso hardd [a gafodd])
- 160 O lys paradwys i Brydain hardd.  
 Y mae saer wedi gwneud clod wych, [sef] delw ddisglair lawen  
 ragorol,  
 Er mwyn buddugoliaeth ddidwyll gan [yr] Arglwydd dedwydd.  
 Bendith raslon a ddaeth, Brenin [a] Thri [Pherson y] tair teyrnas,
- 164 I Gaer ddisglair wych o eiddo gwlad Lloegr hardd:  
 [O] rywiogaeth [y] gedrwydden, y gypreswydden rwydd [ei]  
 chynneddf,  
 O ganghennau[r] binwydden sy'n cydweddu.  
 Budd rhinweddol [ei] foliant, ni fagodd ofid caethiwus,
- 168 Boed i Dduw roi drwy gyfrwng Ei wyneb atgyfodiad graslon!  
 Pendefigaeth [yn cyfrannu o] fedd moliant, bydd yr holl seintiau  
 Â naws gogoniant, ni fyddent yn Ei ddychanu.  
 Delw wych, crefftwaiha [llawn] budd, ac Arglwydd gwlad fendigaid  
 [y] nef,
- 172 Ac Arglwydd a oedd yn Dad gwir, Ceidwad [y] naw gradd;  
 [O] Anwylyd grymus cadarn [a] diwair, ni fydd braint y seintiau yn  
 fy siomi,  
 Boed eu gwarant imi, [y] byd [cyfan] a fyddai'n eu hurddo!

- Daeth delw[’r] Arglwydd i aber, Stiward urddasol [y] wybren [a’r]  
nef,  
176 Arglwydd buddfawr gwych a disglair,  
[Y] tir [llawn] dŵr [ger] cangell ddisglair a ffyddlon Caer  
Dyfrdwy o’r rhyferthwy môr mawr a ffyrnig.
- Cludodd [y] môr dan gyfarwyddyd Mab Mair,  
180 Taith [lawn] ysblander, gweithred fendigaid,  
Grair [sy’n] olygfa [wych], crog [sy’n] rhodd ddisglair,  
I Gaer olau deg tir Lloegr.
- Dyna rodd hardd fu cael yn Lloegr  
184 Grair hael o’r Israel;  
[Y] llanw a ddaeth â hi yn ei afael deg,  
Llun Crist Ei hun, Croes Duw hael.
- Cludodd [y] llanw dyfal [ei] lwybr i dir Lloegr  
188 Lun Arweinydd [y] pum oes ar groes [y] grog;  
Newyddion mawr llawen gan [y] tonnau,  
Marchog mawr a theg [ar] fron ton môr.
- Daeth delw[’r] Arglwydd ar bren, [yn] awdurdodol dros nef ac  
wybren,  
192 Yn Ei ddiodefaint cyflawn;  
Ni ddaeth rhodd o dangnefedd teg  
Duw byw i Gaer [a oedd] yn debyg iddo Ef.
- Daeth croes o wiail Moses  
196 A delw ar frig llifeiriant [y] môr:  
Duw Arglwydd, Dewin [y] naw gradd,  
Arglwydd [y] nef gerllaw Caer.
- Llun dymunol [y] Creawdwr, Arweinydd Adda o[’r] nef,  
200 Ni fydd neb yn gweld Ei gyfryw:  
Crair mawr a disglair Caer a fydd yn gwrando arnaf,  
Croes deg dan ddelw ragorol Crist ydyw.
- Teg fu tro to gorchudd gwelw [y] don  
204 A fu i ti i’th ddwyn i fro Caer;  
Lleddfa, grair buddfawr, fy mhoen fawr,  
Tir Calfaria gwych.
- [A chanddo] les rhagorol, [o] linach glodfawr, llun disglair [yr]  
Arweinydd nefol,

208 Cynhalbren cyflawn [o] waith trefnus saer;  
Ochr [Afon] Dyfrdwy, rhyferthwy môr mawr a ffyrnig,  
Parodd [y] môr i grair llachar symud yn llyfn i gangell Caer.

*Awdl i Dduw*

- Ar lwyr wared, Grist, y'th aned,  
 Naf nef drefred, naws gogoned (nis goganain'),  
 Ar ddysg, ar dda i lwyth *terra*  
 4 (Rhag murn mawrbla o ben Efa Ei boenofain),  
 Ar foliant Gair, ar filioedd grair,  
 Ar fawl i Fair, ar fawr nawddair, ar farn addiain,  
 Ar berffaith fryd hoywfraich hyfryd,  
 8 Ar ddehau byd (ar Dduw deiryd), ar ddadwyrain,  
 Ar ddawn cwplaf, Dewin doethaf,  
 Pan gyrchaist, Naf, lluoedd Addaf lle ydd oeddain',  
 Ar drefn orddwy, ar drais dramwy,  
 12 Oerlaith arlwy, yngloes ddirwy, ynglas ddyrain  
 Ar Groes irwydd, ar gadair ffydd,  
 Ar gedyrn Grogwydd, ar ged gelfydd, ergyd goelfain.  
 Ar gynhyrchol radau dwywol,  
 16 Ar goeth ganmol, ar gof eurol, ar gyfwyrain,  
 Ar dawl mawl mad ardeml gariad,  
 Ar deilwng rad, ar dud y cad Eurdadog cain.  
 Ar glod gyhoedd, erglyw'r pobloedd:  
 20 Arglwydd ym oedd ar glaer diroedd, ar glawr dwyrain,  
 Ar gatholig ddydd Nadolig,  
 Air mawrhydig, awr wynfydig i'r wen fadiain,  
 Ar bwyll leindyd, ar befr ysbryd,  
 24 Ar borth i'r byd, ar les blegyd, ar lwys blygain,  
 Ar dangnefedd rhad anrhydedd,  
 Ar drugaredd, ar wir fawredd ar wryr firain.
- |    |   |  |   |
|----|---|--|---|
| 28 | Archaf, Gulwydd<br>Ac i Fair deg,<br>A chwbl a llwyr<br>Ac engylion<br>Yt, f' Arglwydd Dad, | diwaradwydd,<br>hael o Röeg,<br>ynof synnwyr<br>a gweryddon<br>er Dy gariad, | Dy wiw radau,<br>hil o riau,<br>o nef seiniau<br>a gwiw raddau,<br>eurdeg eiriau, |
| 32 | Rhoi nawdd i'th was<br>Rhag barn cedyrn<br>Rhag cybyddiaeth,<br>Rhag cynghorfyfyn           | rhag brawd o gas,<br>a baich edyrn<br>rhag traws arfaeth,<br>a fydd elyn     | rhag brad a gau,<br>o bechodau,<br>rhag trais arfau,<br>i feddyliau,              |
| 36 | Rhag creulonder   | yn y dener   | anudonau,   |

	Rhag murn a thwyll	a dogn gymwyll	a dygn gamau,
	Rhag gwayw dan fron,	rhag gŵyth galon,	rhag gwaith gwylau,
	Rhag dwfn lesgedd	a digasedd	a dig eisiau,
40	Rhag trais arllwybr,	och aml ewybr,	a chamlyau,
	Rhag trallod byd,	rhag traphenyd,	rhag triphoenau,
	Rhag tân uffern	a'i drycethern	a'i drwg hithau
	A'i chas ofaint	a'i gofeiliaint	a'i gefelau
44	A'i chaeth wenwyn	a'i choeg wanwyn	a'i chigweinau
	A'i chynyddion	a'i chŵn duon	a'i chŵyn diau
	A'i phyrth hëyrn	a'i thanllyd gyrn	a'i thinllwyd gau
	A'i tharth a'i llwch	a'i thirionwch	a'i tharanau
48	A'i rhost brynnig	a'i rhestr ffyrnig	a'i rhwystr ffyrnau
	A'i breiferiad	a'i bront bariad	a'i brwnt beiriau
	A'i hôd genllysg	a'i hir derfysg	a'i hoer dyrfau
	A'i gwythlonder	a'i gwan nifer	a'i gwanafau
52	A'i dygn gymwrn	a'i duoer ffwrn	a'i daear ffau.
	Iôr dengraddwlad,	iawn a Bryniad,	Iôn y breinau,
	Yno cyrchaist	ar a geraist	o rai gorau.
	O'th hynafiaeth,	enedigaeth	Enaid eigiau,
56	O'th fodd i'th fedd,	o'th enrhydedd	aeth ein rheidau,
	O'th faeth a'th fawl,	o'th ddelw ddwywawl,	o'th ddala Ddifiau,
	O'th fynediad	(aur Dy ddyad)	ar Dy ddehau.
	Pefr Fihangel,	cun glwys, angel,	cyn gloes angau
60	(Pen cymhendawd	yw'r paun didlawd	pan fo dadlau,
	Pôr côr cariad,	pêr ei frediad,	pur ei frodiau);
	Pâr ef, nef Naf	(a diwarthaf	yw Dy wyrthiau)
	I ddwyn f'ysbryd	rhag hoedl ddeugryd,	rhag hidl ddagrau,
64	I'th wlad rad reg,	i'th windai teg,	i'th wyndud Tau,
	I'th le amlwg,	i'th lwys olwg,	i'th lys olau!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 335<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 153<sup>r</sup> C—J 111, 1200 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 266<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 221<sup>r</sup> F—LIGC 8330B, 244 G—Llst 133, 284<sup>v</sup> [= rhif 832] H—Llst 147, 72<sup>v</sup>, 73<sup>r</sup> I—Pen 118, 71

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darllenïadau'r llawysgrif*

12 oer leith arwy. 20 ar arglôyd. 55 hyneuiaeth enydigaeth.

*Olnod*

Amen

*Awdl i Dduw*

- Ar gyfer gwaredigaeth gyflawn, Grist, y'th aned,  
 Arglwydd trigfan [y] nef, natur [lawn] gogoniant (ni fyddent yn Ei  
 ddychanu),
- 4 Ar gyfer [dod â] dysg, ar gyfer [dod â] lles i drigolion [y] ddaear  
 (Yn erbyn niwed [y] trallod mawr [a ddaeth] drwy enau Efa [y bu]  
 Ei ddiodeffaint),
- Ar gyfer [ennyn] moliant [i'r] Gair, ar gyfer [bod yn] anwylyd [i]  
 filoedd,
- Ar gyfer [ennyn] moliant i Fair, ar gyfer [cynnig] addewid mawr o  
 nawdd, ar gyfer [rhoi] barn ?ardderchog,
- 8 Ar gyfer [cyflawni] bwriad perffaith [Ei] fraich lawen hyfryd,  
 Ar gyfer [bod yn] gynheiliad [i'r] byd (i Dduw y perthyn), ar gyfer  
 atgyfodi,
- Ar gyfer [cynnig] y gras cyflawnaf, Dewin tra doeth,  
 Pan gyrchaist, Arglwydd, luoedd Adda lle yr oeddynt,  
 Ar gyfer [dwyn] gorthrwm [ar] siambr [uffern], ar hynt dreisgar,  
 12 Darpariaeth [o] angau trist, cosb [o] boen arteithiol, dyrchafu Un  
 gwelw gan boen
- Ar [y] Groes [o] bren glas, ar orsedd ffydd,  
 Ar brennau cadarn y Groes, ar gyfer [rhoi] rhodd gelfydd, anrheg [a  
 ddaw o] ergyd.
- Ar gyfer [rhoi] grasusau dwyfol ffrwythlon,  
 16 Ar gyfer canmoliaeth hardd, ar gyfer coffadwriaeth wych, ar gyfer  
 gorfoledd,
- Ar gyfer cyfran [o] foliant dedwydd [i'w] gariad [sy'n cynnig]  
 nodded,
- Ar gyfer [rhoi] gras teilwng, ar [y] ddaear y cafwyd [yr] Un  
 rhagorol Ei Dad [a] hardd.
- Ar gyfer moliant cyhoeddus, y mae'r bobloedd yn clywed [hyn,  
 sef]:
- 20 Arglwydd ydoedd imi ar diroedd disglair, ar ddaear [y] dwyrain,  
 Ar ddydd ffyddlon [y] Nadolig,  
 [Y] Gair mawrhydig, [ar] awr fendigaid i'r ferch hardd ddedwydd,  
 Ar gyfer purdeb meddwl, ar gyfer ysbryd disglair,
- 24 Ar gyfer [cynnig] cynhaliaeth i'r byd, ar gyfer lles, ar fore hardd,  
 Ar gyfer [creu] tangnefedd [drwy] ras [llawn] anrhydedd,  
 Ar gyfer trugaredd, ar gyfer [dwyn] gwir ysblander ar forwyn  
 hardd.
- Gofynnaf, Arglwydd di-fai, am Dy rasmusau teilwng,  
 28 A [gofynnaf] i Fair deg, un fonheddig o Roeg, [un a'i] thras [yn  
 disgyn] o frenhinoedd,



- A [gofynnaf am] ddoethineb cyflawn a llwyr ynof gan seintiau[’r]  
nef
- Ac angylion a morynion a[’r] urddau teilwng,  
[Er mwyn] i Ti, f’Arglwydd Dad, er mwyn Dy gariad, [Un a  
chenny] eiriau rhagorol a theg,
- 32 Roi nawdd i’th was rhag barn o gasineb, rhag brad a thwyll,  
Rhag barn gwŷr cadarn a baich anferth o bechodau,  
Rhag cybydd-dod, rhag bwriad gormesol, rhag trais [ag] arfau,  
Rhag cenfigen a fydd yn elyn i feddyliau [da],
- 36 Rhag [arfer] creulonder lle y[’m] temtir [i roi] llwon celwyddog,  
Rhag dichell a thwyll a digonedd o sôn a chamweddau dybryd,  
Rhag poen dan [fy] mron, rhag dicter gelynion, rhag gwaith ar  
ddyddiau gŵyl,
- Rhag llesgedd dwfn ac atgasedd ac angen chwerw,
- 40 Rhag [dilyn] hynt trais, mynych ochenaid fuan, a llwon celwyddog,  
Rhag trallod [y] byd, rhag penyd gormesol, rhag poenau triphlyg,  
Rhag tân uffern a’i chiwed ddrwg a’i drygioni hithau  
A’i gofaint cas a’i gofid a’i gefelau
- 44 A’i gwenwyn caethiwus a’i gwanwyn rhithiol a’i ffyrch  
A’i helwyr a’i chŵn du a’i chŵyn diamau  
A’i phyrth haearn a’i chyrn tanllyd a’i pherfedd llwyd ei waelod  
A’i tharth a’i chors a’i mwynder a’i tharanau
- 48 A’i chig rhost drewllyd a’i rhes ffyrnig a’i ffyrnau [sy’n] rhwystr  
A’i rhoad a’i gwneuthuriad brwnt a’i pheiriau brwnt  
A’i chenllysg yn disgyn a’i therfysg hir a’i thorfeydd trist  
A’i ffyrnigrwydd a’i llu eiddil a’i rhengoedd
- 52 A’i baich dygn a’i ffwrn ddu drist a’i ffau [yn y] ddaear.  
Arglwydd gwlad y deg urdd, Prynwr cyfiawn, Arglwydd y  
breintiau,
- Yno y cyrchaist y rhai a geraist o blith y rhai gorau.  
O’th dras, [o] enedigaeth Anwylyd lluoedd,
- 56 O’th ewyllys da yn Dy fedd, o’th anrhydedd aeth ein angenrheidiau  
[ymaith],  
O’th fagwriaeth a’th foliant, o’th ddelw ddwyfol, o’th ddal ar  
Ddydd Iau [Cablyd],  
O’th fynediad (aur Dy olwg) ar Dy ddehau.
- Mihangel disglair, arglwydd hardd, angel, cyn poen angau  
60 (Pennaeth medrusrwydd yw’r tywysog gwych pan geir ymrafael,  
Arglwydd mintai [lawn] cariad, hyfryd ei farnwriaeth, pur ei  
farnau);  
Pâr iddo, [O] Arglwydd [y] nef (a thra di-fai yw Dy wyrthiau),  
Ddwyn f’ysbryd rhag bywyd helaeth ei arswyd, rhag dagrau  
llifeiriol,

64 I'th wlad raslon [ei] rhodd, i'th dai gwin teg, i'th wlad fendigaid Di,  
I'th le amlwg, i'th olwg hardd, i'th lys disglair!

*Awdlau i Dduw*

Arglwydd rhwydd a'n rhydd tangnefedd,  
 Eurglo bro breiniol gymrodedd,  
 Erglyw fi, wyd Rhi pob rhinwedd,  
 4 Argleidr Pedr, peidiaf â'm maswedd!  
 Arglyd fyd Fodur teŷrnedd,  
 Arglain cain rhag caith ynialedd,  
 8 O chefaist orchyfyng anwedd  
 A chur o lafur aelawedd,  
 Yn prynu o'r pren a'r dyfnfedd,  
 Na fydd, na feddwl fy ngomedd,  
 Na fid lid gan Lyw brenhinedd,  
 12 Na faddau, feddiant gorhoffedd,  
 Dy bridwerth arnaf, Naf Nasaredd!  
 O cherais bechod a charedd  
 A cherydd â charad wragedd  
 16 A threiso gweinaid a'th rysedd,  
 A thrysor a threisig salwedd  
 A bylchu fy ngair â balchedd,  
 Heb olchi balch feddwl symledd  
 20 O gamlw ac aml ddigasedd,  
 Ac ymlanw o gamlid rhyfedd,  
 Ac amlaf gamlwybr difrodedd  
 Ac ymlwgr o gamlwrw gwagedd  
 24 Ac amlaen gamlas enwiredd,  
 Ac ymlid môr-gymlawdd chwerwedd,  
 Cyn gwisgo mywn gwasgod maenfedd,  
 Cyn gwisg rhisg rhwysg-gaen dydwedd,  
 28 Cyn gwas wherw irdderw oer ddyedd,  
 Cyn gloesion, cyn glasu'r dannedd,  
 Cyn glasar diweddar diwedd,  
 Cyn gweithlawr, cyn gwythlawn gyntedd,  
 32 Cyn gwythlaith saith drudfaith droedfedd,  
 Gwir lawir Lyw môr a thiredd,  
 Gwawr daear dehau a gogledd,  
 Gweddïaf, gwiw ddiagr ferthedd,  
 36 'Y mod ym madiain drugaredd

I'th wynllawr, i'th winllad orsedd,  
 I'th winllan, i'th wenllys annedd,  
 Iaith Wledig, y Meddyg a'n medd,  
 40 I'th wenwlad, Arglwydd, i'th winwledd!

Arddwyreaf Naf a Nêr—engylion,  
 Clod Iôn gweryddon gwareddog ffêr,  
 Arddwyrain madiain medr iawnder—ceudawd,  
 44 Arddwyreawr wawd ffawd ffyddlonder,  
 Eurog a mynog, Muner—dengraddwlad,  
 Arglwydd rhwydd, Rhoddiad, Gwirdad gwarder.  
 Ef a'n gwnaeth o gaeth geithflinder—weinydd  
 48 Yn rhydd, bu ufydd drwy ffydd ffyrfder;  
 Ef a roes ar Groes, grysier—gorllad breg,  
 Ei waed i rydeg, bu chweg chwerwder;  
 Ef a ddifanw llanw llinagr dyfnder—ffraeth,  
 52 Ef a wnaeth uch traeth trai ac aber;  
 Ef a wnaeth arfaeth pob arfer—difeth  
 A phob rhyw unpeth, treth lle traether:  
 Dyn dilwfr o ddwfr, ddwfn loywder—glân,  
 56 A thân un anian pan enynner,  
 A rhyw awyr llwyr, llwrw addfwynder—ffydd,  
 A orug Dofydd, ac nid ofer!  
 A Duw yw fy Llyw, lle mae doethder—mawr,  
 60 A daearllawr Gwawr, gwawd a ddirper:  
 Adar gwyllt a gwâr, gwir ddoethder—frodiau,  
 Wybr, eigon, ffrydiau, sygnau a sêr.  
 Yn y lle y bu yn meddu budd hoywder—achles,  
 64 Ac yn y lle y colles y lles llawer,  
 Ystyried dwys gred nad oes gryfder—certh  
 Na nerth didawl berth (dadl a borther!),  
 Nad oes hebddaw (praw lle profer—rhadau)  
 68 Diwedd na dechrau, parablau pêr,  
 Nad oes rad na mad (medrwn amser—ffawd!)  
 Dieithr Rhi Tri Trindawd, uthr wawd wiwder.  
 Gwae a greto bro breuolder—fuchedd,  
 72 Gwae a wnêl trosedd yn y lle y'i treiser,  
 Gwae ef, Arglwydd rhwydd, yn y lle y rhodder—nâg,  
 Gwae ef ddyn gorwag a fag falchder.  
 Unwedd hawl ddiddawl, hudawl fyrder—derfyn,  
 76 Yw hoedl dyn, tremyn trwm orober,  
 Ag adeilad brad bryd salwder—drydw  
 A'r dail o du'r bedw, nid arbeder,

- Neu hydd awr echwydd yn ochr creigfer—lefn,  
 80 Neu leisiad a'i gefn mywn trefn tryfer.  
 Rhag hirddilyd prid praw ufullter—bryd,  
 Rhi y byd a'm dyd dysg a challter;  
 Rhwy gaffwyf, fy Rhwyf, rhwysg didrymder—hedd  
 84 Cyn bedd saith droedfedd a gwedd gwander,  
 Rhagor rhwym cyngor ceingau Pader—Crist,  
 Rhegau diathrist Tist lle tyster.  
 Rhydd y'm gwnêl Dofydd rhag difer—dramgwydd,  
 88 Rhwydd Arglwydd hylwydd, hawl gyfrwydd-der,  
 Rhên llên llathrdref nef, Naf dwywolder—chweg,  
 Rheg dius nawsteg, a *Deus noster*.
- Arglwydd Dduw, erglyw, eurglaer faniau,  
 92 Arglwydd llanw a thrai, rhai o'n rheidau,  
 Arglwydd lluchynt gwynt a gwyllt ffrydiau—môr,  
 Mawr Dy rad a'th wyrthau;  
 Arglwydd eglurder sêr a sygnau,  
 96 Arglwydd gwyllt a gwâr, ddaear Ddiau,  
 Arglwydd gwendref nef, Naf derfynau—wybr,  
 Obaith rhad feddyliau;  
 Arglwydd môr a thir, gwir gwaredau,  
 100 Arglwydd nos a dydd, cynnydd canau,  
 Arglwydd terfyn dyn, doniau—goruchaf  
 Goruchel noddfaau;  
 Tydi a aned, ged gred greirau,  
 104 O Fair, wir Eurair, fawr wryy orau;  
 Tydi a fedd fry freinau—ysbrydol  
 Ysbrydoedd gweddïau;  
 Ti a ddaw Ddyddbrawd, ddidlawd ddadlau,  
 108 Er barnu'r trillu, trallwyr byncau;  
 Ti, Fab Mair, wyd Crair creaduriau,—Dduw,  
 Heb ddiwedd, heb ddechrau;  
 Tydi, Rên llawen llên a llyfrau,  
 112 A ddygnwerthwyd gynt drwy ddogyn wyrthau  
 Er deg (y byd teg, bu Tau!)—ar hugain  
 O ddadiain addodiau;  
 Tydi, Arglwydd rhwydd rhinweddau—bob awr,  
 116 A rodded dan llawr, fawr fwriadau;  
 Tydi, Dduw, gwedy (gwawdau—cof ydwyd),  
 Cyfodaist i'th raddau.  
 Am hyn, Wawr pob llawr, Llorf eneidiau  
 120 Wrth feibon dynion, Dragon dreigau,

- Dilidia, fy Arglwydd, Dy aelodau—ym,  
     Aml radlon feddiannau.  
 124 O gwnaetham, Eurllyw byw, bechodau,  
     A cheryddus ddrwg a chareddau,  
     Braisg Ddewin, Brenin breiniol seiniau,  
     N'ad Dy fâr arnam am gam gwypau;  
 128 Er Dy gythrudd loes, er Dy gythrau,  
     Er Dy goron ddrain, Wrda gorau,  
     Oeda ni, fy Rhi, rhiniau—tystoliaeth,  
     Rhag tost ddolur angau!
- 132 Llorf brenhinol doeth dewinol,  
     Gorllewinol Gâr, Llyw union,  
     Llywydd rhannau hyd feddiannau,  
     Llew hydr caniau, Llywiodr ceinon,  
     Llym lafuria, na'm doluria,  
 136 Na thosturia, iaith ddwys dirion!  
     Lle digaredd gyflafaredd  
     Yn nhrugaredd ein Rhi gwirion,  
     Lle didostyrydd, llys lluosydd,  
 140 Lle Dangosydd Lladin gyson,  
     Lle rhieddog digamweddog,  
     Lle gwareddog llu gweryddon,  
     Lle cyfannedd llu rhianedd,  
 144 Gwawr farannedd, gwryr forynion,  
     Lle nefolaf a deddfolaf  
     Duw a folaf diofalon,  
     Lle canmolud, llawr mawr molud,  
 148 Eang olud i engylion.  
     Llid a chasau ym mhob plasau  
     I f'aflesau (Efa flysion!),  
     Lliaws gurio, llym ddolurio,  
 152 Llu ddifurio, lladdfa wirion.  
     Llawr Wawr warant lluoedd barant,  
     Llathrwawd garant, llithrwaed goron.
- 156 Côt Eurddor urddas diwyllig,  
     Câr cyfar cyfwlch bardedig,  
     Corf gwendorf, gwyndud Arbennig,  
     Caer eurglaer Arglwydd bonheddig,  
 160 Creawdr, Amerawdr môr, gwenyg—a thir  
     A therfyn wybr llithredig;

- Cyn myned i'r maenfedd hirdrig,  
 Cyn gwely gwaelod pryfiedig,  
 Cyn gweled gwales nychiedig,  
 164 Caffwyf, Grist, fy rhwyf, fy rhyfyg—o'th wlad  
     Ac o'th wledd ni ddiffyg!  
 Cyn pallu pump synnwyr pwyllig,  
 Cyn pwll dwfn pall difalch edmyg,  
 168 Cyn profi o'r pryfed ffyrnig  
 Pechodau, tremygau tremyg,  
 Ciriedus Arglwydd, bwyf caredig—fry  
     Yn y fro ddewisig.  
 172 Er Dy Groes a'r loes lifiedig  
 A'r cethrau, bu cythruddiedig,  
 A'r gwayw a'r gwyar llithredig  
 A'r galon, glaerfron eglurfrig,  
 176 A'r beddlawr (wyd Gwawr gwyrennig)  
 A'th eni (aeth ynod lle y trig;  
 O'th aned, ni bu daith unig),  
 A'th daith, Arglwydd rhwydd, rhodd brofiedig—Nêr  
 180 A nef Ddamunedig,  
 Ar warawd o ffawd ffenedig,  
 Ar warant Efa, blant blennig,  
 Ar wared i'r werin boenedig,  
 184 O'r Wryr aur wirion lathredig,  
 Ar weryd i'r byd, bendigedig—rad  
     A roed dduw Nadolig;  
 Can gwnaethost (nid cost cuddiedig)  
 188 Fi, Geli, yn golofnedig,  
 Eurdeg reg ragor deuddyblyg,  
 Ardwy rhwy rhwysg canmoliedig  
 Ardal mâl moliant Sain Syrig,  
 192 Ar Dy ddelw, Arddelw urddedig,  
 Celi, Naf pobloedd, ym celennig—deg:  
     Dwg fi i'r wlad ni ddiffyg!  
  
 Molaf, arwyraf ar eirau—prydiad  
 196 Mawr Dad y Mab Rhad, mad amodau;  
 Molaf hefyd, bryd brodiau—diadnair,  
     Un Mab Mair ddiwair o'r Gair gorau;  
 Molaf yn ffraethaf, yn ffrwythau—'r hollfyd,  
 200 Y Glân Ysbryd, pryd priod wyrthau.  
 Mor un Duw a dyn, doniau—credadun,  
     Un a Thri dëun, Athro diau.

- Mor undad, un rhad, un rheidiau—purffawd,  
 204 Mor un frawd, un gnawd y'n gwneid ninnau!  
 Mawr Greawdr, Brynawdr ar brennau—gloywGroes  
 Pumoos o bumloes o lys angau,  
 Myfi, fy Rhi Tri, trwy nerthau—fy Naf,  
 208 A dyngedfennaf bob anafau  
 O awyr diwyr a dehau—ddaeaf  
 Ac uffern farwar, bâr berw byllau,  
 A'i chas a'i chwmpas a'i chwypau—medd-dawd  
 212 A phechawd y cnawd, cnwd anaelau,  
 A'i brad a'i rhediad a'i rhwydau—duon  
 A'i hir eisyngion a'i harsangau,  
 Hyd na allont ym am fy nghanau—wedd  
 216 Neb rhyw argywedd, dyedd diau.  
 Trwy gyffes, trwy les, trwy leisau—heddwch,  
 Trwy edifeirwch rhag llwch llychau,  
 Trwy'r Tad a'r Mab Rhad, ein rheidiau—hyfryd,  
 220 Trwy'r Glân Ysbryd, pryd priod wyrthau,  
 Trwy ddiwair loywFair, alafau—eglur,  
 A fu em antur, Ei fam yntau,  
 Trwy'r engylion llon, lluniau—aur nawtawdd,  
 224 Ni syrthawdd i'r clawdd, i'r clafdyau,  
 Trwy'r ebystyl rhwy, rhwydd bregethwyr—llon,  
 Trwy'r archengylion, dirion dyrau,  
 Trwy'r proffwydi, Rhi rhieddau—ddysgaid,  
 228 Trwy yr henafiaid, blaid y blodau,  
 Trwy y pedwar gwâr (gwiriodau—rhagor)  
 Angelystor côr caer y sygnau,  
 Trwy Ieuan, Galan golau—ei gyflwr,  
 232 Fedyddiwr y Gŵr a'n gŵyr ninnau,  
 Trwy arwydd gloeswydd, trwy eglwysau—'r ffydd,  
 Trwy fedydd cynnydd cyn no beddau,  
 Trwy ffydd, trwy laswydd, trwy leisau—rhinwedd,  
 236 Trwy wedd ffair annedd efferennau,  
 Trwy hindda fawrdda, fyrddau—diledrith,  
 Trwy wenith, trwy wlith, rhith anrheithiau,  
 Trwy wyn, trwy wenyn, trwy winau—winbwys,  
 240 Trwy baradwys lwys, lais organau,  
 Trwy faint Ei loywfraint a'i lyfrau—cyfa  
 A wna y bara yn bur gorffau,  
 Trwy'r gred, trwy'r giried, trwy'r geirau—Lladin  
 244 A wna'r gwaed o'r gwin, rhin ein Rhiau,



- Trwy Dy farn gadarn a'th gadau—Ddyddbrawd,  
 Trwy Dy briawd ffawd, nawd eneidiau,  
 248 Trwy fy Rhwyf y bwyf heb efynnau—diawl,  
 Trwy eiriawl y sawl ar sail gynnuau,  
 Cartrefaf, trefnaf trafneau—goleuni  
 Trwy foli fy Rhi tra fwyf innau.
- Nid oes, hael Iesu, ni bu, ni bydd  
 252 (Digas dadlau yw) Dy gystedlydd,  
 Neirthiad gwiwrediad, Gwaredydd—pumoes  
 O drymloes eurGroes, irgrau arwydd.  
 Angau a derfyn i ddyn ei ddydd:  
 256 Angar fydd galar wrth ei gilydd.  
 Angen gyfrwyn gŵyn yn ei gynnydd—balch,  
 Mal hoedllhudog walch i ehedydd.  
 Erglyw fi, fy Nêr uwch sêr ysydd,  
 260 Eurglo *in caelo* medd seilm Dafydd,  
 Argleidriad trefnad trafrn broydd—gwynfyd,  
 A'm try o gywyd i'm Tragywydd.  
 Ein Crair wyd, Fab Mair, morach gynnydd,  
 264 A'n llawen Awdur a'n Lluniedydd;  
 Ein Nen a'n Perchen, parch llonydd—parod,  
 A'n dehau ddefod a'n Duw Ddofydd,  
 Ein Nêr, rhaid hyder, a'n rhad dedwydd,  
 268 Iôn gwrol ewybr, a'n gwir Lywydd,  
 Ein Tad union rhad a'n rhyidd—didrist,  
 Eurloyw Iesu Grist ar luosydd.  
 N'ad na thwyll na brad ar Dy brydydd,  
 272 N'ad freg (wyd wiwdeg!) ar Dy wewdydd,  
 N'ad anghallter, Nêr, yn nydd—ym creifiaint,  
 Na digio y saint, yn deg ysydd.  
 Eisioes nid oes nos na diddos dydd,  
 276 *Alpha*, hebod, clod clo llu bedydd,  
 Un a Thri a Rhi a rhybudd—a rhad  
 A Thad digroniad, Dy gerennydd!

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 322<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 160<sup>v</sup> C—J 111, 1213 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 92<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 232<sup>r</sup> F—Llst 133, 273<sup>v</sup> [= rhif 821] G—Llst 145, 16<sup>r</sup> [= rhif 32] H—Llst 147, 88<sup>r</sup> I—Pen 118, 89

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 aergledyr. 6 keithyaled. 8 eil awed. 12 gorhoffded. 25 morgymlad. 29 glassu yr. 45 munaŵc. 49 gryssyeu golleat (*ychwanegwyd yr a*). 53 bop. 64 y lles y lles. 108 barnu yr. 128 6r da. 148 ehang olut y hengylyon. 154 llethyrwaŵt. 155 eurdar. 157 gwyndyt. 177 yno (*ychwanegodd llaw ddiweddarach lythyren, t yn ôl pob tebyg, ar ei ôl*). 187 kynn. 199 ffrŷytheu yr. 214 aharsangeu (*cywiriad: ae harsangeu*). 228 trŷy henafyeit. 233 yr ffyd. 234 anreitheu (*cywiriad: anreithyeu*). 256 aggard. 261 argleidyat. 275 ayssyoes.

*Awdlau i Dduw*

- [O] Arglwydd hael a rydd inni dangnefedd,  
 Awdurdod rhagorol gwlad [y] cymod urddasol,  
 Gwrandawa arnaf, yr wyt yn Frenin [ar] bob rhinwedd,  
 4 Cynheiliad Pedr, ymwrthodaf â'm hanlladrwydd!  
 Arglwydd clodfawr byd [a] brenhinoedd,  
 Anwylyd gwych [yn amddiffyn] rhag diffeithwch [y] rhai caeth,  
 Os cefaist artaith aruthrol
- 8 A phoen o amllder trallod,  
 Yn prynu o'r pren a'r bedd dwfn,  
 Paid â bod, paid â meddwl am fy ngwrthod,  
 Na foed dicter gan Arglwydd [y] brenhinoedd,  
 12 Paid ag atal, [Un a'th] awdurdod [yn destun] ymfrost,  
 Dy daliad prynedigol ar fy rhan, Arglwydd Nasareth!  
 Os cerais bechod a chamwedd  
 A phechod gyda gordderchwagedd
- 16 A dwyn trais ar ddyinion gwan ac ar Dy ogoniant [Di],  
 A thrysor a ffeidd-dra treisgar  
 A thorri fy ngair â balchder,  
 Heb buro [fy] meddwl balch [llawn] ffolineb
- 20 O gam lw a chasineb mynych,  
 Ac ymlenwi â dicter anghyfiawn rhyfeddol,  
 A [dilyn] llwybr anghyfiawn tra arferol afradlonedd  
 Ac ymdrybaeddiad mewn drygioni [llawn] oferedd
- 24 Ac [yn] ffos flaen pechod,  
 A dilyn llifeiriant chwerwedd,  
 Cyn ymwisgo ym mantell [y] bedd o garreg,  
 Cyn gwisg tudedd [y] ddaear sy'n cuddio rhwysg,
- 28 Cyn trigfan chwerw [yr] arch o dderw ir [lawn] cyni gofidus,  
 Cyn poenau, cyn i'r dannedd fynd yn llwyd,  
 Cyn pridd glas ffres [y] diwedd,  
 Cyn [y] llawr wedi ei baratoi, cyn [y] neuadd chwerw,
- 32 Cyn angau ffyrnig [y] saith troedfedd hirfaith a phoenus,  
 Arweinydd hael ffyddlon [y] môr [a'r] tiroedd,  
 Arglwydd gwlad [y] de a[r] gogledd,  
 Gweddïaf, [Un a chennyf] olud hardd teilwng,
- 36 Y byddaf mewn trugaredd dedwydd  
 Yn Dy wlad fendigaid, yn Dy lys lle y gwallofir gwin,  
 Yn Dy winllan, yn Dy drigfan [sy'n] llys fendigaid,  
 Arglwydd [y] bobl, y Meddyg sy'n ein rheoli,
- 40 Yn Dy wlad fendigaid, Arglwydd, yn Dy wledd o win!

- Dyrchafaf Arglwydd a Phennaeth [yr] angylion,  
 Arglwydd clodfawr trugarog cadarn [y] rhai pur,  
 Moliant dedwydd [yn ôl] awdurdod cyfiawnder [y] galon,  
 44 Dyrchefir moliant [i] fendith [Ei] ffyddlondeb,  
 Un ysblennydd a phendefigaidd, Pennaeth gwlad y deg urdd,  
 Arglwydd hael, Rhoddwr, Tad gwir trugaredd.  
 Ef a'n gwnaeth o [afael] darparwr blinder caethiwus y caethion  
 48 Yn rhydd, bu'n ufudd drwy gadernid ffydd;  
 Rhoddodd Ef ar [y] Groes, cyrcher [y] fendith/[yr] afiaith [a ddaw  
 o'r] rhwyg/twyll,  
 Ei waed i lifo, melys fu[r] gofid;  
 Y mae Ef yn dirmygu llanw llugoer [yr] eigion nwyfus,  
 52 Ef a greodd drai a llanw ar draeth;  
 Ef a greodd [y] bwriad [sy'n ysgogi] pob arfer perffaith  
 A phob un peth, [ceir] taliad lle y cenir [amdano]:  
 Dyn dewr o ddŵr, ysblander pur [y] ddaear,  
 56 Ac o'r un natur â than pan gyneuir ef,  
 Ac [o] rywogaeth [yr] awyr i gyd, yn ôl ardderchogrwydd ffydd,  
 A wnaeth [yr] Arglwydd, ac nid yn ofer!  
 A Duw yw f'Arweinydd, lle y mae doethineb mawr,  
 60 Ac wyneb daear [yr] Arglwydd, moliant a haedda:  
 Adar gwyllt a dof, barnau [o] wir ddoethineb,  
 Wybren, eigion, afonydd, arwyddion y Sodiad a[r] sêr.  
 Yn y lle y bu [unwaith] yn meddu ar fudd noddfa [llawn] llawenydd,  
 64 Ac yn y lle y collodd y lles helaeth [wedyn],  
 Boed i [un] dwfn [ei] ffydd gredu nad oes gwir gryfder  
 Na nerth di-baid gwych (boed i ble gael ei gefnogi!),  
 Nad oes hebddo [sc. Duw] ([ceir] prawf lle y profir [Ei] rasmusau)  
 68 Ddiwedd na dechrau, ymadroddion melys,  
 Nad oes gras na daioni (anelwn at amser dedwyddwch!)  
 Heblaw Brenin Tri [Pherson y] Drindod, [a chanddo] wychder [sy'n  
 ennyn] mawl aruthrol.  
 Gwae'r sawl sy'n ymddiried ym mywyd bro breuoldeb,  
 72 Gwae'r sawl sy'n cyflawni trosedd yn y lle y'i gormesir [ef ei hun  
 wedyn],  
 Gwae ef, [O] Arglwydd hael, yn y lle y rhoddir gwrthodiad,  
 Gwae ef [y] dyn cwbl seithug sy'n meithrin rhyfyg.  
 Unwedd [ei] hawl ddiffygiol, terfyn [o] fyrder twyllodrus,  
 76 Yw einioes dyn, taith [o] lafur dwys,  
 Ag adeilad [llawn] twyll [a greir gan] druenusrwydd meddwl [y]  
 ddrudwen  
 Â'r dail o ochr y bedw, ni chaiff ei arbed,  
 Neu hydd [ar] amser canol dydd ar lethr esgair craig lithrig,

- 80 Neu eog a'i gefn yng nghwrs tryfer.  
 Rhag erledigaeth hirfaith [a] chostus prawf gostyngeddwydd [y]  
 meddwl,  
 Bydd Brenin y byd yn rhoi imi ddysgeidiaeth a doethineb;  
 Boed imi gael yn helaeth, f' Arglwydd, gwrs [sy'n arwain at]  
 lawenydd heddwch
- 84 Cyn bedd [y] saith troedfedd a golwg [lawn] gwendid,  
 [Sef y] rhagoriaeth [a ddaw o] rwym cyngor pynciau *Paternoster*  
 Crist,  
 Rhoddion dedwydd [y] Cynheiliad lle y tystir [iddynt].  
 Boed i[r] Arglwydd fy ngwneud yn rhydd o gwmp [llawn] twyll,
- 88 Arglwydd hael ffyniannus, [yn llawn] parodrwydd [i dderbyn] cais,  
 Arglwydd clerigaeth trigfan ddisglair [y] nef, Arglwydd dwyfoldeb  
 melys,  
 Rhodd ddi-fai deg ei natur, a'n Duw ni.
- Arglwydd Dduw [yr] uchelfannau gwych a disglair, gwranda,wa,  
 92 Arglwydd llanw a thrai, ar rai o'n hanghenion,  
 Arglwydd rhuthr ffyrnig [y] gwynt a cheryntoedd gwyllt [y] môr,  
 Mawr yw Dy ras a'th wyrthiau;  
 Arglwydd disgleirdeb [y] sêr a[r] Sodiad,
- 96 Arglwydd creaduriaid gwyllt a dof, Un diamau[r] ddaear,  
 Arglwydd trigfan fendigaidd [y] nef, terfynau wybren [y] Pennaeth,  
 [Ffynhonnell] gobaith [y rhai ac iddynt] amcanion graslon;  
 Arglwydd môr a thir, gwarant gwaredigaethau,
- 100 Arglwydd nos a dydd, [ffynhonnell] ffyniant [i] luoedd,  
 Arglwydd terfyn dyn, bendithion goruchaf  
 [Y] llochesau goruchel;  
 Tydi a aned, [Un a chennyt] greiriau ffydd [sy'n cynnig] ffafr,
- 104 O Fair, Air rhagorol ffyddlon, y forwyn fawr orau;  
 Tydi sy'n teynasu fry dros freiniau ysbrydol  
 Ysbrydoedd [y] gweddïau;  
 Ti a ddaw ar Ddydd y Farn, cyfarfod gwych,
- 108 Er mwyn barnu'r tri llu, ystyriaethau trylwyr iawn;  
 Ti, Fab Mair, yw Anwylyd creaduriaid, [O] Dduw,  
 Heb ddiwedd, heb ddechrau;  
 Tydi, Arglwydd llawen llên a llyfrau,
- 112 A werthwyd yn ddybryd unwaith oherwydd [Dy] wyrthiau digonol  
 Er mwyn deg ar hugain (y byd teg, bu'n eiddo i Ti!)  
 O ?ddarnau disglair;  
 Tydi, Arglwydd hael rhinweddau ar bob awr,
- 116 A roddwyd dan [y] ddaear, [Un a chennyt] fwriadau mawr;  
 Tydi, Dduw, wedyn ([testun] moliannau[r] meddwl ydwyt),

- A esgynnaist i'th urddau.  
 Oherwydd hyn, Arglwydd pob gwlad, Amddiffynnydd eneidiau  
 120 Wrth feibion dynion, Arglwydd [yr] arglwyddi,  
 Lliniara lid Dy aelodau i mi, f' Arglwydd,  
 Mynych rymoedd graslon.  
 Os cyflawnsom bechodau, Arglwydd rhagorol byw,  
 124 A drygioni beius a chamweddau,  
 Dewin cadarn, Brenin urddasol [y] seintiau,  
 Paid â rhoi Dy ddieter arnom oherwydd [ein] tramgwyddau drwg;  
 Oherwydd Dy boen [lawn] gofid, oherwydd Dy hoelion,  
 128 Oherwydd Dy goron ddrain, Wrda tra daionus,  
 Rho saib i ni, fy Mrenin, [a chennyt] rinweddau[r] dystiolaeth,  
 Rhag dolur tost angau!
- Amddiffynnydd brenhinol doeth [a] dewiniol,  
 132 Cyfaill gorllewinol, Arweinydd cyfiawn,  
 Llywydd [y] rhanbarthau hyd at [y] meddiannau,  
 Pennaeth gwy ch mintoedd, Llywodraethwr rhai teg,  
 Llafuria'n llym, paid â'm clwyfo,  
 136 Paid â[m] penydio, [Un a chennyt] iaith ddwys hyfryd!  
 Lle cymod di-nam  
 Yn nhrugaredd ein Brenin di-fai,  
 Lle llawen a rhydd, llys [i] luoedd,  
 140 Lle Un sy'n dangos Lladin persain,  
 Lle mawreddog dibechod,  
 Lle trugarog llu[r] rhai pur,  
 Lle dymunol llu[r] merched,  
 144 Trysorau[r] Arglwydd, morynion diwair,  
 Lle mwyaf nefolaidd a mwyaf cyfiawn  
 Duw dibryderon a ganmolaf,  
 Lle canmoliaeth, gwlad fawr moliant,  
 148 Cyfoeth helaeth i angylion.  
 Llid a chasinebau ym mhob lle  
 I f'anfantais (blysiion Efa!),  
 Peri edwino llawer, poenydio llym,  
 152 Dinistrio llu, lladdfa ffôl.  
 Gwarant Arglwydd [y] wlad [i] luoedd [a chanddynt] drysor,  
 Cyfeillion disglair eu mawl, yw[r Un sy'n gwisgo] coron yn llifo  
 gan waed.
- Amddiffynnwr rhagorol [y] gangell [a chennyt] urddas coeth,  
 156 Cyfaill cytundeb perffaith yn ôl barn pawb,  
 Cynheiliad llu dedwydd, Pennaeth [y] wlad fendigaid,

- Arglwydd urddasol caer wych a disglair [y nef],  
 Creawdwr, Ymerawdwr môr, tonnau a thir  
 160 A therfyn ansicr [yr] wybren;  
 Cyn mynd i'r bedd hiroediog o garreg,  
 Cyn [y] gwely [a'i] waelod llawn cynrhon,  
 Cyn gweld [y] guddfan nychlyd,  
 164 Boed imi gael, Grist, fy malchder, fy hyder drwy Dy wlad  
 A thrwy Dy wledd na fydd yn darfod [byth]!  
 Cyn i[r] pum synnwyr rhesymol ballu,  
 Cyn [y] pwll dwfn [sy'n achosi] methiant truenus [i] anrhydedd,  
 168 Cyn rhoi ar brawf gan y cynrhon ffyrnig  
 [Fy] mhechodau, sarhadau [llawn] dirmyg,  
 Arglwydd hael, boed imi fod yn annwyl fry  
 Yn y wlad ddethol.  
 172 Er mwyn Dy Groes a'r boen drywanol  
 A'r hoelion, bu'n ofidus,  
 A'r waywffon a'r gwaed llithrig  
 A'r galon, uchafbwynt amlwg [Dy] fron ddisglair,  
 176 A gwaelod y bedd (yr wyt yn Arglwydd ffrwythlon)  
 A'th eni (aeth i mewn i Ti lle yr erys;  
 Os cefaist Dy eni, ni fu'n daith unig),  
 A'th daith, Arglwydd hael, Pennaeth [y mae Dy] rodd wedi ei  
 phrofi  
 180 Ac Un dymunol [y] nef,  
 Ar gyfer [rhoi] gwaredigaeth o dynged ddiysgog,  
 Ar gyfer [bod yn] warrant [i] Efa, bechadurus [ei] disgynyddion,  
 Ar gyfer [dod â] gwaredigaeth i'r werin boenedig,  
 184 O'r Forwyn goeth bur ddisglair,  
 Ar gyfer [dod â] gwaredigaeth i'r byd, gras bendigaid  
 A roddwyd ar ddydd Nadolig;  
 Oherwydd gwnaethost (nid trafferth a guddiwyd)  
 188 Fi, Arglwydd, yn gadarn,  
 [Un a chennyt] ragoriaeth ddauddyblyg rhodd wych a theg,  
 Cynhaliath helaeth [ag] awdurdod canmoladwy  
 [Y] fro [sy'n ennill] teyrnged moliant Syrig Sant,  
 192 Ar Dy ddelw, Gwarantwr urddasol,  
 Arglwydd, Pennaeth [y] bobloedd, [rho] imi anrheg deg:  
 Cymer fi i'r wlad na fydd yn darfod [byth]!  
  
 Canmolaf, dyrchafaf ar eiriau barddoniaeth  
 196 Dad mawr Mab y Gras, da [Ei] gytundebau;  
 Canmolaf hefyd, [Un a'i] feddwl [yn gwneud] barnau di-fai,  
 Unig Fab Mair ddiwair [a genhedlwyd] o'r Gair gorau;

- 200 Canmolaf yn huotlaf, fel ffrwythau'r byd i gyd,  
 Yr Ysbryd Glân, ffurf [o] wyrthiau teilwng.  
 Mor gyfunedig [ynddo] yw Duw a dyn, [ffynhonnell] bendithion  
 ffyddlon,  
 Un a Thri unfryd, Athro diamau.  
 [Yr un] mor unol ein tad, [yr un mor] unol [ein] gras, [yr un mor]  
 unol [ein] hymborth pur ei fendith,  
 204 [Yr un] mor unol [ein] brawd, [yr un mor] unol [ein] cnawd y'n  
 gwneid ninnau!  
 Creawdwr mawr, Prynwr ar brennau[r] Groes ddisglair  
 [Y] pum oes o lys angau drwy [Dy] bum clwyf,  
 Yr ydwyf fi, fy Mrenin [mewn] Tri [Pherson], trwy nerthoedd  
 f' Arglwydd,  
 208 Yn siarsio pob niwed  
 O[r] awyr diduedd a[r] ddaear gywir  
 A marwor uffern, cynddaredd pyllau berwedig,  
 A'i chasineb a'i hamgylchedd a'i thramgwyddau [drwy] fedd-dod  
 212 A phechod y cnawd, [sy'n meithrin] cnwd [o] gystudd,  
 A'i thwyll a'i hynt a'i rhwydau du  
 A'i phangfeydd hirfaith i'r fron a'i swynion,  
 Fel na allant wneud imi oherwydd fy null [llawn] camweddu  
 216 Unrhyw fath o gam, cyni diamau.  
 Trwy gyffes, trwy fendith, trwy leisiau [yn ymbil am] dangnefedd,  
 Trwy edifeirwch rhag ofn budreddi corysudd [uffern],  
 Trwy'r Tad a Mab y Gras, ein hymborth hyfryd,  
 220 Trwy'r Glân Ysbryd, ffurf [o] wyrthiau teilwng,  
 Trwy Fair ddisglair ddiwair, [a chanddi] drysorau amlwg,  
 A fu'n em [o ran ei] gorchest, Ei fam yntau,  
 Trwy'r angylion llawen, lluniau [o] aur a doddwyd naw o weithiau,  
 224 Na syrthiodd i'r pwll, i'r claf dai,  
 Trwy'r apostolion gorchestol, pregethwyr rhugl llawen,  
 Trwy'r archangylion, amddiffynnwyr mwyn,  
 Trwy'r proffwydi, [sy'n rhoi] dysg [am] Frenin [y] gogoniannau,  
 228 Trwy'r hynafiaid, carfan y goreuon,  
 Trwy'r pedwar (diodydd [llawn] rhagoriaeth)  
 Efenglydd mwyn llys caer y sêr,  
 Trwy Ieuan, dydd Calan disglair ei ansawdd,  
 232 Fedyddiwr y Gŵr sy'n ein hadnabod ninnau,  
 Trwy arwydd prennau'r boen, trwy eglwysi'r ffydd,  
 Trwy [gymryd] bedydd [yn cynnig] ffyniant cyn [mynd i] feddau,  
 Trwy ffydd, trwy goed gwyrdd, trwy leisiau [llawn] rhinwedd,  
 236 Trwy agwedd trigfan ddisglair offerennau,  
 Trwy dywydd teg gwych iawn, byrddau diledrith,



- Trwy wenith, trwy wlith, llun trysorau,  
 Trwy ddyhead, trwy wenyn, trwy lwyth o win cochddu,  
 240 Trwy baradwys hardd, llais organau,  
 Trwy helaethder Ei fraint ddisglair a'i lyfrau diddiffyg  
 Sy'n troi'r bara yn gyrff dilychwin,  
 Trwy'r ffydd, trwy'r haelioni, trwy'r geiriau Lladin  
 244 Sy'n gwneud y gwaed o'r gwin, dirgelwch ein Brenin,  
 Trwy Dy farn gadarn a'th luoedd ar Ddydd y Farn,  
 Trwy Dy briod fendith, [Un sy'n] gynneddf [i] eneidiau,  
 Trwy f'Arglwydd y boed imi fod heb hualau[r] diafol,  
 248 Trwy eiriolaeth y rhai [sydd] ar [y] sylfaen ?disglair,  
 Cartrefaf, paratoaf [ar fy nghyfer] siambrau [llawn] goleuni  
 Trwy ganmol fy Mrenin tra byddaf innau [fyw].
- Nid oes, Iesu hael, ni fu, ni fydd  
 252 (Dadl addfwyn ydyw [dweud hyn]) neb tebyg i Ti,  
 Atgyfnerthwr teilwng Dy gwrs, Gwardwr [y] pum oes  
 Drwy boen ddwys [y] Groes wych, arwydd [dan orchudd o] waed  
 ffres.
- Y mae marwolaeth yn rhoi terfyn i ddyn ar ei einioes:  
 256 Creulon fydd [y] galar [amdano] i'w gydymaith.  
 Cwyn trist [yn sgil] gorfodaeth ymysg ei [holl] ffyniant balch,  
 Fel gwalch llofruddiog i ehedydd.
- Gwrandawa arnaf, f'Arglwydd sydd uwchben y sêr,  
 260 Awdurdod rhagorol yn [y] nef ys dywed salmau Dafydd,  
 Cynheiliad cyfundrefn trigfan gwledydd [y] dedwyddwch,  
 A fydd yn fy nhroi oddi wrth [fy] mhechod i fy Nuw tragwyddol.  
 Ein Hanwylyd wyt [Ti], Fab Mair, [ein] ffyniant llon,  
 264 A'n Creawdwr llawen a'n Lluniwr;  
 Ein Pennaeth a'n Harglwydd, [testun] parch heddychol parod,  
 A [ffynhonnell] ein moes weddus a'n Harglwydd Dduw,  
 Ein Harweinydd, [sy'n cynnig] hyder [mewn] anghenraid, a  
 [ffynhonnell] ein gras dedwydd,
- 268 Pennaeth gwrol eglur, a'n gwir Lywodraethwr,  
 Ein Tad diwyro [Ei] ras a'n gogoniant gwynfydedig,  
 Iesu Grist disglair a rhagorol [sy'n bennaeth] ar luoedd.  
 Paid â chaniatáu na thwyll na brad yn erbyn Dy fardd,  
 272 Paid â chaniatáu nam (yr wyt yn wych a theg!) ar Dy foliannydd,  
 Paid â chaniatáu ffolineb [imi], Arglwydd, [boed] imi faddeuant yn  
 nydd [fy marwolaeth],  
 Na [chaniatáu imi] ddigio'r seintiau, [y rhai] sy'n deg.  
 Pa fodd bynnag nid oes nos na dydd cysurus,

- 276 *Alpha*, hebot, [Un sy'n destun] clod [fel] Amddiffynnwr llu[r] rhai  
bedyddiedig,  
Un a Thri a Brenin a rhybudd—a gras  
A Thad hael, [boed imi gael] Dy gymod!

*Englynion y Sul*

- 4 Duw Sul, Eurlyw byw, bwyaid—arwyrain,  
O riain gain gannaid  
(Uthrwedd anrhydedd yn rhaid)  
Y'th aned, Benrhaith enaid.
- 8 Duw Sul, rhad ieithfad, y'th fedyddiwyd,—Naf,  
Nef a daear Broffwyd,  
Mawliaith Iôr, mal y'th eurwyd:  
Mab y Wryr Fair o air wyd.
- 12 Duw Sul, Eurgrair Mair, mawredd—y doethion,  
Y doethost, Lyw Nasaredd,  
Gwerthefin Ddâr trugaredd,  
Gwyrthfawr Iôr buddfawr, o'r bedd.
- 16 Disalw Nêr, Duwsul i nef,  
Deg eiddun, y dug Addaf  
O drais gŵyn, o draws gynnif,  
O dramgwydd uffern drymgof.
- 20 Duwsul, Un eiddun addef,—y creodd  
Creawdr rhad a thangnef,  
'Y Nglain hydr, yng nglyn hoywdref,  
'Y nglân Air, engylion nef.
- 24 Duwsul, deg anrheg unrhin,—o gariad,  
Y gorug nef Ddewin,  
Dwywawl wawl waisg fraisg Frenin,  
Di-furn waith, y dwfr yn win.
- 28 Duwsul, Arglwydd rhwydd, Rhoddiad,—dug Foesen  
O deg fesur cariad,  
O loes raid, o lwys rediad,  
A'i lu o'r Aifft o lwyr rad.
- Doeth manna, *Alpha*, eilffawd Rhên,—o nef,  
Yn rhaid nifer Moesen,

32 Duw Sul, Duw gwir gorawen,  
Saint braint Brynawdr, Llywiauwr Llên.

36 O'r pumtorth, hawddborth heiddbal,  
A'r ddeubysg, Iôr oedd ddibwl,  
Rhyborthes *meus Deus* Duwsul,  
Rhadau heb amau, bumil.

40 Duwsul, goeth y doeth, deithwir—adeiliad,  
Gwedy dilyw dyhir,  
Fudd rad gan gawad gywir,  
Fodd reg, falch Noe deg i dir.

44 Dâr nef a daear, diagr briawd—ddawn,  
Dôr eigiawn, ffynnawn ffawd,  
Dwys olwg Ri Tri Trindawd,  
Duwsul y bydd brwydrddydd Brawd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 98<sup>r</sup> B—BL Add 15004, 7<sup>v</sup> C—J 111, 1219 D—LIGC 2002C [= Pant 33], 149 E—LIGC 4973B, 146<sup>r</sup> F—Llst 133, 270<sup>v</sup> [= rhif 815] G<sup>1</sup>—Llst 145, 21<sup>r</sup> [= rhif 41], G<sup>2</sup>—Llst 145, 38<sup>r</sup> [= rhif 117] H—Llst 147, 95<sup>r</sup> I—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 85<sup>r</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 byŷeit. 24 dyfôr.

*Teitl*

eglynyon ysul.

*Englynion y Sul*

- Ar ddydd Sul, Arglwydd rhagorol byw, [testun] moliant salm,  
O forwyn hardd ddisglair  
(Un ofnadwy Dy olwg [yn haeddu] anrhydedd mewn angen)  
4 Y'th aned, Arglwydd [yr] enaid.
- Ar ddydd Sul, [Un a chennyt] ras dedwydd y sôn amdano, y'th  
fedyddiwyd, Arglwydd,  
Proffwyd nef a daear,  
Arglwydd moliannus y sôn amdanat, fel y'th anrhydeddwyd:  
8 Mab y Forwyn Fair drwy air ydwyd [Ti].
- Ar ddydd Sul, Anwylyd rhagorol Mair, ysblander y gwŷr doeth,  
Y daethost, Bennaeth Nasareth,  
Arglwydd goruchaf trugaredd,  
12 Arglwydd grymus buddfawr, o'r bedd.
- [Yr] Arglwydd gwych, ar ddydd Sul i[r] nef,  
Dymuniad teg, y cymerodd [Ef] Adda  
O gŵyn treisgar, o drallod gormesol,  
16 O dramgwydd uffern drist y meddwl amdani.
- Ar ddydd Sul, Un dymunol [Ei] drigfan, y creodd  
Creawdwr gras a thangnefedd,  
F'Anwylyd gwych, yng nglyn trigfan lawen [y nef],  
20 Fy Ngair glân, angylion [y] nef.
- Ar ddydd Sul, rhodd deg o'r un rhinwedd, drwy gariad,  
Y gwnaeth Dewin [y] nef,  
Brenin cadarn gwych dwyfol [Ei] lewyrch,  
24 Gwaith diddichell, y dŵr yn win.
- Ar ddydd Sul, [yr] Arglwydd hael, Rhoddwr, arweiniodd [Ef] Foses  
Drwy fesur teg o gariad,  
Allan o galedi [llawn] cystudd, drwy gwrs hardd,  
28 A'i lu o'r Aifft drwy ras cyflawn.
- Daeth manna, Dduw, ail fendith [yr] Arglwydd, o[r] nef,  
Yn ystod cyfyngder mintai Moses,  
Ar ddydd Sul, Duw ffyddlon llawen,  
32 Prynwr [y] seintiau [a'u] braint, Arglwydd [yr] Ysgrythur.

O'r pum torth, cynhaliaeth rwydd [y] rhaw haidd,  
 A'r ddau bysgodyn, Arglwydd a oedd yn fedrus,  
 Y diwallodd fy Nuw ar ddydd Sul,  
 36 Bendithion heb amheuaeth, bum mil [o bobl].

Ar ddydd Sul, yn hardd y daeth, adeiladwaith ffyddlon [ei] daith,  
 Wedi[r] dilyw dybryd,  
 Bendith [lawn] budd gan chwa o wynt ffyddlon,  
 40 Rhodd [drwy] ewyllys da, arch deg Noa i dir.

Arglwydd nef a daear, gwych [a] chymwys [Dy] fendith,  
 Arglwydd [yr] eigion, ffynhonnell ffyniant,  
 Brenin dwys [Dy] olwg [a] Thri Pherson [y] Drindod,  
 44 Ar ddydd Sul y bydd dydd cythryblus [y] Farn.

*Englynion i Dduw*

- Dylyem (pwylllem cyn pell ynial—yng  
 Angau, ffrwyth yr afal!)  
 Dyfod i'n cof drwy ofal,  
 4 Geraint Duw goron, y tâl
- A roddaist, f' Arglwydd, ar oddau—mawredd,  
 Dros ein meirw bechodau:  
 Gwaed o'r fron doll archollau  
 8 I redeg o'r cnawd teg Tau.
- Mawr gywilydd fydd (na faddau!)—'n y gwnawn,  
 Yn enw y Gorau,  
 Gweled cur a doluriau,  
 12 Ddyddbrawd, y teilyng-gnawd Tau
- A'th ddelw â'th ddwylo ar lled:  
 Dy ddelw, pam nad addolid?  
 Erom truan a wryd  
 16 Erbyn gorwedd ym medd mud.  
 Arwydd Dy fawrboen irad;  
 Eres pam na wnawn erod.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 99<sup>r</sup> B—J 111, 1220 C—LIGC 4973B, 147<sup>r</sup> D—Llst 145, 38<sup>r</sup> [= rhif 117] E—Llst 147, 96<sup>r</sup> F—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffootostat yn LIGC 9048E], 85<sup>v</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 du6 (*gyda nod dileu yn inc y prif destun dan d a t wedi ei hychwanegu uwchben mewn inc goleuach*). 13 athel6 athwyla6.

*Englynion i Dduw*

Dylem fod dan ddyletswydd (hoffem ymbwylllo cyn cyni hirfaith  
gofidus

Marwolaeth, ffrwyth yr afal!)

[I beri] dyfod i'n cof gyda gofal,

4 [A ninnau'n] geraint [i] goron Duw, [y meddwl am] y taliad

A roddaist, f' Arglwydd, ar amcan [ennill] gogoniant,

Dros ein pechodau marwol:

[Sef] gwaed o'r clwyfau [yn y] fron dyllog

8 I redeg o Dy gnawd teg Di.

Bydd cywilydd mawr (nac ymwrthoda [â ni]!) lle y gwnawn,

Yn enw'r Un gorau,

Weld cur a chlwyfau,

12 Ar Ddydd y Farn, Dy gnawd teilwng Di

A'th ffurf gyda'th ddwylo ar led:

Dy ddelw, pam nad addolid [hi]?

Lledaeniad truenus y breichiau er ein mwyn,

16 Cyn gorwedd yn [y] bedd mud.

Arwydd [o]'th boen fawr dost;

Rhyfedd yw paham na wnawn [ei haddoli] er Dy fwyn.



*Englyn i Grist y Creawdwr*

Gwynt, tân, awyr llwyr, llawr daearfa—mwyn,  
Gwnaeth un Mab Maria:

Lleuad, dwfr, haul ni threula,

4 Gwyllt, gwâr, gwellt, gwÿdd, nos, dydd, da.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14984, 62<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 100<sup>v</sup> C—BL Add 15004, 9<sup>v</sup>  
D—J 111, 1330 E—LIGC 168C, 154 F—LIGC 2002C [=Pant 33], 152  
G—LIGC 4973B, 149<sup>v</sup> H—LIGC 6967B, 206 I—Llst 145, 41<sup>v</sup> [= rhif 128]  
J—Llst 147, 229<sup>r</sup> o'r cefn

Seiliwyd y golygiad ar destun D, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiâu eraill  
o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.  
Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Englyn i Grist y Creawdwr*

Gwynt, tân, [yr] awyr i gyd, wyneb tirion [y] ddaear,  
[Fe'u] gwnaeth unig Fab Mair:

[Y] lleuad, dŵr, [yr] haul nad yw'n pallu,

4 Creaduriaid gwyllt, creaduriaid dof, glaswellt, coed, nos, dydd,  
daioni.

*Englynion i Dduw*

- Nid arglwydd cyfrwydd cyfrwng nef—a llawr  
     Namyn Duw mawr, mawl dangnef;  
 4       Nid dogn gadarn farn farddlef,  
     Nid hael uthr afael eithr Ef.
- Nid hylwydd arglwydd eurglod cynghrair—nef,  
     Naf a llyw pob cyfair,  
 8       Uthr radlon gred, ced Cadair,  
     Athro, pebr bab, eithr Mab Mair.
- Nid hael herwydd pwyll a'm tyf,  
     Nid teg o addfwynbryd twf,  
 12      Nid cedol, uthr nefol Naf,  
     Nid cadarn neb, Cadair nef,
- Nid naf nef yr engylion,  
     Nid iôr môr, mawrddoeth frenin,  
 16      Nid arglwydd wybr, llwybr llawen,  
     Nid llyw tros fyd onid Un.
- Amlaf llewenydd amlwg  
     I'r rhai a'th gân, Dâr dinag,  
 20      Heb na diwedd, wledd Wledig,  
     Na dechrau, yw'r Tau, Iôr teg.
- Gwnaeth wledd hedd diwedd Duw byw—goruchaf,  
     Gwir gwplaf loywaf Lyw,  
 24      Heb dranc, heb dro, Clo clodryw,  
     Heb orffen, a Nen ynn yw.
- Credaf eni Rhi rheiddun  
     O Fair, gloyw Deÿrngrair glân,  
 28      A bod, oesoedd glod iesin,  
     Mair yn wry, morwyn wirion.
- Credaf eni Rhi Rhoddiad  
     O'th fru, Fair, o'r Gair heb gyd;

32                   Credaf, ddiwair Fair, dy fod  
Yn wry pan ddoeth ynn wared.

36                   Credwn fod Iôr, Pôr, Peryf  
Yn Fab gwry ddoeth goeth gynnif,  
Yn ddawn aur, yn ddeau Naf,  
Yn ddyn o Air, yn Dduw nef.

40                   Un a Thri cyfun, Athro cyfiawn—nef,  
Wyd Naf wybr ac eigiawn:  
Aur wirion gnawd, ffawd ffyddlawn,  
O'r wry deg ar wared iawn.

44                   Ni bu, nid oes, Groes greulif,  
Ni bydd, bodd ufydd Beryf,  
Breiniol Ei dyddyn cyn cof,  
Bron a thraed, brenin eithr Ef.

48                   Dyddbrawd, blas urddas Eurddar—bron hynwyf,  
Brenhinedd y ddaear  
A ostyngant, blant blaengar,  
Yt, Iôn irddrem, goron Gâr.

52                   Duw a'n prynawdd nawdd yn nydd arfoll—rhad,  
Er rhediad pum harcholl:  
Dawn o'i fro rhag tro trymgoll,  
Duw o nef biau'n dwyn oll.

56                   Nid cam cael o Hael dydd ydd holer—dyn  
Er dwyn cwbl o'i amser:  
Duw a'i rhoes, eurfoes arfer,  
Duw biau ef, doeth nef Nêr.

60                   Nid teilwng, Arglwydd, telaid,  
Trwy warafun (Tri Un wyd!),  
Dôr y nef (dyro ynn oed!),  
Dâr nen, Ben berth, werth Dy waed.

64                   Goful i ddyn ac ofer  
Gwarafun, destun dostur,  
I duedd nef a daear  
Ei bridwerth, Arglwydd brawdwir.

Dybryd oedd ei fyd a faeth—gwarafun  
 O'i wir ufydd Bennaeth;  
 Dinam Fab Gair, Fair famaeth,  
 68 Dwyn i nef dynion a wnaeth.

Iôr côr coeth, W'r doeth, er dwyn—a brynodd,  
 Arglwydd breiniol addfwyn  
 (Neud trafyn Bedr Bab Mab Morwyn),  
 72 Nid rhaid uchenaid na chwŷyn.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 175<sup>r</sup> B—J 111, 1330 C—LIGC 4973B, 253<sup>r</sup> D—Llst 133, 269<sup>r</sup> [= rhif 811] E—Llst 145, 40<sup>v</sup> [= rhif 124] F—Llst 147, 229<sup>r</sup> *o'r cefn* G—Pen 118, 120

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

### *Darlleniadau'r llawysgrif*

12 neb kadeir (*cywiriad mewn llaw ddiweddarach: eithr wedi ei ychwanegu rhwng neb a kadeir*). 37 kyfya6n n[ ] (*y llythrennau olaf yn annarllenadwy: nef yn ôl R*). 48 ior. 53 haeldyd (*ond y mae llinell unionsyth wedi ei hychwanegu rhwng hael a dyd fel petai i'w rhannu'n ddau air*). 66 oegoir. 70 brennya6l.

### *Teitl*

llyma englynion y du6 agant gruffud vab maredu. (*nod aneglur uwchben yr u*).

*Englynion i Dduw*

- Nid arglwydd hael rhwng [y] nef a[r] ddaear  
 Yw [neb] ac eithrio Duw mawr, [Ei] dangnefedd [yn destun]  
 moliant;
- 4 Nid [testun] cân [ar gyfrif ei] farn gadarn ddigonol,  
 Nid hael [ac] arswydus [ei] afael yw [neb] ac eithrio Ef.
- Nid arglwydd ffyniannus tra chlodfawr cyfamod [y] nef,  
 Pennaeth a llywodraethwr pob rhanbarth,  
 [Ffynhonnell] ffydd raslon aruthrol, rhodd [yr] Arglwydd,  
 8 Athro, pennaeth disglair yw [neb] ac eithrio Mab Mair.
- Nid hael o ran [dosrannu] pwyll sy'n peri imi ffynnu,  
 Nid teg o ran harddwch ffurf,  
 Nid hael, [O] Arglwydd nefol arswydus,  
 12 Nid cadarn yw unrhyw un, [O] Arglwydd y nef,
- Nid arglwydd nef yr angylion,  
 Nid arglwydd [y] môr, brenin mawr a doeth,  
 Nid arglwydd [yr] wybren, llwybr llawen,  
 16 Nid llywodraethwr dros [y] byd yw [neb] onid [yr] Un.
- [Y] llawenydd disglair helaethaf  
 I'r rhai sy'n Dy garu, Arglwydd dinacâd,  
 Heb na diwedd, Pennaeth [y] wledd,  
 20 Na dechrau, yw'r eiddot Ti, Arglwydd teg.
- Gwnaeth y Duw byw goruchaf wledd [o] heddwch [ar gyfer]  
 diwedd [dynion],  
 Y Llywodraethwr disgleiriaf [a] chyflawnaf yn wir,  
 Heb dranc, heb gyfnewidiad, Amddiffynnwr urddasol,  
 24 Heb orffen, ac Arglwydd i ni ydyw [Ef].
- Credaf fod [y] Brenin [llawn] budd wedi Ei eni  
 O Fair, Anwylyd brenhinol disglair [a] phur,  
 A bod, bri disglair [yr] oesoedd,  
 28 Mair yn ddiwair, morwyn ddibechod.
- Credaf fod [y] Brenin [a'r] Anrhegwr wedi Ei eni  
 O'th groth, Fair, o'r Gair heb gyfathrach rywiol;  
 Credaf, Fair ddiwair, dy fod  
 32 Yn forwyn pan ddaeth gwaredigaeth i ni.

Credwn fod [yr] Arglwydd, [y] Pennaeth, [y] Brenin  
 Yn Fab morwyn ddoeth wych [ei] gwewyr esgor,  
 Yn rhodd ragorol, yn Arglwydd cywir,  
 36 Yn ddyn o Air, yn Dduw[’r] nef.

Un a Thri [Pherson] unedig, Athro cyfiawn [y] nef,  
 Yr wyt yn Arglwydd [yr] wybren a[’r] eigion:  
 Cnawd dibechod rhagorol, bendith ffyddlon,  
 40 O’r forwyn deg ar gyfer gwardigaeth gyfiawn.

Ni fu, nid oes, Croes yn llifo gan waed,  
 Ni bydd, Arglwydd ufudd [Ei] ewyllys,  
 Urddasol oedd Ei drigfan [eisoes] cyn cof,  
 44 Bron a thraed, brenin ac eithrio Ef.

Ar Ddydd y Farn, mangre urddas [yr] Arglwydd rhagorol hoenus  
 [Ei] fron,  
 Bydd brenhinoedd y ddaear  
 Yn ymostwng, plant hy,  
 48 I Ti, Arglwydd diflino D’olwg, Cyfaill [yn gwisgo] coron.

Prynodd Duw nawdd inni ar ddydd [yr] addewid [o] ras,  
 Yn gyfnewid am lif [y gwaed o] bum clwyf:  
 Bendith o’i wlad [Ef] rhag anffawd [a fai’n peri] colled drom,  
 52 Duw o[’r] nef biau[’r hawl i]’n dwyn i gyd.

Nid anghyfiawn yw cael dydd gan [yr] Un hael pryd yr holir dyn  
 Yn gyfnewid am [gael] treulio’r cwbl o’i amser [ar y ddaear]:  
 Duw a’i rhoddodd [*sc.* yr amser], arfer rhagorol ei ddull,  
 56 Duw biau ef, Arglwydd doeth [y] nef.

Nid yw dyn hardd yn [dod yn] deilwng, Arglwydd,  
 Drwy wrthu (yr wyt yn Un ac yn Dri!),  
 [O] Arglwydd y nef (dyro seibiant i ni!),  
 60 Bennaeth [yr] wybren, Bendefig ysblennydd, gwerth Dy waed.

Ffôl ac ofer yw i ddyn  
 Wrthod, gresyni [drwy] watwar,  
 I barthau[’r] nef a[’r] ddaear  
 64 Ei daliad prynedigol, Arglwydd cywir Ei farn.

Erchyll ei fyd oedd [y sawl] a fagodd wrthodiad  
 I’w Bennaeth gwir ewyllysgar;

68 Mab di-fai [y] Gair, [a] Mair [yn] fam [iddo],  
Dwyn dynion i[r] nef a wnaeth [Ef].

Arglwydd llys hardd, Gŵr doeth, am [iddo] ddwyn y sawl a  
brynodd [Ef],  
Arglwydd breiniol mwyn  
72 (Mab [y] Forwyn yw Arglwydd Pedr [y] pennaeth),  
Nid yw ochenaid na chŵyn yn angenrheidiol.

*Englynion Gwynedd*

4 Na wna, Iôr nen, wen Wynedd,  
Ddaear ffraeth, yn dduoer ffridd,  
Deon awr deunawradd,  
Duw o nef, Dewin ufydd.

8 Na wna, Grair Mair mireinglod,  
Wynedd windydwedd wendud  
(Un a Thri wyd ynn o'th rad),  
Iawnder saint, yn dir asêd.

12 Na wna, Dad, Llyw mad, lle mae geirdd—canwledd,  
Llawr Gwynedd, harddedd heirdd,  
O bla dygn am blwy digeirdd,  
Yn blas o draeth bas, dreth beirdd.

16 Na wna Wynedd fonheddig  
Yn waeth no newidlong wag,  
Gwâr Grair a gymerth gwir Grog,  
Gwirion Dad, o'i gwerin deg.

20 I ddiffryd, hwyrwyd hirwyrth,  
(Mur nef gyd â Mair fy nerth!)  
Gwawr ffydd, oni bydd Dy borth,  
Gwae ni, Dduw, Gwynedd ddiwarth!

24 Nawdd yr a'n prynawdd o'r pren—dioddef,  
A thangnef Iôr, nef Nen,  
O'r Gair heb gyd, byd Berchen,  
Y Gŵr a fedd Wynedd wen!

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 100<sup>r</sup> B—J 111, 1331 C—LIGC 4973B, 149<sup>r</sup> D—Llst  
147, 231<sup>r</sup> o'r *cefn*

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiau eraill  
o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.  
Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.



*Darlleniadau'r llawysgrif*  
3 deu na6 rad. 8 ra6nder.

*Teitl*  
llyma englynyon g6yned.

*Englynion Gwynedd*

- Paid â gwneud, [O] Arglwydd [yr] wybren, Gwynedd ddedwydd,  
 Daeaf ffrwythlon, yn dir anial du ac oer,  
 [Tir] gwyrda rhagorol deunaw eu graddau,  
 4 Duw o[r] nef, Dewin ewyllysgar.
- Paid â gwneud, Anwylyd Mair hardd Dy glod,  
 Gwlad fendigaid tir Gwynedd sy'n llifo gan win  
 (Un a Thri [Pherson] wyt [Ti] i ni drwy Dy ras),  
 8 [O Un sy'n ffynhonnell] cyfiawnder [y] seintiau, yn dir siêd.
- Paid â gwneud, Dad, Llywodraethwr dedwydd, lle y mae gerddi [i  
 gynnal] can gwledd,  
 Daeaf Gwynedd, harddwch gwŷr hardd,  
 Drwy bla erchyll o amgylch pobl ddi-fai,  
 12 Yn lle o draethiad gwael, [Un sy'n ffynhonnell] rhodd [i] feirdd.
- Paid â gwneud Gwynedd fonheddig  
 Yn waeth na llong fasnach wag,  
 Anwylyd mwyn a dderbyniodd [y] wir Groes,  
 16 Tad di-fai, er mwyn ei phobl deg.
- I amddiffyn, [Un sy'n] araf i bechu [ac yn] bellgyrhaeddol Dy rym,  
 (Amddiffynnydd [y] nef gyda Mair yw [ffynhonnell] fy nerth!)  
 Arglwydd y ffydd, oni bydd Dy gefnogaeth,  
 20 Gwae ni, Dduw, Gwynedd ddi-fai!
- [Boed] nawdd yr Un a'n prynodd o'r pren dioddefaint,  
 A thangnefedd [yr] Arglwydd, Pennaeth [y] nef,  
 O'r Gair heb gyfathrach rywiol, Arglwydd [y] byd,  
 24 Y Gŵr sy'n rheoli Gwynedd ddedwydd!

*Englynion i Dduw*

- Lliw llawr llathrdref nef, Naf y ddifai—wledd  
 Heb ddiwedd Duw arnai,  
 Lluniaeth eirf llawn iaith erfai,  
 4           Lle ni thrainc Iôr llanw a thrai.
- Mab wyd, ffyddlon Broffwyd ffydd,  
 A Thad o'r wenwlad winwledd,  
 Ac Ysbryd, Gwledig oesbrudd,  
 8           Ac un Iôr o gain nawradd.
- Gwirddoeth Dad o'r wlad a'r wledd—ni dderfydd,  
 O ddirfawr anrhydedd;  
 Gorau Mab mam ddigaredd,  
 12          Gair o fru Mair fry a'u medd.
- Mawr ban wyd, Mair Benadur,  
 A Duw Lyw nef a daear,  
 Mab i'r wry am wybr oror,  
 16          Heb dad eithr rhad uthr hoywder.
- Cadarn farn fawrnerth gleindyd  
 Ac Arglwydd pob rhagorglod,  
 Trugarog trwy Ei giried,  
 20          Hael yw Llyw haul a lleuad.
- Teg yw Dy ran, Wyr Anna,  
 Teymasoedd Tëyrn Iesu:  
 Tir, wybr, môr hoywlwybr heli,  
 24          Naf Addaf, nef a feddy.
- Llin hynod llawnglod, llun clær—Llyw nefol,  
 Llawn afael llwybrwaith saer;  
 Llethr Dyfrdwy, mordwy mawrdaer,  
 28          Llithrodd môr llathrgair côr Caer.
- Addoled pawb pob amser  
 Y ddelw a ddyly rhagor:

32

Delw'r Mab Rhad, Gwirdad gwâr,  
Llyna ddelw llawn o ddolur!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 176<sup>r</sup> B—J 111, 1332 C—LIGC 4973B, 254<sup>v</sup> D—Llst  
145, 43<sup>v</sup> [= rhif 132] E—Llst 147, 232<sup>r</sup> *o'r cefn* F—Pen 118, 122

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiâu eraill  
o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.  
Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

22 ternassoed.

*Teitl*

Gruffud vab mared<sup>d</sup>. heuyt ae cant y duó.

*Englynion i Dduw*

- [Ffynhonnell] disgleirdeb gwlad trigfan ddisglair [y] nef, Arglwydd  
y wledd ddi-fai  
Heb derfyn [gan] Dduw arni,  
Lluniaeth [ar gyfer] rhyfelwyr [a chanddynt] iaith gyflawn wych,  
4 Lle na fydd yn darfod [a berthyn i] Arglwydd [y] llanw a[r] trai.
- Mab wyt [Ti], Broffwyd ffyddlon [y] ffydd,  
A Thad o'r wledd win [yn y] wlad fendigaid,  
Ac Ysbryd, Arglwydd tragwyddol ddoeth,  
8 Ac un Arglwydd o naw urdd gwych [y nef].
- Tad gwir ddoeth o'r wlad a'r wledd na fydd yn darfod [byth],  
O anrhydedd dirfawr;  
Gorau Mab mam ddibechod,  
12 [Y] Gair o groth Mair fry sy'n eu rheoli.
- Un mawr dyrchafedig wyt [Ti], Arglwydd Mair,  
A Duw Arglwydd [y] nef a[r] ddaear,  
Mab i'r forwyn o amgylch bro[r] wybren,  
16 Heb dad heblaw gras aruthrol [ei] lawenydd.
- [Un ac iddo] nerth mawr [llawn] sancteiddrwydd [ac sy'n] gadarn  
[ei] farn  
Ac Arglwydd pob clod rhagorol,  
Trugarog drwy Ei haelioni,  
20 Hael yw Arglwydd [yr] haul a[r] lleuad.
- Teg yw Dy gyfran, Wyr Anna,  
Teyrnasoedd [y] Brenin Iesu:  
[Y] tir, [yr] wybren, [y] môr [o] heli llawen ei gwrs,  
24 [O] Arglwydd Adda, [a'r] nef a reoli Di.
- [Un o] hil hynod cyflawn ei glod, llun disglair [yr] Arglwydd nefol,  
Cynhalbren cyflawn [o] waith trefnus saer;  
Ochr [Afon] Dyfrdwy, rhyferthwy môr mawr a ffyrnig,  
28 Parodd [y] môr i grair llachar symud yn llyfn i gangell Caer.
- Boed i bawb bob amser addoli  
Y ddelw sy'n hawlio rhagoriaeth:  
Delw Mab [y] Gras, Tad gwir mwyn,  
32 Dyna ddelw lawn o ddolur!

10  
*Awdl i Fair*

- |    |                          |                    |                     |
|----|--------------------------|--------------------|---------------------|
|    | Mau ymoralw              | o bwyll ddisalw,   | o bell ddwysawl,    |
|    | Â Mair, gair goeth,      | eirian wiwddoeth   | aur rinweddawl.     |
|    | Gorau yw Mair,           | Glandad borthair,  | gleindyd berthawl,  |
| 4  | O berffeithrwydd         | ar bob arwydd,     | awr bybyriawl.      |
|    | Seren yw hi,             | nod goleuni        | nid gelyniawl,      |
|    | Lloer engylion           | a gweryddon        | aig wareddawl,      |
|    | Mam tangnefedd           | a thrugaredd,      | iaith ragorawl,     |
| 8  | Teml i'r Mab Rhad,       | neuadd gariad,     | nawdd ac eiriawl,   |
|    | Hynaws forwyn            | hynod addfwyn      | o henw deddfawl,    |
|    | Hoywfam Iesu,            | hawdd ei charu,    | heddwch eiriawl,    |
|    | Hil gweilch Gröeg,       | hoywlyws brifdeg   | hwyl ysbrydawl,     |
| 12 | Haul y dwyrain,          | hon oedd riain     | hoen ddwyreawl.     |
|    | Gabriel geudod           | o'i aur dafod      | a'i air dwywawl     |
|    | A fu gennad,             | ymhell ddodiad     | ym mhwyll ddidawl,  |
|    | Pan gad Mab Mair,        | henw o farddair,   | Hynaf urddawl,      |
| 16 | O deilyngdod             | gwir forwyndod     | gwyryf fireindawl.  |
|    | Gorug Afe,               | doeth Arwyre,      | daith oreurawl,     |
|    | Gwaith gwynfydig:        | dwyn o ffyrnig     | dân uffernawl       |
|    | Addaf a'i blant,         | o'i ddifwyniant    | o ddwy faenawl,     |
| 20 | Daear a nef,             | cyn poen oddef     | Cun peunyddiawl.    |
|    | Aeth Gwawr y glod        | ar bren hynod,     | Iôr brenhinawl,     |
|    | Er llewenydd             | rhad a bedydd,     | rheidiau bydawl,    |
|    | Ieithydd ffydd ffyrdd,   | wyth ugeinmyrdd    | aeth o'i ganmawl    |
| 24 | Am Ei greifiaint,        | dioddeifiaint      | Duw addefawl.       |
|    | Cyrchodd Crist Naf       | tros faich Addaf,  | trais fucheddawl,   |
|    | Pum oes o ffwrn          | y baw gymwrn;      | ni bu gamawl.       |
|    | Esgynnodd lawr           | llathr Niferwawr,  | llethr nef eurwawl, |
| 28 | Ar ddehau'r Tad,         | Un Tri Meidrad,    | Iôn tramedrawl.     |
|    | Brenin didlawd           | ar bob ciwdawd,    | Eurbab cedawl,      |
|    | Bid Ef, nef nawdd,       | byd a brynawdd,    | bu Duw breiniawl!   |
|    | Da fu'r annerch          | i Anna ferch       | o ynni fawl,        |
| 32 | Ar les pobl Gred,        | er llwyrward       | o'r lloer wryawl:   |
|    | Gorffowys rhad,          | deon gariad        | diengiriawl,        |
|    | Ym mru'r werydd,         | Gair llewenydd     | gorllewiniawl,      |
|    | Iôr saint braint braisg, | yn Dduw fawrwaisg, | yn ddifarwawl,      |
| 36 | Yn Fab ffrwythlon,       | yn fyw ddigon,     | yn fuddygiawl,      |

	Yn Ysbryd budd,	dehau rybudd	dihaerebiawl,
	Yn Un a Thri	(trig Ei weddi,	Tragywyddawl),
	Yn Frenin wybr,	hael doeth ewybr,	hwyl deithiawl,
40	Yn Frawd ffawd ffydd	gwirion ufydd	gwerin nefawl.

44 Merch, mam, Fair o ddiwair waed,  
Chwaer i'th Dad o rad eirioed;  
Efa wŷyr, i Afe wyd  
*Regina* a'n rhoes enaid.

48 Mamaeth, bronfaeth Brenin fu  
Môr, wybr hir, nef, tir *terra*.  
Mair a'n geilw, morwyn Geli,  
Mau amofyn mam Afe.

52 Tist arwyrain y gleindyd,  
Ti, Fair, fu'r diwair wared,  
Teg o'th gaer, glaer yw dy glod,  
Teml i Grist, tau amlwg rad.

56 Rhad mad Mair, Gair rhagori,  
A'n dug o'n dygn a'n ymdro,  
Gras oesoedd ar Groes Iesu,  
Ar annerch teg Wŷyr Anna.

60 Mair fam i Arglwydd y môr  
A Naf a Thad nef a thir,  
I'm cadw rhag rhwym bradw bryder  
O'i brad, trwy gariad trugar.

64 Teg reg rad, twf mad, mam gwir Broffwyd—nef,  
Gwell no neb y'th farnwyd;  
Teml i'th Fab maeth y'th wnaethpwyd,  
A neuadd yw fy nawdd wyd.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 334<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 152<sup>r</sup> C—J 111, 1199 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 264<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 219<sup>v</sup> F—Llst 133, 284<sup>r</sup> [= rhif 832] G—Llst 147, 71<sup>v</sup>, 72<sup>r</sup> H—Pen 118, 69

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

27 lathr. 31 vu yr. 37 diarhebya6l.



*Awdl i Fair*

- Fy rhan i yw galw drwy feddwl gwych, drwy ymbil dwys o bell,  
Ar Fair, [un] hardd [ei] gair, un rhinweddol wych hardd deilwng a  
doeth.
- 4 Yr orau yw Mair, gair cynhaliol [y] Tad sanctaidd, purdeb coeth,  
O ran [ei] pherffeithrwydd ar bob ymddangosiad, [un] wych euraid.  
Seren yw hi, nod goleuni nid gelyniaethus,  
Lleuad angylion a thorf dirion [y] morynion,  
Mam tangnefedd a thrugaredd, ragorol [ei] lleferydd,
- 8 Teml i Fab y Gras, neuadd [i] gariad, nawdd a deisyfu,  
Morwyn hynaws nodedig [a] mwyn o enw cyfiawn,  
Mam lawen yr Iesu, hawdd ei charu, [sy]'n ymbil am heddwch  
[drosom],  
[Un o] dras boneddigion Groeg, un lawen a hardd [a] thra theg [ei]  
natur ysbrydol,
- 12 Haul y dwyrain, yr oedd hon yn ferch fonheddig a'i phryd yn  
disgleirio.  
Meddwl Gabriel drwy ei dafod rhagorol a'i air dwyfol  
A fu[r] gennad, rhoddwr o bell yn [ei] meddwl diysgog,  
Pan gafwyd Mab Mair, enw o foliant, Pennaeth urddasol,
- 16 Drwy deilyngdod morwyndod gwir [y] forwyn wych ei chyfran.  
Cyflawnodd Afe, Dyrchafwr doeth, [ar] daith ysblennydd,  
Lafur bendigaidd: [sef] dwyn allan o[r] tân uffernol ffyrnig  
Adda a'i blant, o'i [gyflwr o] ddi-fuddiad o[i] ddwy dreftadaeth,
- 20 [Sef y] ddaear a[r] nef, cyn dioddefaint poenus [yr] Arglwydd  
gwastadol.  
Aeth Arglwydd y glod ar [y] pren enwog, Pennaeth brenhinol,  
Er mwyn llawenydd gras a bedydd, anghenion byd-eang,  
Dehonglwr ffyrdd [y] ffydd, aeth cant a thrigain o luoedd i'w  
ganmol
- 24 Am Ei faddeuant, dioddefaint [y] Duw proffesedig.  
Dygodd [yr] Arglwydd Grist dros faich Adda, trais rhinweddol,  
Bum oes o ffwrn y domen fawlyd; ni fu [hynny]'n anghyfiawn.  
Esgynnodd i fro Arglwydd disglair y llu, llethr [y] nef euraid ei  
llewyrch,
- 28 At ddeheulaw'r Tad, Un Rheolwr [a] Thri, Arglwydd tra grymus.  
Brenin gwych ar bob pobl, Arglwydd rhagorol hael,  
Boed iddo Ef fod, [ffynhonnell] nawdd [y] nef, [y] byd a brynodd,  
bu'n Dduw breiniol.  
Da fu'r cyfarchiad i ferch Anna o foliant [i'w] hanian [hi],
- 32 Ar les pobl byd Cred, er mwyn gwardigaeth lwyr [a ddaeth] o'r  
lloer forwynol:

- Arhosiad gras, cariad hyfryd [tuag at] ddynion da,  
 Yng nghroth y forwyn, [y] Gair llawenydd gorllewinol,  
 Arglwydd grymus [Ei] fraint [y] seintiau, yn Dduw mawr a chadarn,  
 yn anfarwol,
- 36 Yn Fab ffrwythlon, yn fyw ddigon, yn fuddugol,  
 Yn Ysbryd [llawn] budd, rhagfynegiad diarhebol gweddus,  
 Yn Un a Thri (pery gweddi ato, [yr] Un tragwyddol),  
 Yn Frenin [yr] wybren, hael [a] doeth [ac] ebrwydd, priodol [Ei]  
 gwrs,
- 40 Yn Frawd diwair [ac] ufydd [sy'n cynnig] bendith ffydd [i'r] werin  
 nefolaidd.
- Merch, mam, [O] Fair o waed diwair,  
 [A] chwaer i'th Dad drwy ras erioed;  
 Disgynnydd Efa, i Afe yr wyt
- 44 Yn frenhines a roddodd fywyd inni.
- Mam, maethiad o'r fron fu [hi] i Frenin  
 [Y] môr, [yr] wybren faith, [y] nef, tir [y] ddaear.  
 Mair sy'n ein galw, morwyn [yr] Arglwydd,  
 Fy rhan i yw ymbil ar fam Afe.
- 48
- [O] gynheiliad dyrchafiad y sancteiddrwydd,  
 Ti, Fair, fu'r waredigaeth ddiwair,  
 Teg o ran dy gaer, disglair yw dy glod,
- 52 Teml i Grist, dy ran di yw gras amlwg.
- Gras dedwydd Mair, [y] Gair [sy'n] rhagori,  
 A'n dug o'n caledi a'n crwydro digyfeiriad,  
 Gras [yr] oesoedd ar Groes Iesu,
- 56 Ar gyfarchiad Wyr teg Anna.
- [Boed] Mair fam i Arglwydd y môr  
 A Phennaeth a Thad [y] nef a[r] ddaear,  
 [Wrth law] i'm cadw rhag rhwym pryder nychlyd  
 [O'r fath a ddeuai] o'i brad, trwy gariad trugarog.
- 60
- [A'th] ras [yn] rhodd deg, ffurf ddedwydd, mam gwir Broffwyd [y]  
 nef,  
 Fe'th farnwyd yn well na neb;  
 Fe'th wnaethpwyd yn deml i'th Fab maeth,
- 64 A neuadd bren ywen fy nawdd wyd.

11  
*Awdl i Fair*

- Llariaidd Fair gywair, digywyd—riain  
I Naf o ddwyrain nef a ddeiryd,  
Lleddf ddeddf ddoeth eurgoeth, o ergyd—molawd  
4 Â nef i'r Drindawd hoywfrawd hyfryd  
(Llawen oed eirioed!) rad febyd—ofeg  
O bwyll gyhydreg, o brifdeg bryd.  
8 Llunied mawr a ged Mair i gyd—â'r saint,  
Llewenydd greiffaint, borthfaint berthfryd:  
Llwyddiant eurfeddiant yn llwrw arfeddyd—glwys  
Yn llawr baradwys rhag pwys penyd.  
Llariaidd Fair, o'r Gair heb gyd—y ganed  
12 Y Mab Gogoned, ged gedernyd;  
Lluddiodd derfyn dyn i dân myglyd—hir,  
Llewenydd pob tir, gwir y gweryd.  
Llwrw rheg oes brifdeg Ysbryd—rhadlawnddrem,  
16 Llawr wawr fawr Fethlem, lliw gem gymryd,  
Lliw llwybr gwaneg deg a'm dyd—lewenydd,  
Lloer llawr, llwyr gynnydd llu bedydd byd.
- Mair, mawr dristyd bryd a bryderaf,  
20 Mair, mawr dy wyrthau, olau alaf,  
Merch a mam a chwaer glaer egluraf  
Wyd i Grist didrist, didranc waesaf,  
Mireindeg ofeg ufydd cwplaf,  
24 Morwyndawd ffawd ffydd dydd deddfolaf.  
Mair drwy haelder Nêr nerthoedd hytraf  
A'th radau dithau, doeth y'th farnaf.  
Mair fad erfai Dad, ar fyw od af,  
28 Mair, neud tau fawlair, ti a folaf.  
Mair hoen haul hirddydd, hefelydd haf,  
[ ]  
Mair ni'm gad hwyrwad hirwayw tostaf  
32 Dan fron lifiedig mywn dig dycnaf.  
Mair o feddwl rhad, Mair ufyddaf,  
Mair o feddiant nef, os marw fyddaf,  
Mair windai gadair, wendeg adaf,  
36 Mair, dyro borthair barth ag ataf!

- Mair gain, can ydwyf o glwyf yn glaf,  
 Mair, loer wendref nef, nerth a geisaf.  
 Mair o'r Israel hael, haul oruchaf,  
 40 Mawredd fyrdd fonedd, Mair addfwynaf,  
 Mair werthfawr glodfawr, Mair wawr wympaf,  
 Mair a lonyddodd mawr lin Addaf,  
 Mynog ufyddol, mam nefol Naf,  
 44 Manon dwf gwirion, gwared arnaf!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 321<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 160<sup>r</sup> C—J 111, 1213 D—  
 LIGC 1984B [= Pant 15], 91<sup>r</sup> E—LIGC 4973B, 231<sup>r</sup> F—Llst 133, 273<sup>v</sup> [=  
 rhif 821] G—Llst 145, 16<sup>r</sup> [= rhif 32] H—Llst 147, 87<sup>r</sup> I—Pen 118, 88

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill  
 o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.  
 Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 hoevra6t. 8 grifieint. 19 dristit byt: bryt. 25 ha6lder. 28 tew. 29 ha6l. 37  
 kynn.

*Teitl*

Gruffud uab maredud ae kant.

*Awdl i Fair*

- Fair fwyn berffaith, merch ddi-fai  
 A berthyn i[r] Arglwydd o[r] nef fuddugol,  
 Un hardd ragorol ddoeth [a] mwyn ei moes, drwy ergyd mawlgan  
 4 Â i[r] nef i'r Drindod llawen ei barn [a] hyfryd  
 (Oed lawen erioed!) draethiad [am y] mebyd graslon,  
 Oherwydd gweddusrwydd [ei] phwyll, oherwydd [ei] phryd tra  
 theg.
- Boed i Fair ynghyd â'r seintiau lunio rhodd fawr,  
 8 Maddeuant [llawn] llawenydd, braint ymgeleddol [yr] un goeth ei  
 meddwl:  
 Ffyniant braint wych yn sgil arfaeth hyfryd  
 Ym mro paradwys rhag baich penyd.  
 Mair fwyn, o'r Gair heb gyfathrach rywiol y ganed  
 12 Mab y Gogoniant, cadernid haelioni;  
 Ataliodd daith derfynol dyn i[r] tân myglyd hirfaith,  
 Llawenydd pob tir, yn wir y cynnig [Ef] waredigaeth.  
 Yn sgil rhodd bywyd tra theg [gan yr] Ysbryd graslon ei drem,  
 16 Arglwyddes unigryw Bethlehem fawr, [a'i] lliw [yn] debyg i em,  
 [Yr un a'i] lliw [megis] hynt ton deg a rydd imi lawenydd,  
 Lloer [y] byd, ffyniant cyflawn [i] lu rhai bedyddiedig [y] byd [hwn].
- [O] Fair, pryderaf am dristwch mawr [y] meddwl,  
 20 Mair, mawr yw dy wyrthiau, trysor amlwg,  
 Merch a mam a'r chwaer loyw fwyaf disglair  
 Wyt [ti] i Grist dedwydd, gwarant diddiwedd,  
 Y lleferydd gwych a theg [a] gostyngedig mwyaf perffaith,  
 24 Ffydd [sy'n dwyn] bendith morwyndod [ar] y diwrnod mwyaf  
 cyfiawn.  
 Mair drwy haelioni[r] Arglwydd gwychaf [ei] nerthoedd,  
 A'th rasusau dithau, fe'th farnaf yn ddoeth.  
 Mair ddedwydd ddi-fai [dy] Dad, os af yn fyw,  
 28 Mair, eiddot ti yw moliant, ti a ganmolaf.  
 Mair [a chenny] ddisgleirdeb [yr] haul [ar] ddiwrnod hir, un  
 gyffelyb i[r] haf,  
 [ ]  
 Mair na fydd yn caniatáu imi [gael] gwrthodiad maith [a ddaw â'r]  
 boen hir a thostaf
- 32 Dan [y] fron drywanedig yn y caledi mwyaf dygn.  
 Mair o feddwl graslon, Mair y fwyaf gostyngedig,  
 Mair drwy rym [y] nef, os byddaf farw,  
 Mair [a'th] orsedd [yn y] tai gwin, deg a gwyn [dy] law,  
 36 Mair, rho air cynhaliol i mi!

Mair hardd, gan fy mod yn glaf oherwydd clwyf,  
Mair, loer trigfan fendigaid [y] nef, gofynnaf am nerth.  
Mair o Israel urddasol, [yr] haul goruchaf,  
40 Bonedd llu[’r] ysblander, Mair y fwynaf,  
Mair fuddfawr glodfawr, Mair yr arglwyddes wychaf,  
Mair a ddaeth â thangnefedd i linach fawr Adda,  
44 Un fonheddig [a] gostyngedig, mam [yr] Arglwydd nefolaidd,  
[Un a chennyt] ffurf bur brenhines, [boed] gwaredigaeth arnaf!

*Englynion y tair llythyren*

- 4 Tair llythyren, wen windud,  
A'n dug yng nghyfrgoll golled;  
A thair, Fair, o fawr gariad  
A'n dug nef o'n dygn ofid.
- 8 Tair, Fair oleugrair, a fawrlygawdd—byd,  
O lythr bryd wŷd wahawdd;  
A thair o nef (uthr eu nawdd!)  
O'u gwiw rad a'n gwaredawdd.
- 12 EFA bu pla ym mhob plas—i'n bwrw  
I berygl gyweithias;  
AFE, urddedig urddas,  
A'n dug yn faith o gaith gas.
- 16 Golau fydd, Fair fam Geli,  
Golwg radlon heb gelu;  
Gofwy nef oedd deg Afe,  
Gofal fu afal Efa.
- 20 Da y gwnaeth rhydd o gaeth drwy goeth gannwyll—wry,  
Wirionhaul ei doethbwyll,  
(Ofal aml afal amwyll)  
Afe deg, rhag Efa dwyll.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 96<sup>r</sup> B—J 111, 1329 C—LIGC 4973B, 143<sup>v</sup> D<sup>1</sup>—Llst 145, 21<sup>r</sup> [= rhif 40] D<sup>2</sup>—Llst 145, 41<sup>v</sup> [= rhif 127] D<sup>3</sup>—Llst 145, 54<sup>r</sup> [= rhif 150] E—Llst 147, 228<sup>r</sup> *o'r cefn*

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Englynion y tair llythyren*

- Tair llythyren, [O] un fendigaid gwlad y gwin,  
 A ddaeth â ni i golledigaeth lwyr ddamniedig;  
 A thair [llythyren], [O] Fair, drwy gariad mawr  
 4 A ddaeth â ni i[r] nef allan o'n gofid chwerw.
- Tair, [O] Fair anwylyd disglair, a lygrodd [y] byd yn ddirfawr,  
 O lythrennau sy'n ysgogi pechod [yn y] meddwl;  
 A thair [llythyren] o[r] nef (rhyfeddol eu nawdd!)  
 8 A'n gwarddodd trwy eu gras gwych.
- Bu EFA'n bla ymhobman i'n gyrru  
 I gymdeithas beryglus;  
 AFE, urddas anrhydeddus,  
 12 A ddaeth â ni yn bell o chwerwder caethion [uffern].
- Disglair fydd, Fair fam [yr] Arglwydd,  
 [Dy] olwg lawn gras heb gelu [dim];  
 Amlygiad [o'r] nef oedd Afe deg,  
 16 Gofid fu afal Efa.
- Yn dda y gwnaeth ddyn rhydd o[r] dyn caeth drwy gyfrwng [y]  
 gannwyll hardd ddiwair,  
 [Megis yr] haul dilychwin yw ei phwyll doeth,  
 (Gofid aml fu annoethineb [yr] afal)  
 20 Afe teg, rhag twyll Efa.



*Englynion y tri gŵr doeth*

- Baltasar, gynnar gennad,—dug anrheg  
 O deg iawnrhyw gariad,  
 O arwydd iawn gyflawnrhad,  
 4 O aur tawdd i Air y Tad.
- Digystudd anrheg am deg Ystwyll—rhad  
 Dug i'r hydr aur gannwyll,  
 8 Iesus, Fab coeth doeth didwyll,  
 Iaspart o'r myrr, nid byr bwyll.
- Gwnaeth Melchior eurior, arwydd gofeg—fodd,  
 Uniawnrhodd yn anrheg,  
 12 I Ioseb, dad rhad rhedeg,  
 I Iesus dwyn tus, dawn teg.
- Baltasar, ddurbar ddewrbor,—a wnaethant  
 O'u Mawlsant, a Melsior,  
 16 Enwog Iaspart, eurwart iôr,  
 Anfon anrhegion rhagor.
- Doeth o'r dwyrain cain, caiff bob awr—eurglod,  
 I Arglwydd nef a llawr,  
 20 Arwydd Ei fod yn glodfawr,  
 Aur, myrr a thus, weddus Wawr.
- I'r tri a roes yt trwy rad  
 Tair anrheg, Fair, i'r Crair cred,  
 Seren heb law lys Erod  
 24 A roddes gyfarwyddyd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 337<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 154<sup>r</sup> C—J 111, 1202 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 268<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 222<sup>r</sup> F—Llst 133, 285<sup>r</sup> [= rhif 832] G—Llst 147, 74<sup>r</sup>, 75<sup>v</sup> H—Pen 118, 73

Seiliwyd y golygiad ar destun C, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

*Darllenid y llawysgrif*

21 y trwy.

*Englynion y tri gŵr doeth*

- Daeth Balthasar, cennad fuan, ag anrheg  
 Drwy gariad teg o'r dull iawn,  
 O arwydd priodol cyflawn ei ras,  
 4 O aur pur i Air y Tad.
- Anrheg wych ar gyfer [yr] Ystwyll teg [llawn] gras  
 Dug i'r goleuni euraid gwych,  
 [Sef i] Iesu, Mab hardd doeth didwyll,  
 8 Caspar o'r myrr, nid pwyll diffygiol [fu hynny].
- Gwnaeth Melchior [yr] arglwydd rhagorol, arwydd [o] fodlondeb  
 [ei] feddwl,  
 Rhodd gywir yn anrheg,  
 I Joseff, [y] tad [a chanddo] ras llifeiriol,  
 12 [Ac] i Iesu ddwyn thus, rhodd deg.
- Gwnaeth Balthasar, arglwydd dewr dur ei waywffon,  
 A Melchior, i'w Sant sy'n ennyn mawl,  
 [A] Chaspar enwog, arglwydd gwych ei nawdd,  
 16 Anfon anrhegion rhagorol.
- Daeth o'r dwyrain hardd, caiff [Ef] bob awr foliant gwych,  
 I Arglwydd [y] nef a[r] ddaear,  
 [Yn] arwydd Ei fod yn glodfawr,  
 20 Aur, myrr a thus, Arglwydd teilwng.
- I'r tri [gŵr] a roddodd iti drwy ras  
 Dair anrheg, Fair, i Anwylyd y ffydd,  
 Seren heibio i lys Herod  
 24 A roddodd gyfarwyddiadau [iddynt fynd].

*Englynion y pedwar efengylydd*

- 4 Rhoes Duw, fy Llyw byw, bedwar  
Lwysteg efangelystor  
I gynnal, mal y'u molir,  
Byd a nef, bid anofer!
- 8 Eryr fu Ieuan erod,  
Aruchaf gwŷs, air iechyd,  
I ddangos, Fab Mair ddawnged,  
Uchelder Dy wych Haeldad.
- 12 Marcus fu, Iesu, iesin frodiau—Llyw,  
Ar waith llew i'th ddeau  
Er gwybod, hoywglod hyglau,  
Cedernyd rhad y Tad Tau.
- 16 Ych fu Lucas urddastrem  
Ar asw aur Iesu dinam  
Am aberthu, bu tru trwm,  
Un Mab Mair trawsair trosom.
- 20 Rhoed Mathau, doniau dinag,  
Dan draed Mab Mair ar grair Grog  
Am Dy fod, nef Bendefig,  
Yn rhith dyn, un anrhaith deg.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 175<sup>v</sup> B—J 111, 1331 C—LIGC 4973B, 254<sup>r</sup> D—Llst 147, 232<sup>r</sup> *o'r cefn* E—Pen 118, 121

Seiliwyd y golygiad ar destun B, yr hynaf, a chodwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r testun hwnnw. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7. Y mae cyflwr testun B yn wael mewn manau, felly y mae rhai darlleniadau'n ansicr. Rhaid dibynnu ar ddarlleniadau yn y copïau diweddarach neu yn R ar adegau.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

Ni chynhwysir darlleniadau o lawysgrifau heblaw B ond lle y mae testun B

yn anodd ei ddarllen. Ni roddir darlleniadau o C, sy'n gopi o E heb unrhyw werth annibynnol, ac ychwaith o A, sy'n gopi o C.

1 *B* [ ]oes (*bron yn annarllenadwy bellach*; *R yn awgrymu bit*), *D gadawyd bwlch* (*cywiriad: gwnaeth, cywiriad arall: rhoes*), *E yrhoew*. 2 *B* lwystec neu lwystec (*anodd ei ddarllen*; *kystec yn ôl R*), *D ystec* (*cywiriad: lwyystec a phwyntiau o dan lv i ddangos eu bod yn aneglur yn B*), *E ystec*. 4 *B* anouer (*o yn anodd ei darllen*), *DE anouer*. 6 *B* gvis air (*anodd eu darllen*; *gvis ar yn ôl R*), *D eyr* (*cywiriad: gvrs ein*), *E traws eur*. 8 *B* uchelder (*bron yn annarllenadwy bellach*; *anhelder yn ôl R*), *D gadawyd bwlch* (*cywiriad: uchelder*), *E uchelder*. 9 *B* vrodyeu (*anodd iawn ei ddarllen*; *vredym yn ôl R*), *D iessu yes ssu* (*cywiriad: vrodyeu a phwyntiau o dano'n dangos bod y testun yn B yn anodd ei ddarllen*), *E bhrodyeu*; *B lly6* (*aneglur; ly6 yn ôl R*), *D lly6*, *E llyw*. 11 *B* hoewglot (*yn ôl R; bellach yn annarllenadwy*), *D yr gwybot bot hytheu* (*cywiriad: hyglot hygleu*), *E yr gwybot hoewglot hygleu*. 13 *B* urdas rem.

### *Teitl*

llyma englynion y pedwar angelystor.

*Englynion y pedwar efenglydd*

- Rhoddodd Duw, f' Arglwydd byw, [y] pedwar  
 Efenglydd hardd a theg  
 Er mwyn cynnal, yn y fath fodd ag y molir hwy,  
 4 [Y] byd a[r] nef, boed [y gwaith] yn ddiouer!
- Eryr fu Ioan er Dy fwyn,  
 Yr alwad fwyaf dyrchafedig, gair iachawdwriaeth,  
 Er mwyn dangos, [O] Fab graslon Mair,  
 8 Uchelder Dy Dad hael gwych.
- Bu Marc, [O] Iesu, [a chennyf] farnau disglair [yr] Arglwydd,  
 Ar lun llew ar Dy ddeheulaw  
 Er mwyn [inni gael] gwybod, [Un] llawen [Dy] glod [a] thra enwog,  
 12 Gadernid gras Dy Dad Di.
- Ych fu Luc urddasol ei olwg  
 Ar law chwith euraid [yr] Iesu di-fai  
 Oherwydd aberthu, bu'n druenus [ac] yn drist,  
 16 Unig Fab Mair nerthol Ei air er ein mwyn.
- Rhoddwyd Mathew, dinacâd [ei] fendithion,  
 Dan draed Mab Mair ar [y] Grog [sy'n] grair  
 Am Dy fod, Bendefig [y] nef,  
 20 Ar ffurf dyn, trysor teg unigryw.

15  
*Awdl gyffes*

- Crair Cred, ced cynnydd, Creawdr llu bedydd,  
Crist Fab Duw Ddofydd, cyn dydd dyedd,  
Can ni wn pa bryd, pa awr, pa ennyd  
4 Y'm dygych o'r byd, ddiwyd ddiwedd,  
Arglwydd-dad mad mawr, Eurglo nef a llawr,  
Erglyw fi bob awr, Gwawr gwirionedd!  
Yt y cyffesaf ac ydd addefaf,  
8 Can wyd pennaf Naf nawdd dangnefedd,  
A bechais yn llwyr o bob rhyw synnwyr  
Rhwing llawr ac awyr, llwyr argywedd:  
Saith briwyd pechawd, rhythmni a medd-dawd,  
12 Chwant cnawd, cas ceudawd, cadarn chwerwedd,  
Methiant glythineb, mwthfurn godineb,  
Mythineb cudeb, cadw fy sylwedd,  
Balchder, syberwyd, torri diofryd,  
16 Cymryd bwyd amhryd, amryw faswedd,  
Goganu, tybio, llesgu, damuno,  
Llidio a digio, dogn wythlonedd,  
Colli pregethau ac efferennau,  
20 Maddau fy Suliau er meddw salwedd,  
Gair, meddwl anghred, golwg camgerdded,  
Gweithred anwared, gwth enwiredd,  
Cyhuddo gwirion, cam ddychymygion,  
24 Ceiso trais holion, hylithr daerred,  
Gochel maddeuaint, digio rhag hiraint,  
Sathru nawdd-dir saint, braint brenhinedd,  
Tyngu i greirau gwyrth anudonau,  
28 Twn gredau llyau, geirau gwyredd,  
Trais, twyll, brad, cynnen, murn ledrad, absen,  
Llid a chenfigen, Rhên pob rhinwedd!  
Gwâr gynnwys glwys glyw, Gwawr mawr marw a byw,  
32 Gwiriondad rad ryw, Llyw llawerred,  
Dy rad a geisiaf, Dy nerth a archaf,  
Dy nawdd a alwaf, Naf nefolwledd,  
Rhag cwyn diaflig, rhag cŵn gwenwynig,  
36 Rhag cynnygn dremyg, ddig ddigasedd,

- Rhag drwg mwg mignwern drwy waith gaith gethern,  
 Drewiant cern uffern, affaith dygnedd,  
 40 Rhag trais tragywyddol tân trwch cylllestrol,  
 Tanol uffernol ffyrnig dachwedd,  
 Rhag tanllyd sybwl, tinllwyth fflam gynnwll,  
 Tinllwch, trwch trwydwl, trydar losgedd,  
 44 Rhag llaith llwyth Cäin, llys uffern werin,  
 Llin Addaf fyddin, gorddin gyrddedd,  
 Rhag poen athrugar poeth ferw dân llachar,  
 Pwll byddar daear, duoer fignedd.  
 Brenhinaidd Fab Mair, breiniol Oleugrair,  
 48 Brenin nef y'th wnair, Gair gorfoledd,  
 Ti a faddeuaist (teg y meddyliaist),  
 Y dydd y'n prynaist o'r pren crogwedd,  
 Dy boen a'th alaeth a'th ferthyroliaeth  
 52 I'r a'u gwnaeth, arfaeth arfog drosedd.  
 Wrth hynny, Arglwydd cadarn didramgwydd,  
 Cedrwydd, cyfarwydd cof oferedd,  
 Gwna, Ddofydd, faddau fy holl bechodau  
 56 A'm dwyn i'th ddehau, olau wyledd,  
 Mal y maddeuwylf a wnaethpwyd wrthwyf  
 I'm hollgnawd o glwyf, glew ddiellonedd,  
 O drais, o golled, o gawdd, o goddedd,  
 60 O bob gwarthäed, giried garedd.  
 I'th ddeau, Ddewin, y bwyf gynefin  
 Cyn rhwym daeerin, erwin orwedd,  
 Lle mae llu difrad ar llawr llathr gwenwlad,  
 64 Lle mae goleuad rhad anrhydedd,  
 Lle mae digrifwch a phob rhyw degwch,  
 Lle mae dadolwch, deilwng rysedd,  
 Lle mae cywirdeb, lle mae diweirdeb,  
 68 Lle dibechod neb, lle da buchedd,  
 Lle mae gorffowys uchlaw paradwys,  
 Lle mae mirain lwys, lle mae mawredd,  
 Lle mae nefolion, lliaws urddolion,  
 72 Lle mae engylion gwirion gwaredd,  
 Lle mae eglurder, lle mae dwywolder,  
 Lle mae Nêr nifer nefol orsedd.  
 Arf Cred, ced cadair, Arglwydd pob cynghrair,  
 76 Erglyw fi, Fab Mair, borthair berthedd,  
 Can wyf pechadur corfforol natur,  
 Rhag tostur dolur a dialedd,



- 80 Can wyd gwir Frenin o'r deau, Ddewin,  
Hyd y gorllewin, Llywawdr Nasredd,  
Can wyf cyffesol, a Mair i'm eiriol,  
Ac edifeiriol oed oferedd,  
Can wyd breiniocaf a dyledocaf,
- 84 Can wyd oruchaf, Naf, na'm gomedd!  
Er Dy ddiweddloes, er Dy greuled Groes  
Rhag poenau pumoes, pumystl egrwedd,  
Er y gwayw efydd a wânt yr efrydd
- 88 Dan Dy fron, Ddofydd, ddwywol agwedd,  
Er Dy fawr loeson gan dduriol hoelon,  
Er Dy ddrain goron, Dy drugaredd,  
Er Dy gyfodi gwedy'r pum weli,
- 92 Crist celi, fy Rhi, o rwym maenfedd,  
Ac er goresgyn uffernol derfyn,  
Tyddyn pob gelyn diamgeledd,  
A'th falch esgyniad ar Dy ddeau Dad:
- 96 Dod ym gyfraniad o'th wlad a'th wledd!

*Ffynonellau*

A—Bangor 1268, 89<sup>v</sup> B—Bangor (Mos) 6, 34<sup>r</sup> C—Bangor (Mos) 9, 69<sup>v</sup>  
D—Bangor (Penrhos) I.1573, 62 E—BL Add 14866, 30<sup>r</sup> F—BL Add  
14936, 27<sup>v</sup> G—BL Add 14940, 40<sup>r</sup> H—BL Add 14964, 50<sup>r</sup> I—BL Add  
14970, 81<sup>r</sup> J—BL Add 14979, 84<sup>r</sup> K—BL Add 15001, 176<sup>v</sup> L—BL Add  
24980, 129<sup>r</sup> M—BL Add 31063, 3<sup>r</sup> N—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 311 O—  
Card 1.1, 98 P—Card 1.52, 24 Q—Card 2.40, 95 R—Card 2.114, 535 S—  
Card 2.201, 80 T—Card 2.616, 19 U—Card 2.623, 19<sup>r</sup> V—Card 3.4, 257  
W—Card 4.9, 163 X—Card 4.10, 664 Y—Card 5.167, 40<sup>v</sup> Z—CM 23,  
ii.20 a—Gwyn 3, 12<sup>v</sup> b—J 111, 1332 c—J 138, ii.200 d—LIGC 669D,  
120 e—LIGC 672D, 18 f—LIGC 673D, 14 g—LIGC 695E, 69 h—LIGC  
873B, 67 i—LIGC 1559B, 154 j—LIGC 1573C, 462 k—LIGC 2691D, 82  
l—LIGC 3056D [= Mos 160], 306 m—LIGC 4973B, 255<sup>v</sup> n—LIGC  
5477B, xiii o—LIGC 6209E, 289 p—LIGC 8330B, 212 q—LIGC 19904B,  
26<sup>r</sup> r—LIGC Mân adnau 55B [= Sw 1], 113 s—Llst 30, 492 t—Llst 38, 65  
u—Llst 118, 403 v—Llst 122, 66 w—Llst 133, 189<sup>v</sup> [= rhif 615] x—Llst  
147, 233<sup>r</sup> (*o'r cefn*) y—Llst 167, 342 z—Pen 53, 48 A—Pen 77, 216 B—  
Pen 82, 111 C—Pen 93, 75 D—Pen 97, 262 E—Pen 114, 180 F—Pen  
118, 123 G—Pen 124, 74 H—Pen 155, 134 I—Pen 221, 208 J—Wy 6,  
195

Seilir y golygiad ar destun b, yr hynaf. Mabwysiadwyd nifer fach o ddarlleniadau o'r copïau diweddarach. Trafodir y traddodiad llawysgrifol yn fanylach yn y nodyn cefndir a thrafodir yr holl achosion lle y mae'r testun beirniadol yn gwyro oddi wrth destun b yn y nodiadau. Nodir isod yr

amrywiadau a geir yn y llawysgrifau. Cynhwysir cywiriadau y tybir eu bod mewn llaw wahanol i brif destun y llawysgrif. Ni nodir amrywiadau o'r testunau sy'n tarddu o'r Llyfr Coch (llsgr. b) ac eithrio pan fo'r copïydd wedi cynnwys darlleniadau amrywiol o ffynonellau eraill. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 223–7.

### *Amrywiadau*

1–20 [*h*]. 1–48 [*n*]. 1–54 [*N*]. 1–74 [*LX*]. 1 *W* [ced], *z* [ced] (*cywiriad*: ked); *T* kreadur, **BE** creawd; *T* beunydd, *V* beedd. 2 *o* Davydd; *ABaptB* kyn y dydd, *I(M)defkrGJ* cynnydd, *y* ddiwid; *ABDE(F)(H)JMO–RTWZaglopst uyCE* diwedd, *C(M)defikrGJ* dy hêdd, *FGH* dilyeð, **ID** dyhedd, *SYcjAH* dihedd, *U* diledd, *V* dyheed, *s* dywedd, *v* diyedd (dihedd, diwedd), (*x*) duedd, **B** dwedd. 3–96 [*J*]. 3 *AB* can na wn i, *CFGSTVYqvABEH* kannawn, *DJZC* kanys ni wn, *EMPQRWacjlopstuy* kann's na wn, *HI(M)OdefikrGJ* gan na wn, **UD** can's ni wn, *g* kanûs na wn; *AB* par brud par awr par enud. 4 *A* im dygur fi, *B* im dygud fy, *DJPRZ* im dygi fi, *U* im dygi, *W* im dycceç vi, *cj* ym dycky, *f* Im dyccech. 5 *CDJRTVWZiA* mab, *g* [mad], *t* mab (*cywiriad*: mad); *AV* eirgledd, *B* eurgleydd, *CDF–J(M)RTWZdefiklq–tvBDEGJ* eurgledd, *g* eirglyw. 6 *DRZ* am klyw fi, *J* am klyw, (*M*)*U* erglyw lef; *q* [awr] (*cywiriad*: awr). 7–8 [*A*]. 7 *AC–IMPQUVYadefiklo–tvyCGJ* itti kyffessaf, *B* ud y cyffesaf, *DJORZcgju* i ti y kyffessaf, *W* Jti cyvarçav; *ABD–JMO–WYZac–gikoprivyBCEGHJ* ac ir addefaf, *Cils* ac i haddefaf, *t* a gwir adefa, *z* ac y addeffaf, **D** ac y haddefaf (*cywiriad*: ydd haddefaf). 8 *ABCQMqa ilopstuyE* cans wyd, *F–IOd–gkrvCDGJ* kanis wyd, (*M*) *Ti* wyd, *P* Can ydwyd, *R* ganwyd, *U* *Ti* ydwyt, *V* kyd wyd, *W* gan wÿd, *Y* kann yd, (*x*) kanns ydwyt, **B** kans wyti; *ABltD* orychaf, *JW* yn benna, *s* o wychaf, **E** y pennaf; *Cgit* [naf], *Y* nas; *EIMOPQTUackd eskloprs(x)yBDEGJ* [nawdd], *DJZ* nef, *tu* nam gomedd; *CEFHIJMO–TVZac–gijklo–svyzB–EGHJ* tangnevedd, *G* tangneddaf, *U* tangneddef, *Y* kyngnefedd. 9 *SVcjH* [a], *CI(M)efikrG* am a, *d* am, **J** am a (*cywiriad*: mi a); *AF–I(M)RdefkrvGJ* becheis i, *CTVBE* Erchais, *i* erchais i, **A** archafi, *ScjH* pechais; *PU* a phob, *q* ob, *r* a bob; *AB(F)(H)(M)defkr(v)GJ* bob gwall synnwyr. 10 *DJZ* rhwng lloer, *G* rhwng llann; *VZ* ac awr; *z* llwy; *U* yn llwyr ar goedd, *V* llywiwr argyweith; *DZ* arguwedd, *J* argyoeedd, *W* argeuoetz, *def* orwagedd, **C** arguoedd, **E** agywedd. 11 *ABEIJMOQTac–gjkpruyBEGJ* briawd, *Ci* briwid, *FHv* brifwedd (briwid, briawd), *GR* brifwedd, (*M*) *Ei* brif wyf, *PY* brif wyd, *V* bruwyd, *lsD* brywyd, *t* browydd, **A** brifwyd, **C** briffordd (brifwÿd); *U* *I* brif wyf bearhawd; *Ir* glythni, (*M*)*U* rhythr, *P* rhyfyg, *f* Rhythini, *o* Rhythin, *t* rhwthni, **C** rhythineb, (**J**) syrthni; **C** [a]; *r* meddwawd, **A** cybydawd; *W* Rhythni a mezwdawd saith pyrawd peçawd. 12 *DJRZ* a chwant, *v* a chwant ([a]); *B* mawd, *DJRZ* [cnawd], *v* [cnawd] (cnawd); *DJZ* cas giwdawd, *FGHPRVbvd* cas geudaðt, *Uk* cas ceidwawd, *deGJ* cas ceidawd, *g* kas kydawd, **A** cnu ceudawd; *EQSUYacjopuyAH* nychwedd, *M* nychwedd (chwerwedd), *O* fuchedd; *W* çwant cael cydgnawd cadarn çwerwez; 13 *f*

moethiant; *Z* glothined; *ABF-I(M)defklrs(v)DGJ* gwneuthur godineb, *Ci a fu/r/* godineb, *DJRTWZv(x)BE* medddawd godineb, *EMOQSYacjopuAH* mwy vur godineb, *P* nwyf a godineb, *U* wyf wr godineb, *V* vur godineb, *g* mwy fu y godineb, *t* awydd godineb, *y* mwy fwy r godineb, *z* Moch mewn godineb, *C* myfyr godineb. 14 *ABI(M)defklq-tDGJ* kasineb, *CEMPQSUYacijopuyzACH* Methineb, *DFGHJZv(x)E* a gormod, *RTWB* a gormodd, *O* methu mewn, *V* methined; *CbitE* kideb, *DGZ* keudeb, *J* keideb, *RUD-gkBDGJ* cydeb, *V* kidyved, *z* llidew; *DFGHJRTWZv(x)BCEJ* kadarn, *V* er kadw; *DFGHJRTWZapvyBCE* [fy], *(M)U* fi, *P* fu; *A-DF-JMOPR-WYZc-gi-loq-v(x)yA-EGHJ* salwedd, *EQa* salw-wedd, *z* sillwedd. 15–16 [A]. 15 *g* balch; *E-HOPQTWagoptuv(x)yBCE* seguryd, *M* seguryd (*Gar a gwyd, syberwyd*), *U* bar a gwyd; *B* diwryd, *FGHv* yr ymryd, *H* yr ymryd, *M* diowryd (*diovryd*); *DJZ* torri dyddiau umprud kymryd bwyd umryd (*D* ymryd, *Z* amryd), *R* Balchder seguryd torri dyddiau ymryd. 16 *CGefikGJ* kymeryd; *GdefGJ* bywyd, *cj* bowyd; *M* amrwyd (*amrhyd*), *di* mryd, *py* ancryd; *R* am ffrw; *DZ* balchder seguryd amriw faswedd, *J* balchder seguryd amfriw fasswedd. 17 *t* goganu rheibiau; *DEGJOQRTWZagopu(x)yBCE* llesgedd, *FHMv* llesgedd (*llesgu*), *IefkrJ* llesgi, *P* dysgu, *d* llosgi; *de* dynynaw. 18 *DFGHJRWZvB* anlladrwydd lliadia, *T(x)E* anlladwedd lliadiau; *ABCPVd-giklq-uACDGGJ* dygyn, *DJRZ* lladrad, *EQapy* dygym, *FGHv* llid, *M* dygym (*dogn o lonedd, Dugn greulonedd, dygyn wythlonedd*), *O* dygun, *TW(x)BE* lleoer, *o* dogym; *ABDGHJRTWZdefkrv(x)BCEGJ* greulonedd, *O* ddiğllonedd, *U* o lonedd, *l* wrthlonedd, *t* wrth boynedd, *A* yn wythwedd. 19 *D* colli y prygethau; *B* yfferrau. 20 *O* maeddu, *P* meddwi; *RW* [fy]; *ABD-JOP QSYZacjoprtuvy CGH(J)* y suliau, *M* y suliau (*fy* suliau), *U* r suliau, *(x)* ffiliau suliau; *A-GIJMO-UWYZac-gijkoprtuvyABCEGHJ* [er], *JV* am; *AB(D)FGLJ(M)defklrvCGJ* meddwi, *DHRZr* meddi, *EMOPQSYacgopuyH* moddau, *U* madde r, *W(x)* medu. *ABC* a salwedd, *J* fasswedd, *TtABE* fy salwedd, *V* sallwedd. 21–68 [g]. 21–8 [*CldefikrGJ*]. 21 *Y* geir meddwl gweithred; *P* cam olwg, *j* golwy, *C* kilwg; *H* am gerdded, *j* cain gerdded. 22 *V* gweired, *t* gwneuthur; *DFGHRZv* dynwared, *J* diymwared, *W* ymwared, *t* danwared; *ADGJRTWZlsBE* gwaith, *B* gowth, *FHv* gwaith (*gwth*), *b* gwch, *py* glwth, *q* gwyth (*gwaith*), *t* gwrthna, *(x)* gwaithieu, *C* gwthio/r/; *OA* o enwiredd. 23–4 [A]. 23 *(M)UY* kyhudded; *ABDFGHJOPRT-WYZhlqsvB-E* a cham ddychmygyon, *t* madde draws holion, *z* kam ddechmygion. 24 *ABhlsD* kanlyn traws holion (*ABl* kalyn), *DFGHJZRv* kadarn draw holion, *E(F)MOPQSUYacjopu(v)yH* honni traws holion (*M* hoblion, *p* hoelion), *TBE* kedyrn draws holion (*T* hoelion), *V* maddau trais holion, *W* cadarn draws holion, *t* a cham ddychmygion, *q* ceisiau traws holion, *C* holi traws holion; *AR* hyllyth, *BEMQSTUaopuyCH* hyllythyr, *FGHWYtvE* hyllyth, *Uop* hythythr, *Z* hyllythroddiwredd, *cj* hyllyther, *D* hyllywr; *DJW* ddiwredd, *FGHRv* ddewredd, *Y* daearedd. 25 *G* maddeuant; *T* diogi; *C* mewn hirhaint. 26 *EMOQacjopuy* torri; *A* noddfa yr, *EMOaz* nawdd tyr, *H* naðir, *WH* nawdd

dir y, *hID* noddfae, *s* noddfa, *py* nawdd tri, *tu* nawdd y, *C* moddau/r/; *R* brain; *Gq* brenhinoedd. 27 *ABhlsD* tyngu anudonau gwrthneby doniau (*D* anuodanau; *B* gwrnebu), *DJZ* tyngu ynudau ar wyrfawr greiriau, *EMOQaopuy* tyngu ar greiriau gwaith anudonau, *FGHPTWtvBE* tyngu anudonau ar wrthfawr greiriau (*G* [ar], *P* wyrthfawr), *R* tyngu nudau ar wrthfawr greiriau, *SUYcjqH* Tyngu ar greiriau gwyrth anudonau, *V* tyngu ar greiriau gwrthnau doniau, *z* tyngu ar grirau gwth anudonyeu, *A* tyngu ar greiriau wrth anudonau, *C* tyngu 'nudonau ar wrthfawr lyfrau. 28 *ABq* twn gredu llyfau, *DFGHJRWZvC* cam gredu ag amau (*W* [ac]), *EMOQUYaopuy* kam gredu llyfrau, *P* credu heb ameu, *SH* twng gredau lliau, *TBE* a chredu heb amau, *V* trwm gredau llayau, *cjV* twng gredau llayau, *hD* twn gredy llwau, *ls* twng gredu llyfau, *t* gwrthneby doniay, *z* torri vyinghredeu, *A* digredu llyfrau; *DJ* y geiriau, *hlsD* a geiriau; *ABD-HJOQRWYZahjlops-vyzACDH* gwiredd, *M* gwaredd, *V* gwyeredd, *s* gyredd. 29–30 [*A*]. 29 *TBE* trist dwyll, *Y* trais twys; *DZ* gywen, *FGHRv* gymen, *bE* kyngen, *B* kynged, *D* cy[ ] (cyngen); *Cfi* mewn, *EMOQUtu* myrn, *W* ymry, *dehkslzDG* mwrn; *ABCEGIMOPSTUWYadefhiklo-uyzB-EGHJ* lledrat, *DFHGJRVZciv* lladrat; (*M*) drwy absen, *U* drwg absen, *H* aysen. 30 *V* twyll a chynvigen, *b* llit keneuigen, *z* llit kenvygen; *ABC(F)(H)(M)defit(v)GJ* rhan, *DFGHJRZv* pwnck ((*Z*) rynnenn), *I(M)kr* rhag, *T(x)B* pren, *W* pen, *z* reu, *D* y Ren; *C* pob riniad, *DR* pob rriwedd, *EOQaop* an rhinwedd, *IdefkrGJ* pob rhiedd, *M* an rhinwedd (pob rhinwedd, pob priedd), *Z* pob rriwedd (pob rinwedd), *FHv* pob rhyfedd (pob rhinwedd), *G* pob rhyfedd, *y* anwiredd, *C* pob rhwystredd. 31 *AhlstD* gwisc, *B* gwaig, *C-JMOQSTVWYZc-fjkoru v(x)ABEGHJ* gwag, (*MU*) gwyr, *P* Gwyg, *az* Gwawr, *s* Gwist; *ADMO* cymwys, *C* gywys, *Zty* gymwys; *A* [glwys], *Wc* glwyslyw, *j* glwysyw, *z* llwys llyw, *A* eglwyslyw; *A* mewn marw a biw, *D* gwawr mawr mar a byw, *IdefkrGJ* clod mawr marw a byw, *J* gwawr marw a byw, *P* gwar mawr meirw a byw, *hD* gwawc marw marw a byw, *l* gwawd marw a byw, *s* gwawg marw a byw, *A* gwawr y marw a byw; *UYC* gwawr mawr meirw a byw. 32 *u* gwirio; *Ci* da; *O* gwirion rhâd rhyw, *V* gwirion daf rad hrad hyw; *A* rhyw yw llyw; *RdefkGJ* lliw; *DZhD* llawerydd, *Q* llawenydd, *Tcdjv* llaweroedd. 33 *ABDFGHJRZhlqsvCD* ras; *FGHRvC* dy nawdd a archaf, *Wt* dy nawdd y alwaf, *h* dy nerth archaf; *EMOQSacjopuyH* dy nerth a archaf dy nawdd a alwaf, *V* dy Ryad ageisiaf dy nerth archaf. 34 *EMOQacjopuy* dy ras a geisiaf, *FGHRvC* dy nerth a alwaf, (*M*)*SH* dy rad a geissyaaf, *Vh* dy nawdd alwaf, *Wt* dy nerth y archaf; *DRZhlqstDE* nefolwedd, *JA* nefoledd. 35 *AB* rhag cwyn gwenwynig rhag cwn cythreilig, *CVhilsD* hrac kwn gwenwynic hrac kwn dievlic (*hD* deflic), *DFGHJRZtvBCE* Rrag hun wenwynig Rag kwn diafylig (*DJZ* diawledic), *EOPQSUYacopuyAH* Rac kwn dievlic Rac hun gwenwynic, (*F*)(*H*)*Idefkr(v)GJ* rhag cwyn gwenwynig rhag cwn dieflig, *M* Rhag cwn dievlig rhag hun wenwynig (Rhag cwn dievlig rhag cwyn wenwynig), *T* rhag hun wenwing rhag kwyn diefelig, *W* rhag hûn wenwynig Rhag cywion dialig, *j* Rhag cwn dieflig rhag cwn gwenwynig, *z* rac kwn

diafllic rac kwn gwenwynyc. 36 *A-JMO-WYZacdefshi-lopr-vy***ACDGHJ** kynen, *l* kyngn (*cywriad*: kynen), *z* kenvygen, **BE** kyngen; *DFGHJRZv* drewedic, *OT* ddirmig, *U* dermig, *W* drenig, *j* drainig; *DFGJRZv* dig a, *V* [dig], *A* o ddig; *C* diogfedd, *DFGHJRZvA* dygnedd, *PVhilstDJ* ddigovedd, *TWBE* dyngnefedd, *U* digyssedd. 37–8 [*t*]. 37 *d* [drwg]; *B* migiwern, *IdefkrGJ* meginwern, *MOPUWcj* migwern, *Tls* migyrnwern, *hD* migyrwern; *EMOPSUYacjopuyAH* Rac gwaith ((*M*) trwy gwaith), *Q* rhag gwaeth, **C** [rhag] gwaith; *AB(F)(H)JV* kaeth, *CDF-I(M)PRTWZdefhiklqrsvBEGJ* kaith, *(F)(H)MOQcjo* gaeth, *U* gwaith, *z* [gaith]; *A-D(H)JJPRTWZdefhiklqrsEGJ* kethern, *FHv* cethr wernn (cethern), *G* cethr-wern, *V* kethren, *Y* gaethwern, **B** kethwern, **C** gethyrwern; 38 *Bh* drewaint, *Ci* drewant, *I(M)r* drewyn, *JY* drewian, *RA* drewiaint, *defkGJ* drewynt; *ACDF-J(M)PRTWZdefhiklrsvDGJ* kym, *BYz* gym, *EMOQSUYacjo puyACH* gem, *V* [cern]; *V* uffer; (*M*)*U* a ffordd, *W* afaif, *cj* ddiffaith, *def* effaith; *ACi* ddigwedd, *DJZ* dyngnefedd, *PTYA* ddygnwedd, *R* dynghedfedd, *hls* ddignedd, *j* ddygwedd. 39–96 [*CIdefikrGJ*]. 39 *hsD* tan llwyth, *t* rhag trwch; *A* tragwyddawl, *DJZ* colledrawl, *W* cyselltrawl. 40 *AB* tan hawl, *cj* Tanrwl, *z* tavawl, **C** tanllwyth; *RW* a ffyrnig; *ABScjAH* drwythwedd, *D* ddygw[ ], *EMOQaopuy* agwedd, *FGHRWv* ddygnedd, *TBE* dragwedd, *J* ddigwedd, *V* dragywydd, *Z* ddygwedd (*cywriad*: ddygwedd), *h* drwgwedd, *ls* ddrwgwedd, *t* argwedd, **D** drygwedd. 41–4 [*t*]. 41 *YC* tanllwyth, **D** tanlly[ ] (tanllyd); *W* ysbwyll, *cj* suddbwll; *D-HJMO-TVWZahlopsuwyABDEH* tanllwyth, *Bq* tanllwch, *UYzC* tanllyt, *V* danllwyth, *cj* tân /y/ doeth, **C** tanllys; *ABD-HJMO-TVYZachjlopsuwyADEH* gymwll, *W* gynwyll, **B** gymbwll, **C** gyndwll. 42 *A* twllwch, *DFGHJRZv* tinllwm, *M* Tnillwch (tinllwch), *A* tan trwch llwch, **C** tarthllwch; *U* twll, *W* dyrwç, *cj* [trwch]; *AEMPQUYahlpqsuyzD* trydwll, *D* rrydbwll, *FGHRZv* rrwdbwll, *J* Rodbwll, *O* trydwyll, *TBE* rwydwll, *V* hrwydd dwll, *W* rydwyll, **C** drewdwll; *Z* rrydar, *FGHJRWvB* rydaer, *V* trydaf, **C** drydar, **E** trydan; *D-HJOQRUWYZcjouA* lesgedd, *M* lesgerdd (lesgedd), *ThpqszyCDH* llosgedd, *V* losger, *l* llosgwedd. 42 *D-HJMO-R(S)TWZaopuv(x)yBCE* + i. 43–4 [*BDJRTWZhlsvA-E*]. 43–60 (*M*). 43 *E-H(M)OPQSUYacjopu(v)yH* Rac llith llwythau blin (*py* lleith, *u* llithr), *q* Rhag llaith Cain; *V* llwyth kenllysc uffer werin, *z* llwyth ken ninllys yffern werin; *A* rhag uffern wrin; *EOQapuy* figin, *FGH(M)PSUYo(v)H* vegin, *b* wyrein, *cj* segin, *q* wyrin. 44 *V* lin; *EQ* llin adfydin, *O* llin adfyd idrin, *u* llin yr adfydin; *V* [fyddin]; *A* gerddin gyrddedd, *EOPQYaopuy* gerwin gyredd, *FHScj(v)H* gwerin gyredd, *G* gwerni gyredd, (*M*)*U* gerwin griedd *V* gorddun gerdded, *z* gorddin gerddet. 45 *u* [poen]; *AB(M)Ooa* aruthgar, *DZ* athrydar, *EPQSUYacjpyH* aruthrgar, *FGHJRTv* a thrydar, *WB* anhygar, **C** a phoethfar; *A* poeth ffwrn, *DJZ* poethrew, *W* rhag berw, **C** tanllwyth; *BE-HOPQSUYWYacjopvC* tan llachar, *DJZ* tan hygar, (*M*) tan llathar, *R* tan hagar, *TE* dan llychar, *V* danllech, *q* danllar, *A* tan llychar, **H** tan llyachar. 46 *E(M)OPQSUYacjopuyACH* pell; *EOQSYacjopuACH* vyddar, (*M*)*U* fydd ar; *A* duoed, *P* dygn oer, *cj* du ar, *u*

duoedd; *AEO* sugnedd, *DJRWZpy* dygnedd, *TBE* digwedd, *V* vigvedd, *Qju* sygnedd, *aC* ddygnedd, *v* ddygnedd (fignedd). 47 *ABE–HOPQSVachjlopqstuy(v)DH* brenhinawl mab, *D(F)(H)JRTWZvBE* breniniaeth mab, *(M)U* brenhinedd fab, *z* breinyeid mab, *C* brenhiniaeth maeth mair; *A* breninol oleugrair, *BEOQVaoptyA* brenin olau grair, *D(H)JRWZvBE* brenhinawl loiw grair, *FGH* Brenhin loywgrair, *(FH)* brenhiniaeth loywgrair, *(M)* briniol oreugrair, *T* brenin nef yth wynair, *U* breiniol oreu-grair, *cj* brenhinawl oreugrair, *(v)* brenhin loywgrair, *B* breinhinawl wiw grair, *C* brenhinawl wethgrair. 48 *T* [Brenin nef y'th wnair], *C* brenin nef ith gair; *B* brein nef; *O* [nef]; *R* gofaledd, *z* gorfoloedd, *B* gwroledd. 49 *V* tydi avaddeuaist, *W* Ti ai cyweiriaist; *ABhlsD* tec i meddyanaist, *DJZ* daf a myddyliaist, *FGHRv* da i myddyliaist, *t* ond teg y dwedaist. 50 *DJRZqsz* y pryneist, *FGHO(v)* im pryneist, *t* eni pryneist; *ABFGHVt(v)(x)AB* ar y pren, *DEJ(M)O–UWYZacjhlnpqsuvyzCDEH* ar bren, *o* ar brenin; *AB(F)(H)(v)* palmwedd, *FGHv* crogedd, *Vcjq* krogwydd, *hlsD* palmwydd, *t* grogwedd, *B* krogwe. 51 *EQSYacjopuyA* dy boenedigaeth, *(M)U* dy boen edrychaeth, *On* dy brynedigaeth, *q* dy boen alaeth, *B* er dy boenath, *C* er dy boen alaeth, *H* dy boene digaeth; *DRVWZcj* ath farfolaeth, *J* ath farwfolaeath, *t* ath varwolaeth, *A* ath vuddugoliaeth, *C* ath fawr farfolaeth, *E* ar ferythyrolaeth. 52 *ABhstD* ir sawl ai, *D* a rrai ai, *E(M)OQSUYacnopuyzCH* er ay, *FGHRVvE* Ir hrai ai, *J* a rhai ai, *P* Rhai ai, *T* ar rhai ai, *W* Ar rai ai, *Y* Er rai, *Z* ar rai ai, *j* er a, *l* ar sawl ai, *q* ir ai, *(x)* I'r rhai, *A* i rai, *B* ir rai ai; *(M)* gwneth, *A* gwaeth; *Als* arfaeth drowssedd, *B* arfaeth trowsedd, *DFGHZv* eurfaeth orfedd, *J* eurfaith orfedd, *P* arfaeth ar fawr drosedd, *R* eurfaeth orsedd, *S* arvaeth arvoc drosedd, *T* arfaeth arfog orfedd, *(M)U* a saeth arfawg drosedd, *Vt* arfaeth arwawc drowsedd, *W* arvaeth orvez, *hD* arfaeth drwsedd, *j* ar saeth arfau drosedd, *A* eurvaeth ar vwg drowsedd, *B* arfaeth arfog orsedd, *C* arfaeth arfau trowsedd. 53 *u* wrth fy arglwydd, *TVW* hyn; *BVW* dy dramgwydd, *FGHRv* da dramgwydd. 54 *ADFGHJRTWZvBCE* cydrwydd, *B* cadrwydd, *hlsD* kedrwyf, *z* kethrwyf; *D* cyfiawnrwydd, *FGHJRZv* kyfyngrwydd; *A* ko fu oferedd, *B* cof fy oferedd, *(M)* Hoff oferedd, *U* hoff osseredd, *t* kof o fowredd. 55–60 [t]. 55 *ABhlsD* naf dofydd maddau, *DJZ* gwn ddofydd faddau, *N* naf dofydd mau, *P* Duw ddofydd maddeu, *T* gwna fofydd faddau, *V* duw naf ddovudd maddau ym, *D* Naf dodydd maddau; *T* fy llym, *V* vy llawn, *BE* fy llon, *H* y holl; *(M)U* droseddau. 56 *ABNhlqsD* a dwc vi, *O* Am dwyn i; *(M)* i ddeau, *j* ith ddaeu; *DJZ* ath law ith wledd, *EOQYaopuy* J olav/r/ wledd, *ABFHhls(v)D* dau yn y diwedd (*A* yn dau), *(F)(H)Rv* oth law ith wledd, *G* dan yn y diwedd, *(M)U* olau wiw-wledd, *N* dau n diwedd, *P* oleu loyw wledd, *ScH* J olau wledd, *V* olau olevoydd, *cjBE* olau wledd, *n* olau'r wledd, *z* oleu viledd, *A* ir olau wledd, *C* oleua wledd; *T* am dwyn ith olau ddeau oleuwedd, *W* Am dy withiau O bau wlêz. 57 *(M)U* a wnaeth bwyth; *AEOQnu* wrthwy, *DFGHPWvE* trwy nwyf, *J* trwy, *(M)UV* wrthyf, *N* wrthnwyf, *RZ* drwy nwy, *T* trwmwyf, *apy* wrth nwyf, *(x)* hwynwyf, *z*

yrdwyf, **A** o orthwyf, **B** dwy nwyf, **C** o nwyf. 58 *ABDE-HJ(M)NP-WYZachjlnopqsuvyA-EH* ar ynghynawd, *O* ar ynghadw, (*x*) ar fun gnawd; *hlsD* gloyw, *z* gleu; *J* ddigluedd, *z* diglovedd. 59 *DJRZ* a golled, *v* a golled (o golled), *z* a chollet; *u* o gnawd; *DJRZq* a godded, *v* a godded (o godded). 60 *E(M)OPQSUYacjnopuyACH* ac o bob gweithred; *ABFGHNhls(v)D* aniwed, *J* gwrthared, *V* gwrthaed; *AB* cured caredd, *DZ* gwared gwired, *EMOPQSYanopuyH* kuried karedd, *FGHNhls(v)D* kyred karedd, (*F*)(*H*)*Rv* gyred garedd, *J* gwared gwyredd, *TUcj* kyried caredd, *V* kiried kared, *W* Gwnaed drugarez, *z* kret. ym dydrugaredd, **AB** kiried karedd, **C** guriad garwedd, **E** ciriaed caredd. 61 *E(M)OQnu* oth, *PU* ath, *T* ich; *DZR* ych diau ddeigrin, *FGHv* eich diau ddeigrin, *J* ith diau ddeigrin. 62 **A** cynn y rhwym digflin; *Z* erwin orfedd, *JA* erwin arwedd, *t* dyoer fignedd. 63 *ABE-HMNOQSUVWYachjlnops-vyCDH* mae lle, *DJRZ* lle mae lledrifad; *AE-HMOPQTVWahlnpstu(v)yBDE* ar lawr llethyr, *BSUYcoAH* ar lawr llathr, *DJRZv* ar lethr, *N* a llawr llathr, *b* ar lla6 llathyr, *j* A llawr llathr, *q* ar llawr llethr (llathr), (*x*) ar llawr llethr, *z* ar law lathr, **C** ar lawr fawr llathrwlad; *D* gwenywlad. 64 *O* lle mae *y*; *t* goleuwlad; *AB* rhad a rhinwedd, *N* a rhâd rhinwedd, *O* deilwng orsedd, *Q* rhag enrhydedd. 65–6 [O]. 65–70 [t]. 65 *DFGHJRZv* diddanwch, *TVWBCE* dedwyddwch, *s* [digrifwch]; *W* ac amryw degwç. 66 *ABDFGHJPRVZhlsvD* dedwyddwch, *N* diddanwch; *ABE-HMNQSYnopus(v)yCH* orsedd, *DZ* rrywedd, *J* rinwedd, (*M*)*Ucj* orwedd, *PhlsvD* rryfedd, *W* danghnevez, *V* ddivyrwch, *a* orsedd (ryssedd). 67 *VA* kowreindeb, *cj* dewirdeb; *N* a phob diweirdeb, *W* [lle mae diweirdeb]. 68 *P* lle dibechodeb, *T* [dibechod neb], *hlsq* lle mae dibech neb, **C** lle mae dibech neb (*cywiriad*: nenn), **D** lle mae dibeth neb. 69 *FTchjlpuyBED* gorffwys; *A* iw law beradwis, *DGHJRZv* yngwlad byradwys, *F* yngwlad baradwys (uwxlâw), (*M*)*U* lle mae paradwys, *On* ywch benn pradwys, *z* ywch paradwys. 70 *A* miriam, *DJOPRZC* murain, *g* mûrian; *DJZ* a lle mowredd. 71 (*M*)*U* lle mae angylion; *DFGHJRWZv* lle mae urddolion, **A** a llais urddolion, *j* lluas urddolion; **C** lle mae urddolion lluoedd angylion. 72 *ABTiBE* lluoedd o engylion, *DFGHJRWZv* lliaws yngylion, *EMOPQSVYa* *cjghlnopqsuyADH* lluoedd yngylion, (*M*)*U* llyoedd Nefolion, *N* lluoedd o'ngylion, **C** a bucheddolion; *E-HMOQS-VYcjnouAEH* garedd, *a* garedd (gwaredd). 73–4 [t]. 73 *ABhlsD* lle mae disgleirder, *N* a phob disgleirder, *V* lle mae diweirder. 74 *B* lle mae nef nifer, *DFGHJRTWZvBE* lle mae enifer, *On* lle mae nifer nêr; *A* nwyfawl; *R* orfedd. 75 *AC* krist kred, *BDFGHJNRZvC* rrif kret, *LXhlsD* kri kred, *PTVWBE* ahrif kred, *t* kraig kred, *z* arff koed; *X* [ced] y Cadair, *g* kadair ked; *O* Arglwydd mab cyngrair; *T* kynghorair. 76 *NOU* eurglyw, *X* eglur; *A* borthair berthaidd, *B* borthaidd a berthaidd, *DJZ* aberthair borthwedd, *EMOQSTacjgonuyBEH* borthair barthedd, *FGHPVWtv* berthair borthedd, (*M*)*U* Bôr air baredd, *N* borthaidd berthedd, *R* aberthair borthedd, *hlsD* berddair byrddedd, *py* borthair borthedd, *z* borthedd berthedd. 77 *ABFGHNPVhls(v)D* kyd bwy, *EMQacjnopuyC* cans wyf, *Og* kanys wyf, *RW* gan wyf, *t* kyd y bwyf, **B** kan wyf i; *O*

o gorfforol. 78 *s* [dolur]; *DFGHJRZc**v* a mawr ddialedd, (*M*)*U* a phob rhyw ddialedd, *N* o ddialedd, *t* mawr ar dialedd. 79 *A* cud /i/ bich gwir frenin, *Bt* kyd y bych frenin, *DJZ* *j* ganwyd brenin, *EMPOQacjnpuyC* cans wyd wir frenin, *FGHgv* kanys wyt frenin, *LX* kann ydwyd frenin, *N* kyd i bych ddewin, *O* canys wyt wîr frenin, *R* ganwyd brenin, *V* kyd wyd vrenin, *TBE* kan wyti frenin, *W* gan wyti vrenhin, *hlsD* kyd bych brenin, *q* cyd bych gwir frenin; *EMOQanpuy* oth ddeau ddewin, *DFGHRZlv* ar ddeau ddewin, *J* a ddeau ddewin, (*M*)*U* O'r Dwyrain ddewin, *N* ar ddeau frenin, *Pcj* o ddeau ddewin, *T* ir deau ddewin, *W* o deau, *t* or dday ddewin, *z* or deheu yr dewhin. 80 *J* hyd yngorllewin; *BEMQanopuy* llawdr, *O* llû a nêr, *Z* llawiaedr, *c* lliawawdr, *j* lliawddwr; *ABDFGHJLNRTWXZtvA* mowredd, *EMOQagnopuy* vowredd, (*M*)*U* maredd, *PVsBE* moroedd, *SYcjH* naredd, *hlD* moredd, *v* mowedd, *C* nerthedd. 81 *ABNVhlsD* kyd bwyf, *DZ* kan i bwy, *EFGHMPQUacjnopuyvC* cans wyf, *JRZ* gan i bwyf, *HOG* kanys wyf, *W* gan wyv, *t* kyd y bwyf; *DFGHJLRWXZv* ac ydifeiriol, *EMOQagp* a mair a ymeiriawl, *P* ac yn mawr eiriawl, *T* a mair /i/ heiriawl, *U* a mawrion eiriawl, *Y* am air ameiriawl, *hlD* a mair yn eiriawl, *n* A Mair a gymeiriawl, *A* a meir ymarverawl. 82 *DFGHJLRXZv* a mair im eiriol (*F* ac), *W* a Mair ymeiriol, *t* yn edifeiriawl; *DJZ* am foferedd, *FGHRWv* am oferedd, *LX* om oferedd, (*M*)*U* oedd o fawredd, *O* o oed oferedd, *t* oed o vowredd. 83 *FGHv* [can]; *ABhlsD* Crist, *EMOQagnpuy* ag wyd, *PcjC* kans wyd, *RW* gan wyd, *U* canwyf, *V* kyd wyd, *H* kan wynt; *BEFGHLMQPRTVWXaghlnps-vyACDE* vreninocka; a deuludoka, *FGHv* a delidocaf, *J* o deulu docka, *EMOQacjnopuy* a dilidiocaf, (*M*)*U* a ddyle addolaf, *R* i deuludockaf, *T* a deledydokaf, *V* a dledocka, *W* a dyled i câv, *g* a diliockaf, *t* [a] deilydokaf, *u* a deiliodocaf, *E* a delydiokaf; *N* Crist frenin câf a dyledocaf, *P* can's wyt freninoccaf cans wyt bennaf. 84 *ABFGHNCjhlqstvCD* kans wyd orychaf, *EMOQagnpuy* ag wyd oruchaf, *P* a dyledoccaf, *RZ* gan bwyd oruchaf, *U* canwyf oruchaf, *V* kyd wyd bennaf, *W* gan wyd oruçav; *B* naf mam gomedd (*cywiriad*: nam gomedd), *J* naf nam gomwedd, (*M*)*UW* naf gogonedd, *o* naf naf gogonedd; 85 *V* ar grvlon groes, *UY* ar dy greulud groes, *W* Ar dy greulon groes, *t* ar dy greulon groes, *C* ar greulyd groes; *ABFGHnhlsvD* greulon groes, *DJRZ* greulonloes, *LPSTXagopuyABEH* greulyd groes, *z* greulit groes; *cj* Er dy ddiwedd loes er poenau pumoes. 86 *ABu* er poenau y pumoes, *EFGHMOQanopy* er poenau'r pumoes, *NSUhlqsCDH* er poenau pumoes, *P* rhag poen pum oes, *R* rrag poenaur pumoes, *TE* rhag poenau pumoes, *V* er poynnay y pumoes, *W* lle prynaist bumoes, *Y* ar poenau pumoes, *cj* er dy greulyd groes, *g* er pryny pûm oes, *t* er dy boene pumoes, *u* er poenav y pumoes, *A* er dy boen pumoes; *AFGHLMOSWXovyH* bumustl, *B* bumustel, *DJZ* bumlust, *EMQagptuB* bymystl, *N* bumüst, *R* bumlysd, *Tg* bumystl, *h* bymystel, *lqsD* bymestl, *n* bymyst, *z* pymstyl, *A* bustl; *DFGHJPRTWZav(x)yBCE* chwerwedd, *ELMQSUYgnouH* egredd, *N* chegrwedd, *O* egreddi, *X* agredd, *cj* ogredd, *p* cwerwedd, *A* eglurwedd. 87–8 [t]. 87 *Ug* [y]; *OW* gwayw efrydd; *AN* a frathodd yr efrydd, *B* a frathod yr



efrydd, *DJRTZBE* ith frathodd yr efrydd, *FGHv* ath frathodd elfydd, *LX* a frathod efrydd, *O* a wâned yn ufudd, *P* a wan tryferydd, *W* ith frathoz yr evyz, *ls* a wanant yr efrydd, *n* a waret yr efrydd, *v* ath frathodd alfydd, *A* wasau draferydd, *C* o law yr efrydd. 88 *P* dan ddwy fron, *cj* [dy], *u* er dy fron; *j* drwysawl, *z* dwyval; 88 *ABD-HJL-acghjlnopqs-vyA-EH* + ii. 89-90 [*A*]. 89 *FGHjv* farw, *g* fawl; *As* [gan] aruthrawl, *BNt* ath dduriawl, *DJZ* gan dduw a, *U* gan ddygnawl, *X* dan dduriawl, *g* tan ddurawl, *hD* [gan] athrawl, *l* [gan] athurawl. 90 *DJZ* er y drain geirwon, *FGHPvBCE* er y drain goron, *U* er drain goron, *D* er dy ddrain holion. 91 *ABNWhlstD* er dy bum gweli, *g* gwedi y pum gweli, *H* wedi pum gweli; *DFGHJRZv* er dy bum gweli er dy gyfodi, *U* er dy dylodi ath bum weli. 92 *BN* [fy]; *V* vy hrif, *W* v'erç; *A* or hwm vaenwedd, *BhlsD* or rrwym vaenwedd, *EMOQagnopy* oth rhwym faenfedd, *N* a rhwym faenwedd, *P* o rhwym faenfedd, *LS-VXBH* or hrwym vaynvedd, *XE* or rhwym faenuedd, *Y* orrwyn vaenfedd, *cj* or rhwym faensedd, *g* oth rwym faensedh, *q* or rhwym maenfedd, *t* or rhwym faynedd, *uC* o'm rhwym faenfedd, *z* o rwym vaenwedd, *A* [o] rhwym vanrhydedd; *DFGHJRZv* Krist geli ith fersi rrwym fi ith orsedd (*FGHv* ath), *W* Crist Geli v'erç; *Zwyn* vi'th orsez. 93-4 [*BD-HJL-acjghlnostuvA-EH*], (*a*). 94 *py* dy amgeledd. 95 *ABNhlsgD* er dy eisteddiad, *DJRWZ* er dy fawr ddigoniad, *EIMOQSacgnopuyH* ath falch ddyrchafiad, *FHv* er dy ddigoniad (eisteddiad), *G* er dy ddigoniad, (*H*) ath wych ddyrchafiad, *LPTX* Er dy escyniad, (*M*)*U* ath wych esgyniad, *Qt* Er dy ddysgyniad, *Vz* ath valch diskynnyat, *b* ath valch disgynnyat (*cywiriad*, *efallai gan yr un llaw*: ath valch esgynnyat), *j* Aeth falch ddyrchafiad, *BE* er dy falch ddisgyniad, *A* ath valch ddyrchafiad, *C* er dy ddyrchafiad, *D* er dy eistedd; *ABD-HJM-TVWZacjgnopuyABCEH* ar ddeau dy dad, *L* ar ddeau dduw fad, *U* ar dy ddeheu-dad, *X* ar ddeheu Dduw tâd, *hlsD* ar ddeau dduw dad, *qD* ar ddeau duw dad, *t* ar ddeheulaw dduw dad, *z* ar dy deheu tat. 96 *ABNhlsgD* dyro, *bz* vot; *t* imi; *V* gyfran; *B* ath wedd, *EQ* oth wledd. 96 *P ailadroddir* 1-4; (*a*)*py*(*z*) + iii.

### Teitl

*ANPSTUWcgijlqs(t)uDH* kyffes Iolo goch, *B* Kyffes Jolo, *DRZE* Llyma gyffes Jolo goch, *EM* Cyffes dduwiol o bechodau a gweddi dosturiol ar dduw Iesu am vaddeant a thrigaredd, *FGHf* Awdl Cyffes y Bardd, *IC* Awdl gyffes Iolo Goch, *O* Cyffes dduwiol o bechodau a gweddi dosturawl att Dduw o waith Jolo Gôch Balcheler or ddwy gyfraith, *Q* Cyffes dduwiol o bechodeu a gweddi dosturiol ar Dduw Iesu am vaddeuant a thrugaredd gan Jollo Goch, *X* (*mewn bachau petryal*) Credo Jolo Goch, *Y* llyma gyffes Jolo goch pann oedd ar i wely angau, *a* (*llaw wahanol i'r prif destun*) Awdl i Grist Jesu, *b* llyma aódyll y gyffes gr. vab mared'. vab dd., *de* Owdl cyffes y Bardd ar y gyhydedd hir, *j* Cyffes i Dduw Jollo Goch ai c., *k* [ ] gyffes [ ] ar y gyhydedd hir, *n* Llyma ddarn awdl o waith Jolo Goch ar y gyhydedd hîr yn

ôl yr hen ddull, *o* Llyma odl Gyffes Jolo Goch, *py* Cyffes j Duw Jolo Gôch k., *r* Awdl Gyffes Jolo Gôch. Ar y gyhydedd hir, *t* (llaw wahanol i'r prif destun) kyffes Jolo goch (llaw arall eto) messur Rhypynt byrr, *v* Owdl gyffes y bardd cyhydedd hir, **GJ** Owdl cyffes y bard Jolo Goch y gyhydedd hir.

### *Olnod*

**ABEILORSTVWYdflnor(t)uvBCG** iolo goch ai kant, *D* Iolo goch ai c., **FGe** Jolo Goch ai cant 1400, **JMPXZkA** Jolo Goch, *U* Amen. Iolo Goch a'i cant, *apy* Jolo goch a'i cant Eraill a ddywedant mai Gruffyth mab Mredydd fab Dafydd a'i canodd, *b* AMEN, **cE** Jolo Goch:a:k:, *h* kyffes Jolo Goch y gelwir honn, *j* Jolo Goch ai cant. Cyffes Dafydd ab Gwylm yn y rin llyfr, *q* Jolo Goch ai cant Eithr y llyfr coch o hergest a ysgrifenydd ar femrwn ers agos i ddeucant o flynyddoedd sydd yn tystu mai Gruff ap Mredudd ap dd ai cant, *s* kyffes jolo goch y gelwir honn. y llyfr coch o hergest a ddywaid mai Gruff ap Maredudd ap Dafudd ai k. (*ychwanegwyd*: qui floruit 1400), *z* Amen. Gruffudd vab Mredydd ap dd ae kant (*llaw arall*: Eraill a dywedant mai Jolo Goch), **D** Iolo goch (*dilewyd hyn ac ysgrifennu*: Gruffydd ap Mredydd ap dd ai kant medd Dr Sion Dd: Rys allan or llyfr coch o hergest), **J** Jolo Goch ai kant (*llaw arall*: AD 1400).

### *Trefn y llinellau*

*Aq* 1–88, + ii, 89–96

*BlsD* 1–42, [43–4], 45–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*CldeikrGJ* 1–20, [21–8], 29–38, [39–96]

*DJRZ* 1–42, + i, [43–4], 45–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*EQ* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*FGH* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*LX* [1–74], 75–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*M* 1–42, + i, (43–60), 61–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*N* [1–54], 55–86, + ii, 87–92, [93–4], 95–6

*O* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–64, [65–6], 67–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*P* 1–42, + i (*hyd* drygwedd), 43–6, + i (*rhag*–tromwedd), 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6, + 1–4 *eto*

*S* 1–42, (+ i), 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

**TBCE** 1–42, + i, [43–4], 45–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*UVY* 1–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*W* 1–42, + i (*hyd* drygwedd), [43–4], 45–6, + i (*rhag*–tromwedd), 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*a* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, (93–4), 95–6, (+ iii)

*b* 1–96

*cjH* 1–42, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6

*f* 1–20, [21–8], 29–32, 35–6, 33–4, 37–8, [39–96]

*g* 1–20, [21–68], 69–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*h* [1–20], 21–42, [43–4], 45–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*n* [1–48], 49–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*o* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*py* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–96, + iii  
*t* 1–36, [37–8], 39–40, [41–4], 45–54, [55–60], 61–4, [65–70], 71–2, [73–4],  
 75–86, [87–8], + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*u* 1–42, + i, 45–6, 43–4, 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*v* 1–42, + i, 45–6, (43–4), 47–88, + ii, 89–92, [93–4], 95–6  
*x* 1–42, (+ i), 43–96  
*z* 1–96, (+ iii)  
*A* 1–6, [7–8], 9–14, [15–16], 17–22, [23–4], 25–8, [29–30], 31–42, [43–4],  
 45–88, + ii, [89–90], 91–2, [93–4], 95–6  
*I* 1–2, [3–96]

*i*

Rag uffern boenau ai ffoethion beiriau  
 a chadwynau Rwymau dreigiau drygwedd  
 Rag bellfurn byllfa ai gweithiau gwaethfa  
 uffern llin adda tryma tromwedd

*DFGJZv* ai ffeilsion dyrau, *H* ai ffeilsiau dyrau, *R(S)* a ffeilssion dyrau, *W A* gwythion gaethau; *DJRZ* ai chadwynau rrwymau (*Z* [Rwymau]), *E–HMOPQaopuyC* kadwynau rhwymau, *W Ai* çadwyn rwymau; *p* dreigeiau; *EMOQTaopuy* rhag pellfurn pyllfa ai gweithiau gwaetha (*T* byllfaf), *DZ* rrag pwllfwrn pillfa y gweision gwaetha, *FGHRv* Rag pwllfurn pillfa ar gweision gwaetha, *J* Rhac pwllfurn pyllfa y gweision gwaytha, *P* Rhag pwll farn pyllfa ai gwaithau gwaetha, (*S*) Rac pwllfern pillfa ar gweision gwaetha, *W* Rhag pwllfwrn pyllfa Ai gweithion gwaetha, *v* Rhag pwll furn pillfaf ar gweision gwaethaf, *C* rhag uffern bwlfa ai gweithred gwaetha, *E* rhag pellfurn pyllfa ai gweithieiau gwaetha; *DGHJR(S)ZvC* uffern llid, *P* uffern lin, *apy* uffern llyn.

*ii*

Er dy weliau klyw fyngweddiau  
 er dy grau angau yn yngdiwedd

*W* Er dy weziau; *B* klyw fyngweddy, *N* clyw fy echneidiau, *W* Gloyw vyingweziau, *g* klyw klyw fyngweddiau; (*M*)*Uy* er dy gur angau, *N* er dy geau angau, *C* er dagrau angau; *ABDFGHJNRTWZghltvBDE* yn y diwedd, *EMOPQSUYacjnopuyACH* ing y diwedd, *LX* yng dy ddiwedd, *V* yn yngdiwedd, *q* yn go ddiwedd, *s* yno ddiwedd.

*iii*

Dy rad ath gariad oth gaerawg nefoedd  
Ym-mhlith nifer berthawg  
A gaffwyf ller haeddwyr hawg  
Trwy gur brenin trugarawg

(z) ith gaerawc; *py* nefawl.

*Awdl gyffes*

- Anwylyd byd Cred, bendith [o] ffyniant, Creawdwr llu[’r] rhai  
 bedyddiedig,  
 Crist Fab [yr] Arglwydd Dduw, cyn diwrnod [y] cyni,  
 Gan na wn pa bryd, pa awr, pa ennyd  
 4 Y byddi [Di] yn fy nwyn o’r byd, diwedd cywir,  
 [O] Dad arglwyddiaidd dedwydd [a] mawr, awdurdod rhagorol [y]  
 nef a[’r] ddaear,  
 Gwrandawa arnaf bob awr, Arglwydd [y] gwirionedd!  
 I Ti y cyffesaf ac yr addefaf,  
 8 Gan mai Ti yw Arglwydd goruchaf tangnefedd nawdd,  
 Y pechodau a gyflawnais yn llwyr drwy bob math o synnwyr  
 Rhwng [y] ddaear a[’r] awyr, niwed llwyr:  
 Saith prif gamwedd pechod, gwancusrwydd a medd-dod,  
 12 Chwant [y] cnawd, casineb [y] galon, dicter cadarn,  
 Ffaeledd glythineb, brad parod godineb,  
 Parodrwydd [i ildio i] serchusrwydd, cadw fy nghyfoeth,  
 Balchder, traha, torri adduned i ymwadu,  
 16 Cymryd bwyd anamserol, sawl math o faswedd,  
 Dychanu, drwgdybio, mynd yn llesg, chwenychu,  
 Gwylltio a digio, dicter helaeth,  
 Esgeuluso pregethau ac offerennau,  
 20 Hepgor [dyletswyddau] fy Suliau oherwydd drygioni meddwol,  
 Gair, meddwl [llawn] anghrediniaeth, golwg sy’n crwydro’n  
 ddrygionus,  
 Gweithred diymwared, hyrddiad o ddrygioni,  
 Cyhuddo dyn diniwed, celwyddau drwg,  
 24 Ceisio [dwyn] cwynion gormesol, haerllugrwydd tra pharod,  
 Osgoi maddeuant, digio oherwydd afiechyd hirfaith,  
 Sathru seintwar [y] seintiau, braint brenhinoedd,  
 Tyngu i greiriau lwon celwyddog rhyfeddol,  
 28 Gwarantau llwon wedi eu torri, geiriau [llawn] camwedd,  
 Trais, twyll, brad, cynnen, lladrad llechwraidd, sen,  
 Llid a chenfigen, Arglwydd pob rhinwedd!  
 [Un sy’n cynnig] croeso addfwyn [a] hardd [i] ddewrion, Arglwydd  
 mawr [y] rhai marw a[’r] rhai byw,  
 32 [A chennyf] natur raslon [y] Tad di-nam, Arweinydd lluoedd,  
 Deisyfaf Dy ras, gofynnaf am Dy nerth,  
 Galwaf am Dy nawdd, Arglwydd [y] wledd nefolaidd,  
 Rhag cwyn dieflig, rhag cŵn ffyrnig,  
 36 Rhag dirmyg gelynion, atgasedd dig,  
 Rhag drygioni mwg [y] gors drwy[’r] giwed gaeth [o ran eu] llafur,

- Drewdod llechwedd uffern, cyflwr [o] gyni,  
 Rhag trais tragwyddol [y] tân ysgeler disglair,  
 40 Lladdfa ffyrnig uffernol danllyd,  
 Rhag [y] gors danllyd, ciwed y din [o'r] twll [llawn] fflam,  
 Budreddi tin, cyflafan sy'n peri tyllu, llosgedigaeth [lawn] cythrwfl,  
 Rhag angau llwyth Cain, gwerin llys uffern,  
 44 Byddin disgynyddion Adda, gormes ffyrnigrwydd,  
 Rhag poen ddidrugaredd [y] tân llachar poeth [ei] fwrlwm,  
 Pwll byddar [y] ddaear, corsydd du ac oer.  
 Fab brenhinol Mair, Anwylyd disglair urddasol,  
 48 Fe'th ystyrir yn Frenin [y] nef, Gair o orfoledd,  
 Maddeuaist Ti (yn deg y meddyliaist),  
 Ar y diwrnod y prynaist ni o'r pren ar lun crog,  
 Dy boen a'th alar a'th ferthyrdod  
 52 I'r sawl a'u hachosodd, bwriad [o] ddrygioni arfog.  
 Gan hynny, Arglwydd cadarn didramgwydd,  
 Parod Dy rodd, gwybodus am ffolineb [y] meddwl [dynol],  
 Gwna, Arglwydd, faddau fy holl bechodau  
 56 A'm dwyn ar Dy ddeheulaw, rhadlonrwydd disglair,  
 Yn yr un modd ag y bo imi faddau yr hyn a wnaethpwyd i mi  
 O ran clwyff[au] i'm cnawd i gyd, digofaint llym,  
 O ran trais, o ran colled, o ran gofid, o ran trallod,  
 60 O ran pob [math o] warth, pechod [yn erbyn] haelioni.  
 Ar Dy ddeheulaw, Ddewin, y boed imi fod yn gartrefol  
 Cyn [y] rhwym daearol, gorweddiad creulon,  
 Lle y mae llu di-frac ar lawr disglair [y] wlad fendigaid,  
 64 Lle y mae goleuni anrhydedd gras,  
 Lle y mae llawenydd a phob math o degwch,  
 Lle y mae cymod, gogoniant teilwng,  
 Lle y mae ffyddloneb, lle y mae diweirdeb,  
 68 Lle y mae unrhyw un yn ddibechod, lle y mae bywyd yn  
 rhinweddol,  
 Lle y mae gorffwysfa uwchlaw paradwys,  
 Lle y mae gwlad gyfannedd hyfryd, lle y mae ysblander,  
 Lle y mae trigolion nefol, lliaws [o] urddasolion,  
 72 Lle y mae angylion di-fai [llawn] trugaredd,  
 Lle y mae disgleirdeb, lle y mae dwyfoldeb,  
 Lle y mae Arglwydd ll[u]'r] orsedd nefol.  
 Amddiffynnydd byd Cred, [sy'n cynnig] rhodd [o'th] orsedd,  
 Arglwydd pob cyfamod,  
 76 Gwrandawa arnaf, Fab Mair, [a chennyt] air cynhaliol [llawn]  
 gwychder,  
 Gan fy mod yn bechadur o natur gorfforol,

- Rhag ofn [imi ddioddef] poen dolur a dial [gennyt],  
 Gan Dy fod yn wir Frenin o'r de, [O] Ddewin,  
 80 Hyd y gorllewin, Arweinydd Nasareth,  
 Gan fy mod mewn agwedd o gyffes, a [bod] Mair i eiriol drosof,  
 Ac yn edifar am wacter [fy] mywyd,  
 Gan mai Ti yw'r mwyaf breiniol a'r mwyaf urddasol,  
 84 Gan mai Ti yw'r goruchaf, Arglwydd, paid â'm gwrthod!  
 Er mwyn Dy boen olaf, er mwyn Dy Groes waedlyd  
 Yn erbyn poenau[r] pum oes, chwerwder [y] pymystl,  
 Er mwyn y waywffon efydd a fwriodd y dyn anafus  
 88 Dan Dy fron, Arglwydd, dwyfol [ei] hagwedd,  
 Er mwyn Dy glwyfau mawr gan hoelion caled,  
 Er mwyn Dy goron ddrain, [boed] Dy drugaredd,  
 Er mwyn Dy gyfodi ar ôl y pum clwyf,  
 92 Crist [y] nef, fy Mrenin, o rwym [y] bedd o faen,  
 Ac er mwyn concwest [y] ffin uffernol,  
 Cartref pob gelyn diymgeledd,  
 A'th esgyniad gwych hyd at Dy Dad cywir:  
 96 Rho imi gyfran o'th wlad a'th wledd!





## Nodiadau

### 1

O'r holl gerddi Cymraeg i grogau a erys o'r Oesoedd Canol Diweddar, hon yw'r fwyaf uchelgeisiol, nid yn gymaint o ran ei hyd nac arucheled ei hieithwedd, ond ar sail dyfnder ei syniadaeth a chyfoeth ei delweddu. Y mae'n ddiamau yn cystadlu â 'Marwnad Gwenhwyfar' (GGMD iii, cerdd 5) fel un o gampweithiau Gruffudd ap Maredudd.

Er gwaethaf y teitl a fabwysiadwyd yma, triphlyg yw pwnc y gerdd. Cân y bardd i wrthrych diriaethol cyfoes, sef delw o'r Crist croeshoeliedig yn nhref Caer; ond ar yr un pryd y mae'n canu i'r Wir Groes y dioddefodd Crist arni, ac i Grist Ei hun. Swyn y gerdd—ond hefyd un o'r anawsterau pennaf wrth geisio ei dehongli—yw'r modd y mae Gruffudd yn gwibio rhwng y tri pheth hyn, gan eu cymysgu blith-draphlith nes eu bod yn ymdoddi i'w gilydd. Bydd rhaid i un enghraifft gynrychioli'r gerdd gyfan:

Delw ysbrydolaf, dogn rad Tad tecaf,  
Da wiail Addaf, diwael oeddain'.  
Dôr côr, Pôr pefrlwys a ddoeth (goeth gynnwys)  
O lys baradwys i lwys Brydain.  
Rhywnaeth saer glaer glod, delw loyw hoyw hynod,  
Er didwyll orfod o Iôr dadiain.<sup>1</sup>

Am *ddehw* bren y sonnir yn llinell 157, ond yn y llinell nesaf fe'i huniaethir yn eglur â'r Wir Groes (a wnaed o *wiail Addaf*, gw. isod). Yna symudir yn ddisymwth at Grist yn llinellau 159–60: Ef Ei hun sydd wedi dod i Gaer. Ond dyma ni wedyn yn dychwelyd at y man cychwyn: *saer* a wnaeth y grog hon er clod Iesu (llau. 161–2). Chwalu'r muriau rhwng nef a daear a wna'r dechneg wibiol hon. Y mae'n ymateb celfyddydol i ymyrraeth y Duwdod ym myd cyfoes Caer y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Cerdd sylfaenol Ogyrfarddol yw hon. Canwyd hi ar fesurau awdl ac englyn; y mae wedi ei chynganeddu drwyddi, a cheir ynddi ddefnydd helaeth o gymeriad. Gogynfarddol yw naws ei hieithwedd hefyd: y prinder berfau rhediadol, y cyfansoddeiriau lu, y mynych enghreifftiau o roi enw genidol neu ansoddair o flaen yr enw a oleddfa, yr ansicrwydd o ran ymhle y mae brawddeg yn dechrau ac ymhle y mae'n gorffen. Mwy sylfaenol fyth na'r rhain oll yw adeiledd Gogynfarddol y gerdd—neu efallai y byddai 'diffyg adeiledd' yn well disgrifiad. Y ffordd orau o weld hyn yw ei

<sup>1</sup> Llau. 157–62.

chymharu ag awdl gyffes y bardd (cerdd 15). Arddengys honno strwythur cwbl resymegol, patrwm a seilir ar ddefosiwn penyd. Ymranna'r awdl gyffes yn adrannau clir ac y mae'r cwbl yn ddarostyngedig i'r weddi sy'n ganolbwynt i'r ddefod o benydu. Nid felly'r awdl i'r grog. Crwydro o'r naill ddelwedd i'r llall a wna hon, heb fod unrhyw wahaniaeth i'w weld rhwng cynnwys y gwahanol ganiadau. Nid beirniadaeth arni yw dweud ei bod yn crwydro, ond cydnabyddiaeth ei bod yn dilyn estheteg wahanol, estheteg a welir yn bur gyffredin yng nghanu mawl y Gogynfeirdd. Yn hytrach na symud mewn trefn resymegol o un thema i'r nesaf, y mae'r cerddi hyn yn gweu themâu a delweddau ynghyd i greu cyfanbeth. Rhan o'r un ffenomen yw'r dechneg wibiol, a ddisgrifiwyd uchod, sy'n uniaethu'r Grog o Gaer â'r Groes Sanctaidd ac â Christ Ei hun. Os dymunir gwerthfawrogi'r gerdd hynod hon, dygymod â'r adeiledd cylchog anllinellol hwn yw'r anhawster pennaf.

*Y Grog o Gaer: nodiadau hanesyddol*

Trafodir y Grog o Gaer, ei chwlt canoloesol, y traddodiadau a gysylltid â hi a'i lle mewn llên gwerin ddiweddarach yn Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005). Yma, felly, rhoddir crynhoad o'r manylion pwysicaf yn unig, gan gyfeirio'r darllynydd a fyn ragor o wybodaeth at y cyhoeddiad hwnnw.

Hon yw'r gerdd gyntaf a gadwyd i'r Grog o Gaer. Rhestrir isod y cerddi Cymraeg eraill a ganwyd iddi:

Bedo Brwynllys

‘Pum gweli'n golchi amgylchion moroedd’<sup>2</sup>

‘Agorwch y dre gaerog’<sup>3</sup>

Dafydd ap Hywel

‘Y groc erchwyniog chwenaw or moroedd’<sup>4</sup>

Ieuan Bol ab Ieuan ap Rhys o Brysg y Byddair

‘llithrodd kroes eurvoes arver’<sup>5</sup>

Ieuan Brydydd Hir

‘Y Gŵr o Gaer—nid gair gau—’<sup>6</sup>

‘Bloeddiais ers hanner blwyddyn’<sup>7</sup>

<sup>2</sup> CBPM 552–3.

<sup>3</sup> Bedo Aerddrem, &c.: Gw 145–6.

<sup>4</sup> CBPM 551–2.

<sup>5</sup> Pen 57, 29 (anolygedig).

<sup>6</sup> GIBH cerdd 10.

<sup>7</sup> *Ib.* cerdd 11.

Guto'r Glyn

'Y Grog i bob dyn o gred'<sup>8</sup>

Llawdden

'Y Grog odidog o doded—dy lun'<sup>9</sup>

Maredudd ap Rhys

'Garllaes fŷm o'r gwayw oerllwm'<sup>10</sup>

Lleoliad y grog hon oedd Eglwys Ioan Fedyddiwr, Caer.<sup>11</sup> Sefydlwyd yr eglwys hon yn ystod y cyfnod Eingl-Seisnig ac yn 1075 fe'i dyrchafwyd yn gadeirlan. Eglwys golegol ydoedd, sef un a reolid gan gyrff o glerigwyr (canoniaid). Yn sgil ei dyrchafiad yn gadeirlan, dechreuwyd ei hailadeiladu ar ffurf a gydweddai â'i statws newydd, ond byr fu parhad y statws hwnnw ac ni fu adnoddau ariannol yr eglwys erioed yn ddigonol ar gyfer cynnal yr adeilad rhwysgfwyr na'r canoniaid yn iawn.<sup>12</sup> Dibynnai'n drwm ar offrymion y pererinion a ddeuai i ymweld â'r grog enwog.

Fel y mae cerdd Gruffudd ap Maredudd yn awgrymu, credid bod y grog wedi cyrraedd Caer drwy wyrth. Glaniodd ar y Roodee, sef darn o dir lleidiog ar droed mur gorllewinol y dref, sydd bellach yn dir sych ac yn gartref i gae ras Caer. Yn ôl Llawdden, o Ddilyn yn Iwerddon y daethai'r grog. Cludwyd hi i Eglwys Ioan Fedyddiwr ac yno yr arhosodd hyd adeg y Diwygiad. Y mae'n bosibl fod hefyd draddodiad iddi gynnwys peth o bren y Wir Groes.<sup>13</sup> Ni wyddys pryd yn union y dechreuodd bri'r Grog o Gaer fynd ar led, ond ymddengys mai Eglwys Ioan yw'r eglwys y cyfeirir ati yn 1278 fel *ecclesia sanctae crucis Cestriae*;<sup>14</sup> y tebyg yw, felly, fod y grog wedi cyrraedd erbyn y dyddiad hwnnw. Pan ddiddymwyd y coleg yn 1547, aeth y grog i ddifancoll, fel y gwnaeth miloedd ar filoedd o greiriau eraill ledled Cymru a Lloegr. Edrydd un traddodiad iddi fynd i'r ysgol ramadeg newydd a'i defnyddio'n bostyn chwipio.<sup>15</sup>

Cyfeirir at y grog mewn ewyllysiau o'r cyfnod, sy'n dangos ei bod yn enwog yn ngogledd-orllewin Lloegr.<sup>16</sup> Y mae William Langland, y bardd Saesneg Canol adnabyddus, hefyd yn sôn amdani yn ei gampwaith 'Piers

<sup>8</sup> GGI<sup>2</sup> 283–4 (cerdd CX).

<sup>9</sup> CBPM 294–6. Golygir gwaith Llawdden gan R. Iestyn Daniel yng Nghyfras Beirdd yr Uchelwyr.

<sup>10</sup> GMRh cerdd 2.

<sup>11</sup> Crynhoir y brif dystiolaeth ar gyfer hyn yn Douglas Jones, *The Church in Chester, 1300–1540* (Manchester, 1957), 50–8 ac yn enwedig 50–1.

<sup>12</sup> Symudwyd y sedd esgobol i Coventry yn 1102.

<sup>13</sup> Ll. 20n (n. i *dwfr dwyrain*).

<sup>14</sup> Mewn dogfen lle y cofnodir gwystlon o Gymry a dyngodd lw o ffyddlondeb i Edward I ar y grog, gw. Douglas Jones, *op.cit.* 51n2.

<sup>15</sup> *Ib.* 51.

<sup>16</sup> *Ib.*

Plowman', mewn cyd-destun sy'n awgrymu'n gryf fod y grog yn hysbys iawn.<sup>17</sup> Dengys y cerddi Cymraeg ei bod yn uchel ei bri ymhlith y Cymry hefyd. Ceir llên gwerin am y Grog o Gaer a'i chysylltiad â'r Roodee mor ddiweddar â'r 19g. Am ragor o fanylion, gw. Barry J. Lewis, *op.cit.*

### Mesurau

- Caniad 1 (llau. 1–36): rhupunt (prifodl *-edd*)  
 Caniad 2 (llau. 37–84): gwawdodyn (prifodl *-af*)  
 Caniad 3 (llau. 85–128): toddaid (prifodl *-on*)  
 Caniad 4 (llau. 129–74): cyhydedd hir (prifodl *-ain*)  
 Caniad 5 (llau 175–210): englynion unodl union ac englynion proest

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 192–206. Ceir cyfieithiad Saesneg ohoni yn T. Gwynn Jones, 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd: Odes to the Crucifix at Chester', *The Cheshire Sheaf*, 3rd. series, xxii (1925), 37–40. O ystyried astrusi'r testun, bu'r cyfieithiad hwn yn gryn gamp yn ei ddydd, ond y mae ein gwybodaeth am ieithwedd a mynegiant y Gogynfeirdd wedi cynyddu'n aruthrol yn y cyfamser. Cynigir cyfieithiad Saesneg newydd yn Barry J. Lewis, *op.cit.*

- 1 **Penrhaith** Gair a ddefnyddir yn aml am bennaeth neu arglwydd bydol, a hefyd am Dduw, gw. GPC 2757. Yn ôl Cyfraith Hywel, y *penrhaith* oedd arweinydd y *rhaith*, sef corff o ddynion a gadarnhâi lw un o'r pleidiau mewn achos cyfreithiol, gw. D. Jenkins, *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul, 1970), 104–7. Y mae'r teitl yn gweddu i Dduw fel amddiffynnydd a ffynhonnell gwirionedd.

**côr** Gair ac iddo sawl ystyr, gw. G 163–4 d.g. *côr*<sup>1</sup> a GPC 554–5 d.g. *côr*<sup>1</sup>. Cyfeiria yma at gangell yr eglwys, sef y rhan i'r dwyrain o'r croesiad, neu o bosibl at y côr mewn ystyr gyfyng, sef y rhan o'r gangell yn syth y tu ôl i'r croesiad lle y safai'r cantorion yn ystod y gwasanaethau, gw. ODCC<sup>3</sup> 317 d.g. *chancel* a 331 d.g. *choir*. Yn yr Oesoedd Canol, gosodid y Grog Fawr ym mhen dwyreiniol corff pob eglwys ac felly uwchben y fynedfa i'r gangell (a chôr y cantorion), gw. Aymer Vallance, *English Church Screens: Being Great Roods Screenwork and Rood-lofts of Parish Churches in England and Wales* (London, 1936), 2.

**côr arianwaith** Gellid rhoi atalnod o flaen *côr* ac aralleirio 'Caraf Bennaeth, crefftwaith arian [y] gangell' (sef y ddelw ei hun).

**carai** Gwrthodir yr awgrym petrus yn G 112 d.g. *carei* i'w ddeall yn e. 'carwr, hoffwr'. Ni nodir enghraifft arall o *carai* yn e. ac nis

<sup>17</sup> William Langland, *The Vision of Piers Plowman*, ed. A.V.C. Schmidt (second ed., London, 1995), 85 (v.460).

cydnabyddir yn GPC 422. Cynnig T. Gwynn Jones yw ‘*for virtue would love it*’, gw. ‘Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd: Odes to the Crucifix at Chester’, *The Cheshire Sheaf*, 3rd. series, xxii (1925), 38.

- 2 **crair** Defnyddir *crair* yn aml gan y beirdd yn yr ystyr ‘anwylyd’, yn cyfeirio at arglwyddi bydol ac at Grist, weithiau hefyd at Fair, gw. G 172–3 a GPC 578–9. Yn y gerdd hon, y mae’r ystyr drosiadol yn cydblethu â’r ystyr lythrennol fel na ellir yn aml wahaniaethu rhyngddynt. Uniaethir y Grog o Gaer â’r Wir Groes, ac uniaethir y ddwy â Christ Ei hun.

**Gair** Sef Gair Duw, y *logos*, ail Berson y Drindod a ymgnawdolwyd yng nghroth Mair, gw. NCE viii, 967–72 d.g. *logos*; Io i.1–5, 14.

**Ei** Llsg. y. Gall mai’r fan. ydyw.

- 3 **Calfaria** Mynydd Calfaria neu Golgotha, sef y bryn y tu allan i Gaersalem lle y croeshoeliwyd Crist (Math xxvii.33; Marc xv.22; Luc xxiii.33; Io. xix.17).

**maerdy** GPC 2312 ‘hafoty, llaethdy, fferm laeth; tŷ fferm; ?maerdref, tir dan ofal maer neu stiward’. Awgrymir ffrwythlondeb y gras a ddaw o’r Groes ac o’i maer, sef Crist.

**gratia** Llad. ‘gras’. Fe’i sillefir *gracia* yn y llsg. a dengys y gynghanedd mai ‘grasia’ yw’r ynganiad.

- 4 **haul** Llsg. *havl*. Awgrymir yn G 768 d.g. *hawl*<sup>1</sup> ei ddehongli fel *hawl*. Eto, *v* ac nid *ŷ* a geir yn y llsg. yn ddiamau, a hefyd disgrifiad gweledol yw *mirain wedd*; felly mwy tebygol yw’r ail awgrym yn G *l.c.*, sef *haul*. Ceir nifer o enghreifftiau o sillafu’r ddeusain *ai* yn *ai* yn lle *ei* ar y tudalen hwn o’r llsg., a dichon fod y ffurf *havl* (yn lle’r *heul* a ddisgwyliid) i’w chymharu â’r rhain. Gellir cymryd *haul firain wedd* yn ddisgrifiad o Grist neu o Fair, oherwydd cyplysid y ddau â’r haul, cf. Math xv.2; Dat i.16; J. Cartwright: ForF 51–3. Geilw Llawdden y Grog o Gaer yn *Llun haul mewn llanw a heli*, gw. Llawdden, &c.: Gw 78 (25.8).

- 5 **Cred** Yma ac mewn manau eraill y mae’r ystyr yn amwys. Gall gyfeirio at y byd Cristnogol i gyd (S. ‘*Christendom*’) neu at ffydd yn gyffredinol, gw. G 170 d.g. *cret*<sup>1</sup> a GPC 585.

**Glwyswawr** Gall *glwys* olygu ‘sanctaidd’ yn ogystal â ‘hardd’, gw. G 536 a GPC 1413. Gwedda’r ddwy ystyr yma.

- 6 **canon** Gair Gr. a fenthyciwyd i’r Llad. ac oddi yno i’r Gym. Yr ystyr wreiddiol oedd ‘ffon fesur’. Yn ôl y *Dictionary of Medieval Latin from British Sources*, ed. R.E. Latham (Oxford, 1975–), 259–60, yr ystyron mewn Llad.C. oedd ‘*canon, rule*’; ‘*rule, table*’ (mewn mathemateg); ‘*canon*’ yr Ysgrhythur; ‘*canon*’ yr offeren; ‘*prescribed payment*’; neu ‘*canon*’ (eglwyswr a oedd yn aelod o gabidwl). Cf. G 108 a GPC 416–

17 d.g. *canon*<sup>1</sup> a *canon*<sup>2</sup> am yr ystyron yn Gym.: ‘cyfraith neu ddeddf eglwysig ... cyfraith, rheol, safon, maen prawf ... rhan o wasanaeth yr offeren ... ?llyfr yn cynnwys gwasanaeth yr offeren, llyfr sanctaidd neu awdurdodol’, hefyd ‘rheolwr’. Y mae’n anodd penderfynu pa un sydd fwyaf addas yma, ond ymddengys mai disgrifio Crist fel safon pob bendith a wneir. Byddai cyfeiriad at yr Ysgrythur neu at ganon yr offeren yn synhwyrol hefyd. Gw. ll. 111n.

- 7 **cadair** Gair amwys, gw. G 90 a GPC 375. Os ‘sedd, gorsedd’ yw’r ystyr yn y ll. hon, yna dichon fod y gair yn cyfeirio at y grog ei hun fel yn ll. 78n a 2.13n *Ar gadair ffydd*.

**ffair** Fe’i rhestrir yn G 504 dan *ffeir*<sup>2</sup> ‘prydfarth, gwych, rhagorol’ ond awgrymir hefyd ‘budd, ennil, mael’ gan ei gysylltu â *ffeir*<sup>1</sup> ‘ffair, marchnad, cyfnewid; cynnwrf, heldrin, ymdrech, ymladd’. Gw. yn ogystal GPC 1275 d.g. *ffair*<sup>1</sup> a *ffair*<sup>2</sup>.

**aelofedd** Llsg. *eloued*. Awgrymir y diwygiad yn G 11 d.g. *aeloued*. O ran yr ystyr, cf. GGD 7.5n (Gwilym Ddu o Arfon).

- 8 **cyflawn ddawn Ddâr** Gellid *cyflawn dawn Dâr*, naill ai heb wahaniaeth ystyr (oherwydd fod modd caledu *dd* yn *d* ar ôl *n*, gw. Treigladau 26–7) neu ynteu fel brawddeg enwol yn golygu ‘cyflawn yw dawn [yr] Arglwydd.’

- 9 **Elen** Yr ymerodres Helena, mam Custennin Fawr (ymerawdwr Rhufain 306–37 O.C.). Custennin oedd yr ymerawdwr cyntaf i droi’n Gristion ac ef a gyfreithlonodd Gristnogaeth yn yr Ymerodraeth Rufeinig. Tybid yn yr Oesoedd Canol fod Helena wedi ailddarganfod y Wir Groes, a dechreuodd chwedlau am y digwyddiad gwyrthiol hwn gylchredeg yn fuan ar ôl iddi farw. Yn ôl y fersiwn a oedd fwyaf hysbys yng ngorllewin Ewrop, cafodd Helena wybod am leoliad y Groes drwy holi Iddew o’r enw Jwdas. Wedi cloddio yn y man a ddangosodd ef ar Fynydd Calfaria, daethpwyd o hyd i dair croes, sef Croes Crist a’r ddwy y croeshoeliwyd y lladron arnynt. Dangoswyd pa un ohonynt oedd y Wir Groes drwy iddi adfer bywyd dyn ifanc a oedd wedi marw. Gw. ymhellach Jan Willem Drijvers, *Helena Augusta: The Mother of Constantine the Great and the Legend of Her Finding of the True Cross* (Leiden, &c., 1992) ac am gyfieithiad S. o fersiwn y ‘Legenda Aurea’, gw. Jacobus de Voragine: GL i, 277–84. Troswyd y chwedl i’r Gym.; ceir amryw gopiâu yn y llawysgrifau a golygiad yn Yst Addaf. Yng Nghymru, cymathwyd Helena ac Elen Luyddog, gwraig Macsen Wledig a merch Eudaf ap Caradog, gw. WCD 234–5.

**eurai Foesen ar ei fysedd** Nid yw’r cyfeiriad hwn yn hollol eglur. Yn ogystal â’r hanes am ddarganfyddiad y Groes gan Helena, yr oedd chwedlau niferus am darddiad pren y Groes yn cylchredeg erbyn yr 11g. a’r 12g. Yn ôl y fersiwn mwyaf cyffredin, daeth Moses ar draws y tair

gwialen yn Ebron (Hebron) lle yr oeddynt yn tyfu allan o geg Adda a oedd ynghladd yno. Tynnodd Moses y gwiaail a'u cludo gydag ef ar ei deithiau yn yr anialwch. Yn y fersiwn Cym. o'r hanes yn Pen 5, dywedir *A phan y tynnbyys o enev adaf y kavssant kyfryb arogleu val y tebygynt yna eu bot yn y daear adawedic*, gw. Yst Addaf 12 (llau. 17–21); ond ni sonnir am y gwiaail yn euro bysedd Moses. Posibilrwydd arall, llai tebygol efallai, yw cymryd *Moesen* yn oddr. Dangosir yn Treigladau 214 fod y goddr. yn treiglo ar ôl y terfyniad *-ai* mewn Cym.C. Efallai fod y bardd yn credu i Foses euro'r gwiaail. Y mae geiriau fersiwn Pen 5 o'r hanes yn agored i'w camddehongli felly: *Ac y cadb yn anrydedus a bnaeth A gôisc yn eu kylch yn greireu annbyl*, Yst Addaf 13 (llau. 4–6). Sonir yn y Llad. gwreiddiol, fodd bynnag, am eu lapio mewn lliain glân (*panno mundissimo eas inuoluit et secum pro sanctuario ... tulit*, gw. *l.c.*) a chyfleir hyn yn fanwl gywir mewn rhai o'r testunau Cym. eraill, e.e. Pen 191 (dyfynnir yn Yst Addaf 13n2). Gan nad oes sôn penodol am aur yn y chwedl, cymerir mai 'anrhydeddu' yw ystyr *euro* yn y ll. bresennol, boed *Moesen* yn oddr. neu'n wrth. i'r f.

- 10 **celennig** Llsgr. *kelemic*. Derbynnir y diwygiad a awgrymir yn G 126 d.g. *kelennic*.

**gwinwledd** Am ddelweddu'r nef yn wledd, cf. N.G. Costigan, *Defining the Divinity: Medieval Perceptions in Welsh Court Poetry* (Aberystwyth, 2002), 121. Ceir y cyfuniad *gwenwlad gwinwledd* eto yn GGMD i, 4.9 (am Wynedd).

- 11 **corf** Cf. GGMD i, 2.2n. Yma, gall fod y bardd yn cymharu'r ddelw â philer, cf. GLIBH 4.27n, 4.100 (Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaerfyrddin) am ddefnydd cyffelyb o *corf* mewn perthynas â chrog.

**Caer** Yma ac mewn manau eraill yn y gerdd gallai fod yn e.c.

**côr** Cf. ll. 1n.

- 12 **coron euraid** Delw o Grist yn Ei ddiodeffaint oedd y grog hon yn ôl ll. 192 isod, ac felly'n gwisgo'r goron ddrain. Efallai fod honno'n euraid ei lliw, ond gall mai disgrifiad o Grist y Brenin a geir yma ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at y grog yng Nghaer.

**bwyaid** G 85, GPC 357. Gw. ymhellach Ifor Williams, 'Dwy Gân o Lyfr Coch Talgarth', B ii (1923–5), 124 am yr ystyr '*beatitude, blessing*'. Yn ôl GPC *l.c.* deillia o'r Llad. *beati* '[y] bendigedig rai'. Fe'i ceir hefyd yn Bl BGCC 288 (2a) a cf. y nodyn ar y ll. yno.

- 13 **Brenin ... y brenhinedd** Am enwau brenhinol Duw, gw. M. Paul Bryant-Quinn, '“Archaf Weddi”: Rhai Sylwadau ar Farwysgafn Meilyr Brydydd', LICY xx (1997), 12–15. Ceir yr ymadrodd *Rex regum* ('Brenin y brenhinoedd') yn Dat xvii.14 a xix.16, cf. GMB 4.1 (Meilyr Brydydd).

14 **perfeddnod** Nodir yr ystyr yn betrus yn GPC 2772, ond nid oes angen petruster mewn gwirionedd, fel y dengys GGMD i, 6.35 *Gwynedd berfeddnod* (am Lywelyn ap Gruffudd). Daw pob enghraifft o'r gair a ddyfynnir yn GPC o waith Gruffudd ap Maredudd.

**eurgledd** Am ei ddefnyddio am Dduw, cf. GSRh 10.63–4 *Arghwydd ni weled, wedy eurgledd—nef, / Un rhediad ag ef o anrhydedd* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed i Hywel ap Goronwy).

15 **cael ym, grym grair** Petrus yw'r dehongliad hwn, sef deall *grym grair* yn gyfarchiad, yn enwedig oherwydd y defnydd o'r trydydd prs. yn y cymal nesaf. Gellid hefyd *cael i'm grym grair* 'cael [y] crair yn fy ngrym / ar gyfer fy ngrym' neu *cael ym grym Grair* 'cael [y] crair grymus imi'. Dwyseir y broblem gan amwysedd *crair*, gw. ll. 2n. Y mae'r defnydd o'r be. ar ei ben ei hun hefyd yn annisgwyl. A yw'n amhosibl mai'r Llad. *caelum* a geid yma'n wreiddiol? Os felly, gellid 'crair [y] nef rymus', ond yn erbyn hynny disgwylid ynganu *c* yn *caelum* fel 's', cf. ll. 165n a 3.260 *Eurglo* in *caelo medd seilm Dafydd*, a byddai hynny'n torri ar draws y cymeriad yma.

**rhediau berthedd** Sonnir, efallai, am ras Duw.

16 **Culwydd** Gair a gedwir bron yn ddieithriad ar gyfer y Duwdod, cf. G 186 a GPC 629.

**tyng** Er mai *twng* yw ffurf arferol 3 un.pres.myn. y f. *tyngu*, ceir *tyng* yn GIBH 7.16 hefyd.

**o'i** Am yr ystyr 'i'w', gw. GMW 53n2.

18 **manon** Gellir a. 'breninesaidd', gw. GPC 2344. Cyfeirir at Fair yn ôl pob tebyg.

**o lân fonedd** Gallai hyn ddisgrifio Crist neu Fair. Olrheinir achau Iesu drwy Joseff i'r brenin Dafydd ac yn ôl i Abraham ac Adda yn Math i.1–17 a Luc iii.23–38. Ni cheir achau'r Forwyn Fair yn yr Ysgrythur, ond credid yn yr Oesoedd Canol ei bod hithau'n disgyn o Ddafydd, gw. Jacobus de Voragine: GL ii, 149–51.

19 Neu '[Yr] eigion mawr a theg [a] disglair [ei] natur, rhyferthwy môr [y] Gogledd'.

**dylan** Fe'i cymerir yn e.c. 'eigion, cefnfor, môr, ton', cf. G 420–1 a GPC 1135. Ceir hefyd e.p. *Dylan*, gw. G 421 a M. Haycock, 'Dylan Eil Ton', YB xiii (1985), 26–38. Cred Haycock mai e.c. ydyw yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau, ond gthg. GGDT 11.21n *llid anian Dylan* (Trahaearn Brydydd Mawr).

**Gogledd** Sef gogledd Cymru, y mae'n debygol. Darganfuwyd y grog yn aber Afon Dyfrdwy yng Nghaer a chredid ei bod wedi teithio dros y môr (ac felly heibio i ogledd Cymru).



20 Dehongliad ansicr a gynigir. Anarferol yw defnyddio be. yn wrth. uniongyrchol i *dal* (ni restrir enghraifft arall yn G 290–2 nac yn GPC 881–2) ac nid oes gwrth. amlwg ar gyfer *arwain*. Derbynnir bod llau. 19–20 i'w deall yn gyfochrog â llau. 21–2 ac yn mynegi'r un syniad, gan gymryd *delw werthforaf* yn ll. 23 yn wrth. i'r ddau ymadrodd. Y môr a gynhaliodd (*delis*) gludiad y ddelw i Gaer. Posibilrwydd arall yw deall Crist neu'r ddelw ohono (llau. 17–18) yn oddr. dealledig *delis*. Á'r cyfuniad *delis arwain* cf., efallai, CO<sup>3</sup> 1 (ll. 5) *delis beichogi*. Yn ôl y dehongliad hwn, rhaid cymryd ll. 19 yn sangiad. Gellid hefyd ddeall *coel engylion* yn ll. 18 yn wrth. *arwain* a *mordwy* yn ll. 19 yn oddr. arfaethedig *delis*. Yn olaf, gellid efallai rhannu *arwain* yn *ar wain*. Os felly, 'Daliodd [y môr ef] ar wain o ddŵr ymchwyddol i diroedd [y] Saeson.' Am *gwain*, gw. G 648 d.g. *gwein*<sup>1</sup> a GPC 1562–3 d.g. *gwain*<sup>1</sup>. At bethau cyfyng y cyfeiria'r gair yn ei ystyron trosiadol, ond gellid dadlau bod y môr wedi cyfyngu'r grog. Yn GTP 86 (48.42) *Gwain y môr, gwae ni ei maint* (Ieuan ap Tudur Penllyn) delweddd ydyw *gwain* am foryd, sef Afon Clwyd yn Rhuddlan. Nid yw'n amhosibl mai moryd Afon Dyfrdwy a olygir yn y ll. bresennol.

**dwfr dwyrain** Oherwydd lleoliad Caer ar yr arfordir gorllewinol y mae rhaid mai o'r gorllewin y daeth y groes yno. Gall fod Gruffudd yn credu iddi ddod o'r dwyrain yn y pen draw a'i bod wedi hwylio o gwmpas Prydain i Gaer, ond, yn ôl Llawdden, Dulyn oedd tarddle cydnabyddedig y crair, gw. Llawdden, &c.: Gw 79 (25.20) *Croes Duw ddelw Crist o Ddilyn*. Fodd bynnag, gellid amddiffyn y syniad fod y grog yn dod o'r dwyrain os credid bod darn o'r Wir Groes ynddi, a bid a fo am hynny, nodwyd eisoes fod Gruffudd yn cymathu'r Grog o Gaer a'r Wir Groes yn y gerdd bresennol. Nodir *Môr y Dwyrain* fel enw'r Môr Marw yn GPC 2485 d.g. *môr*<sup>1</sup>, a'r enghraifft bendant gynharaf ym Meibl 1588. Y mae'n bosibl, felly, mai sôn yn fras am y Tir Sanctaidd a wneir yma. Cf. hefyd ll. 117n, 136n. Posibilrwydd arall fyddai 'dŵr ymchwyddol', gw. G 404 a GPC 1100 d.g. *dwyrain*.

**Deifr** Yn wreiddiol, teyrnas Eingl-Sacsonaidd Deira yng ngogledd Lloegr neu ei thrigolion. Fe'i defnyddir yn ddiwahân gan y beirdd i olygu Lloegr neu Saeson yn gyffredinol, gw. G 310 d.g. *Deif(y)r*<sup>1</sup>, felly nid oes rhaid cymryd *Deifr* yn gyfeiriad penodol at diriogaeth yr hen Deira yma.

21 **arw ei dyfredd** Llsg. *arwy dyfōred*. Rhennir *arwy* er mwyn yr ystyr. Dichon mai dylanwad yr un. *dyfwr* (a nodir yn G 400 d.g. *dwf(y)r*) sy'n cyfrif am yr *ō* yn *dyfōred* yma, ac nid oes iddo werth sillaf yn ôl y mesur.

22 **Dyfrdwy** Yr afon y saif Caer arni. Disgwyliid treiglo *Dyfrdwy* yn feddal i ddynodi'r gyrchfan, cf. Treigladau 227–8 a J. Lloyd-Jones, 'Some Features of Middle Welsh Syntax', ZCP xvii (1927–8), 98–101, ac nid

yw orgraff y Llyfr Coch o help i benderfynu yma. Y mae'r cymeriad o blaid cadw'r gysefin. Yn y ll. bresennol, gellir dadlau bod peidio â threiglo yn ganiataol ar ddechrau'r ll., cf. Treigladau 425 am effaith gorffwysfa ar reolau treiglo. Ceir enghreifftiau posibl eraill o beidio â threiglo yn y gystrawen hon yn llau. 38n, 48n, 58n, 129n, 187n, 210n. Nid yw pob un o'r rhain ar ddechrau ll., a cheir achosion tebyg eraill ymysg yr enghreifftiau yn J. Lloyd-Jones, *l.c.*, er na rydd yntau sylw arbennig iddynt. Y mae'n debygol, felly, nad oedd rhaid treiglo'n gyson yn y gystrawen hon; cf. GLIL1 10.72n *Pan dyfu penn llw Penllyn*; GBF 54.32n *Pan aeth gŷyr Gwynet tuet Teiui*. Posibilrwydd arall yw deall bod y ll. bresennol yn ei chrynswth mewn cyfosodiad â ll. 21 yn hytrach na'i bod yn dynodi'r gyrchfan.

**ar ael Gwynedd** Cyfrifid Tegeingl, sef y cantref sy'n cyfateb i'r rhan fwyaf o sir y Fflint, yn rhan o Wynedd Is Conwy mewn rhai cyfnodau yn yr Oesoedd Canol; felly glaniodd y grog yn agos i arfordir Gwynedd.

- 23 **gwerthforaf** Rhestrir yr enghraifft hon fel cyfansoddair o *gwerth* + *mawr* yn G 671 d.g. *gwerth* ond nodir yno fod tuedd i gymysgu *gwerthfawr* a *gwyर्थfawr* (G 750 d.g. *gwyर्थ*<sup>1</sup>). Gw. ymhellach GPC 1647–8 d.g. *gwerthfawr* a 1786 d.g. *gwyर्थfawr*. Cf. isod llau. 62, 97, 176, 205.

**o gludfawredd** Llsgr. *a glutuabred*. E. yw *cludfawredd* felly ni all y rh.pth. sefyll o'i flaen. Os yw darlleniad y llsgr. yn gywir, felly, rhaid mai cyfansoddair o *glud* + *mawredd* sydd yma, gw. G 536 d.g. *glut*. Ymddengys mai dyna oedd barn T. Gwynn Jones, gw. *art.cit.* 38, '*with great assiduity*'. Ni cheir enghraifft bendant arall o *gludfawredd*: *cludfawredd* yn ddi-os sydd gan Ruffudd yn GGMD iii, 5.147 *â chlodfawredd ei chlodfori* ac yn ôl pob tebyg gan Lywelyn Brydydd Hoddnant yn GLIBH 3.12 *Llariedd gludfawredd a glodforaf* (Llywelyn Brydydd Hoddnant) '[Ei] chyfoeth [llawn] haelioni a glodforaf'. Yn wyneb y ddwy enghraifft hyn, ac yn enwedig y ffaith fod y gair mewn cyfuniad â'r f. *clodfori* ym mhob un o'r llau. dan sylw, mentrir derbyn *cludfawredd* a diwygio *a* yn *o*. Hawdd gweld sut y gallai'r copïydd faglu yn syth ar ôl ysgrifennu *a* yn y cymal blaenorol.

**cludfawredd** Gair ansicr ei ystyr, gw. G 149 d.g. *clut* lle y cynigir '?cyfoeth, neu arwyrain, anrhydedd' a GPC 510 'cyfoeth, golud'. Y mae ansicrwydd ynglŷn ag ystyr *clud* yntau, cf. GGMD i, 2.34n, 43, 4.15n. Os 'clod' ydyw yma, gallai gyfeirio at y rheswm paham y mae'r bardd yn moli'r ddelw ('a glodoraf oherwydd [ei] hanrhydedd/henwogrwydd') neu ynteu at ei gân ('a glodforaf drwy ysblander clod').

- 24 **ysbrydawl** Ystyron posibl eraill yw 'nwyfus, bywiog', gw. GPC 3826.

**a'm medd** Hen drawiad yw *a fedd* mewn perthynas â Duw yn ein meddiannu neu yn ein rheoli, cf. BI BGCC 9 (1.9a; enghraifft ansicr),

158 (18.8), 218 (21.122); GMB 15.30 (Elidir Sais); GLIF 6.26 (Hywel ab Owain Gwynedd), 26.291 (Gwynfardd Brycheiniog); GCBM ii, 16.63, 187.

25 **dôr côr** Cf. GGMD i, 4.94. Yma, meddylier yn benodol am leoliad y grog yn yr eglwys, uwchben y fynedfa i'r gangell, gw. uchod ll. 1n.

**Dewin** Gair a ddefnyddir yn aml am Dduw er mwyn pwysleisio Ei hollwybodaeth, cf. G 320–1 a GPC 941.

26 **dilid** Dilynir GPC 1013 ond gthg. G 353 d.g. *dilit*<sup>1</sup> lle y cynigir 'teilwng, haeddiannol, addas' heb ddangos enghraifft bendant arall.

27 **tlawd a noeth** Cf. Math xi.4–5 (Luc vii.22) a Math xxv.34–6.

30 **delw fyw** Ceir y cyfuniad hwn yn aml mewn perthynas â chrogau ac nid yw ei arwyddocâd yn sicr. Am enghreifftiau gan Ddafydd ap Gwilym, cf. GDG<sup>3</sup> 236 (86.23–4) ac yn enwedig GLIBH 4.17n, 22, 108, 112, 136, 157 (i'r grog yng Nghaerfyrddin). Awgryma Thomas Parry yn GDG<sup>3</sup> 512: 'Yr oedd rhai delwau o Grist ar y groes y dywedid eu bod yn ymddwyn neu'n llefaru fel bodau byw ar adegau arbennig, a dyna efallai rym "byw" yn y cysylltiadau hyn.' Posibilrwydd arall yw ei fod yn deyrnged i saerniaeth gelfydd y crogau a oedd yn darlunio Crist mewn modd tra argyhoeddiadol. Gw. ymhellach Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005).

**eurlliw arwydd** Neu, '[Un] eurlliw [Ei] arwydd', yn cyfeirio at Grist. Delweddir y Groes fel arwydd neu faner Crist yn aml yn yr Oesoedd Canol; y mynegiant enwocaf o hyn yw emyn tra dylanwadol gan Venantius Fortunatus sy'n agor â'r geiriau *Vexilla regis prodeunt, / Fulget crucis mysterium* 'Y mae baneri'r Brenin yn mynd ymlaen, / Y mae dirgelwch y Groes yn disgleirio', gw. OBMLV 75–6 (rhif 55); Joseph Szövérfy, "Crux Fidelis ...": Prolegomena to a History of the Holy Cross Hymns', *Traditio*, xxii (1966), 11.

**Iôr llaweredd** Y mae hyn yn cyfateb i *Dominus Deus Sabaoth* yr Ysgrythur, cf. GGMD i, 1.64n.

31 **dysg ffysg** Cf. *ib.* 8.19.

32 **deddf leddf** Cf. GLIG 12.87n.

**arod** Fe'i cymerir yn ffurf ar *arawd* a'r ddeusain *aw* wedi ei symleiddio ar ôl yr acen, gw. G 35 'araith, traethiad, cyfarchiad' a GPC 177 'gweddi', 'araith, iaith, ymadrodd' neu 'cerdd grefyddol, mawl, arwyrain'. Gthg. G 42 d.g. *arot* lle yr awgrymir yn betrus a. 'drudfawr, cyfoethog, gwyh'. Yr unig enghraifft bosibl arall o *arod* a gynigir yno yw GLILI 24.39–40 *A gwasgaru clwyf a gwasgaraðc—clod, / A gwisgoet a rot yn uyd uodaðc*. Dewisodd golygydd y gerdd ddiweddarau *a rot yn a rhodd* er gwaethaf yr angen am odl â'r gair cyrch *clod*. Gwnâi

*rhod* ‘tarian gron’ yn burion yn y cyd-destun hwnnw (sef rhestr o anrhegion) ac nid oes, felly, angen derbyn y cynnig yn G. Am fod hynny’n cael gwared ar yr unig dystiolaeth am fodolaeth yr a. *arod*, fe’i gwrthodir yn y ll. bresennol hefyd.

**Cyfedd** Hefyd ‘gwledd, cyfeddach’, gw. G 205 a GPC 688; os felly, y nef a ddisgrifir, cf. ll. 10n.

33 **teg anrhegion** Gellir cymryd hyn yn oddr. y f. hefyd.

**digynrhygedd** Am yr orgraff, gw. GGMD i, 6.55n.

34 **barant** Gair ansicr ei ystyr, gw. G 51 lle y cynigir ‘sicrwydd, diogelwch; ernes, gwarant’ a GPC 257 ‘cyfoeth, golud’. Cf. hefyd GGMD i, 4.24n.

35 **didrist Grist Groes** Cf. GLIBH 4.61n (Dafydd ap Gwilym i’r grog yng Nghaerfyrddin).

**Croes** Llsgr. *goes*. Diwygir er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd.

**organ** Petrus iawn yw’r dehongliad a gynigir.

**hoedloes** Fe’i deellir yn gyfuniad o *hoedl* + *oes*, ond fel yr awgrymir yn GPC 1883, y mae rhaid ystyried y posibilrwydd *hoed* + *gloes* ‘ing a gofid’ yn ogystal.

36 **bedd** Sonnir am fedd Crist, fe ymddengys, ond cf. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 38 ‘for the purchase of those who shall live, from the coffin and the grave’.

37 **o du gaeaf** Nid yr amser o’r flwyddyn y daeth y grog i dir, fe ddichon, ond yn syml cyfeiriad at y Gogledd, a gysylltid â’r gaeaf yn yr Oesoedd Canol. Esbonnir y cysylltiad gan Isidor o Sevilla, gw. *Isidori Hispalensis episcopi etymologiarum sive originum libri XX*, ed. W.M. Lindsay (Oxford, 1911), V.35: *Haec tempora singulis etiam caeli partibus adscribuntur ... hiems septemtrioni, eo quod frigoribus et perpetuo gelu torpet* (‘Priodolir y tymhorau hyn yn wir i rannau unigol y nefoedd ... [priodolir] y gaeaf i’r Gogledd oherwydd bod y parthau hynny’n gorwedd yn ddiymadferth dan oerfel ac iâ digyfnawid.’). Cyfeirir yma at daith y grog i lawr moryd Afon Dyfrdwy hyd at Gaer, sef yn fras o’r Gogledd.

38 **llys** Cf. ll. 22n.

**Lleon Gawr** Sefydlydd chwedlonol Caer, gw. WCD 407 a GGMD i, 4.95n. Sonia Siefre o Fynwy am frenin o’r enw *Leil* yn adeiladu *Kaerleil* (sef Caerliwelydd, fe ymddengys) yng ngogledd Prydain, ond ym ‘Mrut y Brenhinedd’ *Lleon* a *Caerlleon* a roir yn lle hyn, gw., e.e., BD 25 (llau. 14–17).

39 **arfaf** Dilynir G 38 d.g. *arvaf* lle y deellir y ffurf yn radd eithaf *arf*. Am yr arfer o ychwanegu terfyniadau cymariaethol at enwau, gw. GMW 39n4; WG 250–1; gthg. GPC 192 d.g. *arfaf*<sup>l</sup> lle y’i deellir yn ffurf

l un.pres.myn. bf. ac iddi'r ystyron 'arfaethu, bwriadu, amcanu'. Nid ymddengys hyn yn briodol ar gyfer yr enghraifft yn GGMD i, 4.116 ac nis ffeifrir yn GCBM ii, 16.64n ychwaith, er cydnabod y posibilrwydd. Nid oes, felly, unrhyw enghraifft ddibynadwy yn ategu *arfaf* fel bf.

- 40 **delw fyw Fab ... Duw** Arferid treiglo e.p. genidol ar ôl yr eb. *delw*, cf. GHS 5.63 *delw Gynin* a 29.27 *delw Ddewi*. Ymddengys fod y bardd yn trin y cyfuniad *Mab Duw* yn yr un modd ar ôl *delw* yma.

**Duw nefol Naf** Llsgr. *vyn ne du6 nefabl naf*. Y mae pwyntiau dileu dan yr *n* gyntaf a llinell goch trwy *vyn ne* (ni nodir yr ail gywiriad yn R).

- 42 **mawredd hoffaf** Gallai hefyd ddisgrifio Mair.

- 43 **isaf—feddrawd** Llsgr. *issaf waela6t vedra6t*. Dilewyd *waela6t* â llinell goch ond ni nodir y cywiriad yn R.

- 44 **annudd** Llsgr. *a nud*. Nid yw'n debygol mai cyfeiriad at y cymeriad Nudd fab Senyllt yw hwn, ond gthg. TYP<sup>2</sup> 477. Eg. ydyw *annudd* yn ôl G 30 a GPC 145 ond fe'i deallir yn eb. yma er mwyn cyfrif am y treiglâd i *diwyrnawd* sy'n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd. Ychydig yn wahanol yw'r dehongliad yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 198, lle y cymerir *annudd* yn gyfeiriad at y bedd.

- 47 **bedydd** Hefyd 'bedydd', gw. G 53 a GPC 266–7. Os felly, gellid efallai 'Taith dra hyfryd [Un yn cynnig] defosiwn bedydd cyflawn'. Noder hefyd GPC 2400 *meddydd<sup>2</sup>* 'rheolwr', ond ansicr iawn yw'r gair hwnnw.

- 48 **mordwy** Llsgr. *va6rdwy*. Ni restrir *mawrdwy* yn GPC 2381 ac fe'i deallir yma'n llurguniad o *mordwy*, cf. llau. 19, 70, 178, 209.

**Deifrdir** Llsgr. *defyrdir*. Fe'i diwygir er mwyn yr ystyr. Byddai'n bosibl cymryd *Deifrdir eithaf* yn enidol yn ddibynol ar *Dyfrdwy*, ond y mae'n rhwyddach cymryd bod yma enghraifft o'r gystrawen 'cyrchu lle' yn dilyn y f. *doeth* yn ll. 45. Myn y gynghanedd mai'r cysefin a geir yn *Deifrdir*, ac am y diffyg treiglâd, cf. ll. 22n.

- 49 **Haelwawr** Gthg. G 760 d.g. *hael* a GPC 1806 lle y cymerir hwn yn gyfeiriad at y Forwyn Fair.

- 52 **pren brenineiddiaf** Paradocs traddodiadol oedd gwrthgyferbynnu archeledd Crist yn Ei fuddugoliaeth ar y Groes a'r darostyngiad a arwyddir gan symbol y Groes ei hun. Yn emyn Fortunatus, y *Vexilla Regis* (gw. ll. 30n), dywedir: *Impleta sunt quae concinit / David fideli carmine / Dicendo nationibus / 'Regnavit a ligno Deus'* 'Cyflawnedig yw'r hyn a ganodd / Dafydd mewn cân ffyddlon / Wrth ddatgan i'r cenhedloedd / "Mae Duw wedi teyrnasu o goeden."', gw. OBMLV 75 (55.13–16) Cymerwyd y ll. olaf o Salm xcv.10 (BCN xcvi.10) *Dicite in gentibus quia Dominus regnavit a ligno* 'Datganwch ymysg y cenhedloedd fod yr Arglwydd wedi teyrnasu o goeden.' Ni cheir y geiriau *a ligno* yn fersiwn terfynol Sierôm yn y Fwlgat. Gw. ymhellach

J. Szövérfy, *art.cit.* 11.

- 53 **didwyll byyll** Gallai ddisgrifio'r farddoniaeth yn hytrach na Duw.
- 54 Neu *Dadiain cain, cynnydd dydd diwaethaf* 'Un ysblennydd [a] gwych, [ffynhonnell] bendith ar y diwrnod olaf'.  
**cynnydd** G 259–60 d.g. *kynnyðl* 'cynnydd, tyfiant, ffyniant; ennil, lles, bendith; goruchafiaeth, concwest'; cf. hefyd GPC 797. Sonnir naill ai am y modd y bydd Crist yn ymddangos yn Ei ogoniant ar Ddydd y Farn neu ynteu am y lles a ddaw i ran y rhai cyfiawn drwyddo Ef ar y diwrnod hwnnw.
- 56 **Meddyg** Delwedd draddodiadol am Grist a'i gwreiddiau yn y Testament Newydd, cf. Math ix.12; Marc ii.17; Luc v.31. Cf. hefyd GMB 10.35 a 14.99 (Gwalchmai ap Meilyr).
- 57 **gwlad bellaf** Sef y nef, neu o bosibl y Tir Sanctaidd; ond os cywir y dyb na threiglir e. yn y gystrawen 'cyrchu lle' yn ddiethriad (gw. ll. 22n), yna gellid aralleirio'r ll. hon yn 'Y mae arwydd euraid ei glod [yr] Arglwydd wedi dod i'r wlad bellaf [sef Lloegr].'
- 58 **Lloegr** Dynoda'r gyrchfan ar ôl y f. *doddyw* yn ll. 57, cf. ll. 22n.  
**llwyr y'n gweryd** Neu *llwyr i'n gweryd* 'yn gyfan gwbl ar gyfer ein hachubiaeth', ond disgwyliid y geiryn *yn* o flaen *llwyr* mewn defnydd adferfol yng nghanol brawddeg.  
**Modrydaf** Gw. E. Phillips, 'Modrydaf', B xxv (1972–4), 119–20 a Bl BGCC 158 (18.3) a'r nodyn yno. Yr oedd amrywiaeth barn yn yr Oesoedd Canol (a'r byd clasurol) ai brenin ynteu brenhines oedd y brif wenylen mewn haid. Defnyddir y gair yn helaeth gan y beirdd am arglwyddi secwlar ac am Dduw.
- 59 **cynagr** Dyma'r unig enghraifft o'r gair anh. hwn. Awgrymir yn G 243 'cyfran, budd' ac ychwanegir 'baich' at y cynigion hyn yn GPC 778. Yn G 762 d.g. *hag(y)r* awgrymir yn betrus ei darddu o'r a. *hagr*, ond ni chynigir ystyr. Y mae'r gystrawen yn mynnu mai e. yw *cynagr* yma, fodd bynnag, ac nid yw'r cyd-destun yn ffafrio cyfeiriad at hagrwch.
- 60 **llinagr** GPC 2181 'claeaf, llugoer', ond mynegir ansicrwydd ynglŷn â'r enghraifft bresennol a hefyd isod 3.51 *Ef a ddifanw llanw llinagr dyfnder—ffraeth*; cf. hefyd GDG<sup>3</sup> 591 'claeaf' ar gyfer *ib.* 342 (128.65) *Llonaid llwy o ddwfr llinagr*. Y mae'n amlwg fod a wnelo'r gair rywsut â dŵr neu â'r môr. Gthg. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 38 lle yr awgrymir mai gwaed Crist yw'r *geirw llinagr* ('*pure warm cataracts [of blood]*').
- 61 **i ddelw ... addolaf** Cyfuniad cyffredin, cf. GGLI 18.14, 19.68 (Gruffudd Llwyd).
- 62 **dilys araith** Sonnir am weddïau'r bardd ac am y gerdd hon ei hun yn ôl pob tebyg.

**gwerthforaf** Cf. ll. 23n.

64 **tyddyn llwyth plant Addaf** Sonrir am y nef.

**plant Addaf** Sef yr hil ddydol, cf. GEO 2.5n lle y rhestrir enghreifftiau o'r cyfuniad hwn yng ngwaith y Gogynfeirdd.

67 **Moesen** Dewisodd Duw Foses yn arweinydd i'w bobl, gw. Ecs iii ac ymlaen. Am le Moses yn chwedl y Wir Groes, gw. ll. 9n.

68 **llin Dafydd** Cf. ll. 17n. Bu i Ddafydd hefyd ran yn chwedl y Wir Groes, gw. ll. 117n.

**gwŷdd gweddeiddiaf** Gw. G 731 a GPC 1753–4 am ystyron *gwŷdd*. Fe'i cymerir yma'n gyfeiriad at linach Crist yn disgyn o Ddafydd. Delwedd gyffredin yng nghelf yr Oesoedd Canol yw dangos coeden yn tyfu o gorff Jesse, tad y brenin Dafydd, a'i changhennau yn dangos ei ddisgynyddion gydag Iesu ar y brig. Daw'r ddelwedd o Eiseia xi.1–3, gw. *A Dictionary of Christian Art*, ed. P. and L. Murray (Oxford, 1996), 270–1. Wrth gwrs, gall fod y gair *gwŷdd* yma'n cyfeirio hefyd at y grog a ddaeth i Gaer, neu at y Wir Groes, neu at y gwiail a gludwyd o gwmpas gan Foses a Dafydd ac y cafwyd pren y Wir Groes ohonynt.

69 Cymerir *canlles* yn wrth. a *caenllanw* yn oddr.; am y drefn hon, gw. Treigladau 227, GMW 181n(b). Gellid hefyd roi coma ar ôl *canlles* a chymryd mai Duw yw goddr. dealliedig *anfones*.

**canlles** Neu 'budd disglair' os cymerir mai'r a. *can* yw'r elfen gyntaf.

**breiscaf** *breistaf* yn ôl R, ond y mae *st* ac *sc* mor debyg i'w gilydd fel bod amheuaeth a oes camgymeriad yn y llsgr. mewn gwirionedd, cf. GGMD i, 3.220n.

70 Fel y sylwodd D. Myrddin Lloyd yn GWL<sup>2</sup> ii, 40, peth cymharol brin yw gweld bardd Cymraeg canoloesol yn canmol Lloegr. Yma, gellid efallai roi'r atalnod ar ôl *Loegr* a chydio *fawrdeg* wrth *fordwy*, ond gthg. y ganmoliaeth ddiamwys i Loegr yn ll. 164.

**mordwy** Neu 'mordaith', gw. GPC 2487.

72 **ys bryw** Llsgr. *ysbriw*. Awgrymir diwygio *briw* yn *bryw* 'bywiog, egnïol, grymus' yn G 81 a GPC 342 d.g *bryw*. Gthg. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 38 '*It was the breaking of the tide of the most spiritual sea.*'

**dylan môr** Gw. M. Haycock, *art.cit.* 28.

**ysbrydolaf** Dichon fod dwy ystyr *ysbrydol* yn berthnasol yma, gw. llau. 24n, 83n; GPC 3826.

73 **barddlef** Cf. G 52 d.g. *barð*, hefyd GCBM i, 1.9 a ii, 9.129.

74 **enwant** Am ddefnyddio bf. l. ac e.ll. yn oddr. iddi, gw. GMW 179. Dywedir yn Treigladau 193n fod y goddr. yn treiglo yn yr amgylchiadau hyn, ond nid felly yma nac ychwaith yn GPB 6.71 *Lle difenwant plant plennig—Llusifer* (Hywel Ystorm). *Barddlef* yn ll. 73 yw gwrth.

dealledig *enwant*.

- 77 **awr** Am yr ystyr ‘aur’, gw. G 48 d.g. *awr*<sup>1</sup> a GPC 242 d.g. *awr*<sup>3</sup>.
- 78 **cadair** Cyfeiria at y grog, yn ôl pob tebyg, ond yn G 90 a GPC 375 nodir bod *cadair* yn gallu golygu ‘pennaeth’ neu ‘arglwydd’, cf. ll. 7n.
- 79 **eryrod** Sef llu’r nef, a barnu wrth ddefnydd y gair yn ll. 94.
- 80 **Llyw marw a byw** Epithet a gysylltir â’r Farn Olaf pryd y daw’r rhai byw a’r meirw i gael eu barnu ynghyd, cf. 2 Tim iv.1, 1 Pedr iv.5 a geiriau Credo’r Apostolion *inde venturus est iudicare vivos et mortuos* ‘o’r lle y daw i farnu’r byw a’r marw’, gw. J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third ed., London, 1972), 369.
- 81 **arwyrain** Sonnir yn benodol am y gerdd hon, yn ôl pob tebyg. Am ystyron a tharddiad y gair, gw. Ann Parry Owen, ‘Canu Arwyrain Beirdd y Tywysogion’, YB xxiv (1998), 44–9.
- Crist** Llsg. *grist* a gywirwyd i *crist*, ond ni nodir y cywiriad yn R.
- 82 **goror côr** Cf. ll. 1n am leoliad y grog.
- 83 **Elen** Cf. uchod ll. 9n.
- 84 **trydydd dydd ... o’r haf** Dyma ddyddiad darganfyddiad y Wir Groes gan yr ymerodres Helena, yn ôl y chwedl, sef y trydydd o fis Mai. Daeth yn wyl eglwysig, sef yn Llad. *Inventio Sanctae Crucis*, a elwir yn Wyl y Grog yn Gym. (enw a ddefnyddir hefyd ar gyfer yr *Exaltatio Sanctae Crucis* ar 14 Medi).
- deddfawl** Gallai oleddfau *awr hawl*: os felly, ‘[Ar y] trydydd dydd, chwiliad rhagorol cyfiawn, o’r haf’.
- awr** Fe’i deallir yn yr ystyr ‘aur’ neu ‘euraid’ ac yna’n ffig. ‘rhagorol’. Gellir hefyd ‘[ar] amser [y] chwiliad’ ar gyfer *awr hawl*.
- hawl** Sef chwiliad neu helpa Helena am y Groes, ond gallai hefyd gyfeirio at iawnder y darganfyddiad neu hawl Helena i ddarganfod y Groes.
- 85 **delw fyw** Gw. ll. 30n.
- llyrion** Gair ansicr ei ystyr. Fe’i deallir yma’n ll. *llwrw* ‘trywydd, ôl, llwybr’ gan ddilyn GLIL1 4.35n (cf. hefyd GDB 19.5n (dienw)) er na nodir y ffurf yn GPC 2236–7 d.g. *llwrw*. Cyfeiria at daith y ddelw dros y môr, neu o bosibl at Grist fel yr Un sy’n cynnig llwybrau yn llawn gobraith. Rhestrir *llyrion* yn ll. *llyr* ‘môr, gweilgi, eigion’ yn GPC 2275; ni roddir enghraifft o’r ffurf yno ac mae’r enghreifftiau a gofnodir ar slipiau yng nghasgliad GPC yn ddiweddarach.
- 88 **prifdeg lysoedd** Trosiad am ddyfnderoedd y môr. Gthg. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 39 ‘*this blessing and help of the weak ones, as of the fair courts of the great*’ a Gruffudd ap Maredudd: Gw 199 ‘A [heibio’r] llysoedd gwyh gorau [sydd ger] yr afonydd gleision’.



89 **darogan dylan** Fe'i cystrawennir gydag *i fyddinfawr gôr* yn y ll. nesaf: yr oedd dyfodiad y Groes o'r môr yn broffwydoliaeth (am y byd a ddaw, am iachawdwriaeth drwy ras Crist) i'r eglwys. Gall *darogan* gael ei drin yn eb., gw. G 300 a GPC 897, felly efallai nad cwbl amhosibl *Darogan ddylan ddail, geirw gwelwon môr* 'Proffwydoliaeth [gan] ddail [yr] eigion, [sef] tonnau gwelw[']r môr', ond ni ddisgwyliid treiglo e. genidol ar ôl *darogan*.

**dail** Gair annisgwyl yn y cyd-destun. Fe'i deallir yn betrus yn drosiad am y crychau ar wyneb y dŵr. Gellid ei gymryd yn 3 un.pres.myn. y f. *dal(y)*, gw. G 290–2 a GPC 881–2; os felly, aralleirier 'Proffwydoliaeth [o du'r] eigion, y mae tonnau gwelw[']r môr yn [ei] chynnal/dwyn', ond y mae'r diffyg gwrth. amlwg yn chwithig a'r amser pres. yn anodd ei esbonio.

**geirw** Llsgr. *gerw*. Ceir a. *gerw* 'milain, llidiog, ffyrnig' yn ôl GDG<sup>3</sup> 537 a GPC 1395, ond ni cheir enghraifft arall a mynegir ansicrwydd yn y ddau le; felly diwygir yma gan ddilyn G 525 d.g. *geirw*. Ceir *geirw* yn aml yn enwol yn yr ystyr 'crychau dŵr', cf. G *l.c.* a GPC 1388, ond gweddai a. yma hefyd.

90 **I fyddinfawr gôr fu Ei ddanfon** Gw. ll. 89n. Y dewis arall fyddai cymryd y ll. bresennol ar ei phen ei hun, 'I gangell fawr ei llu y bu Ei anfon', ond disgwyliid y *bu* ac nid *fu*.

**byddinfawr** Cyfeiriad at ganonau'r eglwys neu at yr holl bobl a addolai yno neu a dyrrai yno i weld y grog. Yr oedd Eglwys Ioan yn eglwys golegol a wasanaethai blwyf helaeth, gw. y nodyn cefndir uchod.

91–2 Cyfeiria llau. hyn at y fuddugoliaeth dros angau a enillodd Crist ar y Groes a thrwy ysbeilio uffern. Y cythreuliaid yw'r *galon*. Y mae'r geiriau hefyd yn dwyn i gof Escodus yr Israeliaid o'r Aifft a ddeallid yn rhagfynegiad o'r Iachawdwriaeth. Dyna sylwedd y ddarogan (ll. 89) a ddaeth i Gaer ar lun y grog.

91 **maith** Llsgr. *uaeth*. O'r braidd y gellid 'meithriniad [llawn] tristwch caethiwus' a'r tebyg yw i *faith* gael ei ystumio gan agosrwydd y geiriau *gaeth alaeth*. Nid oes angen *faeth* ar gyfer y gynghanedd.

92 **Pibl** Ceir *bibl*, gw. G 56 d.g. *bib(y)* a GPC 268 d.g. *Beibl, bibl*; a *pibl*, gw. GPC 2715 d.g. *peibl*, *pibl*. Y mae'n anodd penderfynu pa ffurff a geir yma. Y mae enghreifftiau pendant o *pibl* yn GLIBH 4.114 (Dafydd ap Gwilym); GC 2.51, 8.9, 9.19; GGDT 6.53 (Gwilym Ddu o Arfon) a 11.26 (Trahaearn Brydydd Mawr), ac enghreifftiau posibl o *bibl* yn GBDd 1.38 a GLIBH 4.33 (Dafydd ap Gwilym). Os *bibl* yw'r gair yma, gellid hepgor yr atalnod o'r ll. a'i haralleirio '... i ryddid gweddïau / adroddion [y] Beibl'.

**arodion** Ll. *arawd* neu *arod*, gw. ll. 32n. Y mae 'gweddïau' yn

aralleiriad posibl hefyd.

- 93 **rhybudd** Sef dyfodiad y grog i Gaer, yn ôl pob tebyg, ond cf. 10.37n.  
**Dihaerebion mawl** Dehonglir *Dihaerebion* yn gyfansoddair o *dihareb* + *Iôn*, yn hytrach na ll. *dihareb*, gthg. G 350 d.g. *dihareb*. Llai tebygol yw disgrifiad o Grist fel '[Un sy'n destun] diarhebion [o] foliant'.
- 96 **Gwawr** Delwedd gyffredin am arglwydd a hefyd am Dduw, ond yma ymddengys fod mwy o bwys ar yr ystyr lythrennol nag sy'n arferol, gw. G 636–7 a GPC 1605–6.  
**gwir engylion** Neu 'gwirionedd/gwarant [yr] angylion'.
- 97 **gwerthfawr** Cf. ll. 23n.
- 99–102 Fel y nodir yn GIBH 9.27–32n, ceir rhestrau o wyrthiau yn aml mewn cerddi i grogau ac fe'u seilir yn fras ar yr Ysgrythur, cf. Math xi.5 (Luc vii.22) *caeci vident / claudi ambulat / leprosi mundantur / surdi audiunt / mortui resurgunt / pauperes evangelizantur* (BCN y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a'r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da). Cf. hefyd GLIBH 4.69–80 (Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaerfyrddin).
- 102 **awr** Yn yr ystyr arferol yma, ond cf. ll. 77n. Os 'aur' ydyw yma hefyd, aralleirier '[Ffynhonnell] budd rhagorol gwarantedig [i'r] rhai byddar [a] mud'.
- 103–4 Cymerir bod y rhestr o'r cleifion a iacheir yn parhau yn y llau. hyn. Dywedir bod Crist yn ffynhonnell budd yn erbyn haint cleifion a meddwl cythryblus dynion gwallgof. Y posibilrwydd arall, llai tebygol, yw cydio'r llau. hyn wrth *perffeithiaw* yn ll. 105: gŵyr Crist sut i wella'r anffodusion hyn.
- 105 **perffeithiaw** Y gwrth. yw *Ei rai gwirion* yn y ll. nesaf, neu o bosibl *gwaisg urddas* yn ll. 108, ond cf. llau. 103–4n am ddehongliad posibl arall. Gthg. Gruffudd ap Maredudd: Gw 199 '[Un yn] perffeithio gwŷr draw'.
- Dragon gogoned** Cf. y teitl *Rex gloriae* yn Salm xxiii.7–10 (BCN xxiv).
- 107 Ansicr iawn yw'r dehongliad o'r ll. hon. Craidd yr anhawster yw ymddangosiad sydyn yr eb. *manon* ynghanol disgrifiad o Grist. Cymerir bod *manon* yn enidol ac yn dibynnu ar *brenhinbryd* a bod y treigladdisgwylidig wedi ei atal oherwydd yr orffwysfa; cf. Treigladau 22, 54n, 196 am sut y mae'r orffwysfa yn gallu atal amryw dreigladau, e.e. y treigladd i a. ar ôl eb. Os na dderbynnir hyn, efallai y bydd rhaid diwygio *brenhinbryd* yn *frenhinbryd*. Diflannai'r anhawster pe cymerid y ll. gyfan yn ddisgrifiad o Fair, ond os felly, fe'i cyflwynir yn bur ddirybudd ynghanol disgrifiad o Grist.

- gwareddog** Ceir hefyd *gwareddog* ‘gwaredol, achubol’, gw. G 621 a GPC 1582–3, a cf. *Mynog gwareddog* yn GDC 5.1. Derbynnir *gwareddog* yma oherwydd fe’i ceir yn ddiamau yn ll. 126 isod.
- 108 **gwaig urddas** Gallai gyfeirio at Fair neu Grist.
- cosgorddion** Amrywiad ar *gosgorddion*, gw. G 167 a GPC 569. Rhestrir yr enghraifft hon dan *gosgorð* yn G 579 ond y mae angen rh.m.gen. 3 un.g. yma.
- 111 **arwyrain cain** Cf. GGMD i, 2.52, 4.42.
- canon** Yr Ysgrythur neu ganon yr offeren yn ôl pob tebyg, cf. ll. 6n.
- 112 **gorwyron** Sef disgynyddion Adda (ll. 109).
- 113 **Llyna anrheg dda, ddeon,—ei gwyrthau** Dibynna’r ystyr ar yr atalnodi a’r modd y diwedderir *da deon y*. Gellir hefyd *Llyna anrheg da Deon—y gwyrthau* ‘Dyna anrheg dda [oddi wrth] Ddeon y gwyrthiau [*sc.* Duw]’, ond eb. yw *anrheg* gan mwyaf, gw. G 31 a GPC 153. Posibilrwydd arall fyddai *Llyna anrheg, da deon—ei gwyrthau* ‘Dyna anrheg, budd [i] ddyinion da yw ei gwyrthiau.’
- deon** ‘Gwyrda, dyledogion; pobl dda, duwiolion’ yn ôl G 312 d.g. *deon*<sup>1</sup>, a cf. GPC 930 d.g. *deon*<sup>2</sup>. Fe’i dehonglir yma’n gyfarchiad i’r gynulleidfa (cf. GCBM i, 5.119 *A glywch chwi, deon, a dywedir?*). Awgrymir yn G *l.c.* y gall mai ll. yr a. *da yw deon* mewn rhai achosion. Os cywir hyn, yna gellid *Llyna anrheg dda, ddeon—ei gwyrthau* ‘Dyna anrheg dda, da ei gwyrthiau’. Ceir hefyd G *deon*<sup>2</sup>, GPC *deon*<sup>1</sup>, sef pennaeth cabidwl eglwysig.
- 114 **O fyw alloriau efill aeron** Cymerir bod hyn yn cyfeirio’n ôl at *anrheg* yn ll. 113. Os felly, ceir tri phrif bosibilrwydd ar gyfer y ll. astrus hon: i. sonnir am Grist (dyna’r dehongliad a fabwysiedir yn yr aralleiriad); ii. sonnir am darddiad pren y Wir Groes; iii. dywedir bod y Grog o Gaer wedi ei gwneud o brennau afalau. Ymdrinnir â’r tri isod.
- i. Daw’r syniad o Grist ar y Groes fel afal neu ffrwyth ar bren afalau o’r dehongliad patristig o Can viii.5 *Sub arbore malo suscitavi te* (BCN *Deffroais di dan y pren afalau*). Cysylltid y pren afal hwn â’r Groes; felly Crist yw’r ffrwyth sydd arno. Ceir y ddelwedd hon eisoes yn yr emyn cynnar ‘Hymnus de Pascha Domini’: *Hic ego de sterili succisum robore lignum / Plantatum memini fructus genuisse salubres* ‘Cofiaf sut y torrwyd pren o goeden hesb a’i blannu yma, a sut y dygodd ffrwythau iachaol’ (dyfynnwyd yn Joseph Szövérfy, *art.cit.* 4). Yn y gerdd honno, darlunnir y Groes yn goeden: syrthia ffrwyth ohoni i’r llawr, ac ar ôl tridiau y mae cangen yn tyfu o’r ffrwyth, hithau’n dwyn ‘ffrwythau bywyd’ (*ramum vitali fruge beatum*). Cyfeirir yn symbolaidd at farwol-aeth ac atgyfodiad Crist. Lluosog yw *aeron* yn ll. Gruffudd ap Maredudd, wrth reswm, ond nid yw hynny’n amharu ar y ddelwedd, cf.

y llau. o'r 'Hymnus de Pascha Domini' a ddyfynnwyd uchod; hefyd Venantius Fortunatus yn ei emyn 'Crux benedicta nitet' *quando tuis ramis tam nova poma geris* 'gan dy fod yn dwyn ar dy ganghennau afalau/ffrwythau mor newydd' (OBMLV 76 (56.10)).

ii. Yn ôl chwedl y Wir Groes, aeth Seth i baradwys a chael yno gan angel dri deincodyn o afal a ddaethai o'r pren y bwytaodd Adda ac Efa y ffrwyth. Gorchmynnodd yr angel ef i'w rhoi dan wraidd tafod Adda wrth ei gladdu. Tyfodd tair gwialen o'r bedd ac o'u deunydd hwy y gwnaethpwyd pren y Groes. Os at hyn y cyfeiria'r ll. bresennol, yna dywedir bod pren y Groes, yr *anrheg* (ll. 113) wedi dod o *fyw alloriau*, sef prennau afalau (*efyll*) neu eu ffrwythau (*aeron*).

Y broblem amlwg gyda'r ddau ddehongliad uchod yw'r ffurf l. *efyll*. Un Groes a fu ac o un goeden y daeth y tri deincodyn. Yr esboniad mwyaf tebygol yw fod Gruffudd yn priodoli arwyddocâd symbolaidd i'r holl rywiogaeth. Os felly, y mae'n haws derbyn (i) na (ii) uchod. Ni fyddai'n amhosibl delweddu Crist fel 'ffrwythau prennau afalau' yn gyffredinol yn hytrach na sôn am bren afalau'r Wir Groes yn benodol. Holl bwynt chwedl pren y Groes, ar y llaw arall, yw dangos sut y tyfodd y Groes iachaol o'r union un goeden â honno a ysbardunodd bechod Adda ac Efa. Tywyllid ergyd y cyfeiriad pe sonnid am wneud y Groes allan o fwy nag un goeden.

iii. Os sonnir am ddeunydd y Grog o Gaer ei hun, nid yw'r ffurf *efyll* mor broblematic. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gadarnhad dros hyn yng ngweddill y gerdd.

**byw alloriau** Cymerir mai'r prennau afalau yw'r rhain. Cyffredin iawn yw galw'r Groes, a uniaethid â'r pren afalau yn Can viii.5, yn allor yr aberthwyd yr oen Crist arni, cf. Venantius Fortunatus yn ei emyn 'Vexilla regis': *Salve ara, salve victima / De passionis gloria, / Qua vita mortem pertulit / Et morte vitam reddidit* 'Henffych well, allor, henffych well, aberth / Yn sgil gogoniant y dioddefaint, / Y dioddefodd bywyd farwolaeth drwyddo / a thrwy farw, adfer bywyd' (OBMLV 76 (55.29–32)). Yn chwedl y Wir Groes, ar ôl i Seth roi ei ben drwy borth paradwys am y trydydd tro, gwêl y goeden yno (a uniaethir â phren afal, cf. y tri deincodyn a geir ohoni) yn las gan dyfiant iraidd a baban bach noeth yn gorwedd ar ei chop a dan wylo. Eglura'r angel wrth Seth mai Crist yw'r baban ac mai ei ddagrau ef yw'r olew trugaredd a fydd yn rhoi gwaredigaeth i'r hil ddynol ymhen amser. Y mae'n debygol, fel y gwelwyd uchod, fod Gruffudd yn delweddu'r pren afal fel rhywiogaeth yn symbol o aberth Crist, ac mai dyna sy'n esbonio'r ll. *alloriau* yma.

Posibilrwydd arall ar gyfer llau. 113–14 yw cydio ll. 114 wrth *gwyrrthau*: 'Dyna anrheg dda, [O] wyrda, ei gwyrrthiau / [A ddaw] o allorau byw [yr Un sy'n] ffrwythau [ar] brennau afalau.' Os felly,

dichon mai at y trawsylweddiad yn ystod yr offeren y cyfeiria *gwyrrthau* / *O fyw alloriau*. Nid amhosibl ychwaith ebychiad sy'n annibynnol ar l. 113: 'O allorau byw [yr Un sy'n] ffrwythau [ar] brennau afalau!'

116 **Glyn Ebron** Y man lle y gyrrwyd Adda i lafurio ar ôl y cwmp. Fe'i claddwyd yno, ac felly dyna'r lle y tyfodd gwial y Groes a'u casglu gan Foses. Cf. GBDd 4.7n.

117–18 **o ... / O** Fe'u cymerir yn arddodiaid ond gellid ebycheiriau ohonynt.

117 **holion** Cymerir hyn yn betrus yn ddisgrifiad o'r helyntion a ddiodefodd y Grog o Gaer ar ei siwrnai dros y môr (fel y gwna T. Gwynn Jones, *art.cit.* 39). Cynodiadau negyddol sydd i *holion* gan amlaf, cf. GBDd 1.33 *A chludo holion ar Wirionnaf*; R 1257.17 *einyoes holyon*, 20 *orwac holyon* (Gruffudd ap Llywelyn Lwyd); isod 15.24 *ceiso trais holion*.

**dwyreinfor** Gw. ll. 20n. Os y Môr Marw yw hwn, yna y mae'n bosibl mai at chwiliad Dafydd am y gwial y cyfeiria *holion dwyreinfor*, ac yn sicr cafodd Dafydd o hyd i'r ateb i'w freuddwyd yn Nhabor. Y mae Tabor yn nes at Fôr Galilea nag at y Môr Marw ond nid yw hynny o fawr bwys. Posibilrwydd arall yw cyfeiriad at Helena yn dychwelyd o Gaersalem â darnau o'r Wir Groes, cf. DN 12 (IV.57–8) *Elen a ddoeth yr eiloes / Drwy Fôr Groeg adref â'r groes*.

118 **Glyn Tabor** Llsg. *lynnt tabor*. Ysgrifennwyd *t* ddwywaith drwy gamraniad. Dyma'r lle y plannodd Moses y gwial cyn marw a lle y daeth Dafydd Frenin o hyd iddynt. Y mae'n anodd bod yn sicr nad ffurf dreigledig *Llyn Tabor* sydd yma, cf. IGE<sup>2</sup> 286 (7–8) *Siwesta stagnum, trwm tramwy, / Tabor wlad y mae'u had hwy* (Siôn Cent). 'Gerllaw Llyn ... Tabor' yw ystyr y geiriau Llad. yno. Yn fersiwn Pen 5 o'r chwedl, ceir a ganlyn: *Ac yna y daeth yr penn issaf y lyn thabor. Ac yno y plannabyd ef y gbyal yn y daear ... Ac ympenn mil o vlbynnyded gwedy moessen broffbyt y dysgbyt dauid trby yr ysbryd glan y vynet ohonna6 y vnyd thabor y y gyrchu y gbielin a blannassoed voessen yno ... Ac ympenn y nabuetyd y doeth y vnyd tabor* (Yst Addaf 14 (ll. 17)–15 (ll. 21)). Mwy dadlennol yw testun Pen 14, 172 (ll. 13)–173 (ll. 14): *ac yna y kerdawd ef [sc. Moses] nny uyd yn y penn / isaf yr glyn a eluit glyn tabor. ac yna yplannawd moesen y gwyal nny daear ... ac yna y dysgwyt dauyd drwy ysbryd da glan nny aeth ef hyt ynglyn tabor y gyrchu y gwyal ablannassei uoessen yno ... ac ym/penn ynawuetyd y doeth yglyn yd /oed ygwyal yndaw*.

**glân atebion** Llsg. *lan attebyon*. Adferir y gytsain gysefin er mwyn y gynghanedd. Cymerir *glân atebion* yn gyfeiriad annelwig braidd at ddarganfyddiad gwial y Wir Groes gan Ddafydd Frenin yn sgil breuddwyd broffwydol (gw. isod). Eto, y mae'r ddau air *holion* (ll. 117) ac *atebion* yn dermau cyfreithiol ac efallai fod iddynt eu hystyr

gyfreithiol yma. A ddywedir yn ffigurol fod y môr wedi hawlio'r grog a chael ateb cadarnhaol o Lyn Tabor? Yn anffodus, ni wyddys chwedl y Grog o Gaer yn ei chyflawnder.

Yn GM defnyddir y gair *ateb* ar gyfer *responsorium*, sef siant litwrgïol, gw. GM 6 (ll. 26), 7 (ll. 20), 24 (ll. 13); ODCC<sup>3</sup> 1387. Gan fod testun y siantiau hyn wedi eu tynnu o'r Ysgrythur, nid yw'n amhosibl fod *glân atebion* yn y ll. hon yn disgrifio'r Salmau a ganodd Dafydd yn Nhabor i ddathlu darganfod y gwiall (gw. isod).

119–20 **o ... o** Cf. 117–18n.

**awr geudod ffrwyth** Cf. ll. 114n uchod. Yn Pen 5 ceir *pan yttoed yn myned ymdeith y rodes yr agel / ida6 tri gronyn o geuda6t aual y pren h6nn6 val yd archassei y tat ida6* (Yst Addaf 9 (ll. 21)–10 (ll. 3)).

**ergydion** Gw. GPC 1233 am yr ystyr 'arfau hyrddiedig'. Cyfieithu'r Llad. *tela*, sef 'dartiau, gwaywffyn a deflir' a wna *agheuoelyon ergydyeu* yn BD 83 (ll. 21) a cf. Pen 18, 43 *gollwg saetheu ac ergydyon*. Cymerir mai cyfeiriad trosiadol at y gwiall yw *ergydion* yma. Fel arall, gellid meddwl am yr ergydion a ddioddefodd Crist, neu am y gweithwyr yn torri'r pren i wneud y Groes.

121 **llithrodd** Llsgr. *llith*[ ]. Darllenwyd *llithrawr* yn R, ond ni sylwyd ar enghraifft sicr arall o'r terfyniad berfol hynafol *-awr* yn ngwaith Gruffudd ap Maredudd (ond gw. 3.44n) ac y mae angen yr amser grff. yma fodd bynnag.

123 **llathraid Blaid enaid** Neu, 'Anwylyd [y] dorf ddisglair'.

**Iôn—y gogoniant** Cf. ll. 105n.

Y mae'r gwant ar y chweched sillaf sy'n anarferol fel y gwelir yn J. Morris-Jones: CD 321–2, 339–40, ond nid ymddengys fod rheswm dros ymyrryd yn y testun.

124 **moliant diofalon** Gellid yn syml 'moliant dibryder'.

125 **rhwydd** Llsgr. *rwy*[ ]. Darllenodd J. Gwenogfryn Evans *rwyf* yn R ond nid yw hynny'n cynganeddu.

126 **gweryddon** Gall gyfeirio at ddyinion diwair yn ogystal â merched, cf. GPC 1649 d.g. *gwerydd*<sup>1</sup>, felly cedwir yr aralleiriad yn benagored. Y mae 'seintiau' yn aralleiriad posibl hefyd.

127 **coron—y dangnef** Cf. GBF 39.3 *Na6d y Iessu caru, coron—tangneued* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).

128 **Iôr ... o Gaerlleon** Am y defnydd o'r ardd. *o* yma, cf. GPC 2606 d.g *o*<sup>1</sup> 2(b) 'yn perthyn i (le, &c., drwy ddwyn teitl yn deillio ohono)' a (c) 'yn perthyn i (le drwy fod wedi ei leoli yno ...)'. Ymddengys ei bod yn arfer defnyddio'r ardd. wrth gyfeirio at grogau, cf. GLIBH 4.4 *Crog bedwar ban o gan Gaer* (Dafydd ap Gwilym); GIBH 10.1–2 *Y Gŵr o*

*Gaer—nid gair gau— / Lleon Gawr o'r llun gorau; GGI<sup>2</sup> 283 (CX.1–2) Y Grog i bob dyn o gred / O dre Gaer a dry gwarded; GILIV 21 (IX.1) Y groc waredoc o riw—duw meirchion. Awgryma Ann Parry Owen mai Cymreigiad o ryw deitl S. neu Ffr. yw *Crog o Gaer*, gw. 'Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i'r Grog o Gaer', YB xxi (1996), 16–17. Y tebyg yw fod *crog* wedi ei phersonoli mewn cyfuniadau o'r fath, cf. *Mair o Fynyw* (GHS 22.62n), a bod y defnydd o *o* i'w gymharu â chyfuniadau megis R 1356.19 *siwon morgan o aber teivi*.*

129 **côr cywir** Cystrawen 'cyrchu lle' yn ôl G 163 d.g. *côr*<sup>1</sup> a dilynir hynny yma. Nid amhosibl cymryd *côr cywir* yn enidol ar ôl *môr*. Gw. uchod ll. 22n.

130 **Gelwir Duw** yn Arglwydd ar ddau wasanaeth eglwysig sy'n cynrychioli dau begwn y diwrnod, sef bore a phrynhawn. Gellid hefyd *A Nen ni phlygir nawn a phlygain* 'Ac Arglwydd nas trechir [amser y] prynhawn nac [amser y] wawr'.

**nawn** Gwasanaeth eglwysig (Llad. *nonae*) a gynhelid tua'r nawfed awr o'r dydd, sef tua 3 o'r gloch yn y prynhawn yn wreiddiol. Gall *nawn* hefyd gyfeirio at y prynhawn yn gyffredinol, gw. GPC 2558.

**plygain** Gwasanaeth eglwysig (Llad. *matutinae*, S. *matins*) a gynhelid yn wreiddiol gyda'r wawr. Gall *plygain* hefyd gyfeirio at y wawr ei hun, gw. GPC 2832.

133 **pum weli** Trywanwyd Crist yn Ei ddwylo ac yn Ei draed. Yn Ei ystlys y dioddefodd y pumed clwyf, gw. Io xix.34. Tyfodd cwlt pwysig o amgylch y pum clwyf yn yr Oesoedd Canol Diweddar, cf. GIBH 11.17n.

**hawl** Y mae'r drydedd lythyren yn aneglur yn y llsgr., ond *h* ydyw yn hytrach nag *e* fel yr awgrymir yn R.

136 **môr dwyrain** Cf. ll. 20n, 117n uchod.

138 **Llyw** Llsgr. *lyb. yb*. Dilewyd *yb* ond ni nodir y cywiriad yn R.

**carain'** 3 ll.amhff.myn. *caru*. Trafodir y terfyniad *-eint* yn WG 324–5 a GMW 122. Am golli *-t*, gw. WG 323–4; GMW 120n2. Nid oes goddr. amlwg; sonnir am bobl yn gyffredinol, yn ôl pob tebyg, oni chyfeirir yn ôl at *byd* yn ll. 135, cf. isod ll. 174n.

140 **Creadur** 'Creadwr' yw'r ystyr yma, cf. GCBM ii, 17.90n a GPC 583 d.g. *creadur*<sup>2</sup> lle yr olrheinir y gair yn yr ystyr hon o'r Llad. *creātōrem*. Am swyddogaeth Crist yn y creu, gw. M. Paul Bryant-Quinn, *art.cit.* 15–16.

**madiain** Am y syniad fod Crist wedi ei eni'n *fad*, cf. GMB 21.3 *Mat ganet y bronget o'e bru* (Elidir Sais); GBF 32.1 *Mab mat anet* (Madog ap Gwallter).

141 **eurdrefnad** Awgrymir 'aur ei ddodrefn neu addurn' yn G 497 d.g. *eur*.

Rhoddir amryfal ystyron i *trefniad*, *trefnad* yn GPC 3575, gan gynnwys ‘rheolaeth, llywodraethiad, llywiad’. Cedwir yr aralleiriad mor agored â phosibl.

**gwneuthuriad** Sef lluniad y ddelw, ond ceir hefyd *gwneuthuriad*<sup>2</sup> ‘crëwr’ nas ardystir tan yr 16g. yn ôl GPC 1691.

142 **coelfain** Y mae’r Iesu yn wobr i Fair ac Ef hefyd yw rhodd Mair i’r byd.

143 **tist** Fe’i deallir yn amrwyriad ar *dist*, benthyciad o’r S. *giste* ‘trawst’, yn cyfeirio at y grog, fel yr awgrymir yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 200, er na nodir enghraifft o *dist* yn GPC 1049 tan yr 16g. Cynnig T. Gwynn Jones ‘*cross*’ heb fanylu, gw. *art.cit.* 39. Posibilrwydd arall yw ei fod yn amrwyriad ar *tyst*. Cf. GGMD i, 3.125n am ragor o fanylion.

144 **cyfarodd** Ffurf 3 un.grff.myn. *cyfaru*, gw. G 203 ‘cydaredig; yna cymdeithasu, cyfathrachu, cyfrannu’; a cf. hefyd GPC 680 lle yr ychwanegir ‘cydlafurio’. Sonnir am y don yn dod â’r ddelw i Gaer.

145 **llythr** Awgryma’r cyd-destun mai’r Ysgrythur a olygir yn benodol. Efallai, fodd bynnag, y dylid ei ddeall yn ffigurol am y grog fel testun a chanddo neges y gellir ei darllen.

**ffai**g Dilynir GPC 1274–5 lle y rhestrir ‘wyneb, gwedd’ yn ystyron posibl; gthg. G 504, nad yw’n cydnabod yr ystyron hyn. Os derbynnir ‘hynt’, aralleirier *llythr arawd ffawd ffaig* yn ‘hynt [yn dwyn] bendith traethiad [yr] Ysgrythur’ (ond y mae’r posibiliadau eraill yn niferus).

146 **llurig arian Ddraig** Disgrifiad trosiadol o Grist, bid siŵr, yn hytrach nag awgrym fod y ffigur ar y grog yng Nghaer wedi ei wisgo felly. Cf. Llawdden, &c.: Gw 79 (25.19) *Croes o Gaer dan y crys gwyn*. Am y wisg a berthynai i’r grog enwog yn Aberhonddu, gw. GIBH 12.23n.

**Llyw’r** Llsg. *llyw yr*. Cywesgir er mwyn hyd y ll.

148 **llên** Llsg. *lleir*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, a cf. Gruffudd ap Maredudd: Gw 195. Gellid yr aralleiriadau ‘Ysgrythur’ neu ‘dysg’ hefyd. Llai tebygol yw *llen* ‘gorchudd’. Gthg. T. Gwynn Jones, *art.cit.* 39 ‘*is read*’, gan lynu wrth y darlenniad gwreiddiol.

150 **ochain** Delwedd a gysylltir yn draddodiadol ag uffern, cf. GCBM ii, 16.125 *Rac oeruel uchel ucheneit*.

151 **lloer** Delwedd o brydferthwch, fel arfer am ferched, cf. 10.6; GPC 2198.

153 **Elen** Gw. uchod ll. 9n.

154 **ei harwain** Llsg. *yarwein*. Cyfrifir *h* yn y gynghanedd yn y cyfnod hwn yn ôl J. Morris-Jones: CD 204, felly y mae ei angen yma. Cadarnheir hyn gan *hurddodd* yn y ll. nesaf. Cymerir mai’r Groes yw’r gwrth. dealledig gan fod *croes a crog* ill dau’n enwau b., ond gellid hyd



yn oed *gorawen* o'r ll. flaenorol. Y dewis amlwg arall fyddai dehongli'r rh. yn ll. a deall bod y bardd yn sôn am y gwiail. Cludodd Moses y gwiail gydag ef am y deugain mlynedd y bu yn y diffeithwch, gw. Yst Addaf 13 (llau. 4–7) *Ac y cad6 yn anrydedus a bnaeth A g6isc yn eu kylch yn greireu ann6yl. A deugein mlyned y buant yn y diffeith.*

- 155 **dwywawl wawl wahodd** Cyfeiriad, yn ôl pob tebyg, at yr Ysbryd Glân yn datgelu lleoliad y gwiail i Ddafydd, gw. Yst Addaf 15 (llau. 5–10) *Ac ympenn mil o vl6ynnyded gwedy moessen broff6yt y dysg6yt dauid tr6y yr ysbryd glan y vynet ohonna6 y vynyd thabor y y gyrchu y g6ielin.*

**Dafydd a'i hurddodd** Yn ôl y fersiwn Llad. o'r chwedl, wrth ddarganfod y gwiail *percussis ergo musicis instrumentis cepit sallere tripudio nomen dei invocando* 'felly dechreuodd [Dafydd] ganu salm gan daro offerynnau cerddorol mewn llawenydd a galw ar enw Duw'; cf. ll. 118n. Ni cheir darn cyfatebol yn nhestun Cym. Pen 5 nac yn Pen 14, ond fe'i cyfieithir mewn rhai testunau diweddarach, gw. Yst Addaf 16n2. Wedi cael hyd i'r gwiail, aeth Dafydd â hwy i Gaersalem a'u rhoi mewn ogof (*cisterna* yn y fersiwn Llad., a allai hefyd olygu 'cerwyn' neu 'basn') gan fwriadu eu plannu y diwrnod canlynol. Ond pan ddychwelodd yn y bore, darganfu eu bod wedi ymwreiddio a thyfu yn un goeden yn y lle hwnnw. Cododd Dafydd fur yn eu cylch a rhoi cylch arian o gwmpas y goeden bob blwyddyn (*ib.* 17–18). Dywedir ymhellach iddo ganu'r Salmau dan y goeden (*ib.* 18–19).

- 156 **Duw a'i goreuodd** H.y., trwy farw ar y Groes.

**teg arwyrain** Sangiad, ond nid yw'n amhosibl ei gymryd yn wrth. *goreuodd*. Sonir o bosibl am ddyrchafu Crist ar y Groes, yn llythrennol ac yn ffigurol.

- 157 **dogn rad** Cf. GGMD i, 3.165n. Gellid hefyd *dogn rhad* 'mesur o ras' neu 'cyflawn fesur o ras'.

- 158 **Addaf** Gw. ll. 9n uchod.

**oeddain'** Cf. *carain'* yn ll. 138n.

- 159 **dôr côr** Cf. ll. 25n.

- 160 **llys baradwys** Daeth Crist o'r nef i Gaer ar lun crog, ond dygir i gof hefyd fod y gwiail wedi dod o Ardd Eden yn wreiddiol.

- 161 **claer** Llsg. *glaer glaer*. Dilewyd yr ail air yn y llsg., cywiriad nas nodir yn R.

- 163 **trichyfoeth** Llsg. *trichychyuoeth*. Nef, daear ac uffern, cf. GBF 33.77 *Nef, dayar, uffern, pan y bernych ...* (Madog ap Gwallter). Gthg. Gruffudd ap Maredudd: Gw 205 lle yr awgrymir y nef, y ddaear a'r môr.

- 164 Ll. fer o sillaf, cf. GGMD i, 1.12n. Hanner cyntaf y ll. sy'n fyr felly ni

raid cyfrif *Lloegr* yn ddeusill, ond efallai fod *gloyw* i'w gyfrif felly.

**gloyw Gaer** Gthg. G 535 d.g. *gloew* lle yr awgrymir cyfansoddair *gloewgaer*. Yr e. lle sydd yma yn ôl pob tebyg, ond gellid 'i gaer o fro Lloegr', h.y. i un o gaerau Lloegr.

**o** Ni ddaeth y grog *o* Loegr, felly deallir yr ardd. mewn ystyr debyg i'r hyn a geir yn ll. 128n.

**Lloegr gain** Cf. ll. 70n.

165–6 **cedrus ... cypressus ... / ... pinus** Ffurfiâu Llad. Dengys y gynghanedd mai *s* yw sain *c* yn *cypressus*. Yn ôl y chwedl, o bren y tair coeden hyn y gwnaethpwyd y tair gwialen, ac y mae i bob un ei harwyddocâd, gw. Yst Addaf 10 (llau. 12–19) *trôy y cedrus y deallir y tat or nef. kannys vchaf prenn y dyfiant yb. drôy cypressus y deallir y mab. kannys goreu prenn yb y arogleu a melyssaf y ffrôyth. trôy y pinus y deallir yr yspryt glan herôyd amylder y ffrôyth.*

**rhwydd swydd** Braidd yn annelwig. 'Cypress is freely used in the work' yw cynnig T. Gwynn Jones, *art.cit.* 40; 'a llawer o le i'r pren cypreswydd' yn ôl Gruffudd ap Maredudd: Gw 201. Gellid brawddeg enwol 'hael yw rôl [y] gypreswydden [yn y gwaith]'.

166 **pinus** Llsg. *epinus*. Pum sillaf a ddisgwylyd yn hanner cyntaf ail l. cyhydedd hir. Ansicr yw tarddiad y ffurf *epinus*; fe'i ceir mewn ambell fersiwn o'r chwedl, e.e., Pen 14.

**a rygyngain** Llsg. *ar y gynghein*. Ansicr yw arwyddocâd y geiryn *rhy* gyda'r amser pres. a dichon nad oes iddo rym arbennig yma, cf. GCBM ii, 6.120; GDB 18.111–12 (dienw); GMW 166–8; J. Loth, 'Valeur de ry en Gallois', RC xxix (1908), 6–67 ac yn benodol 56. Am *cyngain*, gw. G 223 d.g. *kyngenni* 'genni, cael ei gynnwys; cydweddu, bod yn addas' a GPC 735 d.g. *cyngannaf*. Y mae'r ddwy ystyr yn briodol yma.

168 **rhoed Dduw** Dangosir yn Treigladau 211–12 mai treiglo'r goddr. ar ôl y terfyniad grch. *-ed* oedd y rheol, ond bod cadw'r gysefin wedi dod yn gyffredin yn y cyfnod canol. Gellid felly *Rhoed Duw o'i ddeurudd rhad dyddwyrain* 'Boed i Dduw roi o'i wyneb ras atgyfodiad'.

**o'i ddeurudd** Llai tebygol yw *o'i deurudd* oni feddylir am y geiriau *croes* neu *crog* i esbonio'r rh.b.

**rhad ddyddwyrain** Llsg. *rat da dwyrein*. Os derbynnir *o'i ddeurudd*, yna y mae angen dehongli'r *d* yn *dwyrein* yn 'dd' felly ni ellir *dadwyrain* yma (gthg. G 285 d.g. *dadwyrein*). Gellid, efallai, *rhad da ddwyrain* 'gras [i beri] ffyniant da', ond prin iawn yw'r dystiolaeth am *dwyrain* fel e. ac iddo'r ystyr hon, cf. G 404, GPC 1110. Yn betrus awgrymir *dyddwyrain* 'cyfodi, esgyn', gw. G 411 a GPC 1121.

169 **bonedd** Fe'i dehonglir yn gyfeiriad at gyfangorff y rhai achubedig (= *ysydd o sant*) yn hytrach nag at Dduw Ei hun.

**medd** Y ddiod, yma'n drosiadol am felyster y moliant yn y nef. Yn ôl GPC 2394 ceir *medd*<sup>2</sup> 'awdurdod, nerth', ond y mae'r ychydig enghreifftiau a ddyfynnir yn rhy ansicr i bwysu arnynt.

**ysydd o sant** Cf. PKM 36 (ll. 9) *dyuyn a oed o of yn Iwerdon yno*, 63 (ll. 22–3) *mi a rodaf it a wely o uarch yn y maes hwnn*. Ceir nodyn ar y defnydd annisgwyl hwn o'r un. gan T.H. Parry Williams, '*Miscellaneous Notes on Words and Constructions*', B i (1921–3), 105–6.

170 **goganain'** Cf. llau. 138n, 158n.

172 **Nêr oedd Wirdad** Y mae'n anodd esbonio'r amser amhff. yma. A ellid *neroedd Wirdad* 'gwir Dad [yr] arglwyddi'? Yn anffodus ni nodir unrhyw ffurf l. d.g. *nêr* yn GPC 2571 ar wahân i rai geiriadurol, ac nid yw *neroedd* yn eu plith.

**naw radd** Sef naw gradd yr angylion. Ceir awgrym fod gwahanol fathau o angylion yn y Beibl, ond traethawd y Pseudo-Dionysius 'De caelesti hierarchia' a sefydlodd y cysyniad o hierarchi ac ynddi naw gradd. Lledwyd y ddysgeidiaeth hon yn y gorllewin gan Rigor Fawr yn y 6g. a chan Eriugena, a gyfieithiodd waith y Pseudo-Dionysius i'r Llad. yn y 9g. Gw. hefyd NCE i, 511 a GIBH 11.16n; YE 27–9.

173 **Crair** Crist neu'r ddelw, ond dichon na wahaniaethir rhyngddynt.

**braint ... saint** Trawiad tra chyffredin, cf. GMB 30.20 (Meilyr ap Gwalchmai); GBF 27.22 (Llygad Gŵr); GC 2.161–2.

174 **eu harddelw** Llsgr. y *ardel6*. Cf. ll. 154n am *h* yng nghynghanedd y cyfnod hwn. Yn unol â'r hyn a ddywedir yno adferir *h* yn *harddelw* yma. Y dewis arall fyddai *Bid Ei arddelw ym, byd a'i urddain*, sef cyfeiriad at Dduw, ond nid yw'n arferol hepgor *h-* ar ôl y rh.m.gwrth.

**byd a'u hurddain'** Yn y gystrawen annormal y rheol yw fod y f. yn cytuno â rhif a phrs. y goddr. Am drin e. torfol yn ll., gw. GMW 179.

**urddain'** Ffurf 3 ll. amhff.myn. *urddo*, cf. llau. 138n, 158n, 170n.

Ceir yr olnod *AMEN* yn dilyn y ll. hon yn y llsgr.

175 **Uchelfaer** Llsgr. *v6ch / eluaer*. Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 3695 d.g. *uchelfaer*.

176 **gwerthfawr** Cf. ll. 23n.

177 **dwfr dir** Cf. *dyfrdir* 'tir wedi ei ddyfrhau; tir gwlyb', GPC 1125. Deallir ef yn enidol ac yn dibynnu ar *aber* yn ll. 175. Cyfeiria at y Roodee, sef darn o dir lleidiog a gwlyb ar ochr orllewinol y dref a orchuddid yn rheolaidd gan y llanw. Yno y glaniodd y grog, a barnu wrth enw'r lle (ystyr y S. *Roodee* yw 'ynys y grog'), gw. y nodyn cefndir. Saif cae ras Caer yno heddiw.

178 **Dyfrdwy** Fe'i cymerir yn enidol ar ôl *Caer*.

**mordwy** Byddai 'mordaith' hefyd yn addas, cf. GPC 2487.

182 **goleuGaer** Cf. ll. 11n.

183 Ll. fer o sillaf oni chyfrifir *Lloegr* yn ddeusill neu adfer rh. *ei* o flaen *gael*.

187 **llwybr glud** Dilynir G 535 d.g. *glut*<sup>2</sup>; gthg. G 149 d.g. *clud* a GPC 509.

**Llanw llwybr glud Lloegr dud y dug** Y mae angen cymryd *Lloegr dud* yn adferfol yma er mwyn esbonio paham y ceir *y dug* ac nid *a ddug*. Cf. ll. 22n.

188 **pum oes** Rhennid hanes y byd yn bum oes: i. o Adda hyd Noa; ii. o Noa hyd Abraham; iii. o Abraham hyd Foses; iv. o Foses hyd Ddafydd; v. o Ddafydd hyd ymgawdoliad Crist. Achubodd Crist ddynion cyfiawn yr oesoedd hyn pan ddisgynnodd i uffern ar ôl y croeshoeliad, a dyna paham y crybwyllir y pum oes mor gyson mewn perthynas â'r dioddefaint a'r brynedigaeth yn y Gym., cf. GCBM ii, 18.48; GBF 40.31 (Gruffudd ab yr Ynad Coch), 57.5 (Bleddyn Fardd); GGDT 10.54 (Trahaearn Brydydd Mawr). Am drafodaeth fanwl, cf. GIBH 8.9n, ac am gyfosod *pum oes* â *croes*, gw. Barry J. Lewis, 'Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd', LICy xxiv (2001), 40–1.

191 **ac wybr** Llsg. *awybr*. Disgwylid *ac* o flaen y ddeusain leddf *wy* ac y mae'r gynghanedd ar ei hennill o'i adfer.

192 **yn Ei gwbl ddioddef** Dyna dystiolaeth mai llun o'r Crist dioddefus oedd y Grog o Gaer ac nid o'r *Christus Triumphans*. Noder y gwrthgyferbyniad rhwng y ddelwedd hon a'r ll. flaenorol.

194 **Duw byw** Fe'i cymerir yn enidol ar ôl *tangnef*.

195 **gwial Moesen** E.tfl. neu e.ll. yw *gwial* yn ôl G 724. Gw. ll. 9n am le Moses yn chwedl y Groes Sanctaidd.

197 **Nêr o Dduw** 'Duw sy'n Arglwydd' yw'r ergyd, cf. GPC 2608, 7(a) d.g. *o*<sup>1</sup>.

**nawradd** Cf. ll. 172n.

198 **Naf, gerllaw, nef, Gaerlleon** Enghraifft o dorymadroddi, a threiglir *Caerlleon* o'r herwydd. Cf. yr aralleiriad a gynigir yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 202.

199 **Creawdr** Gw. uchod ll. 140n.

**llun** Caledir *l* yn *ll* ar ôl *r* weithiau, cf. Treigladau 27–9.

**Addaf Lyw** Sef Arglwydd dros yr hill ddynol i gyd.

200 **gwyl** Ffurf 3 un.pres.myn. *gweled*, cf. WG 320.

203 **tro** Dyna ddarlleniad y llsg., yn groes i farn Gwenogvryn Evans a ddarllenodd *dre* yn R. Camffurfiad yr *o*, sef y ffaith nad yw'r strociau yn asio ar ei gwaelod, sy'n peri iddi edrych ychydig fel *e*. Y mae'r

gynganedd yn mynnu mai *o* ydyw hefyd.

204 **fu** Llsgr. *v* ac yna lythyren annarllenadwy. Cymerir mai *a'th fu i fro Gaer i'th ddwyn* oedd y darlleniad gwreiddiol (gyda chalediad *th dd > th*, gw. isod, ac *fled-lafarog* dan yr acen, hyd y gellir barnu).

**i'th ddwyn** Llsgr. *ythwn*. Caledir *dd-* ar ôl *-th*, felly adlewyrchu'r gwir ynganiad a wna *th* yn y llsgr. Diwygir *-w-* yn *-wy-* er mwyn yr odl broest a'r ystyr, gan ddilyn G 402 d.g. *dwyn*.

205 **gwerthfawr** Cf. ll. 23n.

**fy mawrboen** Cf. ll. 201. Dyna awgrym mai ymbil am gael ei iacháu o ryw anhwylder y mae'r bardd.

206 **terra Calfaria firain** Genidol ar ôl *Crair gwerthfawr*, y mae'n ymddangos.

**terra** Llad. 'tir, daear'.

207–10 Gw. hefyd 9.25–8 a'r nodyn cefndir i'r gerdd honno.

208 **gafel** Llsgr. *auael* a phwyntiau dileu o dan yr ail *a*. Nodir *gafel* yn amrywiad posibl ar *gafael* yn G 518, ac yn y fersiwn arall o'r englyn *auael* a geir yma, gw. 9.26. O ran yr ystyr, awgrymir 'gafael' ar gyfer yr enghraifft hon yn G *l.c.*, ond yn GPC 1369 nodir hefyd fod *gafael* yn gallu golygu 'pren ar lun fforch, sef pâr o nenffyrch neu gyplau yn cynnal nenbren y tŷ, ateg, cynhalbren, yn *ffig.* cynheiliad, cynhaliaeth'. Ymddengys yr ystyron hyn yn fwy synhwyrol yn y cyd-destun presennol. Delwedd gyffredin am arglwydd, ac felly am Dduw, oedd ei ddychmygu fel colofn yn cynnal to, cf. GGMD i, 2.2n, ac y mae'r ddelwedd yn arbennig o addas yma wrth sôn am ddelw o bren a wnaed o *llwybrwaith saer*.

**llwybrwaith** Llsgr. *llwybyrwaeth*. Cf. GPC 2239; GTP 36 (21.42–6) *Llys wen a channwyll y sir; / Lleuad a mantell awen, / Lliw arian oll ar ei nen; / Llwybrwaith nid â llaw abrwysg, / Llewychddur Arthur a'i rwysg*.

210 **côr Caer** Gw. ll. 22n.

## 2

Un mewn cyfres o gerddi crefyddol Gruffudd ap Maredudd yng ngholofnau 1199–1202 o Lyfr Coch Hergest yw'r gerdd hon. Nid oes teitl iddi. Awdl i Fair sy'n ei rhagflaenu (gw. cerdd 10), ond Crist a gyferchir yn yr awdl hon; felly penderfynwyd ei golygu'n annibynnol yma. Ceir cyrch-gymeriad o bosibl rhwng y ddau ganiad a olygir yma, awgrym cryf eu bod yn perthyn gyda'i gilydd. Golygir y darn olaf yng ngholofn 1202, sef cyfres fer o englynion i'r *magi*, ar wahân oherwydd y cynnwys tra gwahanol (cerdd 13).

Dathlu ymgawdoliad a genedigaeth Crist yw byrdwn y caniad cyntaf, gan bwysleisio Ei amcan gwaredigol (ll. 1 *Ar lwyr wared, Grist, y'th aned*)

ar gyfer yr hil ddynol i gyd (ll. 3 i *lwyth* terra). Cyfeirir yn frysiog at y cwmp yn llinell 4, ond gorwedd y pwyslais yn gadarn ar orfoledd yr Iachawdwriaeth, a gynrychiolir gan anrheithio uffern (llau. 9–11) yn sgil marwolaeth arteithiol Crist ar y Groes (llau. 12–14). Dethlir yr enedigaeth eto yn llinellau 15–26. Llais cymunedol yw llais y caniad hwn, llais bardd yn siarad ar ran pawb.

Deisyfiad estynedig yn y person cyntaf unigol yw'r ail ganiad. Gofynnir i Dduw amddiffyn y bardd ac am gefnogaeth Mair a'r seintiau (llau. 27–31). Ofn y Farn Olaf a leisir yn ôl pob tebyg yn llinellau 32 (*rhag brawd o gas*) a 33 (*rhag barn cedyrn*). Â'r bardd rhagddo i restru'r pechodau y mae arno ofn eu cyflawni oni chaiff ei rwystro gan ras Duw. Yn eu plith sylwir ar rai o'r saith pechod marwol, sef *cybyddiaeth* (*avaritia*), *cynghorfyn* (*invidia*), *dwfn lesgedd* (*acedia*) a *digasedd* (*ira*). Cynrychiolir *superbia* gan *traws arfaeth* (ll. 34), ond ni sonnir am *gula* (glythineb) nac ychwaith *luxuria* (trachwant); felly nid yw'r bardd yn dilyn patrwm caeth. Troseddau yn erbyn y Deg Gorchymyn yw eraill megis *anudonau* a *gwaith gwylau* (gw. ll. 38n). Dehonglir *gwayw dan fron* a *gwyth galon* (ll. 38) yn boenau uffern, er y gall fod y bardd yn ymbil am nawdd yn erbyn gelynyon bydol hefyd.

Arwain y rhestr o bechodau'n naturiol at y gosb a ddisgwylir yn uffern. Ymestyn disgrifiad hirfaith o uffern hyd linell 52. Cylchredai disgrifiadau tebyg i hwn yn eang yn yr Oesoedd Canol mewn testunau megis y 'Visio Pauli Apostoli' ('Breuddwyd Pawl Ebostol') a'r 'Purgatorium Sancti Patricii' ('Purdan Padrig'), dau waith tra phoblogaidd a gyfieithiwyd i'r Gymraeg, ac yr oedd deunydd cyffelyb hefyd yn destun cyson i bregethau ac i ddarluniau ar furiau eglwysi.<sup>1</sup> Rhan o gynhysgaeth y Cristion canoloesol, felly, oedd yr holl fanylion erchyll am boenedigaeth pechaduriaid ar ôl marw, ac ofer yw ceisio olrhain pob un i ffynhonnell benodol.<sup>2</sup>

Ar ôl sôn am boenau uffern, try'r bardd at Dduw a'i foli am achub y rhai etholedig (llau. 53–4) ac am ddiwallu anghenion yr hil ddynol drwy Ei farwolaeth (ll. 56 *O'th fodd i'th fedd, o'th enrhydedd aeth ein rheidau*). Dirwyn y gerdd i ben â deisyfiad am gael mynd i'r nef. Crybwyllir Mihangel, amddiffynnydd traddodiadol yr enaid dynol ar ei daith i'r nef (llau. 59–61) ac yna gofynnir i Dduw ei anfon i hebrwng enaid y bardd yntau i ddedwyddwch (llau. 62–5).

Mesur: caniad o rupunt hwyaf ar y brifodl *-ain*; caniad o rupunt rheolaidd ar y brifodl *-au*. Mesur anghyffredin iawn yw'r rhupunt hwyaf, gw. J. Morris-Jones: CD 333. Yr unig enghraifft arall a nodir yno yw awdl Goronwy Ddu o Fôn, MA<sup>2</sup> 337. Ceir cynghanedd sain bedeirol ym mhob cwpled yn y caniad cyntaf a sain reolaidd ym mhob llinell yn yr ail; ac y

<sup>1</sup> Am destun Cymraeg o 'Visio Pauli', gw. LIA 152–6; atgynhyrchir fersiwn Llad. *ib.* 235–7. Gw. hefyd J.E. Caerwyn Williams, 'Welsh Versions of *Visio Sancti Pauli*', *Études* x (1962–3), 109–26; *id.*, 'Welsh Versions of *Purgatorium S. Patricii*', *SC* viii/ix (1973–4), 121–94.

<sup>2</sup> Am ddisgrifiadau eraill yn yr un dull, cf. GBF 40.33–55, 41.37–50, 43.34–42 (Gruffudd ab yr Ynad Coch) a GC 7.9–18.

mae defnydd y bardd o gymeriad yn orchestol drwy'r gerdd. Oherwydd y rhestrau hirfaith a phrinder y berfau rhediadol, anodd iawn yw atalnodi'r gerdd hon yn foddhaol ac ni ddylid ystyried y golygiad hwn yn waith terfynol.

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 212–16.

- 1 **ar** Am yr ystyr yma ac yn y rhan fwyaf o'r achosion isod, gw. G 33 d.g. *ar*<sup>1</sup> 1(e) lle y nodir defnyddio'r ardd. mewn 'ymadroddion adferfol ac arddodiadol, achosol neu amcanol'; hefyd GPC 173 d.g. *ar*<sup>1</sup>, ystyron 9(a) 'er, er mwyn' a 10 'trwy, trwy gyfrwng, ar sail'.

**llwyr** Dilewyd llythyren olaf y gair yn y llsg. ac ysgrifennu *r* yn y bwch. Nid oes llythyren ar goll, felly. Rhoddir *llwyr*\* yn R.

- 2 **nis goganain'** Cf. 1.138n ac yn enwedig 1.170. Tra thebyg yw'r ll. honno i'r un bresennol.

- 3 **terra** Cf. 1.206n.

- 4 Dehonglir y ll. gyfan yn sangiad. Gellid hefyd *Rhag murn mawrbla* (*o ben Efa Ei boenofain*), sef deall *rhag murn mawrbla* yn rhan o'r brif frawddeg.

**mawrbla** Cf. GSRh 12.5 *Rhythbla rus Efa* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed).

**pen Efa** Am *pen* yn yr ystyr 'genau', gw. GPC 2726 d.g. *pen*<sup>1</sup> 1(d). Sonnir am Efa'n bwyta ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg (Gen iii.6).

- 5 **Gair** Cf. 1.2n. Ceir yr un odl rhwng *gair* a *crair* yno hefyd.

- 6 **addiaian** G 10 'mwyn, tyner'; hon yw'r unig enghraifft yno. Derbynnir 'mwyn, trugarog' yn GPC 33 ond cynigir 'ardderchog' ar gyfer enghraifft arall yn Pen 53, 28 *prydein addiein ay damchwein*. Y mae ystyr y gair yn dra ansicr.

- 7 **ar berffaith fryd** Am *bryd* yn yr ystyr 'bwriad', gw. G 80 a GPC 338. Posibilrwydd arall yw 'ar gyfer [creu] meddwl perffaith [mewn dynion]'.

**hoywfraich hyfryd** Y mae braich Crist yn cynnig ymgeledd ac amddiffyniad i ddynion, cf. ll. 8.

- 8 **ar ddehau byd** Ar *dehau*, cf. GGMD i, 3.168n. Dehongliad arall fyddai 'ar gyfer [wynebu] perygl priodol', sef cyfeiriad at ddiodeffaint Crist.

**ar Dduw deiryd** Dilynir y f. *deiryd* gan yr ardd. *i* yn bur gyson, gw. yr enghreifftiau yn G 311 d.g. *deirydeit* a GPC 924. Ceir *i* neu *ar* ar ôl y f. *perthyn*, sy'n debyg ei hystyr, ond 'bod yn berthnasol (i), bod a wnelo (â)' neu 'bod yn briodol' yw ystyron arferol *perthyn ar*, cf. GPC 2781 (c). Posibilrwydd arall ar gyfer llau. 7–8 yw eu bod yn cyfeirio at y Forwyn Fair. Ceir y f. *deiryd* droeon yn disgrifio perthynas Mair a Christ, cf. 1.136, 11.2; BI BGCC 118 (13.5b, 6a–b); GLGC 6 (1.195).

Os felly, aralleirier efallai ‘Ar fraich lawen hyfryd [un] berffaith [ei] meddwl, / Ar gynorthwywraig [y] byd (i Dduw y perthyn [hi]) ...’

- 10 Cyfeiriad at anrheithio uffern. Credid er yn gynnar fod Crist wedi disgyn i uffern ar ôl marw, a cheir yng Nghredo'r Apostolion y cymal *descendit ad inferna* (a chymal tebyg yng Nghredo Athanasius), gw. J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third ed., London, 1972), 369. Adroddir yr hanes yn helaeth yn y testun apocryffaidd ‘Evangelium Nicodemi’, gw. *The Gospel of Nicodemus*, ed. H.C. Kim (Toronto, 1973). Cyfieithiwyd y testun i'r Gym., gw. J.E. Caerwyn Williams, ‘Efengyl Nicodemus yn Gymraeg’, B xiv (1950–2), 108–12. Torrodd Crist byrth uffern a hebrwng y rhai etholedig allan. Cytunid yn gyffredin fod Adda ac Efa a Phatriarchiaid yr Hen Destament ymhlith y rhain.

**oeddain'** Cf. ll. 2n.

- 12 **oerlaith arlwy** Llsg. *oer leith arwy*. Fe'i diwygir er mwyn yr ystyr. Sonnir yn ôl pob tebyg am farwolaeth Crist ar y Groes.

**yingloes** Cyfansoddair o *ing*, *yng* + *gloes* yn ôl GPC 2016–17 d.g. *ingloes*, *yingloes* lle y rhestrir yr enghraifft hon yn betrus. Gellid *ein gloes* neu *i'n gloes* ond gw. isod d.g. *yinglas*.

**dirwy** Talodd Crist Ei hun ar y Groes y ddirwy a oedd yn ddyledus gan yr hil ddynol yn sgil y cwmp, cf. 1 Cor vi.20, vii.23; yn emyn Venantius Fortunatus ‘Pange lingua’ gelwir Crist Ei hun yn *pretium saeculi* ‘pris y byd’ (OBMLV 75 (54.28)). Am athrawiaethau'r Oesoedd Canol ynglŷn â'r brynedigaeth, gw. MWRL 87–92; ERLMA 21–2.

**yinglas** Fe'i dehonglir yn gyfansoddair o *ing*, *yng* + *glas*. Gall *glas* ddisgrifio gwelwder pryd a gwedd, cf. G 531 d.g. *glas*<sup>1</sup>, ac yno rhestrir *yinglas* yn betrus yn gyfansoddair o *glas* yn yr ystyr hon. Os *ein gloes* neu *i'n gloes* a geir yn ail gymal y ll., yna rhaid cael *ein glas* neu *i'n glas* yma i'w ateb, ond y mae'n anodd cael synnwyr o'r naill neu'r llall o'r rhain.

**dyrain** Gair ac iddo sawl ystyr, cf. G 427 a GPC 1145–6. Trinnir yr enghraifft hon yn fe. i fa. yn y ddau le gan roi'r ystyron ‘codi, dyrchafu; dwyn, arwain’. Ymddengys fod y ll. yn sôn am ddyrchafu Crist, yn welw gan boen (*yinglas*), ar y Groes. Ceir hefyd yr ystyron ‘awch, aidd; rhyseidd, ymorchest; llawenydd, gorfoledd’, gw. G a GPC *l.c.*, ond nid yw mor hawdd cael synnwyr o'r rhain yma. Byddai ‘gorfoledd Un gwelw gan boen’ yn bosibl: cyfeiriai hynny at aberth Crist fel buddugoliaeth orfoleddus dros angau a thros y diafol.

- 13 **cadair ffydd** Cf. 1.7n, 1.78n.

- 14 Y mae cymal cyntaf y ll. yn hir o sillaf. Ni nodir hyn fel goddefiad posibl yn BaTh 269–70 ac ni lwyddwyd i ddarganfod enghraifft gyffelyb yng ngherddi'r Gogynfeirdd ar fesur rhupunt (diwygir GMB



1.28 a 48 (dienw) er mwyn osgoi'r afreoleidd-dra ac er mwyn synnwyr a gellir cywasgu yn yr holl enghreifftiau eraill, gan gynnwys GC 7.140 a 143). Mentrus, fodd bynnag, fyddai diwygio'r cymal yn *ar gedyrn wýdd*.

**Crogwydd** Am brennau'r Groes, gw. cerdd 1 *passim* ac yn enwedig 1.165–6n.

**ced gelfydd** Y rhodd yw bywyd, a brynodd Crist dros ddynion ar y Groes; ond gall mai at y Groes ei hun y cyfeirir hefyd.

15 **cynhyrchol** Ceir dwy ystyr yn ôl G 250, sef 'cynhyrchiol' a 'presennol', a hefyd ôl GPC 790, lle y cynigir 'ffrwythlon, toreithiog' a 'presennol; yn perthyn i'r byd hwn, bydol', gan roi'r enghraifft hon dan yr olaf. Byddai'r ddwy ystyr yn gymeradwy yma.

17 **ardeml** Nodir yr enghraifft hon yn betrus yn G 36, gan roi'r ystyron 'adeilad, trigfan, annedd; gorchudd, nodded', ond awgrymir 'tyrfa' yn GPC 183 yn ogystal ag 'annedd, tabernacl, pabell' ac 'ystad, eiddo; argyfrau'. Y mae GLIF 2.1 (Llywelyn Fardd I), GCBM ii, 8.3 a GGLI 1.17 (Hywel ab Einion Lygliw) o blaid derbyn yr ystyr yn G, a dyna a wneir yma. Posibilrwydd arall fyddai *ar deml gariad* 'ar gyfer cariad [i'r] eglwys'; am *teml* yn yr ystyr 'eglwys', gw. GPC 3475.

19 **erglyw** Dilynr G 485 a'i ddehongli'n ffurf 3 un.pres.myn. yn hytrach nag 2 un.grch., er y gellid hynny hefyd. Y mae'n demtasiwn aralleirio'r ll. gyfan yn 'Y mae'r bobloedd yn gwrando ar foliant cyhoeddus', ond ni ddilynrir y f. *erglywed* gan yr ardd. *ar* fel arfer a disgwylid y gn. *ydd* o flaen y f. Y mae llau. 20–6 yn egluro sylwedd yr hyn a glywir.

**pobloedd** Cedwir cysefin y gair hwn ar ôl y fan. mewn Cym.C., gw. Treigladau 10–11; GCBM ii, 16.107; GBF 47.18 (Bleddyn Fardd).

20 **Arglwydd** Llsg. *ar arglwyd*, darlleniad a wna'r ll. sillaf yn hir ac felly sy'n debygol o fod yn wall copïo (ond gthg. ll. 14 am nifer afreolaidd o sillafau mewn ll.).

21 **catholig** Am yr ystyr 'ffyddlon', cf. GDC 13.25 *coeth catholig—fryd* (Meurig ab Iorwerth); BI BGCC 39 (4.29n).

22 **Gair** Cf. ll. 5n. Sonia'r bardd am eni Crist, y *logos*, gan ddwyn i gof y cyfarchiad i Fair hefyd.

**awr wynfydig i'r wen fadiain** Y mae'n werth nodi yma'r gred boblogaidd yn yr Oesoedd Canol Diweddar na ddiodeffodd y Forwyn wewyr esgor yn ystod geni'r Iesu, gw. J. Cartwright: ForF 43–4. Cyfrifid yr enedigaeth yn un o Bum Llawenydd Mair, cf. GBDd cerdd 5 (y nodyn cefndir).

24 **ar les blegyd** Cymerir *ar blegyd* yn gyfystyr ag *oblegid* yma er nas nodir felly yn GPC 2822.

**plygain** Cf. 1.130n. Yma, cyfeiriad at fore dydd Nadolig ei hun.

28 **Gröeg** Cf. 10.11n *hil gweilch Gröeg*. Nodir yn G 590 a GPC 1533 fod ystyr ehangach na ‘gwlad Roeg’ i’r gair hwn weithiau, ond nid ymhelaethir. Ymddengys mai at y Dwyrain yn gyffredinol y cyfeiria *Groeg* weithiau, neu’n fwy penodol at diriogaeth yr Eglwys Uniongred mewn gwrthgyferbyniad â’r Gorllewin a fu’n deyrngar i Rufain. Byddai hynny’n esbonio paham y cyfeirir at y Tir Sanctaidd fel *Groeg* yn y ddwy enghraifft hyn a hefyd yn GIG 3 (1.53–8) *Od ei Roeg mae darogan, / Darw glew, y ceffi Dir Glân / A’r Iddewdref arw ddudrist, / A themlo’r grog a theml Grist, / A goresgyn ar grwysgaith / Caersalem hyd Fethlem faith* (I’r Brenin Edward IV). Cf. GC 7.218–20 *Treiddwyf, Rhwyf rhwyddwynt (tros fôr côr cerrynt), / Gröeg deg derfynt, hawdd hylt heddwch, / Tir gwir gwerin gred, tymyr gwŷr gwared*. Sôn am bererindod i’r Tir Sanctaidd a wna Casnodyn yn y llau. hyn.

**hil o riau** Cf. 1.18n.

30 **gweryddon** Morynion yn benodol yma, yn ôl pob tebyg, oherwydd rhestrwyd y seintiau eisoes yn ll. 29.

**gwiw raddau** Sef trigolion y nef, naw urdd yr angylion a’r ddegfed urdd, y rhai achubedig.

32 **brawd o gas** Dymuna’r bardd na fydd iddo gamfarnu eraill, ond gall hefyd mai at y Farn Olaf y cyfeiria hyn.

33 **barn cedyrn** Y Farn Olaf, yn ôl pob tebyg, er nad yw ergyd y ffurf l. yn glir.

**baich ... o bechodau** Cyfuniad geiriol poblogaidd iawn, cf. GMB 4.15 (Meilyr Brydydd).

37 **dogn gymwyll** Sonnir o bosibl am siarad gwag, a ystyrir yn bechadurus.

38 **gwayw dan fron ... gŵyth galon** Awgryma’r cyd-destun mai poenau uffern yw’r rhain yn hytrach na helyntion yn y byd hwn; y cythreuliaid, felly, yw’r *galon* yma. Posibilrwydd arall yw ‘calon ddig’, sef pechod dicter.

**gwaith gwylau** Cf. cyffes Ieuan Brydydd Hir, GIBH 5.39–40 ‘*Sywaeth mi weithiais hefyd / Waith Suliau a gwyliau i gyd*. Gwaherddid gweithio ar ddydd gŵyl o dan y trydydd gorchymyn, gw. LIA 142 (llau. 24–8), ac ystyrir bod rhywun a dorrai’r gorchymyn yn euog o’r pechod o lesgedd (gw. isod) oherwydd ei fod yn *yscaelussaþ gþassannaethv duþ ynyr amser ydylyho dyn yþneuthur*, gw. *ib.* 144 (ll. 9).

41 **triphoenau** Am gyfansoddeiriau clwm gyda rhifolion, gw. GMW 47. Anghyffredin yw defnyddio ffurf l. ar ôl rhifolyn, ond am enghreifftiau pellach, gw. GMW *l.c.*; L&P 190.

43 **a’i gofeiliaint a’i gefelau** Gellid *a’u ... a’u*, ond ar batrwm y llau. eraill gwell glynu wrth yr un.

- 45 **a'i chwyn** Y mae *a'i chwyn* hefyd yn ddehongliad posibl.
- 46 **tanllyd gyrrn** Cf. LIA 153 (llau. 19–20) *ana6 kythreul ysgithra6c. a chyrnn tanllyt arnunt* ('Breuddwyd Pawl Ebostol').  
**tinllwyd** GPC 3502 'llwyd ei waelod neu ei gynffon', hefyd 'dail arian, tansi gwyllt, *Potentilla anserina*'. Nid ardystir yr ystyr fotanegol tan yr 17g., ond yn Llysieulyfr Wiliam Salesbury, sy'n perthyn i chwarter olaf yr 16g., rhestrir [*L*]lwyd y *din* ymhlith yr enwau Cym. ar y planhigyn hwn, gw. *Llysieulyfr Salesbury*, gol. Iwan Rhys Edgar (Caerdydd, 1997), 115–16. Noda Salesbury fod i *Potentilla anserina* nifer o rinweddau meddyginiaethol, ond ni sonnir am unrhyw agwedd arni a allai fod wedi ysgogi Gruffudd ap Maredudd i'w rhoi yn uffern. Nodir yn Bohumil Slavík, *A Field Guide to Wild Flowers, Ferns and Grasses* (London, 1993), 100–1, fod blas y planhigyn yn '*astrigent*', ond nid yw'n ymddangos yn ddigon dieflig ar gyfer y cyd-destun presennol. Yn wyneb hynny, deellir *tinllwyd* yn a. 'llwyd ei waelod', er na nodir yr e. *tin* ei hun yn yr ystyr ffigurol 'gwaelod' tan yr 17g. yn ôl GPC 3498–9.  
**cau** Am y gair hwn yn e., gw. G 138 a GPC 441. Gthg. G *l.c.* lle y deellir yr enghraifft hon yn a. 'cau, â cheudod ynddo, agored, gwag'; golygai hynny ddeall *tinllwyd* yn e. (gw. uchod). Os y planhigyn yw *tinllwyd* yma mewn gwirionedd, gellid 'tinllwyd gau' neu 'wag'. Eb. yw *tinllwyd* fel arfer yn ôl GPC 3502, ond posibilrwydd arall yw ei ddeall yn eg. gyda'r a. *gau* 'ffug'.
- 47 **llwch** Dilynir GPC 2234 a rhoi'r enghraifft hon d.g. *llwch*<sup>2</sup> 'llyn, pwll, merddwr, cors, mignen, siglen, gwern; llaid, budreddi, baw, tom'. Gweddai pob un o'r ystyron hyn yma, ond tra chyffredin yw delweddu uffern fel cors, cf. MWRL 111–15. Gellid hefyd *llwch*<sup>1</sup> 'llwch'.  
**tirionwch** Gair annisgwyl iawn yn y cyd-destun. Cytunir yn betrus â'r farn yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 216 fod y defnydd o'r gair yma'n wawdlyd.
- 49 **bront bariad** Gw. GPC 2690 d.g. *pariad* 'achos, achosiant; gwneuthuriaid; gorchymyn', ond dywedir yno fod yr enghraifft hon a GSRh 2.3 (Sefnyn) yn dywyll. 'Crëwr' yw'r cynnig yn GSRh ond y mae'r terfyniad *-iad* yn peri affeithiad *a > ei* pan ddynoda weithredydd, gw. GPC 1997 d.g. *-iad*<sup>2</sup>, ac y mae'n anodd derbyn yr ystyr honno yn y ll. bresennol. Enwau g. a greir gyda'r ôl-ddodiad *-iad* fel arfer, gw. WG 226, ac y mae'r genedl yma'n anodd ei hesbonio.
- 50 **ôd** GPC 2616 'eira (sy'n syrthio), plu eira; ?yn bwrw (am genllysg)'. Ceir bf. o'r bôn hwn, gw. *ib.* d.g. *odi*<sup>1</sup> 'bwrw (eira neu eirlaw), disgyn (am eira)'. Cymerir y gair yn a. yma'n golygu 'yn disgyn'.  
**tyrfau** Ll. *twrf*, gair ac iddo ddwy ystyr, gw. GPC 3661. Gellid hefyd 'synau, cynhyrfoedd, rhoedd' yma.

- 51 **gwanafau** Ll. *gwanaf*. Yn ôl G 613 ceir *gwanaf*<sup>1</sup> ‘haen, to, rhes, rheng’ a *gwanaf*<sup>2</sup> ‘poen, dioddefaint, tristwch, lliid’. Rhoddir yr enghraifft bresennol dan yr ail, ond gan awgrymu’r llall yn bosibilrwydd. Yr ystyr gyntaf yn unig a nodir yn GPC 1572 d.g. *gwanaf*<sup>2</sup> ‘haenen, tafell; yn *ffig*. cenhedlaeth; ... rhes, rheng’, gan gynnwys y ll. bresennol. O’r braidd y gweddai’r ystyr ‘poen’ yn YE 24 (ll. 31) *Bys Duw’r deheu, doethyon eiryau, eiryau wanaf*, felly dilynir GPC yma.
- 53 **dengraddwlad** Y nef, cf. 1.172n a ll. 20n uchod.
- Pryniad** ‘Y weithred o brynu; pwrnasiad ... prynedigaeth’, yn ôl GPC 2924, ond gwedda e. gweithredydd yn well yma (posibilrwydd a gydnabyddir *ib.*).
- 54 Cyfeiriad at anrheithio uffern.
- 55 **hynafiaeth** Llsgr. *hyneuyaeth*. Gwall am *hynafiaeth* yn ôl GPC 1975. Cyfeirir o bosibl at dras Crist, sef ei fod yn Fab Duw, ond gw. isod.
- genedigaeth** Llsgr. *enydigaeth*. Nodir hyn d.g. *digaeth* yn G 345 ond gan awgrymu mai ffurf ar *ganedigaeth* ydyw. Cyfeirir at enedigaeth Crist. Posibilrwydd arall yw cydio o’th *hynafiaeth enedigaeth* wrth o *rai gorau* yn ll. 56. Gall *genedigaeth* olygu ‘cenhedlaeth’, gw. GPC 1392 a G 521 d.g. *ganedigaeth*. Os felly, aralleirier llau. 54–5 yn ‘Yno yr aethost ar ôl y rhai a geraist o blith y rhai gorau / O’th genhedlaeth [o]’r oesoedd gynt’: cyfeiriad at y bobl gyfiawn o’r oesoedd cyn yr ymgrawdoliad a achubwyd drwy ymgyrch Crist yn erbyn uffern.
- 56 **bodd** Mwy tebygol na *modd*, ond gellid ‘oherwydd dy ddull yn Dy fedd’.
- i’th fedd** Am yr ardd. *i* yn yr ystyr ‘yn’ o flaen rh.m. gen. 2 un., gw. GPC 1993 d.g. *i*<sup>3</sup>. Posibilrwydd arall yw’r ystyr arferol ‘i’; os felly, aralleirier y ll. gyfan yn ‘O’th fodd i’th fedd o’th anrhydedd [yr] aeth ein angenrheidiau’, h.y., Crist yw *ein rheidau* ac aeth ef i’w fedd drwy ei ewyllys da a’i anrhydedd.
- 57 **o’th ddala Ddifiau** Daliwyd Crist yng ngardd Gethsemane ar nos Iau ar ôl y Swper Olaf, gw. Math xxvi; Marc xiv; Luc xxii; Io xviii.
- dala** Unsill yma, fe ymddengys, er gwaethaf yr orgraff. Gall mai *daly* a oedd yma’n wreiddiol.
- 58 **ar Dy ddehau** Ar ôl Ei atgyfodiad, treuliodd Crist ddeugain niwrnod ar y ddaear cyn esgyn i’r nef i eistedd ar ddeheulaw Ei Dad, cf. geiriau Credo’r Apostolion *ascendit ad coelos, sedet ad dexteram Dei Patris omnipotentis* ‘esgynnodd ef i’r nefoedd, eistedd ar ddeheulaw Duw’r hollalluog Dad’, gw. Kelly, *op.cit.* 369. Y mae’r pwyslais yn y ll. hon ar undod y Drindod; felly dywedir yn llac fod Crist yn eistedd wrth Ei ddeheulaw Ei hun.
- 59 Cymhleth yw cystrawen y llau. olaf. Gellid tybio bod cyfarchiad i

Fihangel yn y ll. hon, ond gan fod y bardd yn cyfarch Duw yn llau. 36–40 ac yn sôn am Fihangel yno yn y trydydd prs., gwell cymryd y ll. bresennol yn rhagarweiniad i'r weddi olaf, yn cyflwyno person Mihangel heb f. i gwblhau'r synnwyr. Eir ymlaen i ofyn i Dduw anfon Mihangel i hebrwng enaid y bardd i'r nef.

**Mihangel** Yr archangel, arweinydd byddinoedd y nef ac amddiffynnwr yr enaid dynol yn awr angau, gw. ODCC<sup>3</sup> 1082–3.

- 60 **paun** Delwedd am arglwydd, cf. GSRh 4.24 *paun gwirodion gwin* (Rhisierdyn) ac *ib.n.* Gelwir Mihangel yn *princeps* 'tywysog' yn Dan x.13 (*Michael unus de principibus primis*) a xii.1 (*princeps magnus*).

**pan fo dadlau** Cyfeiriad at swyddogaeth filwrol Mihangel, sef amddiffyn eneidiau'r meirw rhag ymosodiadau cythreuliaid ar eu taith i'r nef.

- 61 **Sonnir** am Fihangel, yn ôl pob tebyg, yn hytrach na Duw, oherwydd eir ymlaen i gyfarch Duw yn yr ail brs. yn y ll. nesaf.

**pêr ei frediad, pur ei frodiau** Cyfeiriad, o bosibl, at swyddogaeth Mihangel ar Ddydd y Farn, sef dal y fantol a fydd yn pwysu a mesur haeddiant yr eneidiau.

- 62–3 Y gystrawen yw *Pâr ef ... / I ddwyn frysbyrd* yn hytrach na'r gystrawen arferol *pâr iddo ddwyn*.

## 3

Ceir y saith awdl hyn yng ngholofnau 1213–19 o Lyfr Coch Hergest. Nid oes pennawd yn eu gwahanu oddi wrth y ddwy awdl sy'n eu rhagflaenu yng ngholofn 1213, ond gan mai cyfarch y Forwyn Fair a wna'r rheini, fe'u golygir ar wahân yma (cerdd 11). Awdl neu ddryll o awdl fawl secwlar (GGMD i, cerdd 8) a ddaw ar ôl yr awdlau i Dduw yng ngholofn 1219, eto heb bennawd, ond yn amlwg yn gyfansoddiad annibynnol. Ansicr yw perthynas y saith awdl â'i gilydd. Golygwyd y ddwy gyntaf fel cerddi annibynnol yn MA<sup>2</sup> 316–17, gan drin y lleill fel un gerdd (*ib.* 314–16), a thebyg yw'r drefn yn Gruffudd ap Maredudd: Gw. Gwir fod y ddau ganiad hyn yn gallu sefyll yn annibynnol, ond y mae hynny'n wir hefyd am ganiad 7, dyweder, neu ganiad 8, ac o ran hynny am lawer caniad yn awdlau hirfaith y Gogynfeirdd. Nid oes rheswm da dros ddiolli'r caniadau cyntaf a gadael y gweddill ynghyd, yn enwedig o ystyried y cymeriad tebygol rhwng geiriau agoriadol y tri chaniad cyntaf (*Arglwydd*, ll. 1; *arddwyreaf*, ll. 41; *Arglwydd*, ll. 91). Yr unig ganiad a ymddengys yn anghyflawn ar ei ben ei hun yw'r pedwerydd, sy'n cynnwys 24 llinell yn unig. Ceir cyrch-gymeriad posibl rhyngddo a llinell gyntaf y caniad nesaf (*goron / Côr*), ond nid oes cyswllt felly rhwng y caniadau eraill. Eto, nid yw defnydd Gruffudd ap Maredudd o gyrch-gymeriad yn ei gerddi amlganiad yn gyson, cf. GGMD i,

cerdd 3; GGMD iii, cerddi 1 a 5. Gan hynny, ni ellir bod yn sicr ai un gerdd yw'r saith awdl hyn, ynteu tair, ynteu rhagor. Teimlir bod undod thematig cryf yn rhedeg trwyddynt, ond a hwythau'n awdlau i Dduw o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, nid yw hynny'n profi dim. Fe'u cedwir ynghyd yma er hwylustod, ond gan roi iddynt y teitl amwys 'Awdlau i Dduw' er mwyn adlewyrchu ansicrwydd eu statws perfformiadol.

Canu i Dduw fel *Arglwydd terfyn dyn* (ll. 101) a wna Gruffudd yn yr awdlau hyn. Eu nod amgen yw cyfleu ofn dwys yn wyneb marwolaeth a barn, a dymuniad cryf am gael mynediad i'r nef. Penydiol, felly, yw eu cywair: er bod peth canmol gorfoleddus a gobeithlon ar Dduw'r Creawdwr a'r Iachawdwr (cf. llau. 41–62 a 91–100), gorwedd y pwyslais yn drwm ar fynegi edifeirwch, ansicrwydd a phryder. Tuedd anochel yr hil ddynol i wyro tuag at ddrygioni a'i llwyr ddibyniaeth ar ewyllys Duw am waredigaeth yw prif themâu'r gerdd. Ymdrinnir â'r cynnwys yn fanylach fesul caniad.

### *Caniad 1*

Dengys y caniad hwn mor amrywiol y gall arddull Gruffudd ap Maredudd fod. Cymharer ef â'r 'Awdl i'r Grog o Gaer' (cerdd 1), er enghraifft, neu â'r awdlau mawl yn GGMD i, gyda'u cystrawen astrus a'u hadeiledd cylchog ac ailadroddus. Yma ceir adeiledd cwbl dryloyw: cyfarchiad i Dduw ac addewid i ymddiwylgio'n foesol (llau. 1–4); deisyfiad am waredigaeth a seilir ar ras y croeshoeliad (llau. 5–14); cyffesiad o bechodau (llau. 13–25); mynegiant o ofn yn wyneb marwolaeth heb fod mewn gras (llau. 26–32); ac yna ddeisyfiad llawnach am waredigaeth i ddiweddu (llau. 33–40). Eir trwy brif rannau penyd: y mae rhaid i'r penydiwr deimlo edifeirwch a'i fynegi'n briodol; yna, rhaid iddo roi cyffes lawn o'i holl bechodau; a dim ond wedi hynny oll y gall fagu gobaith am faddeuant yn seiliedig ar ras Duw.

### *Caniad 2*

Y mae hwn yn ganiad llawnach a mwy amrywiol na'r cyntaf. Egyr â chyfarchiad i Dduw a mawl gorfoleddus iddo (llau. 41–62) fel Creawdwr ac fel Gwardwr. Molir Ef am ddwy agwedd ar Ei ddaioni tuag at ddynion, felly: am Ei fod wedi creu dyn o'r pedair elfen (llau. 55–8) a chreu byd hardd iddo fyw ynddo (llau. 59–62), ac am Ei fod wedi achub dyn o ganlyniadau ei bechod ei hun (llau. 47–50). Rhaid i'r Cristion, felly, lwyr ymddiried yn Nuw a dim byd arall, ac yn enwedig ni ddylai ymddiried yn y byd byrhoedlog hwn (llau. 63–70). Pwysleisir y neges â chyfres o waeau (llau. 71–4) a anelir at y sawl sy'n dewis y byd materol ar draul Duw. Yna daw tair delwedd enghreifftiol o fyrhoedledd ac ansicrwydd y byd: nyth bregus aderyn, hydd mewn perygl o gael ei ladd gan heliwr, a physgodyn nad yw'n ymwybodol o dryfer y pysgotwr a anelir ato. Dyfynnu enghreifftiau (Llad. *exempla*) yw un o brif dechnegau pregethwrol yr Oesoedd Canol,

ond yng nghyd-destun y canu crefyddol Cymraeg y mae'r delweddau hyn yn sicr yn anarferol o ffres.<sup>1</sup> Cwblheir y caniad yn y dull arferol, sef â deisyfiad am iachawdwriaeth.

### *Caniad 3*

Canolbwynt y caniad hwn yw gwaith gwardigol y Crist ymgnewdoledig. Egyr â chyfarchiad i Dduw'r Creawdwr ac Arglwydd y byd a'r nef, yr Un sy'n pennu hyd einioes dyn a'i ffawd (ll. 101). Yna cyfosodir natur ddynol Crist a *aned* (llau. 103–4) â'i natur ddwyfol fel Rheolwr y nef (llau. 105–6), cyn sôn am yr ail ddyfodiad a'r Farn (llau. 107–8). Crybwyllir hefyd y dioddefaint a ddaeth drwy frad Judas (llau. 111–114); claddedigaeth yr Iesu (llau. 115–116); a'r atgyfodiad (llau. 117–18). Gwneir hyn yn sail i ymbiliad am waredigaeth i'r bardd ac i bawb (llau. 119–26). Yn olaf, gofynnir am ragor o amser cyn y daw marwolaeth i'w cipio oll (llau. 127–30).

### *Caniad 4*

Dyma ganiad byr y mae'n anodd dilyn rhediad meddwl y bardd ynddo mewn manau. Egyr â chyfarchiad i Dduw fel Brenin y nef a deisyfiad am drugaredd. Yna ceir disgrifiad hir o'r nef (llau. 137–148), ond nid yw mor hawdd dilyn synnwyr gweddill y caniad. Ymddengys fod llinellau 149–50 yn sôn am beryglon y byd hwn a bod llinellau 151–2 yn ddisgrifiad o uffern, ond anodd bod yn sicr. Try'r cwpled olaf eto at Dduw. Dichon fod diffyg cydlyniad y darn hwn yn awgrymu nad yw'r testun wedi ei ddiogelu'n berffaith.

### *Caniad 5*

Dychwelir yn y caniad hwn at thema marwolaeth. Ar ôl cyfarch Duw (llau. 155–60), y mae Gruffudd yn ymbil ddwywaith am dderbyn iachawdwriaeth cyn iddo fynd i'r bedd (llau. 161–5, 166–71). Yna try at yr ymgnewdoliad, er nad yw'n glynu wrth drefn gronolegol: sonia am y dioddefaint ac yna am y geni ar ddydd Nadolig (llau. 172–86). Gwneir hyn, ar y cyd â'r daioni a ddangosodd Duw wrth greu dynion ar Ei ddelw Ef Ei hun (llau. 187–92), yn sail i ddeisyfiad olaf am y nef (llau. 193–4).

### *Caniad 6*

Y mae hwn yn ganiad hir ac iddo naws ddiwinyddol gref. Egyr trwy ganmol tri Pherson y Drindod (llau. 195–200), cyn i'r bardd ymwrthod â phechod yn y gobaith o osgoi uffern (llau. 207–16). Arwain hyn at restr hirfaith o seiliau ei obaith, rhestr sy'n dwyn i gof litanïau eglwysig: y Drindod, y Forwyn Fair, yr angylion, yr apostolion, y proffwydi, y patriarchiaid, yr efengylwyr, Ioan Fedyddiwr, y Groes, yr Eglwys, bedydd, ffydd a'r offeren. Cynhwysir

<sup>1</sup> Cf. barn D. Myrddin Lloyd yn GWL ii<sup>2</sup>, 39, 'Gruffudd ap Maredudd's religious poetry is notable for its freshness of imagery.'

nifer o fendithion naturiol yn y rhestr (llau. 237–40), efallai am eu bod yn arwyddion o ffafr Duw tuag at yr hil ddynol, ond gweler y nodiadau am gysylltiadau ewcharistaidd rhai ohonynt. Y mae'r rhestr fawreddog hon yn cyrraedd ei huchafbwynt yn y disgrifiad o'r cymun bendigaid a geir yn llau. 241–4: dyma arwydd pennaf gras Duw, Ei bresenoldeb ym mara a gwin yr offeren, Ei hunanaberth dros yr hil ddynol. Dirwyn y rhestr i ben drwy sôn am y Farn, gan bwysleisio trugaredd Duw a chymorth y seintiau, a fydd yn sicrhau i'r bardd le yn y nef (llau. 245–50).

### *Caniad 7*

I gloi ceir caniad cymharol fyr sy'n crynhoi themâu'r cyfan. Molir Duw fel unig Arglwydd a Gwarddwr yr hil ddynol (llau. 251–4). Pwysleisir anwadalwch einioes dyn ac anocheledd marwolaeth (llau. 255–8), eto gan dynnu ar gymhariaeth o fyd natur (cf. yr ail ganiad). Yn wyneb yr anwadalwch hwn, try'r bardd at Dduw fel ei unig ateg (llau. 259–62) ac yna Ei foli mewn cywair cymunedol, yn y person cyntaf lluosog (llau. 263–70). Yna ceir deisyfiad am iachawdwriaeth, y tro hwn yn pwysleisio statws Gruffudd fel bardd i Dduw (llau. 271–2). Diweddglor gerdd yw deisyfiad arall ar y Drindod, ffynhonnell popeth a geir yn y byd hwn (llau. 275–8).

### *Mesurau*

- Caniad 1 (llau. 1–40): cyhydedd fer (prifodl *-edd*)
- Caniad 2 (llau. 41–90): toddaid (prifodl *-er*)
- Caniad 3 (llau. 91–130): cyhydedd naw ban a thoddaid (prifodl *-au*)<sup>2</sup>
- Caniad 4 (llau. 131–54): rhupunt hir (prifodl *-on*)
- Caniad 5 (llau. 155–94): byr-a-thoddaid (prifodl *-ig*)<sup>3</sup>
- Caniad 6 (llau. 195–250): toddaid (prifodl *-au*)
- Caniad 7 (llau. 251–78): gwawdodyn (prifodl *-ydd*).

Golygwyd y gerdd eisoes (fel tair cerdd) yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 225–44.

- 1 **Arglwydd rhwydd** Cyfuniad cyffredin, cf. GGMD i, 4.101, 165, 5.133.
- 2 **Eurglo** Fe'i defnyddir am Dduw eto yn ll. 260 ac yn 15.5.

**cymrodedd** G 237–8 d.g. *kymroded*<sup>δ1</sup> 'cyflafaredd, barn, cymod, cytundeb', hefyd GPC 770 d.g. *cymrodedd*<sup>δ1</sup>. Cymerir *bro breiniol gymrodedd* yn ddisgrifiad o'r nef, ond gellid rhoi atalnod ar ôl *bro* a chymryd *breiniol gymrodedd* am Dduw, '[Un] urddasol [Ei] gymod' neu '[Un] urddasol [Ei] farn'.

<sup>2</sup> Canwyd hyn ar ddull tebyg i wawdodyn, sef cwpled o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddaid byr (yn lle toddaid), ond yn llau. 115–16 ceir toddaid yn lle cwpled o gyhydedd naw ban ac yn llau. 123–8 rhoddwyd tri chwpled o gyhydedd naw ban ynghyd.

<sup>3</sup> Y mae nifer y llinellau o gyhydedd fer rhwng y toddediau byrion yn amrywio.



- 4 **Argledr** Llsgr. *aergledyr*. Ni nodir *aergledyr* yn G 13 nac yn GPC 38 ond ceir *argledr* yn aml am noddwr neu arglwydd, cf. G 40 (lle yr awgrymir y diwygiad hwn) a GPC 197 d.g. *argledr*, hefyd GCBM i, 3.194, 18.13, 20.28; GEO 1.41. Eto, cf. GEO Atodiad Dd 45.1 lle y ceir y darlleniad *aergledyr* (a'i ddiwygio yn *argledr* eto).

**Pedr** Y pwysicaf o'r apostolion a phorthor y nef, cf. GMB 4.25–6 *Mi, Veilyr Brydyt, beryerin y Bedyr, / Porthabr a gymedyr gymhes deithi* (Meilyr Brydydd); GDB 10.23–4 *Pedyr wynn a'n gôrthuyyn gôrth yr ygder: / Ys ti a brthyd a brthoter!* (Phylip Brydydd). Fel y dengys yr enghreifftiau hyn, ymbilir arno yn aml yn wyneb marwolaeth, ond at Grist ei hun fel 'Cynheiliad Pedr' y cyfeirir yma. Ymhellach ar Bedr, gw. ODCC<sup>3</sup> 1260–1; NCE xi, 200–5.

**maswedd** Ceir dau farc coch o dan *m* yn y llsg. nad yw eu harwyddocâd yn eglur. Os marciau dileu ydynt, gellid efallai ddarllen *peidiaf â maswedd*.

- 5 **arglyd fyd Fodur** Cymerir *byd Fodur* yn uned ac *arglyd* yn ei goleddfu, ond gallai *arglyd* oleddfu *byd* yn benodol gan roi 'Arglwydd [y] byd clodfawr'.

**arglyd** Dilynir GPC 199 'enwog, clodfawr', gan gysylltu'r gair â *clyd*, amrywiad ar *clod*, gw. *ib.* 515 d.g. *clyd*<sup>2</sup>. Daw Ifor Williams i gasgliad tebyg yn achos y gair *erglyt* yn CT 20, ond gthg. G 40 lle yr awgrymir 'amddiffynnol' ar gyfer *arglyd*.

- 6 **arglain** Unig enghraifft. Yn G 40 d.g. *arglein* rhoddir '?arglwydd', ond cywirir hyn yn 'nodded' yn *ib.* 146 d.g. *clein*<sup>1</sup>. Ceir tri gair *clein* yn ôl G, sef *clein*<sup>1</sup> '?nawdd, amddiffyn, noddwr'; *clein*<sup>2</sup> '?cyd, cydio, cyd-orwedd, cenedlu'; a *clein*<sup>3</sup> sydd â'r un ystyr â *glein*. Ni cheir enghraifft ddiogel o'r cyntaf ac nid ymddengys yr ail yn synhwyrol yma. Gwrthodir dwy enghraifft o'r trydydd yn GMB 3.7n a 172n (Meilyr Brydydd; ni cheir enghreifftiau eraill). Yr unig ystyron a roddir ar gyfer *clain* yn GPC 489 yw 'dymuniad, bodd, ewyllys; trachwant, cyd'. Yn *ib.* 197 cymherir y gair *arglain* ag *arglwydd* (*ar* + *glwydd* > *arɣlwydd* > *arglwydd*) gan ei gysylltu â *glain*, felly. Defnyddir *glain* yn aml yn ffigurol am berson a folir, cf. G 532 d.g. *glein*<sup>2</sup>, GPC 1399 d.g. *glain*<sup>1</sup>, ond os dyna'r ail elfen yn *arglain*, byddai 'anwylyd gwydych' yn well arall-eiriad nag y byddai 'amddiffyn, nodded' fel yr awgrymir yn GPC 197.

**caith ynialedd** Llsgr. *keithyaled*. Rhestrir *keithyaled* yn G 126 gan roi iddo'r ystyr 'caethiwed, gwarchae', ond awgrymir hefyd ei ddiwygio yn *keith ynyaled*. Mabwysiedir y diwygiad yma er mwyn yr ystyr a hyd y ll.

**caith** Gallai fod yn a.un. yma, cf. GGMD i, 3.19n. Am uffern y sonnir.

- 8 **aelawedd** Llsgr. *eil awed*. Awgrymir ei fod yn ffurf ar *eilywed* yn G 458 d.g. *eilywed* 'torf, byddin, llu, llawer'. Fodd bynnag, nodir yno fod

y gair hwnnw'n ansicr ei ystyr, os yw'n bodoli o gwbl. Myn yr odl mai *eilywed* 'tristwch' a geir yn GMB 3.161 (Meilyr Brydydd), GCBM i, 21.145 a GBF 27.3 (Llygad Gŵr), ac er diweddarau *eilywed* yn *eilywedd* yn GMB 9.60 (Gwalchmai ap Meilyr) nid oes odl i'w gadarnhau ac y mae dehongliad y golygydd yn anghyson ag orgraff arferol Llawysgrif Hendregadredd (*d* = 'd' yno). Diwygir *eilivert*, LIDC 11 (ll. 157) yn *eilivet* (sef *eilywedd*) yn Bl BGCC 220 (21.157), ond tra ansicr ydyw hyn, gw. y nodyn yno. Nid oes felly unrhyw enghraifft ddiogel o'r gair. Gan hynny, gwell yw diwygio *eil awed* yn *aelawedd*. Ni wna fawr o wahaniaeth i'r ynganiad ac y mae *aelawedd* ar glawr yn GGrG 3.6 *Brwysgedd aelawedd ynn na liwa* (Iorwerth ab y Cyriog) 'Paid â dannod inni amllder [ein] rhyfyg.' Fe'i dehonglir yn ll. *aelaw* 'cyfoeth, golud, amllder' yn *ib.n*, ond yn ôl GPC 37 d.g. *aelofedd* ffurf ydyw ar y gair hwnnw, sef *aelaw* + *-edd* (GPC 1169). Cysylltir y gair ag *aelofedd* yn fwy petrus yn G 11 d.g. *aelawed* (gw. hefyd *ib.* dan *aeloued*). Ceir *aelofedd* yn 1.7n uchod (diwygir o *eloued*). Tra diddorol yw R 1227.26 *neum cur o lauur ym aeloned (recte: aeloued)* = GGD 7.5 *Neu'm cur o lafur ymaelofedd* (Gwilym Ddu o Arfon i Syr Gruffudd Llwyd). Aralleirir hyn yn 'Pair imi nychu o galedi [*sc.* cyfyngdra] haelioni' ond awgrymir yn *ib.n* fod 'amllder' yn aralleiriad posibl arall ar gyfer *ymaelofedd*. O weld pa mor debyg yw'r ll. hon o waith Gwilym Ddu i'r ll. bresennol, y mae'n bosibl fod Gruffudd ap Maredudd yn gyfarwydd â cherdd Gwilym, a ganwyd yn 1316x18. Os felly, diogel yw adfer *aelawedd* yma. Y mae'n demtasiwn mynd ymhellach ac adfer *aelawfedd*, sef cymysgedd o'r ddwy ffurf hysbys ar y gair. Rhoddai hyn gynghanedd lawnach, ond gan nas ardystir mewn man arall, gwell yw bodloni ar *aelawedd*.

9 yn Gellid *i'n* hefyd.

**o'r pren a'r dyfnfedd** Cf. 1.36n. Croes Crist a bedd Crist, fe ddichon, ond nid amhosibl mai at brynu dyn o'i fedd ac o'i arch o bren y cyfeirir.

10 **na fydd, na feddwl** Ymddengys fod y gystrawen wedi newid yn ystod y ll. gan adael *bydd* heb ddibeniad.

12 **meddiant gorhoffedd** Posibilrwydd arall fyddai deall hyn yn wrth. *maddau* a *Dy bridwerth* yn y ll. nesaf yn enidol yn ddibynol arno.

**gorhoffedd** Llsg. *gorhoffded*, ffurf nas ardystir yn unman arall. Dichon mai drysu rhwng *gorhoffedd* a *gorhoffter* a wnaeth y copïydd.

13 **Nasaredd** Llsg. *nazared*. O ran hyd y ll., cywasger hyn yn *Nas'redd* fel yn GDB 36.6 (dienw, = R 1181.20 *nazared*). Nasareth oedd cartref rhieni'r Iesu ac yno y'i magwyd Ef (ODCC<sup>3</sup> 1133–4; NCE x, 285–6; Math ii.23).

15 Gellir hefyd *A cherydd a charad wragedd*.

16 **a'th rysedd** Llsg. *athryssed*. Ni cheir *athrysedd* na *trysedd* yn G 47 a

- GPC 237, 3643; digwydd *trysed* fel darlleniad amrywiol ar *trosedd* yng nghopi llsgr. Bangor 1 o ‘Ramadegau’r Penceirddiaid’, gw. GEO Atodiad Ch, 24.4n (= GBF 40.4, darn o awdl grefyddol gan Ruffudd ab yr Ynad Coch), ond y mae’n debygol mai camgymeriad syml ydyw yno.
- 18 Gellir hefyd *A bylchu fy ngair, a balchedd*.
- 23 **ymlwgr** Nis rhestrir yn GPC 3792, ond y mae’r ystyr yn eglur.
- 25 **ymlid** Y mae ‘digio’ hefyd yn bosibl.  
**môr-gymlawdd** Llsgr. *morgymlad*. Diwygir er mwyn yr ystyr.
- 26 **gwisgo** Llsgr. *gôistað* yn ôl R, ond cf. 1.69n.  
**gwasgod** Am y ddelwedd, cf. IGE<sup>2</sup> 289 (ll. 13) *A’i bais o goed, hoed hydyn* (Siôn Cent).
- 27 Y mae’r ll. hon yn fyr o sillaf.  
**gwisg** Llsgr. *gwist* yn ôl R, ond cf. ll. 26n.  
**rhisg** Fe’i defnyddir yn ffigurol am arfwisg weithiau, cf. GGMD i, 2.42, ond yma am y pridd sy’n amgylchynu’r corff marw, neu efallai am arch bren.
- 28 **gwas** Gw. G 626–7 d.g. *gwas*<sup>2</sup>; GPC 1591 d.g. *gwas*<sup>2</sup>. Nid yw’r diwygiad i *gwasg* a awgrymir yn *G l.c.* yn angenrheidiol.  
**wherw** Ffurf dafodieithol ddeheuol, efallai yn adlewyrchu ynganiad y copïydd. Dichon mai *chwerw* a ddywedai Gruffudd ap Maredudd.
- 29 **glasu’r** Llsgr. *glasu yr*. Cywesgir er mwyn hyd y ll.  
**glasu’r dannedd** Cf. Bl BGCC 159 (18.34) *Dy clust, di trem, di teint neud adwet*. Yr oedd rhestrau o ‘Arwyddion Henaint’ ac ‘Arwyddion Angau’ yn cylchredeg yn eang yn yr Oesoedd Canol ac fe’u defnyddid mewn llenyddiaeth bregethwrol i rybuddio yn erbyn balchder, gw. ERLMA 78–82 a 102–3.
- 31 **gweithlawr** Deellir *gwaith* yn gyfeiriad at lunio’r bedd, cf. G 651 d.g. *gweith*<sup>1</sup> a GPC 1624 d.g. *gweithlawr* ‘llawr wedi ei bafio’; ond byddai ‘llawr llafurus’ yn bosibl fel disgrifiad o drallod y bedd.  
**cyntedd** Topos yw disgrifio’r bedd fel tŷ neu neuadd y marw. Amlyga’r ddelwedd eironig hon y gwahaniaeth rhwng rhwysg y gorffennol a thrueni’r bedd, cf. IGE<sup>2</sup> 289 (llau. 3–4) *Rhy isel fydd ei wely, / A’i dâl wrth nenbren ei dŷ* (Siôn Cent). Yr oedd y thema hon yn hen ac yn rhyngwladol, cf. ERLMA 82–4.
- 32 **saith drudfaith droedfedd** Cf. GDB 5.16 *Namyn seith drudueith droetuet* (Einion Wan); GDG<sup>3</sup> 49 (17.29–30) *Natur boen, nid hwy yw’r bedd, / Syth drudfalch, no saith droedfedd*; IGE<sup>2</sup> 291 (llau. 3–4) *Diddim ydyw o dyddyn / Ond saith droedfedd, diwedd dyn* (Siôn Cent). Perthyn y thema hon i’r un cwlwm o themâu traddodiadol rhyngwladol â’r

- ddelwedd o'r bedd fel adeilad, cf. ERLMA 82–4. Casglwyd enghreifftiau rhyngwladol eraill yn Reinhold Köhler, 'Das Grab und seine Länge', *Kleinere Schriften von Reinhold Köhler*, ii, hrsg. Johannes Bolte (Berlin, 1900), 24–7.
- 35 **gwiw ddiagr ferthedd** Gallai hefyd fod yn wrth. i'r f. *gweddiag*, naill ai'n cyfeirio at Dduw fel yr Un a gyferchir neu at yr arch ddymunedig, gw. G 643 am wahanol gystrawennau'r f. *gweddio*.
- 37 **gwinllad orsedd** Delwedd draddodiadol am y nef yw ei disgrifio fel gwledd lle y llifa gwin yn rhydd, cf. GLIBH 18.39 *Gorfoledd gwinwledd gwenwlad—dragwydd* (Llywelyn Ddu ab y Pastard) a GGrG 6.100 *yn Naf wenwlad, yn nef winwledd* (Mab Clochyddyn). Ceir y ddelwedd yn Eseia xxv.6 *convivium vindemiae* (BCN *gwledd o win wedi aeddfedu*); hefyd Math xxv.1–13, dameg y morynion priodas.
- 38 **gwinllan** Cf. ll. 37n a hefyd Math xxi.33–46 (Marc xii.1–12; Luc xx.9–19), sef dameg y winllan a'r tenantiaid. Dehonglir y winllan yn y ddameg hon yn ddelwedd o deyrnas Duw. Cyfeirir o bosibl at y ddameg hon neu un arall y mae gwinllan yn ganolbwynt iddi (cf. Math xx.1–16) yn GCBM ii, 16.222n.
- 39 **Meddyg** Cf. 1.56n.
- 41 **arddwyreaf** Dechreuir nifer o gerddi mawl Beirdd y Tywysogion â'r f. hon; am restr ohonynt, gw. Ann Parry Owen, 'Canu Arwyrain Beirdd y Tywysogion', YB xxiv (1998), 58–9. Gelwir y rhan fwyaf o'r cerddi hyn yn *arwyrain* yn y teitlau sydd ynghlwm wrthynt yn Llawysgrif Hendregadredd, sy'n awgrymu efallai fod i'r agoriad hwn arwyddocâd o ran *genre* y cerddi. Fodd bynnag, perthyn y rhan fwyaf o'r cerddi hyn i'r 12g., ac erbyn y 14g. ni cheir y teitl *arwyrain* bellach. Dichon, felly, fod agoriad y caniad presennol yn adleisio confensiwn a oedd yn hynafol yn nyddiau Gruffudd ap Maredudd, fel yr awgryma Ann Parry Owen, *art.cit.* 49–50. Yr unig gerdd grefyddol arall sy'n agor mewn modd tebyg yw awdl ddiennw yn Llyfr Du Caerfyrddin, gw. Bl BGCC 18 (2.1), 19 (2.17), 20 (2.29). Problem arall yw ffurf y f. hon. Ceir *arddwyreaf* ac *arddwyreaf* yn ôl Ann Parry Owen, *art.cit.* 45–8, ac y mae orgraff y llsgr. yn amwys. Dilynir GPC 189 a derbyn *arddwyreaf* yma.
- 42 **gweryddon** Gw. ll. 1.126n.
- 44 **arddwyreawr** Ffurf amhrs.pres.myn. y f. *arddwyrain*. Nodir yn GMW 121 fod ystyr ddyfodol i'r terfyniad *-(h)awr*; cyfieithir yr enghreifftiau yn WG 324 fel petai'r ffurf yn ddyfodol hefyd. Y mae'r enghraifft hon yn unigryw yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, a phrin iawn ym marddoniaeth y 14g. yw'r terfyniad *-(h)awr*. Problem arall yw'r treigladau yn *wawd* oherwydd ni threiglir gwrth. bf.amhrs. yn ôl Treigladau 229–31. Gthg., fodd bynnag, GGMD i, 3.9 *Treisiwyd Fôn yn faith* ac *ib.n.*, ac yn enwedig GDB 8.38 *Rygarhaŵr daerwaŵr Darywein* (Llywelyn Fardd II). Go brin y dylid rhoi atalnod ar ôl *arddwyreawr* gan mai ar ôl y

pumed sillaf y disgwylir toriad yn ail l. toddaid. Diwygiad posibl yw *arddwyre awrwawd* ‘cyfyd moliant euraid’; am *awr* yn yr ystyr ‘aur’, cf. 1.77n.

- 45 **mynog** Llsg. *munaḅc*. Awgrymir ‘hael’ yn betrus yn GPC 2502 d.g. *munog*, gan gysylltu’r gair â *muner*, ond ni cheir enghraifft arall o *munog*. Nid *mun-* yw bôn *muner* ychwaith eithr *muner-*, os cywir tarddu’r gair o’r Llad. *munus* ‘rhodd’ (gen. *muneris*) fel yr awgrymir yn GPC *l.c.* d.g. *muner*. Gwell gan hynny fabwysiadu’r awgrym arall yn *ib.* d.g. *munog*, sef ei fod yn wall am *mynog*. Y tebyg yw fod y copïydd wedi baglu oherwydd fod y gair *muner* yn digwydd nesaf yn y ll.

**dengraddwlad** Y nef, gw. 2.53n.

- 47 **caeth** Gellir e. yma, cf. GCBM ii, 17.109 *Can duc pymwan Crist pymoes o gaeth*.

**gweinydd** *Nomen agentis* yma yn ôl G 649 d.g. *gweinyð*<sup>1</sup> a GPC 1621; felly sonnir am y diafol fel *caeth ceithflinder—weinydd*, cf. y disgrifiad o’r cythreuliaid yn GCBM ii, 16.132 fel *hirgḅyn gḅenḅyn gḅeiniuyeit*. Gellid hefyd ‘darpariaeth’.

- 48 **bu ufydd** Pwysleisir gostyngeddwydd rhyfeddol Crist, a ganiataodd i’w greaduriaid Ei hun Ei goeshoelio.

- 49 **grysier—gorllad breg** Llsg. *gryssyeu golleat brec a’r a* yn *golleat* wedi ei hychwanegu uwchben. Nid yw darlleniad y llsg. yn synhwyrol nac ychwaith yn cynnal y brifodl. Awgrymir diwygio *golleat* yn *gallter* yn G 73 d.g. *brec*, ond erys y ll. yn dywyll. Ceir bf. *crysis* ‘rhuthro, cyrchu, brysio’, gw. G 184 a GPC 626, ac efallai y gellid dehongli *gryisiau* yma’n ffurf dreigledig ar e.ll. o fôn y f. hon. Os felly, aralleirier *gryisiau gallter—breg* yn ‘ymosodiadau [o] gyfrwyster twyll’, yn cyfeirio felly at yr ymosodiadau a ddioddefodd Crist. Eto, os *golle[a]t* yw’r gair a oedd i gynnal y brifodl, y mae’n aneglur paham y bodlonodd y copïydd ar gywiro *gollet* yn *golleat* neu *gollat*, gan anwybyddu’r diffyg odl. Gan hynny, mentrir awgrymu mai camgymeriad am *gorllat* oedd *gollet* a bod y copïydd wedi cywiro un camgymeriad heb sylwi bod *r* yn eisiau hefyd; am *gorllad*, gw. G 569 a GPC 1489 ‘afiaith, nwyfiant; ?boddhad, llawenydd; bendith, rhad, llad’. Ymhellach y mae angen diwygio *gryssyeu* yn *grysier* er mwyn y brifodl. Anfantais y dehongliad hwn yw mai un gair yn unig a geir yn safle’r gair cyrch yn yr holl doddeidiau eraill yn y caniad hwn.

**breg** G 73; GPC 315. Os ‘twyll’ neu ‘gwall’, cyfeiria at frad yr Iddewon yn erbyn Crist. Os ‘rhwyg’, at glwyfau Crist y cyfeiria.

- 50 **rhydeg** Amrywiad ar *rhedeg*, cf. GPC 3044 d.g. *rhedeg*.

**bu chweg chwerwder** Gw. ERLMA 21: ‘meditation on the Passion brings tears to the eye and sweetness to the heart: the meditator grieves

and loves ... man's proper response to Christ's work in the Redemption is a response of love'; hefyd gw. *English Lyrics of the XIIIth Century*, ed. Carleton Brown (Oxford, 1932), 113 (cerdd 56) *Loverd þi passion / Who þe þenchet arist þaron, / teres hit tollet, / and eyen hit bollet, / nebbes hit wetet, / ant hertes hit swetet* 'Arglwydd, i'r sawl sy'n meddwl yn iawn amdano, y mae Dy ddiodefaint yn ysgogi dagrau, yn chwyddo llygaid, yn gwlychu gruddiau ac yn rhoi melyster mewn calonnau.' Mor gynnar â'r 6g. sonia Fortunatus mewn emyn i'r Groes Sanctaidd ('Pange lingua') am *Dulce lignum dulce clavo dulce pondus sustinens* 'pren melys yn cynnal baich melys ar hoelen felys', gw. Joseph Szövérfy, '“Crux Fidelis ...”: Prolegomena to a History of the Holy Cross Hymns', *Traditio*, xxii (1966), 10; OBMLV 74 (54.24). Y mae'r emyn hwn yn rhan o wasanaeth Dydd Gwener y Groglith.

- 51 **difanw** Yr ergyd, bid siŵr, yw nad oes rhaid i Dduw ofni'r môr fel y mae dynion, oherwydd Ef a'i creodd (ll. 52); cf. hefyd Luc viii.22–5.

**llinagr** Cf. 1.60n.

- 52 **traeth** Llsg. *ffraeth traeth*, a *ffraeth* wedi ei ddileu ddwywaith, sef yn inc y testun ac eto mewn inc coch. Ni nodir y cywiriad yn R.

**aber** Am yr ystyr 'llanw, llif', gw. G 5 a GPC 2.

- 53 **pob** Llsg. *bop*. Diwygir oherwydd y treigladd diesboniad.

- 54 **treth** Un o'r ystyron a roddir yn GPC 3588 yw 'taliad neu rodd oddi wrth noddwr i fardd', a dyna a fabwysiedir yn yr aralleiriad. Fodd bynnag, gall *treth* gyfeirio at dâl y bardd i'w noddwr hefyd, sef ei gân, cf. GCBM ii, 16.122–3 *Caraf-y dreth a draethant geinyeit, / Traethaþt ber y buraþ eneit*, ac *ib.* ll. 122n; GGDT 11.53–4 *Anfonaf, traethaf, treth o gariad, / Eurchwedl i'm cenedl, canon brydiad* (Trahaearn Brydydd Mawr). Os felly, gellid 'teymged [iddo] b'le [bynnag] y caner barddoniaeth'. Trydydd posibilrwydd yw cymryd *treth*, yn y naill ystyr neu'r llall, yn un o'r pethau y canmolir Duw am eu creu ac a restrir yn y llau. nesaf.

- 55–8 Cyfeirir at greu dyn o'r gwahanol elfennau, sef dŵr a daear (y ll. hon), tân (ll. 56) ac awyr (ll. 57). Y gystrawen felly yw *dyn dilwfr o ddwfr, ddwfn ... a than un anian ... a rhyw awyr ... a orug Dofydd*, yn hytrach na bod y bardd yn cyfeirio at greu'r pedair elfen eu hunain. Am y syniad cf. GLIL1 6.50–2 *Rodri hael, a'e hafal ny gþneid / O dþfyr ac awyr ac eneid—a phrit / A fraþtus tan ny pheid*. Ceir crynhoad o ddsygeidiaeth yr Oesoedd Canol ynglŷn â chreu dyn o'r pedair elfen yn *Elucidarium Honorius Augustodunensis*, cf. y fersiwn Cym.C. yn LIA 9 (llau. 15–17) *or dayar ymae ygie. Or dwfyr ywaet. or awyr y anadyl. Or tan ywres*. Ceid traddodiadau eraill, fodd bynnag, megis saith neu wyth elfen: am greu dyn o saith elfen, gw. Bl BGCC 46 (6.1–10) ac yn enwedig 50–2 (6.6n), a 217 (21.97–110); am wyth elfen, gw. Reinhold Köhler,

‘Adams Erschaffung aus acht Teilen’, *Kleinere Schriften von Reinhold Köhler*, ii, hrsg. Johannes Bolte (Berlin, 1900), 1–7.

- 55 **dwfn** Gellir ei gyfrif yn ddeusill er mwyn hyd y ll. os mynnir, ond cf. ll. 70n. Am yr ystyr ‘byd, daear’, gw. G 400 d.g. *dwf(y)n*<sup>1</sup> a GPC 1104, ond gthg. y farn a fynegir yn G *l.c.* d.g. *dwf(y)n*<sup>2</sup>, sef y dylid deall *dwfn* yn a. yma. Cyfeirir at ddŵr, tân ac awyr yn llau. 55–8, a disgwyliid i’r bardd grybwyll y bedwaredd elfen hefyd, sef daear. Fe’i ceir, bid sicr, yn ll. 60, ond nid mewn cysylltiad â chreu dyn; ac yno cyfeirir at holl rychwant bendithion y ddaear, gan gynnwys awyr a dŵr.
- 60 Cymerir *daearllawr* yn oddr. dealledig *dirper*.
- 61 **gwyllt a gwâr** Y mae cyfuniadau fel hyn yn gyffredin yng ngwaith y beirdd (a thu hwnt). Dichon fod rhai ohonynt yn adleisio Salm cxlviii a’r *Benedicite*, sef Dan iii.57–88a yn y Fwlgat (BCN Tri Llanc 35–66a). Cened y *Benedicite* fel rhan o wasanaeth y Moliannau (*Laudes*), a gw. GM 14 (ll. 11)–15 (ll. 25) am fersiwn Cym.C. o’r testun hwn; hefyd Barry J. Lewis, ‘Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd’, LICy xxiv (2001), 36, 42–3 a 42n50, 50–1. Ceir *bestiae et pecora* yn Dan iii.81, ond sylwer hefyd ar y cyfuniad *gwyllt a dof* yng Nghyfraith Hywel, e.e. yn LII 69 (ll. 27), 101 (ll. 13), a geir hefyd yn GLILL 21.2n.
- 62 **sygnau a sêr** Cyfuniad cyffredin arall, gw. ll. 61n; Barry J. Lewis, *art.cit.* 42n50.
- 63–5 Nid yw rhediad yr ystyr yn eglur yma ar yr olwg gyntaf, ond o gymryd *dwys gred* yn ll. 65 yn oddr. *ystyried* yn lle yn wrth., a hefyd ei ddeall yn oddr. i’r ddwy f. *bu* yn ll. 63 a *colles* yn ll. 64, gellir cael synnwyr rhesymol. Yn gryno: lle y mwynhaodd y sawl sy’n ddwfn ei ffydd fudd a lloches gynt (ll. 63), ond lle y mae bellach wedi eu colli (ll. 64), boed iddo gredu nad oes dim da heb Dduw (ll. 65 ac ymlaen). Y *lle* yw’r byd hwn, ac y mae anwadalwch cysuron bydol, wrth gwrs, yn dopos yng nghanu crefyddol yr Oesoedd Canol. Fe’n hatgoffeir hefyd o Ardd Eden a’r cwmp.
- 63 Ceir cynghanedd sain dro o’r dull cyntaf yn y ll. hon, h.y. y mae *bu* yn odli â *meddu* ac yn cytseinio â *budd*, gw. Rhian M. Andrews, ‘Sain Dro’, LICy xxvi (2003), 151–7.
- Yn y lle y bu yn meddu** Y mae angen cywasgu tair sillaf er mwyn cael hyd rheolaidd.
- 64 Cywasger dwy sillaf yn y ll. hon.
- Ac yn y lle y colles y lles llawer** Gellid hefyd *Ac yn y lle y’i colles, y lles llawer*, neu hyd yn oed *Ac yn y lle y colles eu lles llawer* ‘Ac yn y lle y collodd llawer eu lles’, ond y mae’r synnwyr yn parhau o’r ll. flaenorol ac felly chwithig fyddai cael goddr. gwahanol i’r f. yn y ll.

hon. Deellir, felly, mai'r un yw goddr. dealledig *bu* a *colles*, sef *dwys gred* yn y ll. nesaf.

y **lles** Llsg. *y lles y lles*, dyblygiad diystyr sy'n gwneud y ll. yn rhy hir.

**llawer** Er mai'r arfer bellach yw treiglo *llawer* ar ôl e., ceir nifer o enghreifftiau didreiglâd mewn Cym.C., e.e. GLILl 27.29; GDB 18.122 (dienw).

65 **ystyried** Fe'i dehonglir yn ffurf 3 un.grch. yn hytrach na be. Ni cheir goddr. amlwg, felly cymerir *dwys gred* yn oddr. yn hytrach na gwrth.

68 **diwedd na dechrau** Cf. Dat xxii.13 *Ego alpha et omega primus et novissimus / principium et finis* (BCN *Myfi yw Alfa ac Omega, y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd*), hefyd Dat i.8. Ceir y ddelwedd yn T 37.21–2 *Vn gôr ae goreu yr holl greaduryeu. / ef bieu dechreu. a diwed diheu.*

70 Y mae'r ll. sillaf yn hir, ond gw. Henry Lewis, 'Toddaid a Chyhydedd Hir', B v (1929–31), 96–7 am hyn. Ni raid diwygio.

72 Cywasger dwy sillaf yn y ll. hon.

**Gwae a wnêl trosedd yn y lle y'i treiser** Sonnir am uffern lle y gormesir y gormeswr. Cyffredin mewn Cym.C. yw ysgrifennu'r gn. rhagferfol *y* a'r rh.m.gwrth. '*i ynghyd fel y, a dyna sut y dehonglir y treiser y llsg. yma. Fodd bynnag, gellid hefyd yn y lle y treiser 'yn y lle y dygir trais', yn cyfeirio at uffern hefyd neu efallai at achlysur cyflawni'r pechod ar y ddaear.*

73 Cywasger dwy sillaf yn y ll. hon.

**Gwae ef, Arglwydd rhwydd, yn y lle y rhodder—nâg** Deellir *ef* yn cyfeirio'n ôl at y pechadur a grybwyllir yn y ll. flaenorol. Cyfarchiad i Dduw, felly, yw *Arglwydd rhwydd*, a barn Duw ar y pechadur yw *y lle y rhodder—nâg*. Posibilrwydd arall, llai tebygol, yw *Gwae ef arglwydd rhwydd yn y lle y rhodder—nâg* 'Gwae ef [yr] arglwydd hael pan roddir gwrthodiad [ganddo]', yn rhybuddio felly yn erbyn cybydd-dod.

75 Y mae'r ll. sillaf yn hir.

**diddawl** Llsg. *didawl*, a'r orgraff yn amwys. Yn G 329 awgrymir *didawl*<sup>1</sup> 'didor, parhaus, cyson, diwahaniaeth'. Anodd gweld sut y tyciai'r ystyr hon a'r ll. gyfan yn pwysleisio byrder a diflanedigrwydd bywyd dyn; felly gwell yw *diddawl* yma, gw. G 332 a GPC 967 d.g. *diddawl*<sup>1</sup> 'heb gyfran, amddifad, diffygiol, wedi ei ddifuddio'.

Ceir yma, o bosibl, gynghanedd sain dro o'r dull cyntaf, h.y. y mae *hawl* a *diddawl* yn odli â'i gilydd a *hawl* yn cytseinio â *hudawl*, cf. ll. 63n. Os felly, gellid diweddarau'r ddeusain yn *hudawl*, ond fe'i cedwir yma am fod modd cyfrif yr odl hon yn addurn ychwanegol, cf. Rh.M. Andrews, *art.cit.* 156 lle y dyfynnir enghraifft gyffelyb o waith Prydydd y Moch.

76 **gorober** 'Gweithred, gorchest, gorchestwaith' yn ôl G 571 a GPC



1493; ychwanegir ‘gorhaeddiant’ yn yr olaf. Cyfansoddair ydyw o’r rhagddodiad dwysaol *gor-* + *gober* ‘gwaith, gweithred’ (G 540), ‘gwaith, llafur, gweithred’ (GPC 1418). Yr ystyr ‘llafur’ sy’n gweddu orau yn y cyd-destun presennol.

- 77 **adeilad** Yn G 8 d.g. *adeilyat* cynigir dan 1(a) e. ‘lluniedydd, gwneuthurwr’, (b) ‘adeilad, adeiladwaith’, neu dan 2(a) be. ‘llunio, gwneuthur’ a 2(b) ‘adeiladu’, gan ffafrio 2(a). Yn GPC 15 d.g. *adeilad*, *-iad*, a 16 d.g. *adeiliad*<sup>1</sup> y mae’r cynigion yn debyg, ond ni nodir yr enghraifft hon. Gan mai bregusrwydd yw pwnc llau. 75–80, a chan fod cyfeiriad at ddail yn ll. 77, cymerir mai nyth y ddrudwen yw’r *adeilad* yma. Nythu mewn tyllau, weithiau mewn toeau neu dai annedd a wna’r ddrudwen yn ôl *Handbook of the Birds of Europe, the Middle East and North Africa: The Birds of the Western Palaearctic*, vii: *Crows to Finches*, ed. S. Cramp and C.M. Perrins (Oxford and New York, 1994), 253. Ni pherthyn unrhyw arbenigrwydd i nyth y ddrudwen, ond y mae nyth aderyn yn ddelwedd amlwg am fresgusrwydd cysuron bydol.

**brad** Diau oherwydd fod y nyth mor ansylweddol a dibara, cf. *nid arbeder* yn y ll. nesaf. Llai tebygol *adeilad brad* ‘llunio twyll’.

**drydw** Cyfrifir y gair hwn yn ddeusill, fe ymddengys, a’i odli â *bedw* yn y ll. nesaf, er cyfrif y gair hwnnw’n unsill. Posibilrwydd arall yw cyfrif *salwder* yn y ll. hon yn deirsill er mwyn cael hyd reolaidd i’r ll. Os unsill yw *drydw*, gall mai fel odl broest y bwriadwyd *drydw* – *bedw*.

- 78 **nid arbeder** Sonnir am y nyth. Gellid cymal pth.

- 79 **hydd awr echwydd yn ochr creigfer—lefn** Diau mai ergyd y ddelwedd yw fod yr hydd mewn lle sy’n beryglus o amlwg i lygaid heliwr a bod ei ffordd allan o’r lle yn beryglus o lithrig.

**creigfer** Llsg. *creicuerr*. Gwaherddir odli hyn â *tryfer* yn ôl rheol trwm ac ysgafn, ond nodir yn J. Morris-Jones: CD 233–4 fod y beirdd yn anwybyddu’r rheol mewn geiriau lluosill. Yn G 172 d.g. *creic* awgrymir cyfansoddair o *craig* + *bêr* ‘picell, gwayw’, ond o’r braidd y tycia hynny o ran ystyr na chenedl yr e. (eg. yw *bêr* yn ôl G 55) nac ychwaith yr *r* ddwbl yn orgraff y llsg. Gwell gan hynny gymryd mai *ber* ‘coes, esgair, hegl’ sydd yma, cf. GPC 273 d.g. *ber*<sup>1</sup>. Defnyddir *esgair* yn ffigurol am graig a hwyrach fod ystyr debyg i *ber* yn y cyfansoddair hwn.

- 80 **trefn** Y mae’r ystyr yn ansicr, ond awgrymir ‘cwsr’, cf. GPC 3574 (b). Y mae llau. 75–80 yn delweddu byrhoedledd; felly y tebyg yw fod y pysgodyn yma mewn perygl o gael ei fachu gan dryfer a anelir ato, ond nad yw wedi ei ddal eto.

- 81 **hirddilyd prid praw ufullter—bryd** Sef y purdan, lle y câi eneidiau eu coethi nes eu bod wedi eu puro o’u rhyfyg pechadurus.

**hirddilyd prid** Am yr odl hon, cf. D. J. Bowen, ‘Pynciau Cynghanedd:

- Odli *I, U ac Y*, LICy xx (1997), 138–43.
- 83 **rhwysg** Gellir ‘cwrs’ neu ‘mawredd, urddas’, gw. GPC 3120.
- 84 **bedd saith droedfedd** Cf. ll. 32n.
- 85 **ceingau Pader—Crist** Perthynai arwyddocâd i raniadau Gweddi’r Arglwydd, fel yr esbonnir yn y traethawd byr ‘Pwyll y Pader o dull Hu Sant’, LIA 147 (llau. 6–10): *seith arch ysyd yny pater megys ydybetpbyt vhot. yny obrynhom nynhev caffel tr6y yrei hynny seith don[n]yev yr yspryt glan. Athr6y yseith donnyev hyn[n]y. seith nerthoed yr eneit val ygallom nynhev tr6y yseith nerthoed hynny. yn ryd mynet y6rth yseith pecha6t mar6abl. adyuot aryseith g6ynvyuedigr6yd [sic].* Am restr o’r saith deisyfiad, gw. R. Iestyn Daniel, ‘Awdl Saith Weddi’r Pader’, yn CyT 221–2.
- 86 **Tist** Gw. GGMD i, 3.125n am y gair hwn. Petrus iawn yw’r dehongliad yma.
- 90 **Deus noster** Llad. ‘ein Duw’. Rhaid bod *Deus* i’w ynganu’n unsill yma.
- 91 **Duw, erglyw** Honnir yn J. Morris-Jones: CD 247 nad oedd modd odli -yw ag -uw yn yr Oesoedd Canol, ond dengys yr enghraifft hon a’r un a roddir yn D.J. Bowen, *art.cit.* 142 fod yr odl hon yn dderbyniol gan rai o leiaf. Eto, cf. GBDd 7.4n (enghraifft arall o odli -yw/-uw) am y ffurf amrywiol *Dyw* y gellid ei hadfer yma.
- 92 **llanw a thrai** Cf. ll. 61n; GMB 21.11 (Elidir Sais); GDEp 14.24; Barry J. Lewis, *art.cit.* 42n50.
- 95 **sêr a sygnau** Cf. ll. 62n.
- 96 **Arglwydd gwyllt a gwâr, ddaear Ddïau** Ceir *daear diau* heb dreigladau yma yn ôl G 286 d.g. *daear*, ond eb. yw *daear*. Ni fyddai’n amhosibl deall *dïau* yn goleddfu *Arglwydd*, ond rhwyddach yw dehongli *ddaear Ddïau* yn sangiad a *Dïau* yn enwol am Dduw. Am y cyfuniad *gwyllt a gwâr*, gw. ll. 61n.
- 98 **Gobaith rhad feddyliau** Neu ‘[Ffynhonnell] gobaith i feddyliau [llawn] gras’.
- 99 **gwir gwardau** Am ystyr *gwir* yma, cf. G 683 d.g. *gwir*<sup>2</sup> 2(ii) ‘gair, llw, cred, addewid, cymod’, ond gellid yma frawddeg enwol ‘diamau yw [Ei] waredigaethau.’
- 101 **terfyn dyn** Sef marwolaeth: hawl Duw oedd pennu hyd einioes pob dyn, cf. Job xiv.5 *breves dies hominis sunt numerus mensuum eius apud te est / constituisti terminos eius qui praeterire non poterunt* (BCN *Gan fod terfyn i’w ddyddïau, a chan iti rifo’i fisoedd, a gosod iddo ffin nas croesir*). Cyfeirir o bosibl at bennu ffawd derfynol dyn hefyd, naill ai yn y nef ynteu yn uffern.
- 104 **gwir Eurair** Sef Crist, y Gair, cf. 1.2n. Posibilrwydd arall yw *O Fair*

*wir eurair* ‘O Fair ffyddlon ragorol ei gair’.

- 105 **Tydi ... fry** Dilynyr orgraff y llsg. yma, ond nodir yn WG 272 fod y ffurf *tydy* (a'r acen ar y sillaf gyntaf) yn digwydd weithiau. Cf. ll. 117.
- 105–6 **Tydi a fedd ... / Ysbrydoedd** Cf. GBF 41.2 *G6abr ysbrydyeu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
- 107 **dadlau** Gall fod yn un. neu'n ll., gw. G 285–6 d.g. *dad(y)l a daðleu<sup>2</sup>* (GPC 870–1 d.g. *dadl* ac 871 d.g. *dadlau*). Gweddai'r ystyr gyfreithiol ‘llys barn, brawdlys’ yma hefyd. Cf. GMB 27.30 *Ny bwyf trist y'th datleu* (Einion ap Gwalchmai).
- 108 **barnu'r** Llsgr. *barnu yr*. Cywasger er mwyn hyd y ll.
- trillu** Sonia'r beirdd Cymraeg yn aml am dri llu yn ymgynnull ar Ddydd y Farn, e.e. Bl BGCC 219 (21.132–141) *Dygettaur y Tri Llv / Rac drech drem Iessu: / Llu guirin guinion / Eiliv egilion; / Llv arall brithion / Eiliv brodorion; / Trydellv diuedit— / Syth leith gyweithit— / Huilant i glithuir, / Im parthred dievil; GCBM ii, 16.15–20 Rychyrchant vn Peir, teir trydar, / Kynnadled kenedloed ampar, / Llu brithyon, brodoryon br6ytyrgar, / Eil, g6ythlu, gordu gorduar, / Trydyd, llu nyw llud kyuarwar, / Llu g6ynnyon, gwynvydic a gar; GDB 10.25–8 *Rac deulin Trined tri niuer—a daw / a'r trydy y law y Lucufer / A'r deu ar deheu yg goleuder, / Yg goleu dreuad a uad uoler* (Llywelyn Fardd II). Y tri llu, felly, yw'r rhai pur, y rhai cwbl golledig a'r rhai canolig, sef llu'r nef, llu uffern a llu'r purdan. Eto, nid ar Ddydd y Farn ei hun y gwneir y rhaniad triphlyg hwn, fel yr awgrymir, e.e., yn Bl BGCC 230–1; GCBM ii, 16.15n; HG Cref 139. Yr hyn a ddywed y beirdd yn y llau. uchod yw mai tri llu a *ddaw* i'r Farn, nid fod yr hil ddynol yn cael ei rhannu'n dri ar y dydd hwnnw, cf. hefyd GMB 28.7–8 *Pan del rac Yessu trillu tralla6d, / Pa6b a da6 ata6, pobyl uraw, y'r Ura6d* (Einion ap Gwalchmai); GBF 42.15–16 *Bot yn dir talu ger bronny yr Iessu: / Lle g6elo trillu, trallawt a wna* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Awgryma Llywelyn Fardd II yn GDB 10.25–8 (dyfynnwyd uchod) y bydd y da a'r canolig yn dod ynghyd ar Ddydd y Farn ac yn mynd i'r nef, ac mai'r trydydd llu yn unig a fydd yn mynd i ddifancoll.*
- 111 **llên a llyfrau** Cyfuniad cyffredin, cf. GMB 27.92 (Einion ap Gwalchmai); GLIF 26.157 (Gwynfardd Brycheiniog); GBF 32.18 (Madog ap Gwallter); GDC 5.25 *Arglwydd llawen, Rhên llên a llyfrau* (Dafydd y Coed). Yn GBF 40(Atodiad).49 *Gwae ni chred awen llên a'i llyfrau* (Gruffudd ab yr Ynad Coch), cyfeirir yn ddigamsyniol at yr Ysgrythur. Posibilrwydd arall yma yw fod *llên* yn golygu ‘eglwyswyr’, cf. GPC 2152.
- 112 **drwy ddogyn wyrthau** Y mae sawl ffordd o ddeall yr ardd. *drwy* yma. Yn GPC 3630 d.g. *trwy<sup>1</sup>* (d) nodir ei fod yn cyflwyno ymadroddion adferfol dull neu fodd, e.e., GLIF 26.238 *Edewis Padric drwy dic*

*dagreu* (Gwynfardd Brycheiniog); os felly, byddai ‘gyda rhyfeddodau helaeth’ yn bosibl, yn cyfeirio efallai at y rhyfeddodau a fu ynghlwm wrth y dioddefaint, cf. Math xxvii.51–3. Gall *trwy* hefyd olygu ‘oherwydd’, a dyna a dderbynnir yn yr aralleiriad. Sonnir, efallai, am fradychu’r Iesu oherwydd ei wyrthiau, a oedd wedi ennyn cenfigen awdurdodau’r Deml.

113 **Er deg ... ar hugain** Y llwgrwobr a gafodd Jwdas am fradychu Crist, sef deg darn ar hugain o arian (Math xxvi.15).

114 **addodiau** Ll. *addawd* ‘lleoliad, lle, trigfan’, cf. G 10, GPC 33, ystyron sy’n ymddangos yn amhosibl yma. Cynigir hefyd ‘trysor’ yn GPC, ond daw’r enghraifft gyntaf o’r flwyddyn 1817. Dyfaliad yw ‘darnau’ yn yr aralleiriad.

115 **rhinweddau** Y mae’n debyg mai rhinweddau yn gyffredinol a olygir, ond defnyddid y gair hefyd am y sagrafennau, cf. LIA 145 (llau. 1–2) *yrodes du6 seith rin6ed ynyr egl6ys* (‘Pa ddelw y dyly dyn credu i Dduw’).

115–16 Toddaid yn lle cwpled o gyhydedd naw ban.

117 **Tydi ... gwedy** Cf. ll. 105n.

**gwawdau** Posibilrwydd arall yw hepgor y coma o flaen y gair hwn a’i gydio wrth *gwedy*, gan roi’r ystyr ‘ar ôl gwawdeiriau’. Bu Crist yn destun gwatwar yn ystod ei ddioddefaint, cf. Math xxvi.67–8, xxvii.28–31, 40–4; Marc xiv.65, xv.16–20, 29–32; Luc xxii.63–5, xxiii.35–9; Io xix.2–3. Ni nodir ystyr ddiifrïol *gwawd*, sef yr ystyr sy’n gyfredol heddiw, o gwbl yn G 634–5, ac yn GPC 1603 digwydd yr enghraifft gynharaf yn yr ystyr honno ym Meibl 1588. Fodd bynnag, ceir *gwawd* mewn cyd-destun negyddol yn y cyfnod hwn, e.e. GPB 9.32 *Gwawd du ystawd diystyr* (dienw), *ib.* 9.87 *Wythfrawd tlawd, laeswawd leiswich*; GGLI 11.34 *Fùm yma gwarwyfa gwawd* (Gruffudd Llwyd); GIG 168 (XXXVII.86–8) *Tincer gwawd, wyneb tancr gwern. / Oes ar dy wawd, sur dy wên, / Os holir, eisiau halen?* Y mae’r ystyr ‘cân’ wrth gwrs yn bosibl ym mhob un o’r rhain, ond cf. GC 12.2 *Rhawd gnawd tlawd llawd, gwawd ffawd ffust*. Aralleirir hyn yn ‘Cnawd truenus [llawn] blys [a ddefnyddir gan] liaws, [testun] cân [i] ffyniant gwialen’. Y mae’r cyd-destun negyddol yn awgrymu y byddai ‘gwawd [i] ffyniant pidyn’ yn fwy addas. Ceir hefyd *gwawdd* ‘dyhead’, cf. G 635 d.g. *gwawd*<sup>1</sup> a GPC 1605 d.g. *gwawdd*<sup>2</sup>, ond nid ymddengys fod ffurf l. i’r e. hwn; felly, fe’i gwrthodir yma, er y byddai’n tycio o ran ystyr.

118 **Cyfodaist i’th raddau** Sonnir naill ai am yr atgyfodiad neu am esgyniad Crist i’r nef. O gymryd mai urddau’r angylion yw *graddau* yma, yr ail sydd fwyaf addas, ond y tebyg yw fod y ddau ddigwyddiad wedi eu cyfuno yma.

121 **Dilidia ... Dy aelodau** Cyfeiriad posibl at y gred y byddai Crist yn

ymddangos ar Ddydd y Farn yn y ffurf y bu ar ôl Ei groeshoelio ac yn dangos Ei glwyfau i'r pechaduriaid ac yn eu hedliw iddynt, cf. Bl BGCC 184–5 (llau. 109–34) ('Proffwydoliaeth ynghylch Dydd y Farn'); GBF 43.14–26 (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Nodir seiliau ysgrythurol y gred yn Bl BGCC 198, yn enwedig Io xix.37 *videbunt in quem transfixerunt* (BCN *edrychant ar yr hwn a drywanwyd ganddynt*), cf. Sech xii.10; Galarn 1.12 *o vos omnes qui transitis per viam / adtendite et videte si est dolor sicut dolor meus* (BCN *Onid yw hyn o bwys i chwi sy'n mynd heibio? Edrychwch a gwelwch a oes gofid fel y gofid a osodwyd yn drwm arnaf*); cf. hefyd ERLMA 36.

**fy** Cywasger er mwyn hyd y ll.

- 123 **Eurillyw byw** Llsgr. *eurllu6 bu6*. Seiniau gwahanol a gynrychiolid gan *u* ac *y* yn wreiddiol, ond yn ôl T. Arwyn Watkins, *Ieithyddiaeth: Agweddau ar Astudio Iaith* (Caerdydd, 1961), 82, cymysgid y ddwy sain eisoes mewn Cym.C. Diweddar. Ymddengys mai cymysgedd o'r fath sy'n cyfrif am yr orgraff yma. Gan mai elfen wefusol a nodweddai'r sain a gynrychiolid gan *u*, nid yw'n syndod gweld drysu rhwng *u* ac *y* o flaen *w*. Cf. hefyd llau. 91n, 132n.

**byw** Sonrir droeon am *Deus vivus* yn yr ysgrythur, e.e., Math xvi.16; Act xiv.14 (BCN xiv.15); Rhuf ix.26.

- 125 Cyhydedd naw ban reolaidd yw'r ll. hon ond sylwer ei bod yn tarfu ar batrwm mydryddol y caniad hwn, sef cwpledi o gyhydedd naw ban a thoddaid byr am yn ail. Am enghraifft arall o darfu ar batrwm mydryddol y gerdd, cf. y toddaid yn llau. 115–16.

**breiniol** Gellid ei gyplysu wrth *seintiau* yn lle wrth *Brenin*.

- 127 **cythrau** Amrywiad ar *cethrau*, fe ymddengys, a geir hefyd yn R 1178.12 (= GMB 27.46 (Einion ap Gwalchmai), ond yno mabwysiedir *cethrau*, darlleniad LIGC 6680B), ond nis nodir yn GPC 471 d.g *cethr*.

- 128 Cf. GDC 5.30 (Dafydd y Coed).

- 129 **rhiniau—tystoliaeth** Cymerir hyn yn gyfeiriad at yr Efengyl, cf. Math xxiv.14 *et praedicabitur hoc evangelium regni in universo orbe in testimonium omnibus gentibus* (BCN *Ac fe gyhoeddir yr Efengyl hon am y deyrnas drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r holl genhedloedd*); Io viii.18 *ego sum qui testimonium perhibeo de me ipso / et testimonium perhibet de me qui misit me Pater* (BCN *Myfi yw'r un sydd yn tystiolaethu amdanaf fi fy hun, ac y mae'r Tad a'm hanfonodd i hefyd yn tystiolaethu amdanaf*).

- 130 **angau** Gofyn y bardd i Dduw ohirio ei farwolaeth ef a marwolaeth ei wrandawyr. Rhoddid pwyslais mawr yn y cyfnod hwn ar yr angen i gymodi â Duw trwy gyffesu a derbyn maddeuant cyn marw, oherwydd byddai dyn diedifar a fuasai farw mewn pechod marwol yn mynd i uffern.

- 132 **gorllewinol** Cysylltir Duw â'r Gorllewin droeon gan y beirdd, cf. 10.34 *gair llewenydd gorllewiniawl*; BI BGCC 81 (10.7) *A drycheif heul hyt gollewein y lu dayar*; GDB 25.1 *Gwr a wnaeth llewych o'r gorllewin* (Dafydd Benfras); GBF 41.52 *G6yl ua6r Urenhin y gorllewin, llewych drefyneu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch); GBDd 6.1 *Llyw Gorllewin, llawrydd Frenin llariaidd freiniau*; GGrG 3.1 *Brenin gorllewin, Gwr a'n llywia* (Iorwerth ab y Cyriog). Y mae'n amlwg fod a wnelo'r ddelwedd â gwaith Duw yn creu'r haul (Gen i.14–18), er nad yw hynny'n eglur yn yr enghraifft bresennol. Dichon hefyd fod yr odl gyfleus â *brenin* wedi hybu'r ddelwedd. Gwrthodir yn betrus yn G 555 d.g. *gollewin* yr ystyr 'disgleirdeb, gogoniant' ar gyfer GBF 41.52, er y dylid nodi bod y gair yn tarddu o wreiddyn ac iddo'r ystyr 'golau', cf. GPC 1489 d.g. *gorllewin, gollewin*.
- Llyw** Llsg. *lluw*, cf. ll. 123n.
- 133 **meddiannau** Sef y chweched urdd o angylion, y *potestates*, cf. 1.172n; YE xlviii–ix, 28 (llau. 32–6), 118.
- 134 **caniau** Efallai mai *cannau* a ddylai fod yma, os teimlir bod *caniau* yn amharu ar yr odl ddwbl a ddisgwyliid yma, cf. ll. 139n.
- 135 **llym lafuria** Gan fod y gn.neg. *na* o flaen y berfau eraill yn y cwpled hwn yn dangos mai ffurfiau 2 un.grch. ydynt, ymddengys fod rhaid deall *llafuria* yma'n ffurf 2 un.grch. hefyd, a Christ yn oddr. Os felly, dychmygir Crist ar y Groes yn dioddef (*llafurio*) dros yr hil ddynol.
- 139 **didostrydd** Odlir y tri chymal cyntaf ym mhob cwpled yn ddwbl yn y caniad hwn, fel sy'n gyffredin mewn rhupunt hir, cf. J. Morris-Jones: CD 332–3. Ni cheir odl ddwbl reolaidd rhwng *didostrydd* ar y naill law, a *lluosydd* a *dangosydd* ar y llall, ond y mae'r swm yn eithaf tebyg; felly, nid ymddengys fod digon o gyfiawnhad dros gynnig diwygio yma. Cf. ll. 135n; 150n.
- 140 **Dangosydd Lladin gyson** Lladin oedd iaith holl wasanaethau'r Eglwys yn y cyfnod hwn a hefyd iaith y Beibl; felly, y tebyg yw mai Duw a olygir yma. Cf. ll. 243n.
- 142 **gweryddon** Efallai morynion yn benodol, cf. y ddwy l. ddilynol.
- 146 **Duw** Fe'i deallir yn enidol yn dibynnu ar *Lle nefolaf a deddfolaf* (ll. 145); gellid hefyd roi coma ar ôl y ll. honno, a darllen *Duw a folaf* 'canmolaf Dduw', ond gadewid felly'r holl adran hir o fawl i'r nef (llau. 137–48) heb gysylltiad gramadegol â gweddill y caniad. Gwell cymryd, gan hynny, fod llau. 137–48 yn ffurfio un frawddeg hir.
- 148 **Eang olud i engylion** Llsg. *ehang olut y hengylyon*. Diwygir er mwyn yr ystyr. Y mae'r *h* yn *hengylyon* yn awgrymu mai'r rh.b. *ei* neu'r rh.ll. *eu* sydd o'i flaen, ond ni cheir eb. nac ychwaith e.ll. a allai fod yn rhagflaenydd i'r rh. Yn betrus, felly, hepgorir yr *h* yma.

- 149–52 Y mae pwnc y canu'n newid yn ddirybudd o'r nef i bechodau'r byd hwn (llau. 149–50) a'r gosb a enillir drwyddynt yn uffern (llau. 151–2). Nid yw'n amhosibl fod cwpled neu ddau wedi mynd ar goll rywle tua diwedd y caniad; byddai hynny'n esbonio'r diffyg cydlyniad yma.
- 150 **i f'aflesau** Llsgr. *y vaflesseu*. Disgwylioddl ddwbl fel yn y cwpledau eraill; felly, ffurf yn *-asau* a ddylai fod yma, ond cf. ll. 139n am odl amherffaith arall. Rhestrir yr enghraifft hon d.g. *afles* yn G 14, ond gydag ansicrwydd, gan na nodir enghraifft arall o'r ll. yno nac yn GPC 42. Y mae'r awgrym arall yn G, sef diwygio *f'aflesau* yn *fefflasau* (< *mefl*), yn annerbyniol oherwydd nad ardstyr y gair *meflas* yn unman arall. Os gair yn terfynu ag *-asau* a geid yma'n wreiddiol, gellid cysylltu'r ffurf a *blasau*, ll. *blas*. Cyplysyr y geiriau *blys* a *blas* sawl gwaith gan y beirdd wrth ddisgrifio pechod Efa, gw. isod. Eto, anodd wedyn esbonio'r llythrennau cyntaf yn *y vaflesseu*: ai *Efa flasau*, *Efa flysion* a safai yma'n wreiddiol?
- Efa flysion** Sonia nifer o feirdd am *flys* Efa, weithiau gan gyfod y gair â *blas*, cf. GCBM ii, 16.99 *Blas aual*, *blys Eua*; GPB 7.2 *Ar bla blys Efa rhag blas afal* (dienw); GSRh 12.150 (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed); GBDD 4.11–12.
- 153 **barant** Gair ansicr ei ystyr, cf. GGMD i, 4.24n.
- 154 **llathrwardd** Llsgr. *llethyrwaot*. Diwygir gyda G 635 d.g. *gwawt* er mwyn yr ystyr. Cymerir mai'r un yw *lluoeedd barant* (ll. 153) â *llathrwardd garant* yn y ll. bresennol.
- 155 **Eurddor** Llsgr. *eurdar*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, gan ddilyn G 163 d.g. *côr*<sup>1</sup> a GPC 1064 d.g. *diwyllig*. Am y cyfuniad *côr / dôr*, cf. 1.25n. Y mae'n bosibl fod sôn am eglwys benodol yn y caniad hwn, cf. ll. 158n.
- 156 **cyfar** Yn wreiddiol, y weithred o gydaredig tir, yma'n gyffredinol am 'gorchwyl neu ymgyrch unedig; cyfarfod, cymdeithas, cyfathrach', cf. GPC 680 d.g. *cyfar*<sup>1</sup>; hefyd G 201. Sonir yma am y cymod a ddylai fod rhwng Duw a phob dyn.
- cyfwlch** Llsgr. *kyfvlch*, orgraff sy'n awgrymu bod y copïydd yn cysylltu'r gair â *bwlch*, ond cyfuniad o *cyf-* + *wlch* ydyw yn ôl GPC 724, yn dwyn yr ystyr 'cyflawn, perffaith, gwyach', cf. G 219 a GIG 79 (XVII.45) *Sant cyfwlch di-fwlch da fu*.
- barnedig** Cf. GPC 260 (2) 'wedi ei ddyfarnu, wedi ei ystyried'.
- 157 **gwyndud** Llsgr. *gwyndyt*. Fe'i diwygir yn betrus er mwyn yr ystyr: ni ddisgwylioddl cyfeiriad at Wynedd yma. Cf. 2.64 *i'th wyndud Tau*; hefyd uchod ll. 123n am gmysgu y ac *u*.
- 158 **caer** Fe'i cymerir yn drosiadol am y nef, cf. GMB 27.19 *Duw a'm gad caryad y mywn caereu—nef* (Einion ap Gwalchmai); GLIL1 28.4 *A*

*gbedy Carno, caer nef.* Fodd bynnag, nid amhosibl mai cyfeiriad at Gaer ydyw, cf. cerdd 1 *passim*.

159 **môr, gwenyg** Y mae'r gair *gwenyg* fel petai'n amharu ar rediad taclus y meddwl, sef môr, tir ac awyr (yn y ll. nesaf). Efallai mai *môr-wenyg* oedd y darlleniad gwreiddiol, cf. 1.37.

160 Y mae'r ll. yn hir o sillaf, sy'n awgrymu, efallai, mai *llithrig* oedd y darlleniad gwreiddiol. Fodd bynnag, ceir pedair enghraifft o saith sillaf yn ail linell toddaid byr yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, gw. BaTh 264.

**llithredig** Goleddfa *terfyn*, yn ôl pob tebyg, er bod achosion prin o *wybr* yn eg. yn ôl GPC 3739.

162 **gwely** Am *gwely* fel delwedd o'r bedd, cf. GMB 14.94 (Gwalchmai ap Meilyr); GLIF 24.42 (Seisyll Bryffwrch), 32.12 (Gruffudd ap Gwr-genua); GBF 44.22 (Bleddyn Fardd).

**pryfedig** Yn ôl GPC 2921 ceir *pryfedig*<sup>1</sup> 'wedi ei fwyta gan gynrhon, llawn cynrhon, cynrhonllyd', ystyr sy'n gweddu i'r dim yma ond nas ardystir cyn y flwyddyn 1803. Ceir *pryfio* 'profi' neu 'rhoddi prawf ar', GPC 2921–2, gair nas ardystir cyn yr 16g. Ni fyddai 'wedi ei brofi' yn ystyrion iawn yma, ond y mae grym gweithredol i'r ôl-ddodiad *-edig* weithiau, cf. GPC 1165 ac isod ll. 172 *llifiedig*, ll. 174 *llithredig*. Yn GPC 2884 d.g. *priddo* cofnodir y ffurf amrywiol *pryfio* o'r 16g., ac ymhlith ystyrion y f. nodir 'gorchuddio â phridd, claddu'. Byddai 'cladd-edig' yn bosibl yma, ond yn wyneb y cyfeiriadau mynych at bryfed mewn perthynas â'r bedd, haws yw cymryd bod *pryfedig* yma'n ddisgrifiad o'r pryfed a fydd yn bwyta'r corff marw, cf. ll. 168n; IGE<sup>2</sup> 272 (llau. 9–10) *Ac wythgant, meddant i mi, / O bryfed yn ei brofi* (Siôn Cent); KAA<sup>2</sup> 3 (llau. 103–4) *y byrir y corff ryvygus y'r pryuet a'r eneit y boeneu uffern*. Y mae'n bosibl fod Gruffudd wedi bathu'r gair ar gyfer y ll. hon.

164 **fy rhwyf, fy rhyfyg—o'th wlad** Gofyn y bardd am fwynhau balchder a hyder drwy gael ei gynnwys yn y nef. Posibilrwydd arall yw deall *fy Rhwyf* yn 'f'Arglwydd' mewn cyfosodiad â'r cyfarchiad i Grist. Gallai *fy rhwyf, fy rhyfyg* fod yn gyfarchiad disgrifiadol o Grist hefyd, ond os felly, rhaid deall *caffwyf ... o'th wlad* fel cystrawen gyfrannol 'boed imi gael cyfran o'th wlad', cf. GPC 2607–8 d.g. *o*<sup>1</sup> 6(h). Am y cysyniad o ofyn am gyfran o'r nef, cf. 15.96 *Dod ym gyfraniad o'th wlad a'th wledd*.

167 **pwll** Y bedd eto, cf. GEO 2.21 *Mewn pwll y'i dodir, mewn pridd y'i cuddir* (Dafydd Ddu o Hiraddug), er bod *pwll* yn cyfeirio at uffern weithiau.

**pall** 'Methiant, diffyg', cf. GPC 2675 d.g. *pall*<sup>1</sup>. Posibilrwydd arall yw *pall*<sup>2</sup> 'mantell, llen, gorchudd', *ib.* 2676, yn cyfeirio at yr elorlen.

**edmyg** Fe'i dehonglir yn a. yn G 494, ond y mae'n anodd cael synnwyr



felly. Y mae'r bedd yn achosi methiant (*pall*) i anrhydedd (*edmyg*).

168 **profi** Ymddengys fod y bardd yn chwarae ar ddwy ystyr y f., sef 'rhoddi prawf ar' a 'blasu, bwyta'. Y mae'r pryfed yn rhoi pechodau'r marw ar brawf drwy fwyta'r corff, cf. ll. 162n ac yn enwedig y dyfyniad o waith Siôn Cent a roddir yno.

172 **llifiedig** GPC 2179 'wedi ei lifio, wedi ei rathu; wedi ei hogi, wedi ei awchlymu' ac yn betrus 'curiedig, wedi ei drywanu' ac 'yn poenydio drwy lifio'. Ymddengys fod a wnelo'r ddelwedd â phoen yn rhwygo trwy gnawd a bod grym gweithredol i'r ôl-ddodiad *-edig*, cf. ll. 162n, felly mentrir yr aralleiriad 'trywanol'.

173 **A'r cethrau, bu cythruddiedig** Gellid hefyd hepgor y coma a chymryd bod y dibeniad a'r goddr. wedi eu trawsleoli, fel yr awgrymir yn Treigladau 309n.

174 **gwayw** Nid hawdd dewis rhwng dwy ystyr *gwayw* yma, cf. G 603–4 a GPC 1606. O blaid yr ystyr 'gwaywffon' y mae'r traddodiad fod un o'r milwyr a warchodai Grist ar y Groes wedi trywanu Ei ystlys â gwaywffon, gw. Io xix.34.

175 **calon** Credid bod y clwyf yn ystlys Grist wedi cyrraedd Ei galon, cf. GIBH 10.10 *Frath gweli fry i'th galon*.

**claeifron eglurfrig** Neu 'bron ddisglair eglur ei brig'. Nid yw'r ddelwedd weledol yn gwbl glir.

176 **beddlawr** Cyfeiriad at feddrod Crist. Rhoddwyd Crist yn y beddrod a baratoesai Joseff o Arimathea iddo'i hun (Math xxvii.57–66).

177 **a'th eni** Dilynir y llsg. a chadw'r geiriau hyn yn y ll. hon. Gellid eu rhoi yn y ll. flaenorol a chreu toddaid byr, ond gan fod toddaid byr diamheuol yn llau. 179–80, gwell yw dehongli llau. 176–7 yn gwpled o gyhydedd fer.

**A'th eni (aeth ynod lle y trig** Nid aralleirir y ll. hon yn Gruffudd ap Maredudd: Gw. Yma cymerir bod *geni* i'w ddeall yn ffigurol am ddyndod Crist yn gyffredinol. Wrth gael Ei genhedlu yng nghroth Mair gan yr Ysbryd Glân a'i eni o'r Forwyn, derbyniodd Crist natur ddynol i gyd-fynd â'r natur ddwyfol a oedd ganddo eisoes. Pery'r ddwy natur hyn yn dragwyddol wedyn (credid bod Crist wedi atgyfodi gyda'i gorff dynol ac wedi esgyn i'r nef gyda'r corff hwnnw). Y mae'r ddelwedd o'r enedigaeth ddynol yn mynd i mewn iddo yn dwyn i gof eiriau Credo Athanasius am gyfuniad y ddwy natur yng Nghrist: *Unus autem non conversione divinitatis in carne, sed adsumptione humanitatis in Deo* '[y mae'n] un, nid trwy trawssffurfio dwyfoldeb yn gnawd, eithr trwy gymryd dyndod i mewn i Dduw', gw. J.N.D. Kelly, *The Athanasian Creed* (London, 1964), 20.

**ynod** Llsg. *yno* a *t* wedi ei hychwanegu uwchben. Derbyniwyd y

cywiriad yn y testun golygedig, cf. y dehongliad petrus o'r ll. a gynigir uchod.

- 178 **O'th aned, ni bu daith unig** Y daith, y mae'n ymddangos, yw ymgnewdoliad Crist yng nghroth y Forwyn, fel yn y ll. nesaf, ond y mae gweddill y cyfeiriad yn dywyll. Ceir dwy ystyr i *unig*, sef 'ar ei ben ei hun ... heb gwmni ... anghyfannedd, anghysbell, diffaith' ac 'unigryw, digymar', gw. GPC 3709. Ni thycia'r ail ystyr yma oherwydd ystyrid yr ymgnewdoliad wrth reswm yn unigryw. Posibilrwydd arall yw 'ni bu taith unig [wedyn]', gan awgrymu bod ymgnewdoliad Crist wedi achub yr hil ddynol rhag crwydro'n ddigymorth yn y byd hwn.
- 179 **a'th daith** Ailgydir yn y rhestr a ddechreuodd yn ll. 172.
- 181 **ffawd ffenedig** Marwolaeth ac uffern, cf. Io viii.51.
- 182 **plant blennig** Fe'i rhestrir yn GPC 2824 d.g. *plennig*<sup>1</sup> '?melltigedig, pechadurus'. Ceir enghraifft arall yn GPB 6.71 *Lle difenwant plant plennig—Llusiffer* (Hywel Ystorm), a gw. *ib.n.* Ceir trydedd enghraifft, yn ôl pob tebyg, yn GMB 31.7 *Plant Addaf, plenhigyon vuant* (dienw), er mai 'planhigion' yw'r aralleiriad a gynigir yno. Y mae'r ystyr a ddyfelir yn GPC yn rhesymol yn y tri achos. Mwy naturiol fyddai *Efa blant blennig* 'disgynyddion pechadurus Efa', yn enwedig mewn cyswllt â *gwerin boenedig* yn y ll. nesaf, ond ni ellir treiglo *plennig* ar ôl e.ll. Ceir sawl enghraifft o *plant* yn un., e.e. GM 10 (llau. 8–9) *Tragywydawl Blant tragwyd Tat sant / Ti bieu molyant milioed beunydd*, a cf. hefyd *ib.* 18 (ll. 21) a 22 (ll. 15). Cyfieithu Llad. *filius* a wna yn yr enghreifftiau hyn. Cf. ymhellach PKM 145; SDR 44 (ll. 55) *dy blant*, yn cyfeirio at un mab. Eg. ydyw yn yr enghreifftiau hyn, ond efallai nad cwbl amhosibl eb. yn cyfeirio at Efa yn *Efa, blant blennig* 'Efa, epil bechadurus' neu hyd yn oed *Efa blant blennig* 'epil bechadurus Efa', oherwydd y mae *plant* yn deillio o'r eb.un. Llad. *planta* 'blaguryn, impyn, planhigyn', gw. GPC 2818 d.g. *plant*<sup>1</sup>.
- 183 Ll. o 9 sillaf, goddefiad a geir weithiau mewn cyhydedd fer, cf. BaTh 260.
- 187 **can** Llsg. *kynn*. Y mae'r ystyr 'cyn' yn amhosibl yma oherwydd fod y cymal israddol hwn yn ddibynnol ar brif gymal ac ynddo f. yn y modd grch. (*dwg*, ll. 194). Ceir *cyn* hefyd mewn ystyr addefol, gw. G 118–19 d.g. *ke* (gyda'r ffurfiau amrywiol *ken, kyn, kynn*) a GPC 658 d.g. *cyd*<sup>3</sup>, ond er bod modd defnyddio'r amser myn.grff. ar ei ôl, y mae'r ystyr yn anghydnaws yma. Diwygir *kynn* felly yn *can*, gan ddilyn yr awgrym yn G 252 d.g. *kynn*<sup>2</sup>.
- 187–92 **gwnaethost ... / Fi ... yn golofnedig ... /.../ Ar Dy ddelw** Cymerir bod y bardd yn sôn am Dduw yn ei greu *ad imaginem Dei* (Gen i.27) a bod *yn golofnedig* yn adf. yn disgrifio gweithred Duw yn hytrach na dibeniad, ond os dibeniad ydyw, gellir 'oherwydd i Ti fy atgyfnerthu'.

- 187 **nid cost cuddiedig** Dywedir bod daioni'r Creawdwr yn amlwg i bawb ei weld.
- 191 **ardal** Ceir *ardal*<sup>1</sup> 'ffin, ardal, bro' ac *ardal*<sup>2</sup> '?arglwydd, llywodraethwr' yn ôl G 36, a rhestrir yr enghraifft hon dan yr ail. O'r ddwy enghraifft arall a nodir dan *ardal*<sup>2</sup>, gellir yr ystyr 'bro' yn ddibroblem yn GGDT 11.43 (Trahaearn Brydydd Mawr) ac yn GSRh 4.33 *Rheg deg dâl ardal* (Rhisierdyn), ond gthg. yr arlleiriad yno. Nid yw GPC 182 yn derbyn yr ystyr 'arglwydd, llywodraethwr', ac yn wyneb hyn oll fe'i gwrthodir yma hefyd. Gwell glynu wrth yr ystyr gyntaf, a'i ddeall yn gyfeiriad at y nef, cf. ll. 194. Posibilrwydd arall fyddai rhannu'r gair yn *ar dâl*, oherwydd mai arfer orgraffyddol y llsg. yw clymu gogwyddeiriau megis ardd. wrth y geiriau a ganlyn. Os felly, gofyn y mae'r bardd am gael mynd i'r nef yn gyfnewid am ei deyrnged o foliant i Dduw, topos cyffredin yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd: *Ar dâl mâl moliant Sain Syrig / Ar Dy ddelw* 'Ar daliad [o] deyrnged moliant [yn null] Syrig Sant / Ar gyfer Dy ddelw'.
- mâl** Gw. GPC 2326 d.g. *mâl*<sup>2</sup> 'treth, teyrnged, rhent, dyled, taliad'. Gellid hefyd *mâl*<sup>1</sup>, a. gyda'r ystyr 'pur, caboledig, llathraid, gloyw', gan mai eg. yw *ardal* weithiau. Cf. GGMD i, 5.111n *mâl molawd*, er mai dehongliad gwahanol a gynigir ar gyfer y ll. honno. Anodd cael synnwyr o *mal* = 'fel'.
- Sain Syrig** Awgrymir yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 243 mai Serigi, sant a chanddo gapel yng Nghaergybi, a olygir. Ceir ychydig fanylion am y sant hwn yn LBS iv, 196–7. Byddai sant a gysylltid â Chaergybi yn cyd-fynd â chysylltiadau daearyddol Gruffudd ap Maredudd ei hun, ond ansicr iawn yw'r cyfeiriad a hyd yn oed statws Serigi fel sant, gw. ymhellach WCD 587. Mwy tebygol, efallai, yw cyfeiriad at Cyriacus, sant a merthyr a goffeir yn y 'Legenda Aurea', gw. Jacobus de Voragine: GL ii, 61–2. Posibilrwydd arall yw Siricius, Pab 384–99, gw. NCE xiii, 258–9.
- 195 **arwyr** Ffurf 1 un.pres.myn. y f. *arwyrain*. Disgwylid *arwyreaf*, ond adffurfiad (digon naturiol) ydyw'r ffurf hon, fel y nodir yn G 44 d.g. *arwyrein*. Am arwyddocâd y f. hon, cf. ll. 41n.
- 196 **amodau** Sef y cymod a gynigir gan Dduw i ddyn, a hynny ar delerau ffafriol.
- 197 **brodiau** Crist a fydd yn barnu'r hil ddynol ar Ddydd y Farn, cf. Math xxv; Credo'r Apostolion *venturus est iudicare vivos et mortuos* 'daw [Ef] i farnu'r byw a'r meirw', gw. J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third ed., London, 1972), 369.
- 198 **Gair** Cf. 1.2n; GSRh 12.15–16 *Gair Gabriel angel yngod / Wrth Fair, a'r Gair fu'r gwared a 53–4 Y Mab Rhad a gad, a gair—yr angel / A ryngodd fodd i Fair* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed); Luc i.26–38.

200 **pryd priod wyrthau** Cf. ll. 220.

201 **mor un Duw a dyn** ‘Mor debyg [yw] Duw a dyn’ yn ôl Gruffudd ap Maredudd: Gw 240, ond er bod hynny’n ramadegol bosibl, o’r braidd ei fod yn tycio yn y cyd-destun. Gwell deall hyn yn gyfeiriad at ddwy natur Crist, cf. ll. 178n a Chredo Athanasius: *dominus noster Iesus Christus Dei filius et deus pariter et homo est ... Qui licet Deus sit et homo, non duo tamen sed unus est Christus* ‘y mae Iesu Grist ein Harglwydd, Mab Duw, yn Dduw ac yn ddyn yn gydradd ... Er Ei fod yn Dduw ac yn ddyn, nid dau eithr un Crist sydd’, gw. J.N.D. Kelly, *The Athanasian Creed* (London, 1964), 20.

**doniau—credadun** Neu ‘bendithion [y] crediniwr’.

202 **Athro** Am ei ddefnyddio am Dduw, cf. GCBM ii, 18.90; GDC 5.31 (Dafydd y Coed); GIBH 8.30.

203–4 **Mor undad ... / ... y’n gwneid ninnau!** Deallir y cwpled yn fynegiant o ddymuniad i ymuno â Duw yn y nef, er nad yw ergyd y f. *gwneid* yn gwbl eglur. Defnyddir yr amser amhff. gyda’r ystyr ‘would’ mewn amryfal amgylchiadau, gw. yr enghreifftiau yn GMW 111; felly, dichon mai mynegi dymuniad a wna yma. Posiblirwydd arall fyddai cyfeiriad at y creu, ond disgwylid yr amser grff. os felly. A ellid defnyddio’r amser amhff. yn llac am y grff.?

203 **undad** Cf. GCBM i, 3.236 *Yn unda6t Vndat vrodoryon*. Yr un yw’r cyd-destun, sef gweddïo am le yn y nef. Un Tad yn unig a gydnabyddir gan lu dedwydd y nef.

**rheidiau** Fe’i deallir yn gyfeiriad at yr hyn sy’n diwallu anghenion yn hytrach na’r anghenion eu hunain. Ceir enghraifft dda yn FfBO 52 (ll. 17) *ac eu reideu yn barawt udunt*, lle y mae’r gair yn cyfleu’r Llad. *victualia*. Yr un yw’r ystyr yn ll. 219 isod, ymddengys. Cf. Io vi.35 *ego sum panis vitae / qui veniet ad me non esuriet* (BCN *Myfi yw bara’r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy’n dod ataf fi*). Ceir naws ewcharistaidd gref drwy gydol y caniad hwn.

204 **un frawd** Crist yw’r brawd, cf. ll. 203 *undad*. Gofynnir am i bawb allu uno ag Ef mewn brawdoliaeth Gristnogol, cf. Math xii. 50 *quicumque enim fecerit voluntatem Patris mei qui in caelis est / ipse meus et frater et soror et mater est* (BCN *Oherwydd pwy bynnag sy’n gwneud ewylllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd, y mae hwnnw’n frawd i mi, ac yn chwaer, ac yn fam*). Eto, byddai *brawd* = ‘barn’ yn bosibl hefyd. Os felly, gofynnir naill ai am i bawb fod yn unfryd yn eu hymroddiad i Dduw neu ynteu am i bawb dderbyn yr un ddedfryd dragwyddol.

**un gnawd** Y mae a wnelo’r ddelwedd hon â delwedd yr Eglwys fel corff Crist, ac y mae iddi gynodiadau ewcharistaidd cryf, cf. Dom Gregory Dix, *The Shape of the Liturgy* (second ed., London, 1945), 1:

'It is of the deepest meaning of the rite [*sc.* yr ewcharist] that those who take part are thereby united indissolubly with one another and with all who are Christ's, ... each is thereby united with Him, and through Him with the Father, with Whom He is One.' Ceir y seilliau ysgrythurol yn Rhuf xii.5 *ita multi unum corpus sumus in Christo* (BCN *felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist*); 1 Cor x.16–17 *et panis quem frangimus / nonne participatio corporis Domini est / quoniam unus panis unum corpus multi sumus / omnes quidem de uno pane participamus* (BCN *a'r bara yr ydym yn ei dorri, onid cydgyfranogiad o gorff Crist ydyw? Gan mai'r un yw'r bara, yr ydym ni, a ninnau'n llawer, yn un corff, oherwydd yr ydym i gyd yn cyfranogi o'r un bara*); cf. hefyd Eff i.23.

206 **pumoes** Genidol yn dibynnu ar *Prynowdr*. Am gysylltu'r pum oes â'r pum clwyf, gw. GC 7.183n; GCBM ii, 17.109–10.

208 **tyngedfennaf** GPC 3672 'siarsio (drwy lw); tynghedu, (rhag)ordeinio; ?ymwrthod â (pheth) ar lw, diofrydu'. Siarsia'r bardd y grymoedd drwg i beidio â gwneud niwed iddo (cwbllheir y synnwyr yn llau. 215–16).

209 **awyr** Dengys yr odl fod y ddeusain wy yn lleddf yma, er mai talgron ydyw erbyn hyn; cf. J. Morris-Jones: CD 238. Credid bod yr awyr yn llawn cythreuliaid ac ysbrydion drwg yn aros eu cyfle i ymosod ar ddyn, gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400–c. 1580* (London, 1992), 279; Bernard Hamilton, *Religion in the Medieval West* (London, 1986), 168.

211–12 **Cwmpau—medd-dawd / A phechawd y cnawd** Cynnwys llau. 210–14 restr o briodoleddau uffern. Nid pethau sy'n digwydd yn uffern yw pob un, ond dychmygir bod maglau pechod yn *dod* o uffern i fygwth dynion.

214 **eisyngion** Dilynir G 464 d.g. *eissyng* a GPC 1202 a'i ddehongli'n gyfansoddair o *ais* 'asennau' + *ing, yng* 'poen'. Ceir enghraifft arall bosibl yn T 7.15 *eissygpren* ond y mae'r ystyr yn dywyll.

**arsangau** Cynigir 'trais, gormes' a 'hudoliaeth, hoced' yn G 42, a rhoddir yr enghraifft hon dan yr ystyr 'swyn, swyngyfaredd' yn GPC 210. Ategir hyn gan LIA 142 (llau. 20–2) *Na wneler rinyev. nac arsanghev. nachyfarbydonn. na sbynev. gbahardedic gann yr eglbys catholic yg6neuth[ur]*.

217 **cyffes** Rhoddid pwyslais enfawr ar farw'n gywir yn y cyfnod hwn. Rhaid oedd cyffesu pob pechod marwol cyn marw, rhag ofn mynd i uffern. Byddai pob Cristion a gâi'r cyfle yn cyffesu a derbyn maddeuant ar ei wely angau, gw. Eamon Duffy, *op.cit.* 310–13.

**lleisau—heddwch** O bosibl, gweddiâu ei berthnasau neu'r seintiau yn ymbil am dangnefedd i'r bardd wedi iddo farw.

218 **llwch llychau** Uffern, cf. 2.47n.

219 **ein** Neu yn.

**rheidiau** Cf. ll. 203n.

220 Y mae'r ll. hon yn dra thebyg i l. 200.

222 **gem** Cyffredin am ferch (neu ddyn) yng ngwaith y beirdd, cf. GGLI 1.47n (Hywel ab Einion Lygliw).

**antur** Fe'i dehonglir yn a. 'prin, anghyffredin' yn GPC 159, ond gan nad oes enghraifft sicr arall, gwell glynu wrth un o'r ystyron mwy arferol a'i ddehongli'n e. yma, cf. G 32.

223 **lluniau** Cyfeiriad posibl at luniau o'r angylion mewn eglwys.

**aur nawtawdd** Sef aur a doddwyd naw o weithiau; felly, aur wedi ei goethi o bob amhuredd, cf. YE 17 (ll. 5–6) *dŷ yscubell o van adaued nev van gasnad o eur trinawtawd*; GGH 62 (16.19–20) *Rhoi mawl mesurawl sy hawdd, / Rhyw gnot aur rhywiog nawtawdd*.

224 **clawdd** Uffern, cf. GC 7.43–6 *Trahy yw pob syw na synhwyran' / Trymder Lusiffer a'i loes affan: / Tros ei gam arfaeth cynfaeth cwynfan, / Trymgwyddawdd heb nawdd i glawdd nid glân*. Seilir y gred fod rhai o'r angylion dan reolaeth Lusiffer wedi gwrthryfela yn erbyn Duw ar Eseaia xiv.12–15 a Dat xii.7–9.

225 Ymddengys mai cynghanedd sain sydd yn y ll. hon (*trwy ... rhwy, rhwydd*), er gwaethaf y cywasgiad rhwng *trwy* ac *yr*.

**pregethwyr** Cyfeiriad at y comisiwn a gafodd yr apostolion gan Grist, cf. Luc xxiv.47 *et praedicari in nomine eius paenitentiam et remissionem peccatorum in omnes gentes* (BCN *bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd*); Math xxviii.19 *euntes ergo docete omnes gentes* (BCN *Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd*).

226 **tyrau** Ll. *tŵr*, gw. GPC 3660. Defnyddir *tŵr* yn ffigurol am arglwydd neu amddiffynnwr, cf. GGMD i, 2.31; IGE<sup>2</sup> 250 (ll. 4) *A'i feibion, dewrion dyrau* (Ieuan Waed Da).

228 **yr** Nis ceir yn y llsgr., ond ceir y fan. gyda phob un o'r personau eraill a grybwyllir yn llau. 209–30 ac y mae'r ll. hon yn fyr o sillaf.

**henafiaid** Ffurf ar *hynafiaid*, gw. GPC 1974 d.g. *hynaf*<sup>f</sup>. Sonnir am y patriarchiaid megis Abraham, Moses, &c.

**plaid y blodau** Cyfuniad poblogaidd, fe ymddengys, cf. GC 8.1; GDC 3.43; ond gwahanol yw'r ystyr yn yr enghreifftiau hyn. Gallai *blodau* 'y Gorau' gyfeirio at Dduw yma.

228–9 **pedwar ... / Angelystor** Mathew, Marc, Luc a Ioan, gw. y nodyn cefndir i gerdd 14 isod.

229 **gwiriadau** Ffurf ansicr. Awgrymir ll. *gwiryawt* 'cadarnhad, tystiolaeth, prawf' yn G 684, ond heb ddyfynnu enghraifft arall. Ni chydabyddir y

- fath air yn GPC 1668. Yma, felly, fe'i cymerir yn ll. *gwirod* (-awd). Delwedd gyffredin am ysbrydoliaeth yw ei chymharu â diod feddwol, cf. LIA 39 (llau. 11–12) *dyro ymi wirodev yr yspryt glan* (Llad. *pocula Spiritus Sancti abunde infusa*, ib. 202 (ll. 16)), ond efallai ei fod yn werth nodi bod Cyfraith Hywel yn sôn am ddiod arbennig, *gwirawd yr ebestyl*, a weinyddid ar ddyddiau gŵyl yr Apostolion, cf. WML 24.7–8; LIB 23 (llau. 16–17).
- 231–2 **Ieuan ... / Fedyddiwr** Ioan Fedyddiwr. Paratoes y ffordd ar gyfer Crist, yn pregethu *baptismum paenitentiae in remissionem peccatorum* (BCN *bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau*), Marc i.4. Bedyddiodd Iesu yn Afon Iorrdonen a disgynnodd yr Ysbryd Glân ar ffurf colomen ar ben Crist (Math iii.13–17; Marc i. 9–11; Luc iii.21–2; Io i.29–34).
- 231 **Calan, golau—ei gyflwr** Dethlir Dydd Gŵyl Ioan Fedyddiwr ar 24 Mehefin, a elwid yn Ddydd Calan Ioan Fedyddiwr, yn agos iawn i Alban Hefin (21 Mehefin). Dichon fod *golau—ei gyflwr* yn cyfeirio at y ffaith mai dyna un o ddiwrnodau hwyaf y flwyddyn, neu efallai at yr hen arfer o ddathlu noswyl Dydd Gŵyl Ioan drwy gynnu tanllwythau mawr. Cf. hefyd Io v.35 *ille erat lucerna ardens et lucens* (BCN *Cannwyll oedd Ioan, yn llosgi ac yn llewyrchu*).
- 233 **arwydd gloeswydd** Dehonglir *gloeswydd* yn gyfansoddair o *gloes* + *gwýdd*, yn gyfeiriad at Groes Crist. Y mae'r gair yn odli ag *arwydd*, odl a fyddai'n anghywir yn ôl J. Morris-Jones: CD 238, ond ceir enghreifftiau o'r ynganiad *arwýdd* (yn lle'r ffurf ddisgwyliedig *arwýdd*). Ymddengys fod y ddau'n gymeradwy gan Ruffudd ap Maredudd: ceir *arwýdd* eto yn ll. 254 yn odli ag -ydd, ond yn GGMD i, 3.61 a 128 a ii, 1.30 odla â *tramgwydd*, *llwydd* ac *arghwydd*. Fodd bynnag, gellid *gloes* + *swydd* yma.
- 234 **bedydd ... cyn no beddau** Y mae bedydd yn puro'r unigolyn o'r pechod gwreiddiol sy'n gynhysgaeth anochel yr hil ddynol gyfan yn ôl y gred Gristnogol. Ni ellir mynd i'r nef heb dderbyn bedydd, cf. Io iii.5.
- 235–40 Enwir nifer o fendithion naturiol yn y llau. hyn. Gellir awgrymu bod cynodiadau ysbrydol penodol i rai, gw. y nodiadau isod, ond am y lleill, megis *hindda* neu *gwenyn*, rhaid cymryd mai seilio ei obaith ar ddaioni cyffredinol Duw y mae'r bardd yma.
- 236 **ffair** Cf. 1.7n.
- fferennau** Cyfrwng derbyn gras Crist oedd yr offeren. Credid y byddai mynychu offerennau yn ystod einioes yn lles i'r enaid yn y purdan, a hefyd y byddai trefnu offerennau yn enw dyn marw yn gymorth i gwtogi'r amser a dreuliai ei enaid yn y purdan. Nodir pwysigrwydd yr offeren yn GBF 40.17 *G6ae ny chyrcho ffeir offerennew—Crist* (Gruffudd ab yr Ynad Coch); cf. hefyd y rhestri o fendithion a

ddeuai o fynd i'r offeren yn ôl cred boblogaidd y cyfnod, megis yn LIA 151 ac Eamon Duffy, *op.cit.* 100.

238 **gwenith** Cyfeiriad, o bosibl, at fara'r offeren, cf. ll. 242n. Bara gwenith yn unig a oedd yn dderbiniol ar gyfer y cymun oherwydd ei wynder.

**gwliith** Am gynodiadau 'cynhaliath' ac 'adfywiad' cf. GSC 17.33–4 *Ar gedyrn yr og ydwyd / A gwliith i wan; golaith wyd; hefyd GDG<sup>3</sup> 274 (101.41–3) Gwell gan fun, ni'm gad hun hawdd, / Ei hensail glyd a'i hansawdd / No bod yn rhith ger gwliith gwledd'*. Cysylltir gwliith hefyd â'r Ysbryd Glân, cf. Eseia vl.8 *rorate caeli desuper et nubes pluunt iustum / aperiat terra et germinet salvatorem / et iustitia oriatur simul / ego Dominus creavi eum* (BCN *Defnyynnwch oddi fry, O nefoedd; tywallted yr wybren gyfiawnder. Agored y ddaear, er mwyn i iachawdwriaeth egino ac i gyfiawnder flaguro. Myfi, yr ARGLWYDD, a'i gwnaeth*). Dehonglwyd hanes y gwliith yn disgyn ar gnu Gideon (Barn vi.36–8) yn rhagfynegiad o ddisgyniad yr Ysbryd Glân ar Fair, gw. F.J.E. Raby, *A History of Christian-Latin Poetry from the Beginnings to the Close of the Middle Ages* (second ed., Oxford, 1953), 371.

239 **gwinau—winbwys** Cyfeiriad at win coch y cymun, efallai, cf. ll. 244n.

241 **llyfrau—cyfa** Llyfrau litwrgïol, yn benodol y *Missale*, llyfr yr offeren (*Missa*) a gynhwysai'r testunau a'r cyfarwyddiadau ar gyfer gwneini'r offeren.

242 **A wna y bara yn bur gorfau** Dyma gyfeiriad at un o brif athrawiaethau Catholigiaeth, sef fod Crist yn wirioneddol bresennol yn elfennau aberth yr offeren. Dyna uchafbwynt yr offeren: wrth i'r offeiriad ddatgan y geiriau *Hoc est enim corpus meum* 'Hwn yw fy nghorff', dyrchafai'r bara uwch ei ben fel y gallai'r bobl ei weld: corff gwirioneddol Crist wedi ei roi yn aberth er eu lles. Yr oedd y defosiwn i'r digwyddiad hwn yn danbaid yn yr Oesoedd Canol Diweddar, a gwelid rhai pobl yn rhuthro o allor i allor i weld cynifer ohonynt â phosibl, gw. Eamon Duffy, *op.cit.* 95–102.

243–4 **trwy'r geirau—Lladin / A wna'r gwaed o'r gwin** Yn ôl Dull Sarum (Caersallog), sef y dull litwrgïol mwyaf arferol yng Nghymru a de Lloegr yn yr Oesoedd Canol Diweddar, ar ôl dyrchafu'r bara dywedai'r offeiriad: *Hic est enim calix sanguinis mei novi et aeterni testamenti, mysterium fidei, qui pro vobis et pro multis effundetur in remissionem peccatorum*, gw. *Missale ad Usum Insignis et Praeclarae Ecclesiae Sarum*, i: *Temporale*, ed. F.H. Dickinson (Burntisland, 1861), 617; sef yn Gym. 'Canys hwn yw cwpan gwaed fy nghyfamod newydd a thragwyddol, dirgelwch y ffydd, a dywelltir drosoch chwi a thros lawer er maddeuant pechodau'; cf. y fersiwn Cym. diweddar (sydd ychydig yn wahanol) yn *Llyfr Offeren y Sul*, gol. John Fitzgerald a Patrick J. Donovan (Esgobaeth Mynyw, 1988), 10. Yna dyrchafai'r



offeiriad y cwpan uwch ei ben yn yr un modd â'r bara. Yn ôl y gred Gatholig, trôir gwin yn waed Crist, nid mewn rhyw ystyr symbolaidd, eithr yn wirioneddol.

**rhin ein Rhiau** Cf. y geiriau *mysterium fidei* a ddywed yr offeiriad uwchben y cwpan.

245 **cadau** Yr angylion, yn ôl pob tebyg, yn hytrach na'r tri llu (ll. 108).

248 **y sawl** Cyfeirir at Fair neu'r seintiau, y mae eu gweddïau yn gallu bod o les i enaid.

**ar sail gynnau** Defnyddir *sail* am y nef yn GCBM ii, 17.7 *Doethwlad nef adef, Adaf wychuaŵr—seil*. Yn betrus iawn y dehonglir *gynnau* (sef ffurf dreigledig *cynnau*) yn a. 'yn cynnau, golau, yn goleuo, ynghynn' yma, cf. GPC 794 d.g. *cynnau*<sup>1</sup> (ni nodir yr enghraifft hon). Yr ystyron posibl eraill yw 'tanllwyth' neu'r be. 'ennyn, cynnau'. 'Tanllwyth' a gynigir yn betrus yn G 256 d.g. *kynneu*<sup>2</sup>, ond y mae'n anodd gweld hynny'n synhwyrol yma, nac ychwaith y be. Ceir *Y gannwyll fflamgwyr gynnau* yn GDG<sup>3</sup> 358 (135.24); dehonglir *cynnau* yn 'ynghynn, yn olau' yn yr eirfa, *ib.* 572, a cf. y n. i'r ll., *ib.* 539. Ceir hefyd y gair *cynne* (G 254, GPC 795), eto gyda'r ystyr 'tanllwyth', ac awgrymir yn G y gall hwn fod yn a. hefyd, cf. GDG<sup>3</sup> 115 (42.59–60) *Nid oes rhagorbryd pefrlon / Gan yr haul gynne ar hon*. Eto, ymddengys fod tarddiad y gair hwn yn wahanol er mor debyg ydyw i *cynnau*.

Yn y Testament Newydd, y mae *sail* (Llad. *fundamentum*) yn ddelwedd ar gyfer Crist fel sylfaen y bywyd moesol, cf. 1 Cor iii.11 *fundamentum enim aliud nemo potest ponere praeter id quod positum est qui est Christus Iesus* (BCN *Ni all neb osod sylfaen arall yn lle'r un sydd wedi ei gosod, ac Iesu Grist yw honno*). Crist yw'r conglfaen yn sylfaen yr apostolion a'r proffwydi (Eff ii.20). Rhaid 'cynnull sail dda' (*thesaurizare sibi fundamentum bonum*) er mwyn ennill bywyd tragwyddol (1 Tim vi.19; BCN [*c*]ael ... [*t*]rysor fydd yn sylfaen sicr). Tybed ai cyfeiriad at y ddelwedd hon a geir yma? Os felly, cymerer *gynnau* yn adf.: *y sawl â'r sail gynnau* yw'r sawl a osododd y sail iawn iddynt hwy eu hunain gynt (ac sydd bellach yn y nef).

249 **trefnaf** GPC 3574–5 'gosod mewn trefn arbennig, gosod trefn ar; paratoi, ordeinio, darparu'. Erfynia'r bardd am allu trefnu lle iddo'i hun yn y nef. Ceir hefyd yr ystyr 'ymfonyddu, ymsefydlu', ac y mae'r e. *trefn* yn gallu golygu 'siambr', *ib.* 3574; felly, dichon fod arlliw o'r ystyr 'trigo, preswyllo' ar y gair *trefnaf* yma.

250 Cynghanedd sain dro o'r dull cyntaf, cf. Rhian M. Andrews, *art.cit.* 152–3.

251–2 **nid oes, ni bu, ni bydd / ... Dy gystedlydd** Y topos 'ni'th oes gystedlydd', cf. Bl BGCC 26 (3.1) a'r nodyn, hefyd 178 (20.8–15); T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (1)', B xiii (1948–50), 169–74.

- 252 **digas dadleu** Caledir *dd* yn *d* ar ôl *s*, Treigladau 24–5. Am wahanol ystyron *dadlau*, gw. G 286 d.g. *dadleu*<sup>2</sup> a GPC 871.
- 254 **arwydd** Cf. ll. 233n, ond nid amhosibl *ar wýdd* yma.
- 256 **angar** Llsg. *ag* / *gard*. Ceir *angardd* (sef *an-* + *cardd*) gyda'r ystyr 'diwarth, gwyth', gw. G 16, GPC 49, ond y mae'r gynghanedd yn mynnu odl â *galar* yma, felly dilynir G *l.c.* d.g. *angar* a'i ddiwygio yn *angar*. Awgrymir yno fod *angar* yn e. ac iddo'r ystyron 'llid, digofaint, alaeth', ond nodir *ib.* hefyd, fel gair gwahanol, yr a. *anghar* (sef *an-* + *câr*) 'gofidus; creulon, gelyniaethus'. Yr a. yn unig a nodir yn GPC 49 d.g. *angar*, ac ymddengys fod deall *angar* yn a. yn gweddu i'r ll. bresennol. Ceir awgrym arall yn G 140–1 d.g. *kilyð*, sef dehongli'r ll. yn *a / gar uyð galar wrth y gilyð*, sy'n ddichonadwy, ond ceir gwell cymeriad gydag *angar*.
- cilydd** Yn ei ystyr wreiddol, sef 'cydymaith, cymar', er gwaethaf yr ansicrwydd a fynegir yn G 140–1. Sonnir am un o gyfeillion neu berthnasau'r dyn marw.
- 257 Neu 'Trist [ei] gŵyn [oherwydd] gorfodaeth [angau] yn ei ffyniant yw[ʹr] dyn balch.'
- cyfrwyn** 'Siwrnai, helynt, cymdeithas' yw'r cynigion *petrus* yn G 218 ond dilynir GPC 720 sy'n cynnig esboniad ar darddiad y gair, cf. *cyfrwynain* yn GLIF 23.2 (Seisyll Bryffwrch).
- 258 **hoedlhudog** Dau air yn y llsg., ond fe'i cofnodir fel cyfansoddair clwm yn GPC 1883, diau er mwyn gwneud cystrawen y ll. hon yn eglurach. Dilynir hynny yma am yr un rheswm. Y mae'r gwalch yn twyllo adar mân o'u bywydau. Am *hudo* yn yr ystyr 'dwyn rhywbeth gan rywun', cf. GGMD i, 3.166. Angau yw'r gwalch a *dyn* (ll. 255) yw'r ehedydd na wêl y gwalch yn dod ato nes ei bod yn rhy hwy'r.
- 260 **in caelo** Llsg. *incelo*. Yngenid *ae* ac *oe* fel 'e' yn Llad. yr Oesoedd Canol, gan roi bod i ffurfiau orgraffyddol megis *celum* am *caelum*. Dengys y gynghanedd mai *s* yw sain yr *c* yma, fel y disgwyliid, cf. 1.165n.
- seilm Dafydd** Dafydd Frenin oedd awdur tybiedig y salmau. Y mae'r ymadrodd *in caelo* yn ddigon cyffredin ynddynt ac ni raid cymryd bod y bardd yn meddwl am un ohonynt yn benodol, ond am *Eurglo in caelo*, cf. Salm x.5 (BCN xi.4) *Dominus in caelo*, xxxv.6 (BCN xxxvi.5) *Domine in caelo*, cii.19 (BCN ciii.19) *Dominus in caelo*, cxiii.11 (BCN cxv.3) *Deus autem noster in caelo*.
- 261 **Argleidriad** Llsg. *argleidyat*. Diwygir er mwyn yr ystyr.
- 263 **morach** Gair ansicr ei ystyr, gw. GPC 2486.
- 264 **Awdur ... Lluniedydd** Cyffredin yng ngwaith y beirdd yw sôn am y Mab fel y Creawdwr, er mai teitl y Tad ydyw hwnnw fel arfer. Fodd

- bynag, y mae swyddogaeth i bob un o'r Tri Pherson yn y creu. Am y Mab, cf. geiriau *Credo Nicaea per quem omnia facta sunt* 'yr Hwn y gwnaed popeth drwyddo', gw. J. Harper, *The Forms and Orders of Western Liturgy from the Tenth to the Eighteenth Century: A Historical Introduction and Guide for Students and Musicians* (Oxford, 1991), 266. Gw. ymhellach M. Paul Bryant-Quinn, '“Archaf Weddi”: Rhai Sylwadau ar Farwysgafn Meilyr Brydydd', *LICy* xx (1997), 15–16.
- 268 **ewybr** Fe'i defnyddir am y tywydd neu'r wybren yn yr ystyr 'digwmwl, eglur'; y gall hefyd olygu 'cyflym, esgud, chwim', gw. G 453, GPC 1263–4.
- 269 **union rhad** Caledir *r* yn *rh* ar ôl *n*, cf. Treigladau 27–8.
- 272 **gwewdydd** Ffurf ar *gwawdydd*, yn dangos affeithiad  $a > e$  o flaen y terfyniad *-ydd*, gw. G 675, GPC 1605 d.g. *gwawdydd*, *gwewdydd*. Nid yw'r affeithiad yn gyffredin o flaen ôl-ddodiad (WG 121–2), ond cf. *hedyn* < *had*, *hefelydd* < *hafal*. Ceir *gwewdydd* hefyd yn ddarlleniad amrywiol yn GGM 5.41.
- 273 **dydd** Am *dydd* yn yr ystyr 'diwrnod olaf oes', gw. GPC 1119 3(b); J.E. Caerwyn Williams, 'Cymraeg “dydd”; Gwyddeleg “lá”; Lladin “dies” = “dies mortis”', B xxiv (1970–2), 477–81.
- 275 **eisioes** Llsg. *ayssyoes*, orgraff anarferol. Gall mai llygriad o'r gair Gr. *hagios* 'sanctaidd', teitl ar Dduw, a geir yma. Ceir y ffurf *agioes* yn HG Cref 15 (IX.23) ac *aedsios* yn GIG 112 (XXVII.90).
- 276 **Alpha** Llythyren gyntaf yr wyddor Roeg a theitl ar Dduw, cf. GSRh 12.242 *I et O et Alpha* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed); GGM 2.6 *Alpha Omega eglur* (ond cf. darlleniad y llsg.). Daw'r ddelwedd o Dat i.8 *Ego sum alpha et omega*, hefyd *ib.* xxii.13, a cf. uchod ll. 63n.
- 277 **rhybudd** Am y posibilrwydd o ddehongli hyn yn amrywiad ar y gair *rhebydd* 'arglwydd', gw. 10.37n.
- 278 **A Thad digroniad, Dy gerennydd!** Neu *A Thad digroniad Dy gerennydd* 'A Thad hael Dy gymod'.

## 4

Y mae'r gyfres hon o englynion yn rhestru nifer o ddigwyddiadau sy'n tystio i rym a gras Duw, gan honni iddynt oll syrthio ar ddydd Sul. Yr oedd rhestrau o'r fath yn adnabyddus drwy gydol y byd Cristnogol yn yr Oesoedd Canol, a cheir ymdriniaeth gynhwysfawr â hwy gan Clare A. Lees.<sup>1</sup> Pwysir yn drwm ar y gwaith hwn ar gyfer y sylwadau a ddilyn.

<sup>1</sup> Clare A. Lees, 'The “Sunday Letter” and the “Sunday Lists”', *Anglo-Saxon England*, xiv, ed. Peter Clemoes (Cambridge, 1985), 129–51.

Yn un o lythyrau y Pab Leo I (*ob.* 461) y ceir y rhestr gyntaf o'r fath sydd ar glawr, ac y mae'n cynnwys pum digwyddiad. Y mae'n debygol mai gwaith Isidor o Sevilla ('De Ecclesiasticis Officiis' i.25) yw ffynhonnell nifer o restrau'r Oesoedd Canol Cynnar. Y mae rhestr Isidor hefyd yn cynnwys pum digwyddiad, er nad yw'n cytuno'n llwyr â rhestr Leo. Ar seiliau ysgrythrol—yn fras—y cysylltir y digwyddiadau hyn â dydd Sul; er enghraifft, creu'r byd, yr atgyfodiad a'r Sulgwyn. Cynyddodd y rhestrau gyda threigl amser, a mabwysiadwyd digwyddiadau nad oedd sail ysgrythurol gadarn dros dybied iddynt ddigwydd ar y Sul, megis y wyrth yng Nghana neu fwydo'r pum mil (gw. isod).<sup>2</sup>

Parhau a wnaeth y traddodiad yn yr Oesoedd Canol Diweddar, cyfnod nas trafodir yn fanwl gan Lees. Er enghraifft, ceir pregeth Saesneg Canol a ddyddir o bosibl c. 1477 sy'n cynnwys rhestr o ddigwyddiadau'r Sul.<sup>3</sup> Ceir hefyd ddwy enghraifft mewn cerddi Cymraeg, un ohonynt mewn cerdd gan Ieuan Brydydd Hir:

Dywsul, iawn Drindawd, y doeth Ef yng nghnawd  
 Morwyn ddibechawd, buchedd riau.  
 Dywsul y ganed (disalw fu'i gerdded)  
 Dwysog graddau Cred, croywdeg eiriau.  
 Dywsul yn gynnar codes o'r ddaear,  
 Eu dwyn o garchar, Gyrchwyr eneidiau.  
 Dywsul a henwir, Dywsul a berchir,  
 Dywsul a gerir, gorau o'r dyddiau.  
 Dywsul fydd Dy' Brawd, deisyfiant rhai tlawd,  
 Disyml fydd parawd, perwyl diau.<sup>4</sup>

Y mae'r llall, sef cywydd cyfan ar y pwnc, ymysg y cerddi apocryffaidd a briodolir i Siôn Cent.<sup>5</sup>

Dilyn trefn fras gronolegol (bras iawn mewn rhai achosion) a wna'r rhestrau hyn fel arfer.<sup>6</sup> Er bod elfennau o drefn gronolegol yn englynion Gruffudd ap Maredudd—er enghraifft, sonnir yn y tri englyn cyntaf am eni, bedydd ac atgyfodiad Crist; sonnir yn englynion 7 ac 8 am yr Ecsodus ac yna am y manna yn porthi'r Israeiiaid yn yr anialwch; a neilltuir yr englyn olaf i'r Farn—ni lynir wrth drefn felly drwy'r gerdd gyfan. Y mae'n bosibl,

<sup>2</sup> Trafodir nifer o restrau estynedig mewn testunau Hen Saesneg, Gwyddeleg a Lladin Gwyddelig yn Clare A. Lees, *art.cit.* 143–50 a DACL iv, col. 985–90.

<sup>3</sup> Gw. *A Study and Edition of Selected Middle English Sermons: Richard Alkerton's Easter Week Sermon Preached at St Mary Spital in 1406, a Sermon on Sunday Observance, and a Nunnery Sermon for the Feast of the Assumption*, ed. V.M. O'Mara, Leeds Texts and Monographs (New Series), 13 (Leeds, 1994), 116–17.

<sup>4</sup> GIBH 8.41–50.

<sup>5</sup> Gw. ASCent cerdd 3, a'r sylwadau, tt. 76–8.

<sup>6</sup> Cf. y tabl yn Clare A. Lees, *art.cit.* 144.

wrth gwrs, fod y drefn wreiddiol wedi ei disodli yn y proses o drosglwyddo'r gerdd. Ni rydd y cymeriad fawr o gymorth wrth bennu'r drefn wreiddiol. Ceir cymeriad geiriol rhwng y tri englyn cyntaf, gan mai *Duw Sul* yw geiriau cyntaf pob un. Yn y pedwerydd englyn ceir naill ai cymeriad cynganeddol (*disalw* yw gair cyntaf yr englyn) neu gymeriad geiriol eto ar *Duwsul*, sy'n digwydd yn y ll. gyntaf. Parheir y cymeriad drwy'r tri englyn nesaf (5, 6, 7), sydd i gyd yn dechrau â *Duwsul*. Nid egyr yr englyn nesaf na'r nawfed â *Duwsul*, ond ceir y gair yn y drydedd linell yn y ddau. Cronolegol yw'r cysylltiad rhwng y seithfed englyn a'r wythfed (yr Ecsodus a'r manna) a theipolegol yw'r cysylltiad rhwng yr wythfed a'r nawfed (bwydo'r pum mil, gw. isod). Egyr y degfed englyn (am arch Noa) â'r gair *Duwsul*. Ceir cyrch-gymeriad cynganeddol rhyngddo a'r englyn olaf (*dir/Dâr*).

I grynhoi: gellir cysylltu rhai englynion â'i gilydd o ran ystyr neu gymeriad, ond ni ellir cadarnhau trefn y cyfan fel y saif. Eto, nid yw strwythur unplyg resymegol yn nodweddiadol o waith Gruffudd ap Maredudd (er y gallai adeiladu ei gerddi felly pan fynnai, cf. y nodyn cefndir i gerdd 15) nac ychwaith o estheteg y Gogynfeirdd yn gyffredinol. Yn wyneb hynny, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ymyrryd â threfn yr englynion fel y safant yn y llawysgrif.

Ymdrinnir ymhellach â'r digwyddiadau y sonia Gruffudd amdanynt yn yr englynion hyn fesul un.

#### *Englyn 1 (llau. 1–4): Geni Iesu*<sup>7</sup>

Nid oes unrhyw sail ysgrythurol dros gredu bod Crist wedi Ei eni ar ddydd Sul, ond tystia testunau apocryffaid i'r gred hon ers yn gynnar, er enghraifft y 'Liber de Dormitione Mariae', testun Groeg o'r 7g. Dyma un o'r eitemau nas ceir yn y rhestrau cynharaf, ond a ychwanegwyd gydag amser. Cf. GBF 40(Atodiad).1 *Dyw Sul, un hydr gun y ganed—Mab Duw* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).

#### *Englyn 2 (llau. 5–8): Bedydd Iesu*<sup>8</sup>

Am yr hanes yn yr Efengylau, gw. 3.231–2n. Unwaith eto, nid oes sail ysgrythurol dros gredu mai ar ddydd Sul y bedyddiwyd Crist. Cysylltir y bedydd â Gŵyl yr Ystwyll (6 Ionawr), a diddorol yw sylw Lees fod dau ddigwyddiad arall a geir yn aml yn y rhestrau,<sup>9</sup> sef y wyrth yng Nghana a gwyrrth bwydo'r pum mil, hwythau'n gysylltiedig â'r Ystwyll.<sup>10</sup> Dyma ddigwyddiadau sy'n tystio i ddwyfoldeb Crist, sef arwyddocâd yr ŵyl hon (ystyr y Groeg *Epiphania* yw 'dangosiad'). Awgrym Lees yw fod cyfres o ddigwyddiadau a gysylltir â'r Ystwyll wedi eu hymgorffori yn nhraddodiad

<sup>7</sup> *Ib.* 142, 147.

<sup>8</sup> *Ib.* 142 (tabl 3), 147.

<sup>9</sup> *Ib.* 147–8.

<sup>10</sup> Cf. Jacobus de Voragine: GL i, 78.

y rhestrau hyn. Erys y rheswm am hynny'n aneglur, ond o ran cysylltu'r bedydd Cristnogol â'r Sul, sylwer mai'r adegau arferol ar gyfer bedyddio Cristnogion newydd yn yr eglwys gynnwys oedd noswyliau Sul y Pasg a'r Sulgwyn.<sup>11</sup>

*Englyn 3 (llau. 9–12): Yr atgyfodiad*

Dyma, wrth gwrs, gnewyllyn gwreiddiol defosiwn Cristnogion i'r Sul. Ar ddydd Sul yr atgyfododd Crist yn ôl yr Ysgrhythur, cf. Math xxviii.1; Marc xvi.2; Luc xxiv.1; Io xx.1, a dyna yw pennaf arwyddocâd dydd Sul er dyddiau'r apostolion. Cf. GMB 24.21–2 (Elidir Sais).

*Englyn 4 (llau. 13–16): Anrheithio uffern<sup>12</sup>*

Nid yw'n eglur ar ba sail y ceir hyn yn y rhestrau.

*Englyn 5 (llau. 17–20): Creu'r angylion*

Traddodiad apocryffaidd yw gosod creu'r angylion ar ddydd Sul yn ôl Lees,<sup>13</sup> traddodiad a gofnodir er enghraifft yn Llyfr y Jiwbiliau ii.2. Y mae'n werth nodi hefyd fod Sant Awstin yn mynegi'r un syniad ('De Civitate Dei' xi.9) mewn dadl go droellog, yn uniaethu'r angylion â'r goleuni a greir ar ddiwrnod cyntaf y Creu (Gen i.3).

*Englyn 6 (llau. 21–4): Y wyrth yng Nghana (troi dŵr yn win)*

Io ii.1–11. Y gyntaf o wyrthiau Crist yn ôl Io ii.11. Nid oes sail ysgrythurol i'r gred mai ar y Sul y digwyddodd.

*Englyn 7 (llau. 25–8): Yr Ecsodus*

Sôn y mae Gruffudd yma am sut yr arweiniodd Duw Foses a'r Israeliaid allan o'r Aifft, ond nid yw'n sicr pa ran o'r Ecsodus a olygir. Un posibilrwydd yw ei fod yn disgrifio'r noson y bu farw pob mab cyntaf-anedig yn yr Aifft drwy ddieter Duw ac y caniatawyd i'r Israeliaid ymadael o'r herwydd (Ecs xii). Coffeir y digwyddiad yng ngŵyl Basg yr Iddewon. Nid yw Pasg yr Iddewon yn gaeth i ddydd Sul, ond drwy gymhathiad â'r Pasg Cristnogol, gellid credu mai ar y Sul y dihangodd yr Israeliaid o'r Aifft. Fodd bynnag, arall yw arfer y rhestrau yr ymdrinnir â hwy gan Lees.<sup>14</sup> Cyfeirir yn benodol yn y rheini at Dduw yn hollti'r Môr Coch er mwyn gadael i'r Israeliaid ddianc (Ecs xiv.21–2). Nid oes rheswm amlwg dros gysylltu'r digwyddiad hwn â'r Sul, ond gan mai dyna'r rhan o'r Ecsodus a geir yn y rhestrau eraill, dylid derbyn mai dyna sydd yng ngolwg Gruffudd yntau yma.

<sup>11</sup> Gw. *The Study of Liturgy*, ed. Cheslyn Jones *et al.* (London, 1978), 91, 100.

<sup>12</sup> Clare A. Lees, *art.cit.* 144, 147.

<sup>13</sup> *Ib.* 140.

<sup>14</sup> *Ib. passim.*

*Englyn 8 (llau. 29–32): Rhoi manna i'r Israeliaid*

Ecs xvi. Trafodir cysylltiad y digwyddiad hwn â'r Sul gan Lees,<sup>15</sup> ond nid ymddengys ei bod hi wedi amgyffred seiliau ysgrythurol y gred. Nid oes anhawster yma mewn gwirionedd. Gorchmynnir i'r Israeliaid gasglu manna am chwe diwrnod, gan ofalu eu bod yn casglu dwywaith cymaint ar y chweched diwrnod. Ni fydd unrhyw fanna yn syrthio o'r nef ar y seithfed, am mai'r Saboth ydyw (Ecs xvi.26). Gan mai dydd *Sadwrn* yw Saboth yr Iddewon, y mae'n dilyn yn anochel mai ar ddydd *Sul* y dechreuodd y manna syrthio o'r nef am y tro cyntaf. Y mae'r manna yn rhagdeip neu arwydd o Grist ac o fara'r offeren, gw. isod.

*Englyn 9 (llau. 33–6): Bwydo'r pum mil*

Math xiv.15–21; Marc vi.35–44; Luc ix.12–17; Io vi.5–14. Nid oes sail ysgrythurol dros roi'r wyrth ar ddydd Sul, ond cf. efallai Io vi.4 *Erat autem proximum pascha dies festus Iudaeorum* (BCN *Yr oedd y Pasg, gwyl yr Iddewon, yn ymyl*), a'r hyn a ddywedwyd uchod am gymathu Pasg yr Iddewon â'r Pasg Cristnogol.

Y mae'r wyrth hon yn arwydd o iachawdwriaeth, fel yr eglura Crist yn Io vi.30–5. Gofyn Ei ddisgyblion am gael bara o'r nef, fel y cafodd eu hynafiaid y manna yn yr anialwch (*Patres nostri manna manducaverunt in deserto sicut scriptum est / panem de caelo dedit eis manducare*). Ateb Crist yw mai Ef yw'r bara a anfonir atynt (*panis enim Dei est qui descendit de caelo et dat vitam mundo*). Ef yw bara'r bywyd: *ego sum panis vitae / qui veniet ad me non esuriet*. Y mae'r manna felly'n rhagdeip o'r bara hwn, sef Crist, a dyna sut y'i deellid yn gyson gan ddehonglwyr y Beibl. Efallai fod y cysylltiad teipolegol hwn yn esbonio paham y rhydd Gruffudd ap Maredudd y manna a gwyth y pum torth a'r ddau bysgodyn ynghyd.

*Englyn 10 (llau. 37–40): Arch Noa yn glanio ar dir sych*

Gen viii.4 *requievitque arca mense septimo vicesima septima die mensis super montes Armeniae* (BCN *Yn y seithfed mis, ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r mis, y glaniodd yr arch ar fynyddoedd Ararat*), ond nid oes awgrym yno mai ar ddydd Sul y bu hyn. Mewn rhai rhestrau sonnir yn benodol am Noa yn gadael yr arch (Gen viii.14–19).<sup>16</sup>

*Englyn 11 (llau. 41–4): Dydd y Farn*

Seilir hyn ar ddelwedd batristaidd yr 'wythfed dydd': crewyd y byd mewn saith diwrnod (sef o ddydd Sul hyd ddydd *Sadwrn*, y Saboth), a bydd yr wythfed diwrnod, sef y Sul eto, yn parhau am byth, oherwydd ar y diwrnod hwnnw y cododd Crist o'r meirw a chynnig iachawdwriaeth dragwyddol i

<sup>15</sup> *Ib. art.cit.* 140n49.

<sup>16</sup> Gw. DACL iv, col. 986.

ddynion.<sup>17</sup>

Un nodwedd ryfedd am gerdd Gruffudd ap Maredudd yw'r digwyddiadau nas crybwyllir ynddi, megis creu'r byd a'r Sulgwyn, dau ddigwyddiad o bwys cyffredinol mawr, sy'n ymddangos yn rheolaidd yn y rhestrau eraill ac y mae seiliau ysgrythurol cadarn dros eu cysylltu â'r Sul. Y mae o leiaf yn bosibl fod englyn neu ddau ar goll o'r testun, ond rhaid cadw mewn golwg fod elfen helaeth o fympwy yn perthyn i'r rhestrau hyn yn gyffredinol.

Y nodwedd arall y mae'n werth tynnu sylw ato yw moelni cyd-destun y rhestr yn yr englynion hyn. Mewn gwirionedd, y rhestr yw'r unig beth a geir yma, heb fod unrhyw anogaeth foesol uniongyrchol i gadw'r Sul trwy fynychu'r offeren a thrwy ymatal rhag gwaith amhriodol. Y mae hyn yn wahanol i'r rhestrau eraill sy'n tueddu i ddigwydd mewn homiliau neu yng nghanol y ddogfen ryfedd honno a elwir yn 'Ebostol y Sul'.<sup>18</sup> Yn sgil hyn, y mae'r gerdd yn ymddangos yn fwy o gerdd foliant afieithus i Dduw nag o ysbardun i ddefosiwn ar ddydd Sul. Fodd bynnag, gallwn fod yn sicr na fyddai goblygiadau defosiynol y gerdd heb eu hamgyffred gan ei chynull-eidfa.

Mesur: 11 englyn, yn englynion unodl union a phroest. Amrywia'r brifodl o'r naill un i'r llall.

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 245–9.

- 1 **duw Sul** Am y ffurf, gw. G 374–5 d.g. *diw*<sup>1</sup> a GPC 1151 d.g. *dyw*<sup>1</sup>. Nodir yn GPC fod grym adferfol i'r gair, a gwedda hynny i bob enghraifft yn y gerdd bresennol.

**Eurllyw byw** Cf. 3.123 *Eurllyw byw*. Efallai mai cyfansoddair o *glyw* ydyw yma.

**bwyaid** Llsg. *bybyeit*, a ddehonglir yn ll. *bywiad* 'creadur byw' yn G 87 d.g. *bywyat* ac yn GPC 369 d.g. *bywiad*, *-ad*, ond ni nodir enghraifft arall yn G a geiriadurol yw'r holl enghreifftiau eraill yn GPC; felly, dilynir awgrym petrus G a chysylltu'r ffurf yn hytrach â *bwyaid*. Hawdd gweld sut y gallai'r copiyydd lithro yn syth ar ôl ysgrifennu'r gair *byw*. Ceir *bwyaid* yn ddiamau yn 1.12 uchod ac am darddiad ac ystyr y gair, gw. GPC 357 (G 85). Nid yw'n sicr ai 'bendith' ynteu 'salm' yw'r ystyr yma a gellid 'dyrchafiad bendith' am *bwyaid*—*arwyrain*.

- 3 **yn rhaid** Tynnir sylw efallai at baradocs y Duw hollalluog yn ymddangos ar y ddaear fel baban diamddiffyn; neu sonnir am angen dynion

<sup>17</sup> Ceir esboniad ar y ddelwedd hon yn *ib.* col. 879–84.

<sup>18</sup> Llythyr yw hwn sy'n honni bod yn waith Crist ei hun, wedi disgyn o'r nef ar allor rhyw eglwys bwysig neu'i gilydd. Cynnwys amryw rybuddion yn erbyn torri'r Sul, gan grybwyll nifer o gosbedigaethau gwaedlyd a ddiodefir gan y sawl sy'n anwybyddu gorchmynion y llythyr. Ceir enghraifft Gym. yn LIA 157–9, ond fersiwn heb restr o ddigwyddiadau'r Sul ydyw hwnnw. Trafodir llythyrâu o'r fath gan Clare A. Lees, *art.cit.* 129–36.



am iachawdwriaeth, angen a ddygir ymaith gan yr ymgnawdoliad. Os yr ail, gellid hefyd y diweddariad *ein rhaid*.

- 6 **Proffwyd** Am Grist, cf. GCBM ii, 18.88; GBDd 3.5. Ceir y teitl mewn perthynas â Christ droeon yn yr Efengylau, e.e., Math xiii.57, xxi.11; Luc xxiv.19; Io iv.19.
- 7 **mal y'th eurwyd** Cymal canlyniad ar ôl *y'th fedyddiwyd* (ll. 5), yn ôl pob tebyg.
- 8 **gair** i. Gair Duw, y *logos*, Crist a genhedlwyd yng nghroth Mair (1.2n); ii. neges Gabriel wrth Fair; iii. ateb Mair i Gabriel, ei chydsyniad hi â'r cenhedliad gwyrthiol. Am gyfarchiad Gabriel, gw. y nodyn cefndir i gerdd 12.
- 9 **doethion** Posibilrwydd arall yw cyfansoddair *doeth + iôn*.
- 10 **Nasaredd** Cywasger yr ail sillaf, cf. 3.13n.
- 12 **gwyrthfawr** Cf. 1.23n.
- 14 **teg eiddun** Am *eiddun* yn e., cf. GGDT 1.9 *mawr eiddun—cadoedd* (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur). Os a. ydyw yma, gellir disgrifiad o Dduw fel '[Un] teg [a] dymunol'.
- 17 **addef** Posibilrwydd arall yw 'cydnabyddedig', gw. GPC 32 d.g. *addef*<sup>2</sup> (2).
- 21 **unrhin,—o gariad** Gellid hefyd hepgor y coma a diweddarau hyn yn 'o'r un rhinwedd o ran cariad'.
- 24 **gwaith** Llsgr. *weith weith* a ll. goch drwy'r ail. Ni nodir y cywiriad yn R.
- dwfr** Llsgr. *dyfwr*. Ceir y ffurf orgraffyddol hon eto yn RB 87 (ll. 10). Yn Llanstephan 6, 185 (cxii.22, 50) ceir *dyfwr vy ymborth difrif a bara dyfwr bwriad afryw*. Unsill yw *dyfwr* yn y ddwy l. hyn oherwydd collwyd sillaf o ddechrau'r llau., fel y dangosir yn *ib.*, cf. hefyd fersiwn golygedig y llau. yn GIRh 8.22, 52. Y mae'n unsill yn y ll. bresennol hefyd. Dichon mai ffrwyth trawsosod y llafariad yw'r ffurf *dyfwr* ac nad oes a wnelo â'r ffurf l. *dyfr*.
- 25 **Arglwydd rhwydd, Rhoddiad** Cf. 3.46.
- 29 **Alpha** E. ar Dduw, cf. 3.276n. Gellid ei ddeall yn ddibynnol ar *manna* yn hytrach na chyfarchiad.
- eilffawd** Ni chynigir ystyr ar gyfer yr enghraifft hon yn G 457 d.g. *eil*<sup>1</sup>, ond gthg. y dehongliad o'r gair yn GLIG 3.22 *Gwawr trywanfawr trin, Elffin eilffawd*, lle y cynigir 'llwyddiant tebyg i Elffin'. Byddai *Alpha eilffawd rên* 'Arglwydd tebyg ei lwyddiant i Dduw', am Foses felly, yn ramadegol bosibl, os yn annhebygol o ran ystyr. Yma, fodd bynnag, cymerir bod y bardd yn sôn am ddisgyniad y manna fel ail fendith Duw ar bobl Israel, ar ôl eu harwain yn ddiogel o'r Aifft.
- 32 **llên** Gair amwys ei ystyr, cf. 1.148n, 3.111n.

- 33 **heiddbal** Gair ansicr ei ystyr a geir eto yn IGE<sup>2</sup> 323 (llau. 7–10) *Ym mhwyth y dwfr, dilwfr dâl, / Byd hawddbwynt, a'r bwyd heiddbal, / A gymerth Beuno geimiad / Er duw, hollgyfoethawg Dad* (Rhys Goch Eryri). Bara haidd sydd dan sylw yn y ddau le, ond y mae arwyddocâd yr elfen *pâl* yn aneglur, gw. GPC 2670 d.g. *pâl*<sup>1</sup> a'r f. *palu*, *ib.* 2672. *Quinque panes hordiacos* (BCN *pum torth haidd*) oedd y pum torth yn ôl Io vi.9. Cynigir ‘?a wnaed o haidd a dyfwyd ar dir wedi ei balu’ yn GPC 1839 a ‘?haidd a driniwyd â rhaw neu drwy balu’ yn G 773 d.g. *heid*. Mwy tebygol yw fod y gair *heiddbal* yn cyfeirio at ryw bâl a ddefnyddir wrth dyfu haidd neu bobi bara.
- 35 **rhyborthes** Nid oes grym arbennig i'r gn. *rhy* yma, cf. GMW 166. ***meus Deus*** Llad. ‘fy Nuw’. Trinnir y ddau air yn unsill yma.
- 37 **Duwsul, goeth** Eg. yw *duw*, *Sul* a *Duwsul*, felly ni all yr a. oleddfu *Duwsul* yma. Cf. GBF 40(Atodiad).9 *Dyw Mawrth, coeth y doeth wr diwael—yng ngwawdd* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).  
**adeiliad** Dilynir G 8 d.g. *adeilyat* 1(b), cf. GPC 15 d.g. *adeilad*, *-iad*. Posibilrwydd arall yw ‘lluniedydd, gwneuthurwr’, yn gyfeiriad felly at Dduw.
- 39 **cawad** Am wahanol ystyron *cawad*, gw. G 117, hefyd GPC 443 d.g. *cawod*. Llai tebygol, efallai, yw cyfeiriad at y glaw a achosodd y dilyw.
- 40 **bodd reg** Rhodd a ddaeth drwy ewyllys da Duw, fe ddichon, neu ‘rhodd [i beri] bodlonrwydd’.  
**balch Noe** Am *balch* yn yr ystyr ‘arch’, gw. G 49 d.g. *balch*<sup>1</sup> a GPC 251 d.g. *balch*<sup>2</sup>; cf. GCBM ii, 16.184n.
- 44 **brwydrddydd Brawd** Un gair yw *brwydrddydd* yn y llsg. ond gellid *Duwsul y bydd brwydr dydd Brawd* gyda chynghanedd sain gadwynog. Eto, am y cyfansoddair *brwydrddydd* mewn perthynas â'r Farn Olaf, cf. Bl B XIV 155 (73.40) *Caffwyf gerennydd cyn brwydrddydd Brawd* (Madog Dwygraig).

## 5

Nod y gerdd fer hon yw ysgogi teimladau o euogrwydd a chariad tuag at Grist. Taerir ei bod yn ddyletsywydd arnom ddwyn i gof aberth Crist drosom ar y Groes cyn inni farw, oherwydd ar Ddydd y Farn bydd Crist yn ymddangos eto yn yr union un dull dioddefus ac y bu ar y dydd Gwener y'i croeshoeliwyd, er mwyn ein cyhuddo o'i gam-drin. Codir yno gywilydd ar yr hil ddynol am yr hyn a wnaethant. Yn wyneb hyn oll, rhyfedda'r bardd wrth weld nad yw pobl yn addoli delw Crist fel y dylent. Y mae'r gerdd yn enghraifft loyw o'r pwyslais ar ysgogi ymateb emosiynol (*compunctio*) i'r dioddefaint sy'n nodweddiadol o gelf a llên yr Oesoedd Canol Diweddar

ledled gorllewin Ewrop. Disgrifia Rosemary Woolf sut y defnyddid y croeshoeliad fel testun myfyrdod: 'meditation on the Passion brings tears to the eye and sweetness to the heart: the meditator grieves and loves ... man's proper response to Christ's work in the Redemption is a response of love.'<sup>1</sup> Dyma yn union yw golygwedd y gerdd Gymraeg hon hithau.

Dehonglir *delw* yn ll. 13 yn gyfeiriad at olwg Crist Ei hun ar Ddydd y Farn a'r synnwyr yn gorlifo o'r ll. flaenorol, ond gall hefyd fod y bardd yn tynnu sylw at ddelw luniedig. Yn sicr, awgryma llinellau 14 a 17–18 yn gryf fod a wnelom â delw mewn eglwys yma.

Mesur: tri englyn unodl union a phennill proest o chwe llinell. Prifodlau'r englynion unodl union: *-al*, yna *-au* ddwywaith.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 250–2.

- 1 **dylyem (pwyllem ...** Cymerir mai *dylyem* yw'r brif f. yma a bod *pwyllem* a gweddill llau. 1–2 yn sangiad. *Dyfod* yn ll. 3 yw gwrth. *dylyem*: dywedir bod arnom ddyled i ddwyn i gof ddiodeffaint Crist. Posibilrwydd arall yw atalnodi hyn yn *dylyem*, *pwyllem*, gan ddehongli *pwyllem* fel y brif f. a chymryd nad oes gwrth. i gyflawni synnwyr *dylyem*. Am gystrawen doredig gyffelyb, cf. 3.10n *Na fydd, na feddwl fy ngomedd*. *Dyfod* eto fyddai gwrth. *pwyllem*, a'r ergyd fyddai y dylem feddwl (*pwyllo*) am y ffaith fod diodeffaint Crist yn neidio i'r meddwl. (Cymerir bod grym eiddunol neu orchmynnol i'r f.ddeb., gw. GMW 113.) Posibilrwydd arall yw cymryd *angau* (ll. 2) yn wrth. *dylyem*: angau yw'r ddyled y mae rhaid inni ei thalu. Ond eto, disgwyliod y ffurf 1 ll. pres.myn. *dylywn*.
  - 2 **ffrwyth yr afal** Yn ôl y gred Gristnogol, y mae marwolaeth yn ganlyniad i'r cwmp, gw. Gen iii.19; Rhuf v.12.
  - 3 **dyfod** Fe'i cymerir yn wrth. *dylyem*. Y gystrawen yw *dylyem ... [d]dyfod i'n cof ... y tâl*. Caniatâ orgraff y llsg. hefyd *Dy fod*, ond y mae'n anodd cael synnwyr felly: ai *dylyem ... Dy fod i'n cof* 'Hawllir oddi wrthym Dy bresenoldeb Di yn ein cof' neu *pwyllem ... Dy fod ... i'n cof* 'meddyliem am [y ffaith] Dy fod yn ein cof'? Gw. y nodyn nesaf.
- i'n** Yr ardd. *i* + rh.m.gen. 1 ll., yn ôl y dehongliad a ddilyniir yn y testun a'r aralleiriad. Cynigir deongliadau eraill yn y nodyn blaenorol. Gofyn y rhain am gymryd *i'n* (llsg. *yn*) yn gyfuniad o'r ardd. Cym.C. *y* (= *i*, 'yn') a'r rh.m.gen. 1 ll. Mewn cyfuniad â'r rh.m.gen. 1 un. ac 2 un. yn unig y ceir yr ardd. hwn yn ôl GMW 199, ond am enghraifft gyda'r rh.m.gen. 1 ll., gw. GCBM ii, 5.79.
- drwy ofal** Am ystyr *drwy* yma, cf. 3.112n.
- 4 **ceraint Duw goron** Cymerir *ceraint* mewn cyfosodiad â'r rh.m.gen. 1

<sup>1</sup> ERLMA 21. Gw. hefyd uchod 3.50n.

ll. yn ll. 3. Yr ydym ni yn berthnasau i Dduw i'r graddau y cymodwn ag Ef.

**Duw** Llsg. *du6* a nod dileu yn inc y prif destun dan y *d*. Ychwanegwyd *t* uwchben mewn inc goleuach. Y mae'r cywiriad yn dangos calediad *t + d* yn *t* ar gyfer cynganeddu â *tâl*.

- 9 **(na faddau!)—'n y gwnawn** Yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 250 cynigir diwygio *ny g6na6n* y llsg. yn *ny gawn* neu *ny wnawn*, gan aralleirio 'os na wnawn faddau [am ein pechodau].' Ni ellir derbyn hyn oherwydd y treigladd yn *faddau*. Treiglir *m* yn feddal ar ôl y gn. *na* yn cyflwyno cymal enwol neu'n rhagflaenu bf. yn y modd grch., ond nid ar ôl y cys. *na* (S. 'nor'). Cymerir *maddau* yn hytrach yn ffurf 2 un.grch. a'i gwrth. yn ddealliedig. Nid oes rhaid diwygio *ny g6na6n* ychwaith os dehonglwn '*n y yn gywasgiad o yn y 'yn y lle y'*. Cyflenwir synnwyr *gwnawn* gan y be. *gweled* yn ll. 11. Y mae'n wir y byddai'r gynghanedd rhwng y gair cyrch a dechrau'r ll. nesaf ar ei hennill pe diwygid *gwnawn* yn *wnawn*, ond y mae cyfatebiaeth rhwng *gwnawn* ac yn *enw*.
- 10 **enw** I'w gymryd yn ddeusill yma er mwyn hyd y ll.
- 11–12 **Gweled cur a doluriau / Ddyddbrawd** Cf. 3.121n.
- 13 Cymerir bod y synnwyr yn rhedeg ymlaen o l. 12, ond nid yw hynny'n angenrheidiol a gellid rhoi atalnod llawn ar ddiwedd ll. 12.  
**a'th ddelw â'th ddwylo** Llsg. *athel6 athwyla6*, a'r orgraff yn dangos calediad (nid tebyg *a'th elw a'th wyllo*).
- 15 **gwryd** Gair ac iddo ystyr ddwbl y mae'r beirdd yn hoff o'i ddefnyddio mewn perthynas â'r croeshoeliad. Dynoda hyd eithaf y breichiau wedi eu hestyn (*gŵr + hyd*), ond hefyd 'dewrder, gwroldeb' (*gŵr + -yd*). Cf. GIBH 12.1n; Eurys Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982–3), 5–6.
- 16 **bedd mud** Sonnir am gladdu Crist wedi iddo farw.
- 18 **pam na wnawn** Nid oes gwrth. amlwg yn y ll. felly cymerir fod *gwnawn* yn cyfeirio'n ôl at *pam nad addolid* yn ll. 14.

## 6

Ceir yr englyn hwn ar frig colofn 1330 yn Llyfr Coch Hergest, sef yr ail golofn ar f. 332<sup>r</sup>. Gwaith Gruffudd ap Maredudd sydd yng ngholofn 1329, sef diwedd GGMD iii, cerdd 3, a hynny yn llaw Hywel Fychan, prif gopiyyd y llawysgrif. Y mae lle i gredu bod Hywel wedi gadael gweddill y plyg, sef gweddill colofn 1329 a cholofnau 1330–4, yn wag, hyd at golofnau 1335–6, sef y tudalen olaf (334<sup>v</sup>), lle y copiodd ganu dychan Gruffudd ap Maredudd. Llaw C a fu'n gyfrifol am yr hyn a saif yn y bwlech rhwng gwaith copio

Hywel Fychan yng ngholofn 1329 a cholofn 1335.<sup>1</sup> Yng ngholofn 1329, ar ôl y testun a gopiasai Hywel Fychan, cofnododd llaw C gerdd grefyddol a olygir isod (cerdd 12), heb bennawd.<sup>2</sup> Cymerir mai gwaith Gruffudd ap Maredudd yw hon gan na nodir yn wahanol yn y llawysgrif. Gadawyd gweddill y golofn, sef bwlch sylweddol, yn wag. Yr englyn presennol a ddaw nesaf, yn llaw C, ar frig y golofn nesaf, eto heb bennawd.<sup>3</sup> Ar ei ôl, ac yn yr un llinell â geiriau olaf yr englyn, ceir y nodyn *dd' y koet* mewn ysgrifen fân ac yna llinell wag. Cymer Daniel Huws fod y teitl hwn yn cyfeirio ymlaen at y testun sy'n dilyn,<sup>4</sup> ac y bwriadwyd ef yn ganllaw i'r copïydd a amcanai roi teitl lliw yn y bwlch rhwng yr englyn a'r testun nesaf. Ni ddigwyddodd hyn, fodd bynnag. Dilynwyd barn Daniel Huws yn GDC a golygu'r testun a ddaw ar ôl yr englyn yn waith Dafydd y Coed.<sup>5</sup> Yn dilyn y testun hwnnw ceir yn y Llyfr Coch ragor o ganu Gruffudd ap Maredudd yn llaw C,<sup>6</sup> y tro hwn gyda phennawd yn priodoli'r deunydd i'n bardd (gw. cerdd 7 isod).

Nid oes, felly, unrhyw brawf terfynol fod yr englyn hwn yn eiddo Gruffudd ap Maredudd. Ar y llaw arall, fe'i copïwyd ar ôl swmp helaeth o waith y bardd hwnnw, ac yn wyneb hynny y peth gorau yw ei olygu yma, ond gan nodi nad yw ei awduraeth y tu hwnt i amheuaeth.

Englyn yn moli Crist fel Creawdwr y byd ydyw hwn. Defnyddir nifer o gyfuniadau geiriol a syniadol traddodiadol, er enghraifft, *gwyllt* a *gwâr*, *gwellt* a *gwydd*, *nos* a *dydd*, *haul* a *lleuad* a'r pedair elfen. Soniwyd uchod (3.264n) am swyddogaeth y Mab yn y Creu, ond bydd yn werth ymhelaethu ychydig yma. Yr arfer mwyaf cyffredin yw meddwl am y Tad yn bennaf mewn perthynas â'r Creu, cf. y Credoau: *Credo in Deum patrem omnipotentem, creatorem caeli et terrae* 'Credaf yn Nuw'r hollalluog Dad, Creawdwr y nef a'r ddaear' (Credo'r Apostolion);<sup>7</sup> *Credo in unum Deum, patrem omnipotentem, factorem caeli et terrae, visibilium omnium et invisibilium* 'Credaf yn un Duw, Tad Hollalluog, gwneuthurwr nef a daear a phopeth gweledig ac anweledig' (Credo Nicaea).<sup>8</sup> Fodd bynnag, *Gair Duw* yw offeryn y Creu, cf. Gen i.3 *dixitque Deus / fiat lux et facta est lux* (BCN *A dywedodd Duw, 'Bydded goleuni'. A bu goleuni.*); hefyd gweddill Gen i. Fel y dywedir yn Io i.1–3, *In principio erat Verbum / et Verbum erat apud*

<sup>1</sup> Gw. Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', CyT 6; gwahaniaetha Huws yno rhwng dwy law ar f. 332', a cilw ef yn llaw C a llaw Ch, gan ddilyn felly G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 246–56 sy'n sôn am 'Pen 32 hand' (= 'llaw C' Huws) a 'type Pen 32 hand' (= 'Llaw Ch' Huws). Fodd bynnag, dadleua Huws yn *art.cit.* 12 fod y ddwy law hyn i'w huniaethu â'i gilydd; felly, anwybyddir y gwahaniaeth yma.

<sup>2</sup> Neu law Ch os mynnir cadw llawiau C ac Ch ar wahân, gw. y n. blaenorol.

<sup>3</sup> H.y., llaw C ac nid llaw Ch os cedwir y rhain ar wahân.

<sup>4</sup> Gw. *art.cit.* 28.

<sup>5</sup> GDC cerdd 6; gw. hefyd *ib.* 8.

<sup>6</sup> Llaw C, nid Ch, cf. n1.

<sup>7</sup> J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third ed., London, 1964), 369).

<sup>8</sup> Gw. J. Harper, *The Forms and Orders of Western Liturgy from the Tenth to the Eighteenth Century: A Historical Introduction and Guide for Students and Musicians* (Oxford, 1991), 266.

*Deum / et Deus erat Verbum / hoc erat in principio apud Deum / omnia per ipsum facta sunt / et sine ipso factum est nihil* (BCN *Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebdo ef ni ddaeth un dim i fod.*). Ond Crist yw'r Gair hwnnw: Io i.14 *Et Verbum caro factum est et habitavit in nobis* (BCN *A daeth y gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith*). Bu Ef yn y byd a grewyd drwy Ei gyfrwng Ef, ond nis adnabuwyd Ef gan y byd hwnnw (Io i.10 *in mundo erat et mundus per ipsum factus est / et mundus eum non cognovit.*). Ymgorfforwyd y syniad yng Nghredo Nicaea, lle y dywedir am Grist: *per quem omnia facta sunt* ('yr hwn y gwnaed popeth drwyddo', gw. Harper, *l.c.*). Yr athrawiaeth gymhleth hon, athrawiaeth y *logos* (Gr. = 'gair') sydd wrth wraidd honiad Gruffudd ap Maredudd mai *un Mab Maria* a wnaeth y byd.<sup>9</sup>

Mesur: englyn unodl union ar y brifodl -a. Nid oes modd gwybod ai cerdd gyfan ynteu dryll ydyw.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 256–8.

- 1 **tân, awyr ... , llawr** Tair o'r pedair elfen: enwir y bedwaredd, *dwfr*, yn ll. 3.

**awyr llwyr** Cf. 3.57.

**daearfa** Gw. G 286, GPC 876. Nid ymddengys fod yr ystyr yma'n wahanol i'r gair syml *daear*.

- 4 **Gwyllt, gwâr, gwellt, gwŷdd, nos, dydd da** Am y cyfuniadau hyn ac eraill cyffelyb, gw. Barry J. Lewis, 'Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd', LICy xxiv (2001), 33–51.

**da** Ceir sawl posibilrwydd yn ogystal â 'daioni', megis 'budd, lles', 'gwartheg' neu a. yn goleddfu *dydd*, gw. G 284 d.g. *da*<sup>1</sup> a GPC 866–7.

## 7

Ceir yr englynion hyn yng ngholofnau 1330–1 o Lyfr Coch Hergest. Mawl i Dduw yw eu cynnwys, ynghyd â pheth moesoli ynghylch marwolaeth. Adeiledir y pedwar englyn cyntaf (llau. 1–16) ar y syniad nad oes gwir arglwydd ond Duw, a'r cymeriad geiriol cryf ar y gair *nid* yn cryfhau'r neges. Ar nawdd Duw y mae llygad y bardd, fel y dengys y mynych gyfeiriadau at haelioni (e.e. llau. 4, 7, 9, ac 11). Yn wahanol i lysoedd arglwyddi bydol, y mae'r nef yn noddfa dragwyddol, fel y pwysleisir yn y ddau englyn nesaf (llau. 17–24). Yna daw tri englyn am yr ymgrawdoliad (llau. 25–36) a'r cymeriad geiriol ar *credaf* a *credwn* yn dwyn i gof y credoau. Er nad yw sylwedd yr englynion yn adleisio unrhyw un o'r credoau enwog, y mae agwedd y bardd yn gredoaid yma. Datgana ei ymlyniad wrth rai o gredau

<sup>9</sup> Am ragor o fanylion, gw. ODCC<sup>3</sup>992–3 d.g. *logos*.

mwyaf sylfaenol ei grefydd, sef fod Crist yn Dduw ac yn ddyn (ll. 36) a'i fod wedi Ei eni o forwyn, a hithau'n forwyn cyn hynny ac wedi esgor arno (llau. 28, 32). Ar ben hynny crybwyllir hefyd y Drindod (ll. 37) ac yna cadarnheir eto ffydd y bardd yn effeithlonrwydd y waredigaeth a gynigir gan y geni morwynol (llau. 37–40). Yn yr englyn nesaf (llau. 41–4) dychwel Gruffudd at sylwedd yr englynion cyntaf: nid oes arglwydd ond Duw.

Y mae gweddill y gerdd yn ymwneud â marwolaeth a barn. Ar Ddydd y Farn bydd brenhinoedd secwlar yn plygu glin gerbron Brenin y nef (llau. 45–8). Y mae'n iawn fod dynion yn marw ac yn wynebu barn, oherwydd bod Crist wedi talu pris eu prynedigaeth ar y Groes (llau. 49–56). Gwae'r sawl sy'n gwrthod derbyn y weithred aruthrol hon o haelioni (llau. 57–68). Cloir y gerdd ag englyn yn crynhoi'r neges: nid oes angen galaru am y meirw, oherwydd Duw sydd wedi eu gwysio ato Ef Ei hun. Y mae'n werth cymharu'r diweddglo llym ddiwinyddol hwn â realiti marwnadau'r bardd (e.e. GGMD i, 1, 3, 6 a 7; GGMD iii 2 a 5). Go brin fod Gruffudd yn araf i fynegi ei alar yn y cerddi eithriadol o ddagreuol a bloeddgar hyn. Tybed a ddatganwyd y gerdd hon ar achlysur marwolaeth rhywun, yn wrthbwys crefyddol o ryw fath i eithafiaeth y galar a fynegwyd yn y marwnadau ac yr oedd *genre* y farwnad yn gofyn amdani?<sup>1</sup>

Mesur: 18 o englynion unodl union ac englynion proest. Nid oes prifodl.

Golygwyd y gerdd hon o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 259–64.

1–16 Cyfres o gymalau yn dechrau â *nid* a geir yn y llau. hyn. Y drefn arferol mewn brawddeg enwol neg. yw *nid* + dibeniad + goddr., fel a welir yn ll. 12 *nid cadarn neb*. Yng ngweddill y cymalau hyn, fodd bynnag, nid yw mor hawdd gweld y goddr. Cymerir gan hynny fod rhyw oddr. megis *neb* i'w ddeall o flaen *namyn Duw* (ll. 2), *eithr Ef* (ll. 4), *eithr Mab Mair* (ll. 8) ac *onid Un* (ll. 16). Ar yr olwg gyntaf, byddai'n haws aralleirio *nid* yn 'nid oes' yma, ond ni welwyd enghreifftiau eraill lle y mae *nid* yn ymgorffori ystyr *bod* 'bodolaeth' (S. 'substantive verb'), felly y mae'n rhaid cymryd mai brawddegau enwol yw'r rhain.

2 Ll. hir o sillaf, cf. 3.160n. Pe mynnid diwygio, gellid hepgor *mawl*.

7 **Cadair** Gair amwys, cf. G 90 a GPC 375. Gellid hefyd *ced cadair* 'rhodd [o'r] orsedd'.

8 **pebr** Llsg. *pebyr*. Nodir *pebyr* yn amrywiad ar *pybyr* 'bywiog, eiddgar, selog, brwd, tanbaid; grymus, cryf, cadarn ... gwyh, ysblennydd, gloyw ...' yn GPC 2958 d.g. *pybyr*<sup>2</sup>, ond gan awgrymu hefyd y gallai rhai enghreifftiau ohono fod yn amrywiadau ar *pefr*, gw. *ib*. 'gloyw, disglair, llachar, golau, amlwg, teg, hardd, pur'. Ymddengys

<sup>1</sup> Ar y tyndra rhwng agwedd Gristnogol tuag at farwolaeth ac eithafiaeth y farwnad, gw. Barry J. Lewis, 'Trafod Barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y Traddodiad Mawl a Chrefydd', *Dwned*, viii (2002), 17–21.

mai unsill yw'r gair yma, awgrym mai ffurf ar *pefr* ydyw yn hytrach na *pybyr*, onid yw'n ffrwyth cymysgu'r ddau air, yn enwedig o gofio bod ystyron *pybyr* a *pefr* yn cyd-fynd i raddau. Cf. hefyd PKM 286.

- 9 **Nid hael herwydd pwyll a'm tyf** Neu 'Nid gŵr hael a bair imi ffynnu yn [fy] marn [i].'
- 11 Neu hepgor y coma ar ôl *cedol* ac aralleirio 'Nid arglwydd nefol arswydus [a] hael'.
- 12 **Nid cadarn neb, Cadair nef** Teimlai rhyw ddarllenwydd o gyfnod diweddarach na chopiwyd y Llyfr Coch fod y synnwyr yn anghyflawn ac ychwanegu *eithr* rhwng *neb* a *kadeir* yn y llsg. Ni pherthyn unrhyw awdurdod i'r diwygiad a gwna'r ll. yn rhy hir. Ond yr oedd y diwygiwr yn gywir wrth dybied nad yw'r synnwyr yn gyflawn yma. Y mae rhaid cymryd bod y frawddeg yn ymestyn hyd at ddiwedd yr englyn nesaf.
- 15 **nid** Llsg. *nyt*; camgymeriad yw *dyt* yn R.
- 16 **byd onid** Am yr odl, cf. 3.81n.
- 19–20 **Heb na diwedd ... / Na dechrau** Cf. 3.68n, 3.110n.
- 21 **Gwnaeth wledd hedd diwedd Duw byw—goruchaf** Ceir yma enghraifft o frawddeg ac iddi'r drefn bf. + gwrth. + goddr.: 'Gwnaeth y Duw byw goruchaf wledd [o] heddwch [ar gyfer] diwedd [dynion]'. O ystyried y cyd-destun, y mae'n demtasiwn diwygio *hed* y llsg. yn *heb*, cf. llau. 19–20 a llau. 23–4; ond ceir synnwyr digonol yn y ll. fel y saif. Hefyd, byddai angen treiglo *Duw* yn feddal er mwyn y gynghanedd (*wledd heb ddiwedd Dduw*) ac yn ôl Treigladau 227 ni threiglir y goddr. mewn brawddegau o'r fath.
- gwledd** Am y ddelwedd hon, cf. 1.10n, 3.37n.
- 26 **Teŷrngrair** Llsg. *deyrn* / *greir*; felly, gallai fod yn gyfansoddair clwm neu'n ddau air annibynnol.
- 30 **o'r Gair heb gyd** Cf. 8.23 ac 11.11.
- 32 **Yn wry pan ddoeth ynn wared** Mynegir yma gred yr Oesoedd Canol fod Mair yn wryf neu'n ddiwair *in partu*, h.y. nid amharodd genedig-aeth Crist ar ei gwryfydod hi, gw. J. Cartwright: ForF 43–50.
- 34 **coeth gynnif** Credid na fu i Fair ddiodef gwewyr esgor, gw. J. Cartwright: ForF 44; GIG 140 (XXXI.38) *Heb boen yn esgor pôr perffeithles*.
- 37 **nef** Y mae bellach yn annarllenadwy yn y llsg.; felly, dilynir R.
- 39–40 **cnawd ... / O'r wry deg** Mair yw ffynhonnell *cnawd* Crist, h.y., Ei ddyndod Ef, cf. Credo Athanasius *homo est ex substantia matris* 'y mae'n ddyn o sylwedd Ei fam', J.N.D. Kelly, *The Athanasian Creed* (London, 1964), 19.
- 41–4 Nid yw cystrawen yr englyn hwn yn eglur. Cymerir mai'r brif



- frawddeg yw *Ni bu, nid oes ... Ni bydd ... brenin eithr Ef*; mai sangiad neu ddau sangiad yw *bodd ufydd Beryf, / Breiniol Ei dyddyn cyn cof*; a bod angen cydio *bron a thraed wrth Groes greulif*, er bod cymaint o eiriau eraill rhyngddynt hwy. Nodweddir llawer o englynion Gruffudd ap Maredudd gan dorymadroddi o'r fath, cf., e.e., GGMD i, cerdd 7.
- 43 **tyddyn** Y nef, cf. 1.64n *tyddyn llwyth plant Addaf*.
- 45 **plas** GPC 2819 (a) 'palas, plasty, maenordy, neuadd, llys', (b) 'man, mangre'. Yr ail sydd fwyaf tebygol yma, yn cyfeirio at y lle y cynhelir y Farn Olaf.
- 48 **Iôn** Llsgr. *ior*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, ac nid effeithir ar yr ystyr.
- 49 **arfoll** G 39 fel eg. 'llw, cytundeb, cymod' ac fel ba. 'derbyn'; cf. hefyd GPC 195. Gwedda'r ddwy ystyr yn burion yma.
- 53–6 Dywedir nad yw'n iawn teimlo'n anniddig tuag at Dduw am bennu terfyn i einioes dyn pan fydd angen iddo ateb dros yr hyn a wnaeth yn ystod ei fywyd. Duw yw ffynhonnell bywyd ac y mae hawl ganddo i ddal yr hil ddynol yn gyfrifol am eu defnydd o'r rhodd hon a gawsant trwy Ei ewyllys Ef a heb ei haeddu.
- 53 **hael ddydd** Un gair yn y llsgr. ond fe'i rhannwyd yn ddau â ll. fain. Y mae'r gynghanedd sain (*cael ... hael ... holer*) a'r ystyr yn mynnu bod dau air yma.
- 57–60 Prif frawddeg yr englyn yw *Nid teilwng ... telaid / Trwy warafun ... / ... [g]werth Dy waed*. Cyfarchiadau i Dduw yw *Arglwydd, Dôr y nef, Dâr nen a Pên berth*, a sangiadau yw *Tri Un wyd! a dyro ynn oed!*
- 57 **Nid teilwng, Arglwydd, telaid** Ceir brawddeg enwol neg. yma. Y dibeniad yw *teilwng*, ac yn betrus cymerir mai *telaid* yw'r goddr. a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n enwol, cf. GPC 3472 d.g. *telaid*<sup>2</sup> lle y nodir iddo ddigwydd yn eg. '(person neu beth) teg, hardd neu ragorol'. Gall hefyd mai *arglwydd telaid* yw'r goddr., heb newid ryw lawer ar ergyd yr englyn: nid yw person neu arglwydd teg yn dod yn deilwng drwy wrthod prynedigaeth Crist (*werth Dy waed*, ll. 60). Yr un, felly, yw ystyr yr englyn hwn a'r un nesaf. Mwy naturiol, ar un olwg, fyddai cymryd *Arglwydd telaid* yn gyfarchiad i Dduw, ond beth wedyn fyddai'r goddr.? Gellid, efallai, *Nid teilwng ... Trwy warafun ... Dôr y nef ... werth Dy waed* 'Nid yw pris Dy waed yn deilwng drwy wrthod Amddiffynnydd y nef': h.y., y mae cyndynrwydd dynion i dderbyn gras Duw yn sarhad ar y brynedigaeth. Eto, golygai hynny fod goddr. dealedig y be. *gwarafun* yn wahanol i eiddo'r frawddeg ei hun, sy'n taro'n chwithig.
- 59 **dyro ynn oed!** Cf. 3.129–30 *Oeda ni, fy Rhi, rhiniau—tystoliaeth, / Rhag tost ddolur angau!*
- 61–4 Naturiol fyddai cymryd *I duedd nef a daear* gyda *gwarafun*, ond nid

yw ‘gwrthod i ardal nef a daear Ei daliad prynedigol’ yn gwneud synnwyr: sut y gallai dyn rwystro gras Duw rhag effeithio ar bawb? Gwell, gan hynny, yw cymryd bod *I duedd nef a daear* i’w ddeall gydag *Ei bridwerth*. Ergyd yr englyn, felly, yw mai cywilydd yw i ddyn wrthod taliad prynedigol Crist a gynigiwyd *I duedd nef a daear* ‘I barthau[’r] nef a[’r] ddaear’, h.y. i’r byd cyfan.

65–6 **Dybryd oedd ei fyd a faeth—gwarafun / O’i wir ufydd Bennaeth** Yn sgil yr englyn blaenorol cymerir mai dyn sy’n magu gwrthodiad tuag at Dduw (*o’i* felly = ‘i’w’), ond yr un mor bosibl yw ‘Erchyll ei fyd oedd un a ysgogodd wrthodiad / Gan ei Bennaeth gwir ewyllysgar.’ A sonnir am unigolyn penodol yma? Os felly, Jwdas yw’r ymgeisydd amlwg.

**o’i wir** Llsgr. *oegbir*. Y mae angen treigladd meddal yma ar ôl y rh.m.gen. 3 un.g. Nid yw *o’i gwir* neu *o’u gwir* yn debygol gan nad oes rhagflaenydd amlwg i’r naill na’r llall. Efallai mai’r cyseinnedd â’r gair cyrch *gwarafun* a barodd i’r copïydd faglu yma, ond y mae *gwarafun / o’i wir ufydd* yn rhoi cyseinnedd digonol.

67 **mamaeth** GPC 2333 ‘gwraig sy’n meithrin neu’n magu plentyn gwraig arall, mam; gweinyddes, nyrs’. Defnyddir *mamaeth* droeon am Fair gan y beirdd, cf. IGE<sup>2</sup> 96 (llau. 11–14) *Yr un modd, iawnrhodd anrheg, / Y daeth Duw at famaeth deg, / Gorau mam, gorau mamaeth, / Gorau i nef y gŵr a wnaeth* (dienw); GHS 21.55–6 *Pan aeth y famaeth wen fain / I’r deml i draethu’r damwain* (Hywel Swrddwal); GPhE 5.28n *Aur i’w fam a thus i’r wyrff famaeth wen* (Syr Phylib Emllyn). Y mae’n aneglur beth yw’r union wahaniaeth rhwng *mam* a *mamaeth* yma, ac fel y noda Paul Bryant-Quinn (GPhE 5.28n), ystyrid Mair yn fam lythrennol Crist. Y mae hynny’n eglur, e.e., yn llau. 39–40n uchod, hefyd yn IGE<sup>2</sup> 96 (ll. 14) *y gŵr a wnaeth*, ac y mae’n bwynt o bwys diwinyddol mawr, cf. llau. 39–40n uchod. Gan hynny, gwell cymryd mai amrywiad ar *mam* yw *mamaeth* yma.

69–72 Ergyd yr englyn olaf yw na raid ochneidio neu gwyno am i Dduw ddwyn dynion ato (trwy farwolaeth). Wedi’r cyfan, y mae Ef wedi talu amdanynt, ac Ef biau hwy felly.

70 **breiniol** Llsgr. *brennyaöf*. Diwygir er mwyn yr ystyr, gan ddilyn G 74 d.g. *breinyawl*.

71 **(Neud trafyn Bedr bab Mab Morwyn)** Sangiad. Am Bedr, cf. 3.4n. Gelwir ef yn *trafyn* yma oherwydd iddo gael ei ddewis yn bennaeth ar yr apostolion a’r eglwys ifanc gan Grist, gw. Math xvi.17–18.

Cymerwyd y teitl ‘Englynion Gwynedd’ o Lyfr Coch Hergest, lle y digwydd y gyfres fer hon o englynion yng ngholofn 1331. Gweddi ydyw ar Dduw, yn

ymbil arno i atal y Pla Du rhag difa Gwynedd. Ni fanylir am natur y pla a grybwyllir (ll. 11), ac y mae'n bosibl, felly, nad pla llythrennol a olygir ond rhyw anffawd arall. Yn sicr, yr oedd y beirdd yn defnyddio'r gair *pla* yn ffigurol ar adegau. Fodd bynnag, ofna Gruffudd y bydd y pla hwn yn ymosod ar *bobl* Gwynedd yn benodol (ll. 11), gan adael y tir yn wag (llau. 2, 8, 14). Ystyr *ffridd* (ll. 2) ac *asêd* (ll. 8) yw na fydd deiliaid i drin y tir, ac y mae hynny'n awgrymu marwolaeth y boblogaeth. Y dehongliad rhesymol o'r englynion hyn, felly, yw eu bod yn cyfeirio at y Pla Du a ymledodd dros Ewrop yn ystod oes Gruffudd ap Maredudd.

Daeth y Pla Du o Asia Ganol, gan ysgubo dros Ewrop gyfan a lladd o leiaf draean o'r boblogaeth. Cyrhaeddodd arfordir de Lloegr yn 1348, ac oddi yno ymledodd yn gyflym dros yr ynysoedd i gyd.<sup>1</sup> Erbyn canol 1349 yr oedd yng Ngwynedd.<sup>2</sup> Rhydd dogfennau gweinyddol a ysgrifennwyd ychydig amser ar ôl yr haint ryw gip ar yr effeithiau, yn enwedig Stent Môn ac Arfon o 1352. Yr oedd llawer o dir yn dal heb ddeiliaid, hyd yn oed ddwy flynedd ar ôl i'r haint gilio, ac y mae'n amlwg fod y boblogaeth wedi gostwng yn sylweddol iawn.<sup>3</sup> Y dyddiad mwyaf tebygol ar gyfer y gyfres hon, a chymryd mai ymweliad cyntaf y Pla Du a'i hysgogodd, yw rhywbryd yn gynnar yn 1349 neu hyd yn oed yn 1348, yr amser ofnadwy pan ymledai'r haint ar draws Prydain a phawb yn disgwyl iddi gyrraedd eu cymuned hwy. Eto, dychwelodd y pla i Brydain yn 1361–2, 1368–9, 1371, 1375, 1390 a 1405;<sup>4</sup> felly, rhaid ystyried hefyd y posibilrwydd mai i un o'r ymweliadau hyn y perthyn y gerdd.

Y mae'r englynion hyn yn eithriadol mysg cerddi crefyddol y bardd am fod modd eu cysylltu â digwyddiad allanol amlwg. Ymetyb y bardd i'r dychryn drwy ymbil yn ddwys ar ran ei wlad a'i phobl. Nid yw'r strwythur yn llinellol; yn hytrach, y mae pob englyn yn amrywiad ar thema'r gerdd, techneg sy'n gyfarwydd inni eisoes (cf., e.e., yr englynion yng ngherdd 1).

Mesur: englynion unodl union ac englynion proest. Nid oes prifodl.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Tomos Roberts, 'Englynion Gwynedd gan Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1982, 123–7; yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 265–7; ac yn Bl B XIV 140–1.

## 2 Ddaear ffraeth, yn dduoer ffridd Byddai Ddaear ffraeth, yn du [*< tu*] oer ffridd 'Tir ffrwythlon, yn ardal oer [ac] anial' yn rhoi gwell

<sup>1</sup> Am ymdriniaeth gyffredinol â'r Pla, gw. Philip Ziegler, *The Black Death* (Harmondsworth, 1970).

<sup>2</sup> A.D. Carr, 'The Black Death in Caernarfonshire', TCHSG lxi (2000), 10.

<sup>3</sup> Am y dystiolaeth ar gyfer sir Fôn, gw. MAng 303–9; Tomos Roberts, 'Englynion Gwynedd gan Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1982, 123–7; cf. hefyd A.D. Carr, *art.cit.* a William Rees, 'The Black Death in Wales', *Essays in Medieval History Selected from the Transactions of the Royal Historical Society on the Occasion of its Centenary*, ed. R.W. Southern (London, 1968), 179–99; traddodwyd y papur hwn yn wreiddiol yn 1920.

<sup>4</sup> Ziegler, *op.cit.* 188.

cymeriad gyda'r ddwy l. nesaf, ond gan fod enghreifftiau eraill o'r a. *duoer* yng ngwaith Gruffudd, e.e. 2.52 a 15.46, dilynir G 394 d.g. *du* a dehongli *duoer* yma'n gyfansoddair o *du* + *oer*.

**ffridd** G 511 'gwaun, maes; coetir'; GPC 1313 'gwaun, rhos; porfa arw fynyddig ... coetir'. Tardda'r gair o'r S.C. *frith*. Noda Tomos Roberts 'Englynon Gwynedd gan Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1982, 126 fod y gair *frith* yn cael ei ddefnyddio yn stent Môn ac Arfon o'r flwyddyn 1352 i ddynodi tir anial, sef tir sy'n wag oherwydd diffyg tenantiaid (yn sgil y Pla Du). Dichon mai dyna yw ergyd *ffridd* yma, fel yr awgryma Roberts.

3-4 Dehonglir ll. 3 yn gyfeiriad at wŷr Gwynedd, mewn cyfosodiad â [g]wen Wynedd a daear *ffraeth*. Dehonglir ll. 4 yn gyfarchiad i Dduw. Posibilrwydd arall fyddai cysylltu'r ddwy l.: *Deon awr deunawradd / Duw o nef* 'Gwyrda rhagorol deunaw gradd Duw o[r] nef'. Pwysleisid felly mai pobl ddethol Duw yw gwŷr Gwynedd, cf. ll. 16.

3 **Deon awr deunawradd** Cymerir mai gwŷr Gwynedd yw'r *deon* yma. Y mae'r ll. yn fyr o sillaf, ond nid ymddengys fod lle i'w diwygio. Byddai *awyr*, yn cyfeirio at y nef, yn synhwyrol o bosibl (*Deon awyr* = 'Pennaeth [y] nefoedd'), ond yn groes i'r gynghanedd. A ellid a wŷr?

**deunawradd** Llsg. *deu nað rad* a'r bylchau rhwng y geiriau heb fod yn fawr. Myn y gynghanedd, y gellir ei dehongli'n groes neu'n lusg, fod yr acen yn syrthio ar *naw*. Y mae rhaid, felly, fod *naw* a *radd* o leiaf yn ffurfio cyfansoddair, ac nid yw *deu* yn synhwyrol ar ei ben ei hun; felly, cymerir mai *deunawradd* yw'r darlleniad cywir. Y mae'n aneglur at beth y cyfeiria hyn a dichon mai ffordd ydyw o ddweud bod gwŷr Gwynedd yn dra niferus, heb gyfeirio at unrhyw raddau penodol. Awgrymir yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 267 fod yma sôn am ddeunaw cantref Gwynedd, cf. WML 1 (ll. 6). Ar y llaw arall, y mae Tomos Roberts, *art.cit.* 126-7 yn gweld yma gyfeiriad at naw urdd yr angylion, cf. uchod 1.172n, ond beth sydd i'w wneud â *dau* os felly?

7 **o'th rad** Cymerir hyn gyda gweddill y ll., ond gellid hefyd ei gymryd gyda phrif frawddeg yr englyn.

8 **iawnder** Llsg. *raðnder*. Y mae darlleniad y llsg. yn ddiystyr; felly, dilynir awgrym a wnaed gan J. Lloyd-Jones (ar slip yng nghasgliad GPC; dyfynnir ef yn Tomos Roberts, *art.cit.* 124). O blaid *iawnder* y mae'r cymeriad llafarog a'r gynghanedd groes. Diwygiad llai tebygol yw *rawddir* (o *grawddir*). Byddai hynny'n creu gwrthgyferbyniad apelgar rhwng *grawddir saint* (sef Gwynedd) a [*th*]ir *asêd*, ond gan nad yw mor rhywydd o safbwynt y cymeriad na'r gynghanedd, glynir wrth farn Lloyd-Jones yma. Derbynnir *iawnder* gan Tomos Roberts, *art.cit.*, ac yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 265.

**asêd** Sef 'siêd', S. 'escheat', term technegol am dir sydd wedi

- dychwelyd i ddwylo arglwydd, naill ai yn sgil marwolaeth y deiliad neu fel canlyniad i drosedd a gyflawnwyd gan y deiliad. Cf. *ffridd* yn ll. 2, sy'n gyfystyr yma, fe ymddengys, a sylwadau Tomos Roberts, *art.cit.* 126; hefyd DGG<sup>2</sup> 225.
- 9 **geirdd** Ll. *gardd* yn ôl G 521 a GPC 1381, er na nodir enghraifft sicr arall ganddynt. Dehonglir yr enghraifft yn T 62.3 yn ffurf dreigledig *ceirdd*, ll. *cerdd* 'a step, a terrace' yn P Tal VII.38n, er nas cydnabyddir yn GPC 465 d.g. *cerdd*<sup>2</sup> nac yn G 132–3 d.g. *cerdd*, ac nid yw bodolaeth y ll. *ceirdd* yn sicr. Nodir hefyd yn Treigladau 281 mai'r cysefin a geir yn gyson ar ôl *mae*; felly, nid yw *ceirdd* yn debygol yma.
- 11 **plwy digeirdd** Cf. GPC 2830 d.g. *plwyf* (b) 'trigolion plwyf, plwyfolion; pobl'. Cymerir bod ystyr *plwy* yma'n cyfrif am yr a.ll. sy'n ei ddilyn.
- 12 **traeth** Cf. GPC 3544 d.g. *traeth*<sup>2</sup> 'traethiad, datganiad, adroddiad, traethawd'; GMB 23.17 *O Douyd y traeth tr6y gyhyded* (Elidir Sais); GCBM ii, 9.14n *Traeth o'm bronn tra thonn, tra thywa6d*.  
**bas** Am enghreifftiau eraill o *bas* yn cyfeirio at farddoniaeth o safon wael, gw. G 53; GPC 262 d.g. *bas*<sup>1</sup>.  
**treth beirdd** Amwys. Fe'i cymerir yn ddisgrifiad o Dduw fel ffynhonnell rhodd i feirdd. Posibilrwydd arall yw Gwynedd fel gwrthrych cerddi. Gall *treth* gyfeirio naill ai at daliad y noddwr i'r bardd neu daliad y bardd yntau i'w noddwr ar ffurf cân. Trydydd posibilrwydd yw '[peth a fyddai'n] dreth [ar] feirdd', fel yr awgrymir yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 266.
- 14 **newidlong wag** Delwedd bur drawiadol am ddiboblogi, sef llong fasnach sydd wedi dadlwytho ei holl nwyddau.
- 16 **o'i gwerin** *Gwynedd* (ll. 13) yw rhagflaenydd y rh.m.gen. 3 un.b. yma. Cymerodd Crist Ei groeshoelio er mwyn pobl Gwynedd; felly, dylai eu harbed rhag y pla yn awr.
- 17–20 Ceir torymadroddi helaeth yn yr englyn hwn. Y brif frawddeg yw: *Gwae ni, Dduw, oni bydd Dy borth ... I ddiffryd ... Gwynedd ddiwarth*. Sangaiddau cyfarchol yw *hwyrwyd hirwyrth* a *Gwawr ffydd*. Cymerir ll. 18 yn annibynnol ar y lleill.
- 17 **hwyrwyd** Dilynir GPC 1945; cf. GSRh 4.111–12 *Hyrwydd farchog harddlaifn duriog, / Hirwayw trumio, hwyrwyd dramwy* (Rhisiertyn).
- 21 **yr a** Fe'i deallir yn amrywiad orgraffyddol ar *ar a*, sef cyfuniad o'r rh.dng. *ar a*'r rh.pth. *a*, gw. GPC 174 d.g. *ar*<sup>3</sup> a 3820 d.g. *yr*<sup>5</sup>. Ceir *ar a* yn 2.54. Gthg. Bl B XIV 141 (66.21) *Nawdd, er a'n prynawdd* a olygai '[Boed] nawdd, er mwyn y sawl a'n prynodd', dehongliad sy'n gwbl bosibl.
- 22 **nef nen** Dau air yn y llsgr., fe ymddengys, ac y mae llinell fain yn eu gwahanu yno, ond gellid *Nefnen* 'Pennaeth y nef' a chynghanedd lusk

rhyngddo a *tangnef*.

23 o'r Gair heb gyd Cf. 7.30n.

9

Dyma gyfres fer o englynion i Dduw sy'n ymdroi o gwmpas themâu a delweddau cyfarwydd. Cyfarch Duw a'i foli a wneir yn yr englyn cyntaf, gan ganolbwyntio ar ddelwedd y wledd nefolaidd (cf. Eseia xxv.6). Trindodaidd yw naws yr ail englyn, ac yn y trydydd cyflwynir Crist yn Ei dduwdod a'i ddyndod. Datblygir y thema olaf hon yn y tri englyn nesaf (sef 4–6), sy'n gwrthgyferbynnu arglwyddiaeth ddwyfol Crist dros bob rhan o'r byd creedig â'i enedigaeth ddynol o'r Forwyn Fair. Ansicr yw perthynas y ddau englyn olaf (sef 7 ac 8) â gweddill y gyfres oherwydd ceir y seithfed englyn bron air am air yn cloi awdl fawreddog Gruffudd i'r Grog o Gaer (1.207–10). Nid oes amheuaeth nad yno y perthyn. Ffurfia ddiweddglo effeithiol iawn i'r awdl honno: y mae'n crynhoi thema'r gerdd, sef taith wyrthiol y crair graslon i Gaer, ac y mae'r llinell olaf *Llithrodd môr llathrgrair côr Caer* o bosibl yn cyrchu llinell agoriadol yr awdl, sef *Caraf Benrhaith côr arianwaith, carai rinwedd*. Yn y gyfres bresennol, ar y llaw arall, y mae'r cyfeiriad annisgwyl at y Grog o Gaer yn taro'n rhyfedd. Y tebyg yw, felly, fod yr englyn hwn wedi ei gyfansoddi'n wreiddiol ar gyfer yr awdl i'r Grog o Gaer.

Y mae rhaid hefyd ystyried yr englyn olaf, sy'n annog y gynulleidfa i addoli delw Crist. Ai ychwanegiad arall at y gerdd yw hwn, neu a berthynai i'r gerdd wreiddiol? Gan fod y cyfeiriad at y ddelw eto braidd yn annisgwyl, diogelach yw cymryd bod yr englyn olaf hefyd yn ychwanegiad a'i fod yn gymar i'r seithfed. Os felly, pahan y cynhwyswyd y ddau englyn strae ar ddiwedd y gyfres hon? Ni wyddys pwy a'u hychwanegodd. Gall fod eu presenoldeb yn arwydd o elfen lafar yn nhraddodiad trosglwyddo'r gerdd hon. Byddai amryfusedd o'r fath yn fwy tebygol o godi drwy gamgofio na thrwy gamgopïo. Cryfheir y dybiaeth hon gan y gwahaniaethau rhwng llinell gyntaf yr englyn yn y ddau fersiwn. Nid llithriadau copiyydd yw gwahaniaethau mor fawr â'r rhain, ond newidiadau, a all fod yn newidiadau bwriadol neu'n addasiadau anfwriadol a gododd oherwydd cof amherffaith rhyw ddatgeiniad.

Y mae posibilrwydd arall, fodd bynnag, sef mai Gruffudd ei hun a fu'n gyfrifol am gynnwys y ddau englyn yma. Gall ei fod wedi addasu cerdd gyffredinol i Dduw ar gyfer ei chyflwyno'n benodol i'r Grog o Gaer. Os felly, gwnaeth hyn drwy ailgylchu un englyn o'r awdl i'r grog (ai oddi ar ei gof?) ac ychwanegu un arall i gloi.

Mesur: cerdd 32 llinell yn cynnwys englynion unodl union ac englynion proest. Nid oes prifodl.

Golygwyd y gerdd hon o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 271–3.

- 1 **lliw** Cedwir darlleniad y llsgr. am ei fod yn synhwyrol, cf. GLIBH 3.32 *Lliw cer Enwysg riw, rinddawl—o'm tafawd* (Llywelyn Brydydd Hoddnant), ond y mae'n dra thebygol mai *llyw* oedd y darlleniad gwreiddiol.
- 3 **eirf** Ll. *arf*, ond anodd yw deall ei union ergyd yma. Fe'i dehonglir yn betrus iawn yn gyfeiriad at drigolion y nef fel gwŷr arfog neu ryfelwyr. Am ddelweddaeth echblyg filwrol mewn perthynas â Duw a'r nef, cf. 1.14. Posibilrwydd arall yw mai delwedd am eiriau yw *eirf llawn iaith*, cf. GGMD i, 1.12 *Arail eurfudd, Eirioel arfau* ac *ib.n.* Sonnir, os felly, am foliant trigolion y nef at Dduw. Y mae'n demtasiwn ystyried yr e. *eirif/eiryf* 'rhif, cyfrif, nifer, maint', gw. G 641 a GPC 1196, ond byddai'r ll. sillaf yn hir pe derbynid *eiryf* yma.
- 4 **Lle ni thrainc Iôr llanw a thrai** Deallir *ni thrainc* yn gymal pth. rhywiog ar ôl *lle* ac *lôr* yn enidol yn dibynnu ar *lle* yn hytrach nag yn oddr. *trainc*. Pwysleisir natur ddiderfyn y wledd nefolaidd droeon yn llau. 1, 2 a 9. Posibilrwydd arall yw 'Lle na fydd Arglwydd [y] llanw a[r] trai yn trengi', ond rhyfedd fyddai galw'r nef yn lle na fydd Duw yn trengi gan na ddisgwyliid iddo drengi yn unman!
- 5 **Proffwyd** Cf. 4.6n.
- 9 **gwledd—ni dderfydd** Cf. GBF 42.37, 52 (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
- 11 Gellid hefyd *Gorau Mab mam digaredd* 'Y Mab di-fai gorau [a aned erioed i] fam'.
- 12 **a'u** Cyfeiria'n ôl at [y] *wlad a'r wledd* (ll. 9).
- 13 **ban** Fe'i deallir yn a. 'uchel, aruchel, ardderchog', cf. G 50 d.g. *bann*<sup>2</sup> a GPC 253 d.g. *ban*<sup>1</sup>, ac yn goleddfu *mawr*, a ddefnyddir yn enwol yma.
- 16 **heb dad eithr rhad** Cyfeiriad at genhedliad gwyrthiol yr Iesu drwy ras Duw, cf. Luc i.28.
- 21 **Ŵyr Anna** Sef Crist. Anna oedd mam y Forwyn Fair, cf. J. Cartwright: ForF 24–9.
- 22 **teyrnaoedd** Llsgr. *ternassoed*. Diwygir er mwyn yr ystyr. Er bod *tēyrn* yn air deusill i'r Gogynfeirdd (cf. y ll. hon), rhaid cyfrif *ey* yn ddeusain yn *teyrnaoedd* er mwyn hyd y ll. Dichon fod *ëy* wedi ei chywasgu yn *ey* am fod yr acen ar y sillaf nesaf, a bod orgraff y llsgr. yn adlewyrchu hyn. Rhestrir y teyrnaoedd yn y ddwy l. nesaf: *tir, wybr, môr* a *nef*.
- 25–8 Ceir yr englyn hwn bron yn ddiwahaniaeth yn 1.207–10, gw. y nodyn cefndir.
- 25 **Llin hynod llawnglod, llun claer—Llyw nefol** Y fersiwn yn 1.207 yw *Lles hynod, llin clod, llun claer—Llyw nefol*. Y mae'r ddau fersiwn yn synhwyrol. Y mae'r gynghanedd yn bengoll yn y fersiwn presennol, yn wahanol i 1.207, ond ddigon arferol o safbwynt gwaith Gruffudd ap Maredudd. Gw. y nodyn cefndir.

- 26 **llwybrwaith** Cf. 1.208n.
- 29 **addoled pawb** Treiglid y goddr. yn wreiddiol ar ôl 3 un.grch. y f. ond collwyd y treigladau yn ystod y cyfnod canoloesol, gw. Treigladau 212–13.
- pob** Disgwylid treigladau am fod *pob amser* yn adf. yma, ond efallai mai'r orffwysfa sy'n gyfrifol am atal y treigladau, cf. ll. 32n.
- 31 **Gwirdad gwâr** Crist, fe ymddengys, cf. GMB 24.14 *Croc an Tat: an treis y gyt* (Elidir Sais).
- 32 **delw llawn** Eb. yw *delw* yn gyson, cf. G 311 a GPC 927, ond rhaid cadw'r darlenniad yma er mwyn y gynghanedd. Dichon mai effaith yr orffwysfa a barodd gadw'r gytsain gysefin yn *llawn*, cf. ll. 29n; Treigladau 55n; DGG<sup>2</sup> 29 (XIX.29) *A dwy ddelw da i addoli*. Ceir ll. debyg iawn i hon yn GSC 53.4 *Llyna ddelw'n llawn o ddohur*.

## 10

Awdl yn cynnwys rhupunt a chyfres o englynion i'r Forwyn Fair yw'r gerdd hon. Yn Llyfr Coch Hergest y mae'n dilyn yr awdl i'r Grog o Gaer, ond ar dudalen newydd. Nid oes teitl na phriodoliad wrthi. Ar ei hôl ceir dau ganiad ar fesur awdl i Dduw (gw. cerdd 2 uchod), eto heb deitl na phriodoliad. Penderfynwyd cadw'r deunydd Marïaidd ar wahân i'r rhain oherwydd y gwahaniaeth thema. Ar y llaw arall, cedwir y rhupunt i Fair a'r englynion iddi ynghyd, er nad oes cymeriad amlwg yn eu cysylltu â'i gilydd nac yn cysylltu'r llinell olaf â'r llinell gyntaf. Awgryma'r tebygrwydd thema eu bod yn ffurfio cerdd unedig.

Egyr yr awdl â chyfarchiad anuniongyrchol i Fair, cyn mynd ymlaen i'w chanmol. Defnyddir nifer o ddelweddau traddodiadol ar ei chyfer, megis *seren, goleuni, lloer, mam tangnefedd, teml i'r Mab Rhad, haul* (llau. 1–12). Yna troir at ei swyddogaeth yn hanes yr iachawdwriaeth, gan grybwyll cyfarchiad Gabriel a phwysleisio teilyngdod Mair i'w dderbyn (llau. 13–16). Crist yw pwnc y llinellau nesaf, a'r gair *Afe* (ll. 17), yn sefyll dros enw Crist a thros gyfarchiad Gabriel, sy'n cysylltu'r ddwy adran hyn o'r gerdd. Eir ymlaen i ddisgrifio gweithred achubol Crist ar y Groes, anrheithio uffern ac esgyniad Crist i'r nef (llau. 17–30). I gloi'r awdl, troir yn ôl at y cyfarchiad a disgrifio'r Duw ymgnawdoledig yng nghroth Mair. Annelwig yw'r ffin rhwng y disgrifiad o'r Mab yn y groth (llau. 33–34) a'r cyfeiriad at Dri Pherson y Drindod (llau. 35–40), a gall fod yma adlais o'r un math o ddefosiwn ag a roes fod i'r ddelwedd boblogaidd 'siambr y Drindod'.<sup>1</sup>

Fel sy'n nodweddiadol, nid yw'r gyfres englynion yn dangos strwythur eglur a rhesymegol y caniad ar fesur awdl, ond yn hytrach yn cylchdroi yn ailadroddus o gwmpas yr un themâu. Newydd, fodd bynnag, yw'r defnydd

<sup>1</sup> Gw. Douglas Gray, *Themes and Images in the Medieval English Religious Lyric* (London and Boston, 1972), 36.



o'r paradocsau Mariáidd yn yr englyn cyntaf (gw. y nodiadau ar y llau.).

Mesur: rhupunt (40 ll.) ar y brifodl *-awl*; englynion proest gydag englyn unodl union i gloi (24 ll.).

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 207–211.

- 1 **pyyll ddisalw** Gall *pyyll* fod yn eb., gw. GPC 2948, a cf. ll. 14n; GIG 61 (XIII.75) *Llugorn y bwyll a'i llogell*. Yma y mae angen y treigladd er mwyn cynganeddu ag *o bell ddwysawl*, ond cf. isod am ddehongliad arall o eiriau olaf y ll.
- pell** Rhaid i'r pechadur gadw pellter gweddus oddi wrth frenhines y nef.
- dwysawl** Fe'i dehonglir yn gyfansoddair o *dwys* + *hawl*, gthg. G 405 a GPC 1112 sy'n cynnig a. o *dwys* a'r terfyniad *-awl*. Yn erbyn dehongli *dwysawl* yn a. yma y mae'r diffyg e. amlwg i'w gydio wrtho. Gellid *o bell, dwysawl* 'o bell, [a minnau'n] un dwys', ond braidd yn lletchwith yw hynny.
- 3 **Glandad borthair** Amwys. Derbyniodd Mair air cynhaliol gan Dduw; ac, ar y llaw arall, hi sy'n cynnig *porthair* i Dduw ar ran dynion.
- 4 **awr bybyriawl** Fe'i dehonglir yn sangiad disgrifiadol am Fair. Ar *awr* 'aur', gw. 1.77n. Gellid hefyd '[ar] awr wych', ond nid yw'n glir at beth y cyfeiriai hynny.
- 5 **seren** Defnyddir *seren* yn ddelwedd ar gyfer prydfferthwch merch gan y beirdd Cymraeg, e.e. GDG<sup>3</sup> 254 (93.18) *Seren oleuwen o liw*; GLGC 247 (110.1–2) *Y seren o Efenni / At Duw a'r saint y troes hi*. Ar yr un pryd, y mae'n un o'r delweddau mwyaf poblogaidd ar gyfer y Forwyn ledled y byd Cristnogol. Credid bod enw Hebraeg y Forwyn yn cynnwys y geiriau am 'seren' a 'môr'; felly, tyfodd yr arfer o'i galw'n *stella maris*, megis yn yr emyn enwog 'Ave maris stella' (OBMLV 94–5 (rhif 71)). Gwelir adlais o'r arfer hwn yn y Gym. yn GHS 21.29–30 *Yn Ebryw gloywder seren / Yn y môr yw enw Mair wen* (Hywel Swardal); GIRh 9.65n *Mam Grist Geli, seren heli, ac ib.* ll. 72n *Stella maris, talm o eiriau*.
- goleuni** Cysylltir Mair â goleuni, fel yn y tair delwedd safonol *seren, haul, lloer*, gw. J. Cartwright: ForF 51–3 am ymdriniaeth. Yn yr emyn 'Ave maris stella' ymbilir arni i 'gynnig goleuni i'r dall' (*profer lumen caecis*).
- 6 **lloer** Un arall o'r prif ddelweddau Mariáidd, gw. ll. 5n.
- gweryddon** Morynion y nef, yn ôl pob tebyg, ond gan fod *gweryddon* yn gallu cyfeirio at ddyinion hefyd, byddai 'seintiau' yn aralleiriad posibl, cf. 1.126n.
- 7 **mam tangnefedd a thrugaredd** Gelwir Mair yn *mater misericordiae* 'mam trugaredd', cf. y rhestr o briodoleddau canmoliaethus y Forwyn

yn GP 55 yn *vam y drvgared*.

- 8 **teml i'r Mab Rhad** Unwaith eto, dyma ddelwedd ryngwladol. Fe'i ceir, e.e., yn emyn adnabyddus Caelius Sedulius 'A solis ortus cardine' yn y llau. *Domus pudici pectoris / templum repente fit Dei* 'Daw cartref ei chroth diwair yn ddisymwth yn deml Duw' (OBMLV 39 (30.13–14)); hefyd gan Adda o S. Victor, awdur segwensiau enwocaf y 12g.: *Virgo parit, Dei templum* 'Y mae'r Forwyn yn esgor, a hithau'n deml Duw' (F.J.E. Raby, *A History of Christian-Latin Poetry from the Beginnings to the Close of the Middle Ages* (second ed., Oxford, 1953), 366).
- neuadd gariad** Y mae'r treigladd yn annisgwyl, ond cf. Treigladau 68–70 am dreiglo e. genidol ar ôl eb. os teimlir bod grym ansoddeiriol yn y cyplysiad.
- 10 **heddwch eiriawl** Un o brif swyddogaethau'r Forwyn yn y canu, sef ymbil ar ei Mab dros yr hil ddynol.
- 11 **hil gweilch Gröeg** Cf. 2.28n.
- 12 **haul** Cf. llau. 5n a 6n.
- rhiain** Mwy na 'merch ieuanc' yma, fe ddichon; awgryma'r cyd-destun fod yr ystyron 'morwyn' a 'brenhines, merch uchel ei thras' hefyd yn berthnasol.
- 13 **Gabriel** Yr archangel a ddaeth at Fair i'w hysbysu ei bod yn feichiog o'r Ysbryd Glân, gw. Luc i.26–38.
- 14 **dodiad** Dilynir G 383 d.g. *dodyat* a GPC 1070 *dodiad*<sup>2</sup> a'i ddehongli'n e. gweithredydd 'dodwr, rhoddw'r' yn hytrach na 'dodiad, gosodiad'.
- didawl** Gw. g 329 d.g. *didawl*<sup>1</sup> 'didor, parhaus, cyson, diwahaniaeth'. Sonnir am gadernid amcan y Forwyn a fu mor barod i ufuddhau i ewyllys Duw; felly, mentrir 'diysgog' yn yr aralleiriad.
- 16 **gwryf** Unsill, cf. *gwryf*.
- 17 **Afe** Y gair Llad. *ave* 'henffych well', sef gair cyntaf cyfarchiad Gabriel i Fair (Luc i.28). Saif yma dros Grist Ei hun, yn sgil y gred fod Crist wedi Ei genhedlu yng nghroth Mair ar yr ennyd y clywodd hi eiriau Gabriel, cf. y llinell yn yr emyn 'Quem terra, pontus, aethera' lle y sonnir am y Forwyn yn cenhedlu trwy ei chlust (*quod aure virgo concipit*, OBMLV 79 (59.11)), a GBDD 5.12 *Dawn arwyre dywawd ave, dafawd ufydd*.
- Arwyre** Dilynir GPC 218 d.g. *arwyre*<sup>2</sup> 'cyfodwr, dyrchafwr, atgyfodwr' yn hytrach na G 44 lle y'i deallir yn fe.
- 19 **o'i** Disgwylid *o'u*, ond y mae'r gynghanedd yn erbyn hynny. Cyfeirir yn ôl at *Addaf* yn benodol.
- 20 **cyn poen oddef Cun peunyddiawl** Y mae hyn i'w gydio wrth *difwyniant*: bu Adda a'i ddisgynyddion mewn alltudiaeth o'u hedfediaeth cyn i Grist fynd ar y Groes.

- 22 **rheidiau bydawl** Ni all fod *bydol* yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr 'secwlar' yma; felly, cymerir ei fod yn golygu 'ar gyfer y byd', 'byd-eang'.
- 26 **camawl** Dilynir G 100 a GPC 463 a'i ddehongli'n a. (*cam* + *-awl*), ond sylwer ar yr awgrym yn G *l.c.* i'w ddeall yn gyfansoddair o *cam* + *hawl*.
- 27 **esgynnodd lawr** Gall *esgyn* fod yn fa., cf. RB 190.10 *eskynnawd pen y mynyd*, ond y mae'r un mor bosibl mai'r gystrawen 'cyrchu lle' a geir yma.
- llathr** Llsgr. *lathyr*. Diwygir er mwyn y gystrawen a'r gynghanedd. Dichon mai ysgrifennu *lawr* yn syth o flaen y gair hwn a roes fod i'r camgymeriad.
- eurwawl** Dilynir G 499 d.g. *eur* lle y cynigir a. 'cannaid', sef *eur-* + yr e. *gwawl* 'goleuni'. Ceir *gwawl* hefyd yn yr ystyr 'mur' a byddai hynny'n bosibl yma hefyd, gw. G 1605 a GPC 635–6 d.g. *gwawl*<sup>1</sup> a *gwawl*<sup>2</sup>.
- 28 **ar ddehau'r Tad** Cf. Credo'r Apostolion *sedet ad dexteram dei patris omnipotentis*, J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third ed., London, 1972), 369.
- 29–30 **Brenin ... / Bid Ef** Cf. y defnydd o'r ffurf *bid* yn 14.1n. Adleisir, o bosibl, eiriau Gweddi'r Arglwydd *veniat regnum tuum* 'deled dy Dy deyrnas' (Math vi.10).
- 32 **pobl Gred** Ceir yr ymadrodd eto yn IGE<sup>2</sup> 105 (ll. 33) *Gwirod pobl gred gyffredin*; LIA 22 (ll. 6) *popyl gret* (yn cyfieithu *populus fidelium*, *ib.* 189.15).
- 34 **gorllewiniawl** Cf. 3.132n. Yma y mae'n bosibl fod y bardd yn moli Gair Duw am beri llawenydd sy'n ymestyn hyd barthau gorllewinol y byd.
- 37 **rhybudd** Fe'i dehonglir yn gyfeiriad at y cyfarchiad fel rhybudd i Fair. Cf. 1.93 *Dehau rybudd mad, Dihaerebion—mawl* (am ddyfodiad y grog i Gaer). Fodd bynnag, y mae'n demtasiwn cysylltu'r ddwy enghraifft hyn â'r ffurf *rybyt* (= *rhybydd*) a geir yn amrywiad ar *rhebydd* 'arglwydd', cf. GPC 3042 d.g. *rhebydd*. Ceir nifer o enghreifftiau yn Llyfr Coch Hergest, e.e. R 1169.8 (= GCBM i, 3.203), 1402.32 (= GCBM i, 17.5), 1405.7 (= GDB 20.61 (dienw)), 1437.40 (= GCBM ii, 9.57). Cf. hefyd 3.277n.
- 41–2 **merch, mam ... / chwaer i'th Dad** Paradocsau traddodiadol. Y mae Mair yn ferch i Dduw am mai Efe a'i creodd; ac y mae'n chwaer iddo oherwydd natur ddynol Crist. Cf. BI BGCC 117 (13.3a–c) *Meckyt Meir mab aduwyndawt, / Duw, penn perchen pob kiwdawt: / Y that, y neirth-yat, y brawt, a'r ymdriniaeth ib.* 115–17; GMB 14.41–4 *Hi yn gam wy Thad, hi yn wry heb wad, / Hi yn holla'bl rad, yn recouyt, / Hi yn berch wy mab y mot yssyt, / Hi yn chwaer y Duw o dwywa'bl fyt* (Gwalchmai

- ap Meilyr); GIG 139 (XXXI.21–3) *A mam i Dduw yn ymoddiwes, / A merch i'th unbrawd, briffawd broffes, / A chwaer i'th unmab wyd a chares.* Perthyn y paradocsau hyn i'r traddodiad rhyngwladol o ganu i'r Forwyn, cf. yn yr emyn 'Quem terra, pontus, aethera' *O gloriosa femina, / excelsa super sidera, / qui te creavit provide / lactas sacratio ubere* (OBMLV 79 (59.21–4)). Cyfieithir y llau. enwog hyn yn Bl BGGC 115 'O wraig ogoneddus, wedi dy ddyrchafu uwchlaw'r sêr, ar dy fron sanctaidd yr wyt yn magu'r un a'th greodd yn ei ragluniaeth.' Gw. ymhellach Andrew Breeze, 'The Virgin Mary, Daughter of her Son', *Études* xxvii (1990), 267–83.
- 41 **merch, mam, Fair** Dilewyd gair o flaen *veir* yn y llsgr., ond y mae'r ll. yn gyflawn fel y saif. Noder i *veir* gael ei hepgor yn R trwy amryfusedd.
- 43 **Efa wŷr** Y mae Mair yn ddisgynnydd i Efa fel y mae pob person (ac yn enwedig pob merch). Fodd bynnag, ystyrir Mair yn benodol fel yr 'ail Efa' y bu iddi ddad-wneud drwy ei daioni y drwg a wnaethpwyd gan yr Efa gyntaf.
- Afe** Gw. ll. 17n.
- 44 **regina** Llad. 'brenhines'. Awgryma'r gynghanedd yr ynganiad 'rhesina', cf. GGrG 3.28n *O Fair, ras enaid fawr reisina.*
- 45 **mamaeth** Gw. 7.67n.
- 46 **terra** Gw. 1.206n.
- 47 **Mair a'n geilw** Cyfeiriad, o bosibl, at swyddogaeth y Forwyn wrth y gwely angau. Credid ei bod hi weithiau'n ymddangos mewn pryd i rybuddio'r pechadur fod angen iddo derbyn maddeuant am ei bechodau cyn marw. Credid hefyd y gallai Mair amddiffyn enaid y marw rhag cael ei gipio i uffern, gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400–c. 1580* (New Haven and London, 1992), 310, 318–19.
- morwyn Geli** Am y treigladd, gw. Treigladau 107–8.
- 49 **tist** Gw. 1.143, 3.86n; GGMD i, 3.125n. Fe'i cymerir yn ddelwedd am Fair yma: hi a gynhaliodd 'dyrchafiad sancteiddrwydd' trwy dderbyn Gair Duw yn ei chroth.
- 51 **teg o'th gaer** Croth Mair a elwir yn *gaer* yma, yn ôl pob tebyg. Y mae'n ddelwedd a chanddi wreiddiau yn y traddodiad Mariäidd, a roddai bwys mawr ar ddiogelwch corff Mair nas treiddiwyd erioed gan ddyn. Yn sgil hynny, dehonglid rhai delweddau yng Nghaniad Solomon mewn perthynas â'r Forwyn, e.e. Can iv.4 *sicut turris David collum tuum quae aedificata est cum propugnaculis / mille clypei pendent ex ea omnis armatura fortium* (BCN *Y mae dy wddf fel tŵr Dafydd, wedi ei adeiladu, rhes ar res, a mil o estylch yn crogi arno, y cwbl ohonynt yn darianau rhyfelwyr*); iv.12 *hortus conclusus soror mea sponsa, hortus*

*conclusus fons signatus* (BCN *Gardd wedi ei chau i mewn yw fy chwaer a'm priodferch, gardd wedi ei chau i mewn, ffynnon wedi ei selio*). Cf. hefyd yr emyn 'Quem terra, pontus, aethera' sy'n sôn am *claustrum Mariae* 'lle caeedig Mair' (OBMLV 79 (59.4)). Agwedd arall ar y ddelwedd yw cadernid Mair fel amddiffynfa'r hil ddynol. Cymerid arch Noa yn rhagdeip ohoni, e.e. gan Adda o S. Victor: *tu es archa Noe viva / per mundi diluvia* 'Ti yw arch fyw Noa trwy ddilywiau'r byd hwn' (Raby, *op.cit.* 367). Cf. ll. 64n isod. Trafodir delweddu'r Forwyn Fair yn Raby, *op.cit.* 363–75.

52 **teml i Grist** Cf. ll. 8n.

56 **Ar annerch teg Wŷr Anna** Y cyfarchiad, a ddarlunnir yn gyfarchiad gan Grist (*Wŷr Anna*) trwy gyfrwng Gabriel.

60 **o'i brad** Cydier wrth *rhwym bradw bryder*. Sonir am yr hyn a ddigwyddai petai Mair yn gwrthod ei chefnogaeth.

64 **yw** Pren yw, sy'n eithriadol gadarn. Y mae *neuadd yw*, felly, yn ddelwedd o gadernid Mair, cf. ll. 51n. Prin yw'r defnydd o yw yn ddelwedd gan y beirdd Cymraeg, ond cf. GHS 1.15 *Galon ywen, glain gloywlwyd* (Hywel Swardwal); GDEp 18.5–6 *Derw ir erioed ar yr yw / Oedd dy fonedd hyd Fynyw*. Cymherir Duw ag ywen yn GGLI 19.34n (Gruffudd Llwyd). Y posibilrwydd arall yma fyddai ffurf 3 un.pres.myn. *bod*, ond nid yw'n eglur sut y byddai hynny'n synhwyrol yn y cyddestun.

## 11

Golygir yma awdl ddau ganiad i'r Forwyn Fair. Fe'i ceir yn Llyfr Coch Hergest o flaen cyfres hir o awdlau i Dduw (gw. cerdd 3 uchod), ond penderfynwyd ar sail cynnwys Mariaidd y ddau ganiad hyn nad rhan o'r gyfres honno mohonynt. Ar y llaw arall, y mae thema gyffredin y ddau ganiad, ynghyd â'r cymeriad tebygol rhyngddynt (gw. ll. 19n), yn awgrymu mai un gerdd ydynt.

Dywedodd Gifford Charles-Edwards am Hywel Fychan, copïydd y rhan hon o Lyfr Coch Hergest: 'He allows himself to be bored, witness the degeneration of his hand as he rushes through some long drawn out passage that does not interest him.'<sup>1</sup> Y mae'n rhaid ei fod wedi ei ddiffasu'n lân gyda'r gerdd hon, oherwydd y mae copi'r Llyfr Coch yn llanastr. Gadawodd Hywel linellau 3–4 allan a bu raid iddo eu cofnodi ar frig y testun. Gadawodd linellau 21–8 allan hefyd a'u cofnodi ar waelod y tudalen. Gadawodd y geiriau yn *glaf* allan o linell 37 a'u gwthio i mewn uwchben. Ysgrifennodd *byt* yn lle *bryt* yn llinell 6 ac yna ei gywiro. Gwnaeth gamgymeriad ar ddechrau llinell 27 hefyd, gan ysgrifennu *mat* ac yna ei

<sup>1</sup> 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylch LIGC* xxi (1979–80), 251.

ddileu. Fel y dadleuir isod, ceir rhesymau da dros ddiwygio yn llinellau 4, 8, 19, 25, 28, 29 a 37 a hefyd dros gymryd bod llinell ar goll yng nghanol yr ail ganiad. Yn sgil y lliaws camgymeriadau hyn, y mae'n deg tybied nad yw'r testun yn berffaith fel y saif, ac y gall fod gwallau eraill yn llechu ynddo.

Molir Mair yn y termau traddodiadol yma, sef fel mam Crist ac fel eiriolwraig dros yr hil ddydol. Cyferchir hi'n anuniongyrchol—h.y., yn y trydydd person—yn y cwpled agoriadol. Yna, os cywir y dehongliad a gynigir, sonia'r bardd am ei foliant yn cyrraedd y nef (llau. 3–6). Cynnwys y llinellau nesaf ddeisyfiad am iddi sicrhau lle yn y nef, ar gyfer y bardd neu ar gyfer dynion yn gyffredinol. Sail y deisyfiad yw'r ffaith fod Mair wedi bod yn gyfrwng dwyn Crist i'r byd (llau. 11–14). Gorffen y caniad cyntaf â deisyfiad anuniongyrchol arall am lawenydd.

Y mae'r ail ganiad yn haws ei ddilyn. Molir Mair am y rhesymau arferol (llau. 20–6). Darlunia'r bardd ef ei hun mewn cyflwr o gyni (ll. 19). Y cwestiwn a gyfyd yw ai cyni corfforol yw hwn yn ogystal â phryder ysbrydol. Awgryma llinellau 31–2 fod rhyw anaf neu glefyd wedi ei daro, er y mae'n rhaid cydnabod bod y gair *gwayw* yn amwys. Mwy arwyddocaol, efallai, yw fod y bardd yn rhag-weld dau ganlyniad posibl i'w gyflwr, sef ei fod yn goroesi (llau. 27–8) neu ei fod yn mynd i farw (llau. 33–6). Y llinell allweddol yw llinell 37, ond nid yw'r darlleniad cywir yma'n sicr. Pe cedwid darlleniad y llawysgrif, sef *kynn ydwyf*, byddai rhaid gwrthod y syniad fod y bardd yn dioddef o ryw anhwylder. Ar y llaw arall, ymddengys *kynn ydwyf* yn rhyfedd, os nad yn anramadegol (gw. *ib.n.*). Cynigir, felly, y diwygiad *can ydwyf*, sy'n ategu'r dehongliad fod y bardd yn glaf. Y mae'n anffodus fod cyflwr gwael y testun hwn yn gyffredinol yn amharu ar ein dealltwriaeth o'r gerdd.

Mesur: toddaid (18 llinell), prifodl *-yd*; cyhydedd naw ban (26 llinell, un ohonynt ar goll), prifodl *-af*. Cysylltir y ddau ganiad ag odl fewnol. Y mae'r cymeriad llythrennol yn drawiadol o gyson, ar *ll-* yn y caniad cyntaf ac ar *m-* yn yr ail.

Golygwyd y gerdd hon o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 220–4.

- 2 **dwyrain** I'w ddeall yn a. yma, fe ymddengys, ond cf. Bl BGCC 161 ac YE 10(ll. 66)–11(ll. 77) am gysylltu Duw â'r dwyrain.

**a ddeiryd** Topos, cf. 1.136n.

3–4 Ychwanegwyd y llau. hyn (yn yr un llaw) ar ymyl uchaf y tudalen, a cheir marc yng nghanol y prif destun i ddangos b'le y dylent fod.

- 3 **o ergyd** Llsg. *oergyt*. Arfer orgraffyddol y llsg. yw clymu gogwyddair wrth y gair a'i dilyn, ac y mae nifer y sillafau yn y ll. yn awgrymu mai *o ergyd* sydd yma. Anodd hefyd deall beth fyddai ystyr *oergyd*. Nid yw *ergyd* ychwaith yn hawdd ei ddeall. O bosibl, darlunnir y moliant fel arf sy'n cyrraedd ei nod, cf. GO 323 (LXIII.11–12) *A'i foliant a ddyfahwn / I ddyrnod o gevodod gwn*). Llai tebygol yw 'byrdwn'

neu 'sylwedd', ystyron cyffredin erbyn hyn, oherwydd nis hardystir hwy ar gyfer *ergyd* tan yr 16g. yn ôl GPC 1233.

- 4 **â nef i'r Drindod** Y mae *a* yn y llsg. yn amwys. Fe'i deellir yn 3 un.pres.myn. *mynd* yn hytrach nag ardd. neu gys. Cymerir yn betrus mai *gofeg* yn ll. 5 yw'r goddr. a bod y bardd yn sôn am ei foliant ef i Fair neu foliant iddi'n gyffredinol yn cyrchu'r nef. Nid hawdd cael synnwyr o gymryd mai Mair yw goddr. dealedig y f. *â*. Er bod Mair wedi esgyn i'r nef, byddai'r amser pres. yma'n annealladwy. Efallai y gellid *o ergyd—molawd / Â nef ... / ... rad febyd—ofeg* 'drwy ergyd moliant / sy'n mynd i'r nef ... / ... [ceir] traethiad am fabandod graslon', gan gymryd bod y rh.pth. o flaen *â* wedi ei gywasgu. Nid yw hyn fawr yn wahanol o ran ystyr i'r cynnig yn yr aralleiriad. Gwrthodir yr ardd. *â* a'r cys. *a* am nad oes modd cael synnwyr o'r naill na'r llall. Y mae llau. 3–6 yn astrus, a gw. y nodyn cefndir am awgrym nad yw testun y gerdd hon gyda'r mwyaf dibynadwy yn Llyfr Coch Hergest.

**hoywfrawd** Llsg. *hoevraðt*. Diwygir er mwyn yr ystyr.

- 5 **llawen oed eiroed** Gan nad yw'r ergyd yn glir, cedwir yr aralleiriad yn benagored. Y posibiladau mwyaf tebygol yw: i. cyfeiriad at y cyfarchiad, cf. gweddill y ll., ond, os felly, cyflwynir y pwnc braidd yn ddirybydd; ii. 'oed' y bardd gyda Mair, sef yr achlysur pryd y mae'n ei chanmol; iii. disgrifiad o Fair fel '[un] llawen [ei] bywyd eiroed'.

**rhaf febyd—ofeg** Sef mawl i Fair am iddi gytuno i dderbyn gras Duw a dwyn y plentyn dwyfol yn ei chroth.

- 6 **O bwyll gyhydreg, o brifdeg bryd** Gallai *o bwyll gyhydreg* gyfeirio at foliant y bardd, cf. ll. 5, ond o'r braidd felly *o brifdeg bryd*; felly, deellir bod y ll. gyfan yn canmol Mair.

**cyhydreg** Estynnir ychydig ar yr ystyron a roddir yn G 228–9 a GPC 746.

- 8 **creifiaint** Llsg. *grifieint*. Diwygir er mwyn yr ystyr gan ddilyn G 172.

- 9 Ll. sillaf yn hir oni chywesgir *yn*.

**arfeddyd** Sef arfaeth Mair i gynorthwyo'r hil ddynol, neu fwriad dynion eu hunain i droi at ddaioni.

- 10 **llawr baradwys** Treigladd annisgwyl (am mai eg. yw *llawr*, gw. GPC 2118), efallai'n ffrwyth camgydweddiad ag ymadroddion ac ynddynt eb. + e. lle, e.e. *Bro Went, gwlad Fôn*, cf. Treigladau 111.

**pwys penyd** Cf. GMB 24.6 *Garawys kymerth pðys penyd* (Elidir Sais).

- 11 **Gair heb gyd** Cf. 8.23n.

- 12 **Mab Gogoned** Cf. GSRh 12.65 *Cri geni Mab gogoned* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed); Math xxv.31; Marc xiii.26; Luc xxi.27.

- 13 **lluddiodd** Gall mai Crist neu Mair yw'r goddr. dealledig, sef Crist ar ei liwt ei hun a Mair yn sgil bod yn gyfrwng i eni Crist.

**terfyn dyn i dân** Y mae *i dân* yn ddibynnol ar *terfyn*. Cyfeirir at daith olaf dyn i uffern.

- 14 **gwir y gweryd** Crist yw'r goddr. mwyaf tebygol, ond erys Mair yn bosibilrwydd, cf. ll. 13n. Gan fod *gweryd* yn digwydd fel e., gw. G 673 d.g. *gweryt*<sup>2</sup> 'gwared, gwaredigaeth', hefyd GPC 1649 d.g. *gweryd*<sup>4</sup>, gellid *gwir ei gweryd* 'gwir yw ei gwaredigaeth [hi]', sef Mair.

- 15 **llwrw rhag oes brifdeg Ysbryd** Dilynir y llsg. o ran rhannu'r geiriau, ond sylwer bod yr aceniad yn afreolaidd ac y byddai *llwrw rhag oesbrif deg Ysbryd* yn rhoi cynganedd sain gadwynog reolaidd. Y naill ffordd neu'r llall, sonnir am ymgawdoliad Crist yng nghroth Mair. Y rhodd yw bywyd Crist ar y ddaear, ond cyfeiria hefyd at yr ymgawdoliad fel rhodd o fywyd i bob dyn, cf. Io xiv.6 *ego sum via et veritas et vita* (BCN *Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd*).

- 16 **llawr wawr fawr Fethlem** Treiglir *mawr Fethlem* ar ôl yr eb. *gwawr*, cf. Treigladau 111, neu gellid cydio *mawr* wrth *gwawr* a deall *Bethlem* yn enidol, eto wedi ei dreiglo am yr un rheswm.

**gem** Delwedd gyffredin am y Forwyn Fair, gw. Peter Kesting, '*Maria-Frouwe*': *über den Einfluß der Marienverehrung auf den Minnesang bis Walther von der Vogelweide* (München, 1965), 14–15.

**gymryd** Sef *cym-* + *pryd*. Dengys orgraff y llsg. *kymryt* ddiflaniad rheolaidd *h* ar ôl yr acen, cf. OIG 60–1; gthg. *cymhryd* yn GPC 766.

- 19 **tristyd bryd** Llsg. *dristit byt: bryt*. Y mae darlleniad y llsg. yn anodd ei ddeall ac yn rhy hir o sillaf. Rhaid hepgor *byd* neu *bryd*, ac y mae'r gynganedd o blaid cadw *bryd*. Ceir odl fewnol yn cysylltu'r ll. hon â ll. olaf y caniad blaenorol, a dichon mai'r ffaith mai *byd* sydd yn y ll. honno a ysbardunodd y darlleniad *byt* yma.

**tristyd** Llsg. *tristid*. Dwy ffurf ddilys yw'r rhain yn ôl GPC 3601, ond *tristyd* sy'n odli'n well gyda *bryd*.

- 21–8 Ychwanegwyd y llau. hyn ar waelod y tudalen yn y llsg., gyda marc yng nghanol y prif destun i ddangos ymhle y dylent fod.

- 21–2 Cf. 10.41–2n.

- 23 **gofeg** Lleferydd, meddwl neu ewyllys Mair, cf. G 545, GPC 1429 a ll. 5 uchod am ystyron y gair. Ymddengys mai meddwl am ymateb Mair i'r cyfarchiad y mae'r bardd yma, neu o bosibl am ei pharodrwydd i eiriol ar ran pobl, cf. y ll. nesaf.

- 24 **dydd deddfolaf** Cymerir hyn yn gyfeiriad at ddiwrnod y cyfarchiad oherwydd fod Mair wedi dangos *morwyndawd ffawd ffydd* 'ffydd [drwy] fendith morwyndod' ar y diwrnod hwnnw. Posibilrwydd arall



yw Dydd y Farn, pan fydd Mair yn eiriol ar ran yr hil ddynol.

- 25 **haelder** Llsgr. *ha6lder*. Diwygir er mwyn yr ystyr. Gthg. G 768 a GPC 1828 sy'n dehongli *ha6lder* (*hawl* + *-der*) i olygu 'hawl, iawnder, haeddiant'. Ni cheir enghraifft arall o'r gair hwn. Ffurio enwau o ansoddeiriau a wna'r terfyniad *-der/-ter*, ac ni wyddys am enghraifft o'i ychwanegu at e. megis *hawl*, cf. y rhestr yn Steffan Zimmer, *Studies in Welsh Word Formation* (Dublin, 2000), 304–18.
- 28 **tau** Llsgr. *tew*. Diwygir er mwyn yr ystyr, ond efallai nad amhosibl cadw'r darlleniad *tew* gyda'r ystyr 'niferus, aml', cf. GPC 3491–2. Fodd bynnag, byddai'r treigladd yn *fawlair* yn broblem (am dreigladd i'r goddr. mewn brawddeg enwol yn dilyn *mau*, *tau*, gw. GGMD i, 7.39n). Ai *neud tew fawlair* 'ceir moliant aml'?
- 29 **haul** Llsgr. *ha6l*. O ystyried y cyd-destun ymddengys y diwygiad yn ddiogel, er gwaethaf y petruster a fynegir yn G 768 d.g. *hawl*<sup>1</sup>.
- 30 Ceir adeiledd cypledol cryf yn y caniad hwn; felly, tybir bod ll. ar goll yma neu o flaen ll. 29.
- 32 **dycnaf** Cf. llsgr. *dycknaf*. Byddai *dygnaf* yn cryfhau'r gynghanedd sain, ond nid yw arfer Gruffudd yn gyson o ran ateb y gytsain ar ôl yr acen mewn cynghanedd sain anghytwys ddisgynedig, cf. ll. 41.
- 35 **gwindai gadair** Y nef yw'r *gwindai*, cf. 1.10n. Un o deitlau traddodiadol Mair yw *regina caeli* 'brenhines y nef', felly gellir cymryd *cadair* yn yr ystyr 'gorsedd'.
- 37 **can ydwyf** Llsgr. *kynn ydwyf*. Y mae'r ffurf pres.myn. yn rhyfedd ar ôl *cyn*, lle y disgwylid y pres.dib. *bwyf* neu'r dyf.myn. *byddaf*. Y mae angen y ffurf *ydwyf* er mwyn y gynghanedd a nifer y sillafau, ond y mae'n bosibl diwygio *cyn* yn *can*. O wneud hynny, deellir bod y bardd yn dioddef o ryw glwyf neu glefyd, dehongliad sy'n cyd-fynd yn dda â llau. 19, 27–8, 31–2 a 33–6.
- 38 **lloer wendref nef** Ymddengys fod angen dehongli *gwendref nef* yn enidol ac yn ddibynnol ar *lloer*. Os felly, rhaid derbyn bod y cyfuniad *gwendref nef* yn cael ei drin yn e.lle fel *Bethlem* yn ll. 16.
- 39 **hael** Gallai oleddfu *Mair* yn hytrach nag *Israel*.
- 40 **Mawredd fyrdd fonedd, Mair addfwynaf** Dilynir y llsgr. a chadw *Mair* yn ddireigladd yma, ond ceir cytseinedd sydd bron yn berffaith rhwng ddau gymal olaf y gynghanedd sain, a byddai treiglo *Mair* yn ei gwneud yn gyflawn.

Ceir yr englynion hyn yng ngholofn 1329 o Lyfr Coch Hergest, yn dilyn cerdd fawl 'I Wenhwyfar' gan Ruffudd ap Maredudd (gw. GGMD iii, cerdd

3) a gopiwyd gan Hywel Fychan. Ar ôl y gerdd honno, gadawodd Hywel fwllch sy'n ymestyn hyd at golofn 1335, bwllch a lanwodd llaw C (Ch) â rhagor o waith y bardd, gan ddechrau â'r englynion hyn.<sup>1</sup> Gadawyd lle uwchben yr englynion ar gyfer pennawd, ond ni chawsant yr un. Ar eu hôl, erys gweddill y golofn yn wag. Ar frig colofn 1330 ar yr un tudalen, ceir englyn dienw a chyfres o englynion a briodolir i Ddafydd y Coed, yna englynion a briodolir i Ruffudd. Golygwyd yr englyn sengl yn waith Gruffudd ap Maredudd uchod (gw. y nodyn cefndir i gerdd 6). Y mae'r dystiolaeth o blaid derbyn awduraeth Gruffudd yn achos 'Englynion y tair llythyren' hefyd, yn enwedig y modd y'u hychwanegwyd at gwt yr englynion serch diamheuol ddilys.

Bathiad y golygydd yw'r teitl 'Englynion y tair llythyren'. Y mae'r gerdd wedi ei seilio ar y gwrthgyferbyniad rhwng Efa, y wraig gyntaf oll a fu'n gyfrifol, yn ôl meddwl yr Oesoedd Canol, am golli paradwys, a Mair, y wraig ddibechod a fu'n gyfrwng iachawdwriaeth i'r byd drwy roi genedig-aeth i Grist. Â'r syniad o wrthgyferbynnu'r ddwy mor bell yn ôl â'r ail ganrif. Justin Ferthyr (*ob. c.* 165) oedd y cyntaf, hyd y gwyddys, i osod y gymhariaeth rhwng Efa a Mair ochr yn ochr â'r gymhariaeth rhwng Adda a Christ (sydd hithau'n mynd yn ôl at yr Apostol Paul, gw. Rhuf v), ac y mae'n dopos yng ngwaith Tadau'r Eglwys ar ôl hynny.<sup>2</sup> Datblygiad ar y gwrthgyferbyniad hwn fu cymharu enw Efa, *Eva* yn Lladin, â'r gair *Ave*, sef gair cyntaf cyfarchiad Gabriel at Fair yn fersiwn Lladin y Beibl (Luc i.28 *have gratia plena Dominus tecum*). Cynhwysant yr un llythrennau, ac o ddarllen y naill ar yn ôl ceir y llall. Mewn modd cyffelyb, y mae Mair wedi dad-wneud pechod Efa.<sup>3</sup> Cf. y llinellau canlynol o'r emyn enwog 'Ave maris stella':

Sumens illud Ave  
Gabrielis ore,  
funda nos in pace,  
mutans nomen Evae.<sup>4</sup>

('Wrth gymryd yr Afe hwnnw / O enau Gabriel, / [O Fair,] sefydla ni mewn tangnefedd, / Trwy newid enw Efa'.)

Y mae'n werth cymharu ymdriniaeth y bardd Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed â thema'r cyfarchiad;<sup>5</sup> a dyfynnir enghreifftiau eraill

<sup>1</sup> Gw. Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', CyT 6 am lawiau C ac Ch, llawiau y gwahaniaethwyd rhyngddynt gan Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 246–56, ond y mae Huws yn eu hystyried yn eiddo'r un copïydd. Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 6 uchod.

<sup>2</sup> Gw. NCE v, 655–6.

<sup>3</sup> Am ymdriniaeth, gw. ERLMA 115–16; Andrew Breeze, 'Two bardic themes: the Virgin and Child, and *Ave-Eva*', *Medium Aevum*, lxiii (1994), 23–33.

<sup>4</sup> OBMLV 94 (71.5–8).

<sup>5</sup> Gw. GSRh 12.25–52 a'r nodyn cefndir i'r gerdd honno.

mewn amryfal ieithoedd gan Andrew Breeze.<sup>6</sup>

Mesur: 20 llinell o englynion unodl union a phroest. Nid oes prifodl a gynhelir drwy'r gerdd.

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 253–5. Ceir testun mewn orgraff Cymraeg Canol a chyfieithiad Saesneg yn Andrew Breeze, *art.cit.* 27–8.

1 **gwen windud** Ymddengys yn sangiad yn cyfarch Mair. Deellir bod *gwindud* wedi ei dreiglo fel e.p. ar ôl yr eb. *gwen*, gw. Treigladau 111. Posibilrwydd arall yw cyfarchiad i'r nef '[O] wlad fendigaid y gwin', ond eg. yw *tud* fel arfer yn ôl GPC 3651, a Mair a gyferchir yn gyson drwy weddill y gerdd, cf. llau. 3, 5, 13. Y mae'r treiglad yn *wen* (a'r synnwyr) yn erbyn dilyn Gruffudd ap Maredudd: Gw a dehongli *wen windud* yn enidol ac yn ddibynol ar *tair llythyren*. Rhaid gwrthod hefyd yr awgrym yn G 681 d.g. *gwin* i gymryd *wen windud* yn gyrchfan gyda'r f. *dug*. Nid *Efa* a ddaeth â'r hil ddynol i'r nef eithr *Afe*. Llac yw cynnig Andrew Breeze '*three fair letters in paradise*' ('Two bardic themes: the Virgin and Child, and *Eva-Ave*', *Medium Aevum*, lxiii (1994), 27).

**gwindud** Gan mai digon cyffredin yw delweddu'r nef fel lle o loddesta ar win (cf. 1.10n), ni raid derbyn yr awgrym yn G 681 d.g. *gwin* i ddiwygio *gwindud* yn *gwyndud*.

3 **a thair, Fair** Gthg. Treigladau 106 lle y dehonglir *Fair* yn enidol ar ôl *tair* (h.y., 'tair llythyren Mair'), gan nodi'r arfer o dreiglo e.p. ar ôl eb. Er y gellid derbyn hynny yma, nid felly yn ll. 5. Gwell gan hynny ddehongli'r ddwy l. yn yr un modd a deall *Fair* yn gyfarchiad, cf. y cyfarchiad sangiadol yn ll. 1.

4 **a'n dug nef** Neu, 'a ddaeth â nef i ni'.

5 **tair, Fair** Fel yn achos ll. 3, cymerir *Fair* yn enidol yma yn Treigladau 106, ond y mae'r dehongliad yn annerbyniol oherwydd nad tair llythyren Mair a lygrodd y byd, eithr *Efa*.

6 **o lythr** Cydier wrth *tair* yn ll. 5; y gystrawen yw *tair o lythr*, a *llythr* yn ll. (GPC 2284), gthg. Breeze, *art.cit.* 27 '*three ... through a letter*': pa lythyr fyddai hwn?

7–8 **eu nawdd / O'u gwiw rad** Gellid y rh.m.gen. 3 un.b. yma hefyd, yn cyfeirio'n ôl at *Fair*, ond y mae hynny'n llai tebygol o ystyried y cyfarchiad ati yn ll. 5.

9 **EFA bu pla** Am y gystrawen, cf. Treigladau 309; DGG<sup>2</sup> 126 (LXXI.3) *poen bu dwys*.

**i'n bwrw** Neu yn *bwrw*. Awgryma hyd y ll. fod *bwrw* yn ddeusill yma, onid yngenir EFA fel tair llythyren.

<sup>6</sup> Breeze, *art.cit.*

- 12 **caith** Gallai fod yn a.un. yn hytrach nag e.ll., cf. GGMD i, 3.19n.
- 13 **golau fydd, Fair** Cymerir mai *golwg* yn y ll. nesaf yw goddr. *fydd*. Llai tebygol yw *golau fydd Fair* gan nad yw'n arferol treiglo goddr. ar ôl *bydd*, gw. Treigladau 296–7; gthg. Breeze, *art.cit.* 28 'a light is Mary'. Posibilrwydd arall yw'r goddr. dealledig *Crist*, cf. ll. 14n.
- 14 **golwg** Amwys: ai pryd a gwedd neu drem y llygaid a olygir? Hefyd, nid yw'n sicr ai *golwg* Mair neu Grist ydyw. Cymerir mai Mair a olygir ond cf. ll. 13n.
- 15 **Gofwy nef oedd deg Afe** Cyfeiriad deublyg, sef at y cyfarchiad (*Afe*) fel amlygiad neu neges (*gofwy*) o'r nef ac at ddyfodiad Crist (*Afe*) Ei hun i'r ddaear.
- 17–20 Y gystrawen yw *da y gwnaeth Afe deg rhydd o gaeth*, ond posibilrwydd arall yw dilyn Breeze, *art.cit.* 28, a deall *Wirionhaul ei doethbwyll* yn gyfeiriad at Grist ac yn oddr. *gwnaeth*.
- 17 **da y** Cywasger er mwyn hyd y ll.  
**cannwyll** Cysylltir y Forwyn Fair â chanhwyllau, cf. Gŵyl Fair y Canhwyllau (2 Chwefror) a disgrifiad Eamon Duffy o'r defodau a gysylltid â'r ŵyl honno, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400–c. 1580* (New Haven and London, 1992), 15–22.
- 18 **gwirionhaul** Dau air o bosibl, fel yr ymhlygir yn G 684–5 d.g. *gwiryon*.  
**ei doethbwyll** Gellid hefyd *Ei ddoethbwyll*.
- 20 **Afe deg** Goddr. *gwnaeth* yn ll. 17, gw. *ib.n*.

## 13

Cedwir y gerdd fer hon yng ngholofn 1202 o Lyfr Coch Hergest, yn syth ar ôl awdl i Dduw (cerdd 2 uchod). Ni cheir pennawd wrthi nac ychwaith ofod ar gyfer pennawd, ond fe'i trinnir yn gerdd annibynnol yma ar sail ei chynnwys arbennig.

Ceir hanes ymweliad y gwŷr doeth â'r Iesu yn Math ii.1–12. Gelwir hwy yn *magi ab oriente* yn *ib.* ii.2 (BCN *sêr-ddewiniaid o'r dwyrain*), ond ni ddywedir faint oeddynt nac ychwaith beth oedd eu henwau. Yn ôl Mathew, dilynasant seren a'u harweiniodd i'r Tir Sanctaidd. Aethant i lys Herod, brenin Jwdea, yng Nghaersalem, gan obeithio darganfod y plentyn a oedd i fod yn 'frenin yr Iddewon'. Ni wyddai Herod ddim amdano a gofynnodd yntau iddynt ddatgelu'r man iddo pe deuent o hyd i'r baban, fel y gallai yntau ei addoli. Arweiniodd y seren y gwŷr doeth ymlaen i Fethlehem a chawsant hyd i Iesu yno a'i urddo ag anrhegion o aur, myrr a thus. Yn sgil rhybudd mewn breuddwyd nad oedd Herod yn dymuno'n dda i'r plentyn, aethant adref heb roi gwybod iddo.

Dyma'r hanes moel fel y'i ceir yn Efengyl Mathew. Y mae cerdd

Gruffudd ap Maredudd yn adlewyrchu rhai o'r traddodiadau a dyfodd o gwmpas yr hanes hwn yn ystod yr Oesoedd Canol. Dichon mai'r rhestr o dair rhodd, sef aur, myrr a thus, a geir yn Math ii.11, yw sail y traddodiad mai tri oedd nifer y gwŷr doeth. Credai pobl yr Oesoedd Canol ymhellach mai brenhinoedd oeddynt, diau yn sgil eu cyplysu â brenhinoedd Salm lxxi.10–11 *reges Tharsis et insulae munera offerent / reges Arabum et Saba dona adducent / et adorabunt eum omnes reges / omnes gentes servient ei* (BCN Salm lxxii.10–11 *Bydded i frenhinoedd Tarsis a'r ynysoedd ddod ag anrhegion iddo, ac i frenhinoedd Sheba a Seba gyflwyno eu teyrnged. Bydded i'r holl frenhinoedd ymostwng o'i flaen, ac i'r holl genhedloedd ei wasanaethu.*). Derbyniodd y tri enwau, sef Caspar, Melchior a Balthasar, mor gynnar â'r 6g.,<sup>1</sup> ond ni wyddys ar ba sail. Ceir yr enwau hyn yn y gerdd.

Cysylltir ymweliad y gwŷr doeth â'r Iesu â'r Ystwyll, yr ŵyl eglwysig sy'n digwydd ar 6 Ionawr (cf. ll. 5). Daw'r ŵyl hon o'r eglwys ddwyreiniol a'i ffocws gwreiddiol oedd bedydd Crist yn Afon Iorrdonen. Yn y Gorllewin, fodd bynnag, daeth yn goffâd o ymweliad y *magi* yn anad unpeth, gyda'r bedydd, y wyrth yng Nghana a gwyर्थ bwydo'r pum mil yn themâu llai pwysig. Yr hyn sy'n cysylltu pob un o'r rhain yw mai amlygiadau ydynt o ddwyfoldeb Crist: i'r *magi*, sy'n cynrychioli'r cenedloedd anghrediniol; i'r Iddewon, a fu'n dystion i ddisgyniad yr Ysbryd Glân ar yr Iesu yn Afon Iorrdonen; eto i'r Iddewon yng Nghana, lle y gwelwyd gwyर्थ gyntaf Crist, sef troi dŵr yn win; ac unwaith eto pan drowyd pum torth a dau bysgodyn yn fwyd i bum mil. Ystyr wreiddiol yr enw Groeg ar yr ŵyl, sef *epiphania*, oedd 'amlygiad'. Daw'r enw Cymraeg, fodd bynnag, o'r Lladin *stella* 'seren' (GPC 3868), gan awgrymu cysylltiad ag ymddangosiad y seren i'r gwŷr doeth. Am draethiad canoloesol ar arwyddocâd yr Ystwyll a'r cysylltiad â'r gwŷr doeth, gw. Jacobus de Voragine: GL 78–84.<sup>2</sup>

Mesur: pum englyn unodl union ac englyn proest i gloi. Nid oes prifodl a gynhelir drwy'r gerdd ac nid oes cymeriad na chyrch-gymeriad yn clymu'r englynion ynghyd. Fe'u cysylltir yn hytrach gan eu sylwedd.

Golygwyd y gerdd hon eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 217–19.

- 1 **Baltasar** Amrywia orgraff y llsgr. Ceir *Baltassar* yma a *Baltazar* yn ll. 13.
- 4 **tawdd** H.y., wedi ei doddi nes bod pob amhurdeb wedi diflannu, cf. GPC 3456 d.g. *tawdd*<sup>1</sup>, hefyd uchod 3.223n.
- 5–8 Y gystrawen yw *digystudd anrheg ... o'r myrr ... dug Iaspart ... i'r hydr aur gannwyll*. Hen gystrawen yw gosod y gwrth. o flaen y bf., a honno heb ei threiglo, gw. Treigladau 368; Henry Lewis, 'Safle'r ferf',

<sup>1</sup> Gw. ODCC<sup>3</sup> 1020 d.g. *magi*.

<sup>2</sup> Ceir rhagor o fanylion am hanes eu cwlt yn ODCC<sup>3</sup> 1020 d.g. *magi* a NCE ix, 61–4.

- B iv (1928–9), 149–52; GMB 10.30 *Calon clywaf yn llosgi* (Gwalchmai ap Meilyr).
- 5 **Ystwyll** Gw. y nodyn cefndir.
- 9 **Melchior** Ceir y ffurf hon a hefyd *Melsior* (llsgr. *melsyor*) yn ll. 14. Cadarnheir yr ail ffurf gan y gynghanedd a gall fod y ddwy yn cynrychioli'r un ynganiad o gofio mai *s* yw sain arferol *c* yn Llad. yr Oesoedd C., cf. 1.165n a 3.260n.
- arwydd gofeg—fodd** Neu, 'arwydd [o] ddymuniad [ei] eiriau'. Am wahanol ystyron *gofeg*, gw. G 565 a GPC 1429.
- 13–16 Y gystrawen yw *Baltasar ... a Melsior ... Enwog Iaspart ... a wnaethant ... anfon anrhegion rhagor ... O'u Mawlsant*.
- 17 **doeth ... caiff** Goddr. *doeth yw aur, myrr a thus* (ll. 20); goddr. dealedig *caiff* yw *Crist*.
- 21 **yt trwy** Llsgr. y *trwy*. Treiglir yn rheolaidd ar ôl yr ardd. *i* mewn arddodiaid cyfansawdd megis *i dros, i dan* ac *i drwy*, gw. y rhestrau yn GPC 1903 d.g. *ī*<sup>4</sup>, hefyd GMW 199–201, GMW 420 a J.E. Caerwyn Williams, '\**Dē* yn y Gymraeg', B xiii (1948–50), 1–10. Am y treiglad yn y cyfuniadau hyn, gw. L&P 130. Ceir enghraifft o *i drwy* yn GGMD i, 1.51; felly, y mae'n anodd derbyn darlleniad y llsg. fel y saif. Gan hynny, cymerir bod y *trwy* yn y llsg. yn enghraifft o gamrannu. Cyfeiria *yt* ymlaen at *Fair* (ll. 22), gan awgrymu mai hi a dderbyniodd y rhoddion ar ran y baban.
- 23–4 Ni sonnir yn Math ii.12 am y seren yn arwain y gwŷr doeth adref: *et responso accepto in somnis ne redirent ad Herodem / per aliam viam reversi sunt in regionem suam* (BCN *Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.*).
- 23 **heb law lys** Y mae'r treiglad yn afreolaidd ac efallai y dylid diwygio *lys* yn *llys*.

Cedwir y gerdd hon yng ngholofnau 1331–2 o Lyfr Coch Hergest. Y mae cyflwr y testun ar waelod colofn 1331 yn wael iawn oherwydd traul ac ansawdd gwael y memrwn, ac mewn manau y mae'n rhaid dibynnu ar y darlleniadau yn y copiâu diweddarach. Copïodd Siôn Dafydd Rhys y gerdd o'r Llyfr Coch i Pen 118 (c. 1600) a cheir copi arall yn Llst 147, gan law o gylch Edward Lhuud (1697). Dengys y rhain nad oedd y darn hwn o'r llawysgrif lawer haws ei ddarllen yr adeg honno ychwaith. Cymharwyd testun Llst 147 â'r gwreiddiol gan Moses Williams yn 1722, a gwelir awgrymiadau o'i eiddo ef uwchben y testun neu ar ymyl y tudalen yn Llst

147. Yn olaf, rhaid hefyd ystyried cynigion J. Gwenogvryn Evans yn R.

Cyfres o englynion am y pedwar efengyllydd a geir yma. Y mae'r englyn cyntaf yn eu disgrifio fel cynheiliaid y byd, delwedd gyffredin a geir, er enghraifft, mewn cerdd fer yn Llyfr Taliesin:

Johannes, Matheus,  
Lucas a Marcus:  
Wy a gynneil y byt  
Trwy rat yr yspryt.<sup>1</sup>

Esboniad o symbolau traddodiadol yr efengylwyr sy'n llenwi gweddill y gerdd.<sup>2</sup> Tardda'r symbolau hyn yn y pen draw o Esec i.4–14 lle y disgrifir pedwar creadur wrth orsedd Duw, pob un â phedwar wyneb: wyneb dyn, wyneb llew, wyneb eidion ac wyneb eryr. Adleisir y darn hwn yn Dat iv.6–7, eto mewn disgrifiad o bedwar anifail sy'n ymgasglu o amgylch gorsedd Duw. Y tro hwn, fodd bynnag, un wyneb sydd i bob anifail:

et in medio sedis et in circuitu sedis quattuor animalia plena oculis  
ante et retro  
et animal primum simile leoni  
et secundum animal simile vitulo  
et tertium animal habens faciem quasi hominis  
et quartum animal simile aquilae volanti

(BCN: *Ac yng nghanol yr orsedd ac o'i hamgylch yr oedd pedwar creadur byw yn llawn o lygaid o'r tu blaen a'r tu ôl. Yr oedd y creadur cyntaf yn debyg i lew, a'r ail i lo; yr oedd gan y trydydd wyneb fel dyn, ac yr oedd y pedwerydd yn debyg i eryr yn hedfan.*)

Uniaethwyd y creaduriaid hyn â'r pedwar efengyllydd gan awduron patristig, Irenaeus a Sierôm yn bennaf, a hynny am nifer o resymau yr esbonnir rhai ohonynt yn y gerdd bresennol. Cysylltir Mathew â symbol dyn am ei fod yn pwysleisio dyndod Crist ar ddechrau ei efengyl drwy ddyfynnu llinach yr Iesu; cf. llinellau 17–20 o gerdd Gruffudd:

Rhoed Mathau, doniau dinag,  
Dan draed Mab Mair ar grair Grog  
Am Dy fod, nef Bendefig,  
Yn rhith dyn, un anrhaith deg.

Y mae symbol Mathew felly'n cyfeirio at yr ymgnawdoliad. Y llew yw symbol Marc am fod ei efengyl ef yn dechrau â gwaedd megis gwaedd llew (*vox clamantis in deserto*). Y llew oedd brenin yr anifeiliaid a'r cadarnaf yn

<sup>1</sup> BI BGCC 60 (7.19–22). Am drafodaeth bellach, gw. *ib.* 57–63; Marged Haycock, 'Taliesin's "Lesser Song of the World"', *Essays and Poems Presented to Daniel Huws*, ed. Tegwyn Jones and E. Fryde (Aberystwyth, 1994), 229–50.

<sup>2</sup> Gw. NCE v, 654; ODCC<sup>3</sup> 1056; Peter and Linda Murray, *A Dictionary of Christian Art* (Oxford, 1996), 184; Jacobus de Voragine: GL ii, 248; Jennifer O'Reilly, 'The Art of Authority', *After Rome*, ed. Thomas Charles-Edwards (Oxford, 2003), 161–182.

eu plith:

Marcus fu, Iesu, iesin frodiau—Llyw,  
Ar waith llew i'th ddeau  
Er gwybod, hoywglod hyglau,  
Cedernyd rhad y Tad Tau.

Cyfeiria'r llew felly at frenhindod Crist a'i gadernid. Cysylltiad arall oedd y gred fod cenawon y llew yn cael eu geni'n farw ac y byddai'r llew yn eu llyfu'n fyw ar ôl tridiau: delwedd amlwg o'r atgyfodiad.

Gan fod efengyl Luc yn agor â hanes Sachareias yn cyflawni aberth i Dduw, ei anifail ef yw'r ych, yr anifail traddodiadol ar gyfer aberth:

Ych fu Lucas urddastrem  
Ar asw aur Iesu dinam  
Am aberthu, bu tru trwm,  
Un Mab Mair trawsair trosom.

Fel y noda Gruffudd, y mae'r ych hefyd yn berthnasol i'r Iesu yn gymaint ag y bu iddo Yntau gael Ei aberthu drosom ni.

Yn olaf, y mae efengyl Ioan yn agor â datganiad o natur ddwyfol Crist ac felly'n hedfan i'r entrychion fel eryr:

Eryr fu Ieuan erod,  
Aruchaf gwÿs, air iechyd,  
I ddangos, Fab Mair ddawnged,  
Uchelder Dy wych Haeldad.

Y mae hynny yn ei dro yn dwyn i gof esgyniad Crist i'r nef.

Mesur: englynion proest ac englyn unodl union. Nid oes prifodl a gynhelir drwy'r gerdd.

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 268–9.

- 1 **rhoes** Y mae'r gair hwn bellach bron yn annarllenadwy yn y llsg. Ceir yr *hoew duw* yn Pen 118, darlenniad sy'n rhy hir o sillaf. Teimlir hefyd fod angen bf. Yn Llst 147 cynigir *gwnaeth duw* ac ar ymyl y tudalen hefyd *rhoes duw*. O graffu'n fanwl ar y gair yn y Llyfr Coch, gwelir bod gofod wedi ei riwlio a'i adael ar gyfer priflythyren liw, gofod nas llanwyd. Digwyddodd yr union un peth yn llinell 23 o'r un tudalen (= 8.1 uchod), lle y gadawyd bwlch wedi ei riwlio ar gyfer y llythyren *n*, a'r llythyren ei hun wedi ei hysgrifennu'n fân fel canllaw i'r rhuddellwr. Ni ruddellwyd yr *n*, fodd bynnag, ac ni ruddellwyd unrhyw lythyren yn y bwlch dan sylw yma ychwaith. Yn anffodus, ni ellir gweld heddiw a oedd unwaith lythyren fân yno. Ar ôl y bwlch, y mae lle i dair llythyren, ac ymddengys fod tair llythyren yno mewn gwirionedd. Y mae llygad pur fentrus yn gallu darllen *oes*. Cynigir, felly, mai *roes* a oedd i fod yno, a'r *r* heb ei rhuddellu. Cynnig J. Gwenogvryn Evans yn R yw *bit*, ond y mae'n anodd cytuno, nid yn unig o ran siâp y llythrennau eu



hunain, ond hefyd o ran y bwlch a adawyd ar gyfer llythyren liw o'u blaen. Rhaid bod pedair llythyren yn y darlleniad gwreiddiol, nid tair. Gall mai dyfaliad yw *rhoes* a geir ar ymyl y tudalen yn Llst 147, neu'n fwy tebygol ffrwyth ailgraffu ar y llsg., gan fod nifer o ddarlleniadau ar ymyl y tudalen yn y llsg. hon sy'n rhagori ar y darlleniadau yn y prif destun. Bid a fo am hynny, dichon mai dyna'r darlleniad iawn. Y mae'n werth ailedrych ar ddarlleniad Pen 118 hefyd, sef *yrhoew duv*. Ymddengys fod Siôn Dafydd Rhys yn cytuno mai *oe* yw dwy o'r llythrennau yn Llyfr Coch Hergest, er bod gweddill ei ddarlleniad, yn ôl pob tebyg, yn ddyfaliad pur. Sylwer yn olaf mai bf. yn yr amser grff.myn. a ddisgwyliid ar sail yr englynion eraill (ll. 5 *fu*, ll. 9 *fu*, ll. 13 *fu*, ll 17 *rhoed*).

- 2 **glwysteg** Y mae'r gair hwn yn anodd iawn ei ddarllen. Gyda pheth trafferth gellir canfod y llythrennau olaf *ystec*. Y mae'n ymddangos mai dyna'r cwbl y llwyddodd Siôn Dafydd Rhys i'w ddarllen hefyd (Pen 118: *ystec*). Ceir mwy o oleuni yn Llst 147 *lwystec*, gyda phwyntiau o dan y ddwy lythyren gyntaf i ddangos eu bod yn ansicr. Y cynnig yn R yw *kystec*, ond ni thycia'r ystyr 'gofid, helbul, trafferth' (G 269, GPC 817) yn y cyd-destun. Awgrymir yn G *l.c.* ddiwygio'r gair yn *glwystec*. O graffu yn y llsg. gwelir mai *l*, o bosibl, yw llythyren gyntaf y gair (a gymerwyd yn *k* yn R), gyda llythyren neu ddwy sy'n gwbl annarllennadwy rhyngddi ac *ystec*. Dichon, felly, mai *lwystec* neu *lwystec* a oedd yn y llsg. yn wreiddiol ac nad oes rhaid diwygio. Rhydd *lwysteg* synnwyr a chynghanedd ddigonol, er bod y treigladd yn dilyn *pedwar* yn afreolaidd (Treigladau 134). Nid oes *g* ar ddechrau'r gair yn y Llyfr Coch ac nid oes lle ar gyfer llythyren yno ychwaith.
- 2 **efangelystor** O'r Llad. *evangelizator*, gw. GPC 1170.
- 3 **y'u molir** Llsg. y *molir*. Cymerir bod rh.m.gwrth. 3 ll. yma er y gellid y *molir*. Cyfeirir at yr efengylwyr yn ôl pob tebyg, er nad amhosibl mai *byd a nef* a folir.
- 4 **anofer** Y mae'r llythyren *o* yn aneglur yn y llsg., ond y mae'r copïau diweddarach ac R i gyd yn ei chadarnhau.
- 5 **eryr ... Ieuan** Gw. y nodyn cefndir.
- 6 **aruchaf** Gradd eithaf *aruchel*; gellid hefyd *a'r uchaf* neu *ar uchaf*, ac o blaid un o'r rhain y mae'n werth nodi bod yr ail linell yn englynion 2–5 yn disgrifio lleoliad y symbol. Dylai'r eryr fod uwchben Crist, ac efallai mai rhyw sylw i'r perwyl hwnnw oedd ergyd y ll. hon yn wreiddiol. Yn anffodus, oherwydd ansicrwydd y ddau air nesaf ni ellir torri'r ddadl.  
**gwŷs air** Y mae'r ddau air hyn bron yn gwbl annarllennadwy bellach yn y Llyfr Coch. Yr awgrym yn R yw *gvis ar*. Yr unig lythyren sy'n weddol sicr yn y llsg. yw *s* ac y mae modd canfod *vi* o'i blaen, o bosibl (ond gall mai *y* yw'r *v* mewn gwirionedd). Nid oes strôc ddisgynnol

amlwg ar y llythyren gyntaf. Ni ddisgwyliid yr orgraff *gvis* ar gyfer *gwys* ychwaith, ond defnyddir *v* yn achlysurol iawn am *6* neu *u*. Mabwysiedir *gwys* yn y testun golygedig, ond gyda phetruster mawr. Ni ellir derbyn *ar* am yr ail air gan fod *minim* rhwng y llythyren a ddehonglir yn *a* yn R a'r llythyren a ddehonglir yn *r*. Mabwysiedir *air* (= llsg. *air*, nid *eir*) yn y testun golygedig. Posiblirwydd arall yw *aur*, gan awgrymu mai *e* a *minim* cyntaf *u* yw'r llythyren a ddehonglir yn *a* yn R ac mai ail *minim* *u* yw'r *minim* na sylwyd arno yn R. Y mae *traws eur* (Pen 118) yn synhwyrol ac yn cytuno o ran darllen *eur*. Gellir deall sut y bu i Siôn Dafydd Rhys weld *aws* yn y gair cyntaf, ond ffrwyth ei ddychymyg ef yw'r *tr-*. Ni lwyddodd copiwydd LlSt 147 i ddarllen mwy na'r tair llythyren *eyr* a gadawodd fwch o'u blaen. Ar ymyl y tudalen y mae llaw arall wedi awgrymu *gvrs ein*, darlleniad sy'n eithaf tebyg i eiddo R. Nid yw'n gywir, fodd bynnag: y mae *ein* yn ffurf orgraffyddol ddiweddar ac yn sicr nid *yn*, y ffurf a ddisgwyliid mewn Cym.C., sydd yn y Llyfr Coch.

- 8 **uchelder** Y mae'r gair bron yn gwbl annarllenadwy yn y llsg., ond ceir goleuni yn Pen 118 *uchelder* a LlSt 147 *uchelder* (ar ymyl y tudalen; gadawyd bwlch yn y testun ei hun). Yn R ceir *anhelder*, ond ni cheir y fath air yn ôl G 28 a GPC 129. Awgryma'r gynghanedd a'r ystyr mai *uchelder* sy'n iawn.
- 9 **brodiau** Y mae'n anodd darllen y gair yn y llsg., ond unwaith eto ceir darlleniad synhwyrol yn Pen 118 *bhrodyeu* a LlSt 147 (ar ymyl y tudalen) *vrodyeu*. Y cynnig yn R yw *vredym*, ond y mae hynny'n ddi-ystyr ac yn difetha'r brifodl. O graffu'n fanwl ar y llsg. gwelir *dyeu* ar ddiwedd y gair. Derbynier, felly, *frodiau*, sy'n cynnal y brifodl ac sy'n synhwyrol.

**lyw** Felly yn y llsg., er nad yw'n hawdd ei ddarllen, ond cytuna Pen 118 a LlSt 147. Rhydd R *ly6*, ond sylwer bod y gair cyrch i fod i gyflythrennu â *llew* yn y ll. nesaf.

- 10 **ar waith** Am yr ystyr, cf. GPC 1563 d.g. *gwaith*<sup>1</sup> (4).
- 11 **hoewglod** Annarllenadwy bellach yn y llsg. Dilyniir Pen 118 *hoewglot* a hefyd R. Ffurf garbwl a geir yn LlSt 147, sef *yr gwybot bot hytheu*, ond unwaith eto ceir gwell darlleniad ar ymyl y tudalen, sef *hyglot hygleu*. A barnu oddi wrth faintioli'r gair yn y Llyfr Coch, *hoewglod* ac nid *hyglod* yw'r darlleniad cywir.
- 13 **urddastrem** Llsg. *urddas rem*. Diwygir er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd lusg.
- 14 **Iesu** Felly yn y llsg., ond fe'i hepgorwyd yn R.
- 17 **doniau dinag** Cf. GGMD i, 4.62.

Yn wahanol i'r holl gerddi eraill dan enw Gruffudd ap Maredudd, cadwyd yr awdl hon mewn toreth o lawysgrifau heblaw Llyfr Coch Hergest, ac y mae'r copïau hyn yn dangos olion digamsyniol trosglwyddiad llafar. Yn aml ceir ynddynt ddarlleniadau sy'n bur wahanol i rai'r Llyfr Coch. Gan hynny, bu rhaid trin y gerdd mewn ffordd wahanol i weddill y canu drwy nodi'r darlleniadau amrywiol a'u hystyried wrth lunio'r testun beirniadol.

Fel yn achos cerddi eraill y bardd, cadwyd hon yn Llyfr Coch Hergest, a dyna'r copi cynharaf ohoni o bron i ganrif. Saif yng nghanol cerddi eraill gan Ruffudd ac fe'i priodolir iddo ef wrth ei enw. Fodd bynnag, enw Iolo Goch sydd wrthi yn y rhan fwyaf o'r copïau diweddarach. Yn wir, y mae'n hawdd credu mai enw Iolo Goch a roddodd i'r 'Awdl gyffes' ei phoblogrwydd syfrdanol rhagor cerddi eraill Gruffudd ap Maredudd. Meddylir fel arfer am Iolo Goch a Gruffudd ap Maredudd fel cynrychiolwyr pegynau cwbl wrthgyferbyniol ym marddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg: y naill yn arloesi ar fesur y cywydd gydag arddull weddol syml a llyfn, a'r llall yn palu ymlaen yn rhwysgfawr ar yr hen fesurau awdl. Fodd bynnag, ni welir bod unrhyw sail o safbwynt arddull i briodoli'r gerdd i'r naill fardd neu'r llall. Y mae arddull Gruffudd ap Maredudd yn amrywio, fel y sylwa unrhyw un sy'n darllen, dyweder, ei awdl foliant i Dudur ap Goronwy (GGMD i, cerdd 2) ochr yn ochr â chaniad cyntaf cerdd 3 yn y gyfrol hon. Dengys yr olaf fod arddull gymharol syml a seilir ar frawddegau hir a llac o fewn cyrraedd Gruffudd ap Maredudd, a dyna a gawn yn yr awdl bresennol. Ar y llaw arall, ceir awdl grefyddol ar fesur cyhydedd hir dan enw Iolo Goch,<sup>1</sup> a honno'n dangos yr un fath o gymeriadau estynedig ag a geir yn y gerdd dan sylw yma. O ran hynny, amrywia arddull yr awdl bresennol ei hun o fan i fan: cymharer symlrwydd sionc y rhestr bechodau yn llinellau 11–30 â dwyster seinegol llinell 37 neu linellau 41–2 lle y mae'r bardd yn disgrifio uffern. Erys y priodoliad cynnar, os nad cyfoes, yn y Llyfr Coch. Nid yn unig y mae pennawd yno'n priodoli'r gerdd i Ruffudd, ond y mae'r gerdd hefyd yn sefyll yng nghanol ei waith. Ar y sail hon, derbynnir awduraeth Gruffudd ap Maredudd yma.<sup>2</sup>


Y mae'r copi yn Llyfr Coch Hergest (llsgr. b) yn rhagori ar bob cyfrif ar yr holl gopïau eraill. Gwelir dirywiad cyson yn safon y testun gyda threigl amser, oherwydd hap a damwain trosglwyddiad llafar ac ysgrifenedig a hefyd am fod geirfa a chystrawen ogynfarddol Gruffudd ap Maredudd yn faen tramgwydd i genedlaethau diweddarach. Yn llinell 13, er enghraifft, cafwyd *mwithfurn godineb* yn rhy anodd gan lawer, a throes rywsut neu'i gilydd yn *mwy fu'r godineb*, a *fu'r godineb*, *gwneuthur godineb* a hyd yn oed *moch mewn godineb*. Y mae'n amlwg mai llygriadau yw'r rhain i gyd ac

<sup>1</sup> GIG 136–8 (cerdd XXX).

<sup>2</sup> Gwrthodwyd y gerdd o ganon gwaith dilys Iolo Goch yn Dafydd Johnston, 'Gwaith Iolo Goch' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1984) ac yn GIG, a hynny ar sail y priodoliad yn y Llyfr Coch.

mai darlleniad y Llyfr Coch sydd agosaf at y gwreiddiol. Y mae'n amlwg hefyd mai llygriadau llafar yw llawer o'r rhain a'u tebyg. Dyma dystiolaeth go bendant, felly, fod y gerdd yn fyw ar lafar. Ymhellach, awgryma rychwant y darlleniadau amrywiol fod y gerdd wedi ei chofnodi oddi ar dafodleferydd ar fwy nag un achlysur.

Gan hynny, nid oes modd llunio stema draddodiadol fel y cyfryw. Gwelir bod nifer o lawysgrifau yn perthyn gyda'i gilydd, er enghraifft DJRZ neu FGHv, ac weithiau y mae modd llunio stema o'r grwpiau hyn. Er enghraifft, copïau o v yw F a G a chopi o F yw H. Perthyn testun sylfaenol v (a ddiwygiwyd yn ôl copi o draddodiad arall) yn ei dro gyda DJRZ, ond nid yw cydberthynas DJRZv mor eglur, er eu bod yn bur agos at ei gilydd. Un rheswm am yr achosion lle nad yw stema'n ymffurfio yw, bid sicr, fod copïau eraill wedi mynd i ebargofiant; ond yn fwy sylfaenol, nid oes modd llunio stema oherwydd fod y copïau'n cynrychioli traddodiadau gwahanol. Awgryma ystod eang yr amrywiadau nad yw'r copïau hyn yn tarddu o'r Llyfr Coch. Hynny yw, cynrychioli ffrydiau eraill yn tarddu yn y pen draw o'r gwreiddiol a wna'r copïau diweddarach. Yr eithriadau yw Kmwx**F**, sy'n tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Llyfr Coch fel y maent yn achos cerddi eraill Gruffudd ap Maredudd, a hefyd z (Pen 53), a all gynrychioli fersiwn llafar o destun y Llyfr Coch.<sup>3</sup>



Yn wyneb y dystiolaeth fod mwy nag un traddodiad ymysg copïau'r gerdd hon, y mae'n rhaid pwysu a mesur gwerth y copïau diweddarach, yn ogystal â chopi'r Llyfr Coch, wrth lunio testun beirniadol. Ond y mae rhagoriaeth y Llyfr Coch yn amlwg: y mae'n agos o ran amser at y gwreiddiol ac y mae ei ddarlleniadau bron yn gyson yn well nag eiddo'r copïau eraill. Ystyr 'gwell' yma yw eu bod yn fwy hynafol o ran ieithwedd (yn fwy 'gogynfarddol' ac felly'n fwy nodweddiadol o ieithwedd Gruffudd) neu'n fwy synhwyrol. Y broblem, felly, yw gwahaniaethu rhwng amrywiadau yn y copïau eraill sy'n debygol o fod yn hen a llygriadau llafar. Yn y testun golygedig, glynydd wrth dystiolaeth y Llyfr Coch (llsgr. b) lle y bu modd. Yn yr ychydig achosion lle y teimlwyd bod angen gwyro oddi wrtho, dewiswyd darlleniad

<sup>3</sup> Am hyn, cf. Dafydd Johnston, 'Bywyd Marwnad', CyT 201.

o'r copïau diweddarach. Ni fyddai'r testun golygedig fawr yn wahanol pe na chedwid y copïau hyn oherwydd yn aml y mae darlleniad diweddarach yn cyd-fynd â'r hyn y byddid wedi ei ddyfalu fel diwygiad. Gyda pheth petruster, gwrthodwyd y llinellau ychwanegol a geir mewn llawer o gopïau eraill oherwydd byddai eu mabwysiadu wedi golygu ymryryd yn rhy chwynr â thestun y Llyfr Coch. Fe'u trafodir yn fwy manwl ar ddiwedd y nodiadau isod.

Gelwir yr awdl hon yn *abdyl y gyffes* yn Llyfr Coch Hergest a cheir amrywiadau ar y teitl yn rhai o'r copïau diweddarach. Y mae'n weddi estynedig am faddeuant a thrugaredd, y cyfan o fewn fframwaith defodau penyd. Egyr â chyfarhiad i Dduw a chydnyddiaeth o ansicrwydd ac anwadalwch yr einioes hon, gan ofyn am wrandawriad (llau. 1–6). Dilynir hyn gan gyffes ffurfiol sy'n cyfeirio at y saith pechod marwol a'r pum synnwyr. Dengys Gruffudd y trylwyredd sy'n angenrheidiol wrth gyffesu, nid yn gymaint drwy restru'r pechodau mewn trefn, ond yn hytrach gan eu pentyrru mewn dull ailadroddus a chylchog (a 'gogynfarddol', felly). Y mae'r gyffes yn llenwi llinellau 7–30. Yna, cyferchir Duw eto, gan ddeisyf arno i warchod y bardd rhag uffern, a disgrifir y fan honno'n fanwl ac yn erchyll (llau. 31–46). Y mae cyfarhiad arall (llau. 47–52) yn tynnu sylw at ras Crist a faddeuodd i'r hil ddynol ei chreulondeb tuag ato ar y Groes. Try Gruffudd hyn yn sail i'w obaith yntau am faddeuant (llau. 53–60). Wedi cael maddeuant, y mae ei lygad ar gael ei dderbyn i'r nef (llau. 61–74). Yna daw'r diweddglo mawreddog: cyfarhiad arall ac ymbil am wrandawriad gan wrthgyferbynnu brenhiniaeth Crist ag iselder y bardd meidrol (llau. 75–84). Gelwir ar elfennau'r dioddefaint er mwyn pwysleisio cyfiawnder yr achubiaeth y gweddïa'r bardd amdani: â Gruffudd drwy gamau'r dioddefaint o'r Groes i'r atgyfodiad a'r esgyniad i'r nef—gan ddymuno iddo ef ei hun gyfran yn yr esgyniad hwnnw.

Mesur: cyhydedd hir ar y brifodl *-edd*.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 274–8.

- 2 **dydd dyedd** Awgryma'r cyd-destun mai marwolaeth y bardd yw hwn yn hytrach na Dydd y Farn.
- 3–4 Topos mewn llenyddiaeth benydiol yw ansicrwydd hyd einioes dyn.
- 4 **diwyd** Am yr ystyr 'cywir', gw. G 379 a GPC 1062. Cydnebydd y bardd gyfiawnder meidroldeb dynion, cf. cerdd 7 *passim*.
- 6 **pob awr** Gan na all y pechadur wybod pryd y bydd farw, y mae arno angen cymorth Duw drwy'r amser.
- 9 **o bob rhyw synnwyr** Ystyrir y pum synnwyr dynol yn gyfryngau pechu, a thechneg gyffredin wrth wrando ar gyffes pechadur oedd ei holi fesul synnwyr, gw. y rhagymadrodd, td. 8.
- 11 **saith briwyd pechawd** Gw. y rhagymadrodd, tt. 7–8. Amrywiad ar

- prifwyd* yw *priwyd*, gw. GPC 2890. Nid yw'r rhestr sy'n dilyn yn gyfyngedig i batrwm y saith pechod, ond ceir pob un ohonynt ynddi: *chwant cnawd* (= *luxuria*, trachwant), *glythineb* (= *gula*), *cadw fy sylwedd* (= *avaritia*, cybydd-dod), *balchder* (= *superbia*), *llesgu* (= *acedia*), *llid a chenfigen* (= *ira ac invidia*).
- 12 **cas ceudawd** Treiglr *ceudawd* yn llsg. b, ond y mae'r gynganedd yn mynnu cadw'r gysefin yma, cf. J. Morris-Jones: CD 209–10. Ffurf ddiriedglad a geir yn llawer o'r copïau diweddarach.
- 14 **cudeb** Llsg. b *kideb*, ffurf nas ceir yn GPC 476. Dilynr G 184 a'i deall yn ffurf ar *cudeb*. Ceir *cudeb* yn llawer o'r copïau diweddarach.
- sydwedd** Dilynr llsg. b er mai *salwedd* a geir bron yn ddiethriad yn y copïau diweddarach. Nid yw *salwedd* yn debygol o ystyried bod y gair yn digwydd ar ddiwedd ll. 20. Hefyd, soniwyd am y saith pechod marwol yn ll. 11 ac felly disgwyliid cyfeiriad at bechod *avaritia* (cybydd-dod) rywle yn y rhestr o bechodau.
- 16 **amhryd** Sonir am dorri rheolau ympryd yr Eglwys, pechod a gyfrifid dan *gula* (glythineb). Disgwylid i bobl ymprydio yn ystod tymor y Grawys ac ar rai dyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn, ac i ymatal rhag bwyta cig a chynnyrch anifeilaidd arall ar ddydd Gwener. Perthynai ymprydio hefyd i'r penydau a osodid ar bechaduriaid edifar. Am drafodaeth, gw. Bernard Hamilton, *Religion in the Medieval West* (London, 1986), 119–20.
- 21 **camgerdded** E. 'bywyd drwg' yn ôl G100 a GPC 401, ond onid cyfeiriad sydd yma at lygadu gwrthrychau trachwant a phechod?
- 22 **gwth** Llsg. b *gwch*, ffurf ddiystyr. Dengys y copïau diweddarach gryn ddrwsch yma. Diwygir yn *gwth* gan ddilyn G 723 d.g. *gwth*, a noder bod y ffurf hon yn gyffredin ymhlith y darlenniadau amrywiol ac yn cynnig gwell cyseinedd yma.
- 24 **taeredd** Rhestra Gruffudd Gryg *beich o daered* fel un o'i bechodau yntau, gw. H 351 (ll. 3).
- 25 **digio rhag hiraint** Ystyrir diffyg amynedd yn wyneb anffawd a chlefyd yn bechod difrifol a rhydd yr *artes moriendi* (y llawlyfrau canoloesol diweddar sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch sut i farw'n gywir) gryn sylw iddo, gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400–c. 1580* (New Haven and London, 1992), 317 (a llun 118).
- 26 **nawdd-dir** Felly llsg. b: camddarlleniad gan J. Gwenogvryn Evans yw *habddir* yn R 1332.45.
- braint brenhinedd** Rhoddwyd braint nawdd i'r seintiau gan frenhinoedd cynnar Cymru, ond gall hefyd fod y seintiau wedi eu delweddu fel brenhinoedd yma. Am nawdd, gw. E.R. Henken, *The Welsh Saints: A*

*Study in Patterned Lives* (Cambridge, 1991), 32–3; ODCC<sup>3</sup> 1452 d.g. *sanctuary*.

27 **gwrth** Yn ôl G 750 ceir yr ystyron ‘gwrth, rhyfeddod, gweithred neu allu rhyfeddol, rhinwedd; gyda grym ans. weithiau’; cf. hefyd GPC 1786 lle yr ychwanegir ‘miragl, arwydd, gweithred nerthol’ a ‘testun rhyfeddod’. Yr ystyr yma yw fod drygioni llwon celwyddog y bardd yn peri rhyfeddod. Ni raid felly ddiwygio *gwrth* yn *gwrth*, fel yr awgrymir yn G 715 d.g. *gwrthanudon* ac yn GPC 1715 d.g. *gwrthanudon*.

29 **cynnen** Llsg. b *kyngen*, a nodir dan *kyngen* yn G 223 ac iddo’r ystyron ‘ymdrech, cyni, brwydr, ymryson’. Dwy enghraifft arall a ddyfynnir yno. O’r rhain, y tebyg yw mai e.p. yw *kyghenn* yn R 585.12, fel yr awgrymir, ond derbynnir yr ystyr ‘brwydr’ yn GMB 3.110n *Kyngen gymynid gwytuid gbruyt* (Meilyr Brydydd). Yr e.p. *Cyngen* a geir yn ddiamau yn GCBM i, 3.142n, 24.121n a GCBM ii, 6.45n, 46, gw. G 248 d.g. *kyn·gen*<sup>1</sup> (a’r lleill). Ni nodir *cyngen* o gwbl yn GPC 736 na 784. Gan hynny, mentrir derbyn *cynnen*, sef y darlleniad a geir yn y rhan fwyaf o’r llsg. diweddar.

**murn ledrad** Dilynir llsg. b, ond sylwer mai ffurf ddiadreigladau a geir yn ddieithriad yn y traddodiad llawysgrifol diweddarach (ar wahân i llsg. sy’n ddibynnol ar llsg. b).

30 **llid a chenfigen** Llsg. b *llit keneuigen*. Er bod *keneuigen* wedi ei rhestru’n amrywiad dilys ar *kenuigen* yn G 130 d.g. *kenuigen*, *keneuigen*, ac er bod yr enghraifft hon wedi ei dyfynnu yn GPC 462 d.g. *cenfigen* (heb sylwi ar yr anhawster), ni nodir enghraifft arall o’r ffurf yn y naill le na’r llall. Gan hynny, mabwysiedir darlleniad a ategir gan bron pob llsg. arall.

38 **cern** G 136 ‘lletben, boch, bochgern, gên’, ystyron anodd eu derbyn yma oni sonnir am y fynedfa i uffern fel ceg drewllyd, ond yn GPC 468 d.g. *cern*<sup>1</sup> awgrymir hefyd ‘asgwrn y foch, ochr y pen, lletben, bochgern; llechwedd, llethr digysgod, ochr, congl’. Dichon mai un o’r ystyron olaf hyn sy’n berthnasol yma.

39 **tragywyddol** Cywasger er mwyn hyd y ll.

**callestrol** Gw. GPC 395 ‘tanbaid, disglair’. Yn G 231 cynigir ‘o gallestr’. Gwyddys am y defnydd o gallestr i gynnu tân drwy ei daro i godi gwreichion.

43 **llaith** Gelwir cyflwr y damnedig yn uffern yn farwolaeth fel y mae cyflwr yr achubedig rai yn y nef yn fywyd (e.e., Io i.4, xi.25; Rhuf vi.23).

**Cäin** Yr arch-bechadur, y dyn cyntaf i dderbyn damnedigaeth. Am hanes Cain ac Abel, gw. Gen iv.

**gwerin** Llsg. b *wyrein*. Yn ôl GPC 1781 ceir *gwyrain* fel ll. *gwyran*<sup>1</sup> ‘*barnacle goose*’ a hefyd fel amrywiad ar *gwyran*<sup>2</sup> ‘gwair, irwellt, porfa;

corswellt amryliw'. Ni ellir derbyn y cyntaf o ran ystyr nac odl; yr odl hefyd sy'n mynnu gwrthod yr ail, er gwaethaf yr ystyr fwy derbyniol. Yn G 97 d.g. *Cäin* awgrymir diwygio *wyrein* yn *wyrin*, sef, y mae'n ymddangos, ffurf ar *gwirin* 'pur, sanctaidd, diwair'. Er bod hyn yn odli, prin fod y synnwyr yn dderbyniol. Yn *ib.* 667 d.g. *gwerin* awgrymir *werin* fel y diwygiad cywir yn yr achos hwn, barn a ailadroddir *ib.* 684 d.g. *gwirin*. Dengys y llsgrau. diweddarach gryn ddryswch yma ac nid ydynt o fawr gymorth. Eto y mae z a V, dwy o'r rhai cynharaf, yn ategu *werin*.

44 **llin Addaf fyddin** Yr hil ddynol yw *llin Addaf*. Cyfeirir at y pechaduriaid sy'n mynd i uffern.

49 **Ti a faddeuaist** Cf. geiriau Crist cyn ei groeshoeliad (Luc xxiii.34) *Pater dimitte illis non enim sciunt quid faciunt* (BCN *O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud*).

50 **crogwedd** Rhestrir y gair hwn yn G 179, gan awgrymu mai *gwedd* yw'r ail elfen, neu 'tebygach mai adffurfiad o'r gair nesaf [*sc. crocwýð*] ydyw'. Nodir *crocwýð ib.* 'croes, crog, crogbren'; y mae GMB 23.23 (Elidir Sais) a GBF 23.29 (Hywel Foel) o blaid yr ystyr 'croesbren' ond yn GLIF 31.20 (Gruffudd ap Gwrgenau) ceir 'ffurf grogedig'. Haws derbyn yr awgrym cyntaf yn G yma a'i ddeall yn ddisgrifiad o'r *pren*. Ceir *crogwydd* yn rhai o'r llsgrau. diweddarach, yn groes i'r odl.

52 **i'r a'u** Gw. GMW 70, lle y trafodir y rh. *ar* o flaen cymal pth.: 'The combination of y "to" + *ar* assumes the form *y'r*.' Ceir toreth o amrywiadau mwy neu lai synhwyrol yn y copïau diweddarach.

**arfaeth arfog drosedd** Deellir mai creulondeb y sawl a groeshoeliodd Iesu yw hyn, ond posibilrwydd arall yw 'bwriad o oruchafiaeth arfog', yn sôn am barodrwydd arwrol Crist i dderbyn y boen (a'r Groes yn arf?).

57 Gweddi'r Arglwydd a adleisir yma: *et dimitte nobis debita nostra sicut et nos dimittimus debitoribus nostris* (*a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr*).

**wrthwyf** Y mae'r ffurf yn unigryw ac yn amheus. Nis nodir yn GPC 3736, WG 406 na GMW 60, ond fe'i derbynir yn G 714 fel ffurf 1 un. yr ardd. [g]wrth. Ceir *wrthwyf* yn llsgrau. BSYbchjlosDH, *wrthwy* yn AEOQnu ac *wrth wyf* yn q. Atega'r rhain ddarlenniad llsgr. b. (sef y Llyfr Coch). Gan fod llsgrau. apy yn tarddu o E, ni pherthyn unrhyw awdurdod i'w darlleniad *wrth nwyf* yma. Ceir *trwy nwyf* a *drwy nwy* hefyd: llsgr. R, a ysgrifennwyd 1564–6, yw'r tyst cynharaf. Y mae *yrdrwyf* yn z yn ffurf lawn mor broblematic ag *wrthwyf* a hefyd yn anodd o ran ystyr. Mentrir cadw *wrthwyf* a'i ddehongli'n ffurf 1 un. yr ardd. *wrth*. Os nad yw *wrthwyf* yn ffurf ddilys, yna y mae'n ymddangos bod dryswch yn y lle hwn ers cyfnod cynnar yn hanes y gerdd.



- 58 **i'm hollgnawd** Darlleniad llsgr. b a'r *lectio difficilior* yn ddiau. O'r llsgrau. diweddarach z yn unig sy'n ei ategu (heb gyfrif y llsgrau. hynny sy'n tarddu'n bendant o llsgr. b).
- 61 **i'th ddeau** Yr achubedig rai a gaiff eistedd ar ddeheulaw Duw, cf. Math xxv.33–4.
- 63 **llawr** Llsgr. b *lla6*. Nid yw'n ddarlleniad synhwyrol na gramadegol (disgwyliid treiglo *llathr* ar ôl yr eb. *llaw*). Ceir *ar law lathr* yn z, sy'n welliant o safbwynt gramadeg, ond erys y synnwyr yn amheus. Ceir *llawr* neu *lawr* yn nhrwch y llsgrau. a dichon mai hynny sy'n gywir.
- 70 **glwys** Am *glwys* fel e., 'gwlad gyfannedd', gw. GPC 1413; GDB 18.20 *A'e diffwys a'e glwys a glyb y ha6l* (Einion ap Gwgon).
- 83–4 Ceir nodyn ar anghysondeb arferion treiglo ar ôl *wyd* yn Treigladau 294–5, lle y trafodir yr enghraifft hon yn benodol.
- 85 **creuled** Gw. G 175 d.g. *creulet*, *creulyt* a GPC 593 d.g. *creulyd*, *creuled*.
- 86 **pumystl** Gw. GPC 2929 d.g. *pumustl*, *pumyst(l)*, *pypmystl* 'cegyr mawr, cegid y dŵr', 'water hemlock, cowbane', '*cicuta virosa*'; hefyd Ida B. Jones, 'Hafod 16 (A Medieval Welsh Medical Treatise)', *Études* vii (1955), 52. Planhigyn chwerw a gwenwynig ydyw, ac fe'i defnyddir yma'n ddelwedd am chwerwder dioddefaint Crist. Tebyg mai cyfansoddair o *pum* + *bystl*, *bustl* ydyw (GPC *l.c.*). Dygir i gof hefyd bum clwyf Crist (cf. ll. 91).
- 87 **yr efrydd** Sef Longinus, y gŵr dall y credid ei fod wedi trywanu Crist yn Ei ystlys a bod gwaed Crist, o syrthio ar ei lygaid, wedi adfer ei olwg. Sail y chwedl yn y pen draw oedd Io xix.34.
- 90 **Er Dy ddrain goron, Dy drugaredd** Nid yw'r gynghanedd yn wallus am nad yw'r cytseiniaid *d ddr-* a *d dr-* i'w cyfrif yn rhan ohoni yma; yn hytrach ceir cynghanedd sain deirodl dros y cwpled cyfan.
- 92 **o rwym maenfedd** Dilynir llsgr. b yn betrus yma. Disgwyliid *rhwym* (didreigladd) er mwyn ateb *Rhi* (John Morris-Jones: CD 205), a sylwer bod rhai o'r lliaws amrywiadau yn y llawysgrifau diweddarach yn rhoi hyn. Byddai *o'r rhwym faenfedd* yn bodloni anghenion y gynghanedd, ond gan na wyddys pa mor llym oedd arfer y cyfnod hwn o ran ateb *rh*, gwell yw glynu wrth ddarlleniad llsgr. b. Nid atebir *h* yn GGMD i, 1.65 *Dwg heb lysiant, Dduw deg ei blasau*, ond y mae'n ansicr a driniair beirdd *rh* fel cyfuniad o *r* + *h* neu fel sain annibynnol ac iddi ei rheolau ei hun ar wahân i reolau *h*. Byddai astudiaeth o arferion y beirdd mewn perthynas â *h* a *rh* yn gaffaeliad gwerthfawr.
- 93–4 Cwpled sy'n absennol o'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau diweddarach, ond y mae'n ddiau ei fod yn perthyn yma. Cyfeirir at anrheithio uffern (gw. y rhagymadrodd, tt. 13–14) ac yn fwy cyffredinol at fuddugoliaeth Crist dros farwolaeth ar y Groes.

95 **esgyniad** Llsgr. b *disgynnyat* wedi ei gywiro'n *esgynnyat*. Y mae *disgyniad* yn annhebygol iawn (ond gallai gyfeirio at Grist yn eistedd *i lawr* wrth ddeheulaw'r Tad) a dengys y llsgrau. eraill fod cryn ddryswch yma. Y mae *disgyniad* ar gael mewn nifer o fersiynau o'r gerdd, sy'n awgrymu llygriad a ddigwyddodd yn gynnar. Gall mai *disgyniad* a oedd yng nghynsail llsgr. b a bod y copi'ydd wedi ei ddiwygio. Dilynir ei esiampl ef yma.

**ar Dy ddeau Dad** Unwaith eto, dilynir llsgr. b am fod modd cael synnwyr ac mai hyn yw'r *lectio difficilior*; cf. y darlleniadau amrywiol.

96 **dod** Llsgr. b *vot*. O'r llsgrau. eraill z yn unig sy'n ategu hyn ac y mae'r be. yn rhyfedd o safbwynt gramadegol. Mentri'r mabwysiadu'r darlleniad *dod* (2 un grch. y f. *dodi*) a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. diweddarach.

### *Darnau ychwanegol*

- i Ceir y pedair ll. hyn mewn rhai llsgrau. yn unig. Y maent yn absennol o llsgr. b ac o z a V. Y tyst cynharaf ar eu cyfer yw **B** (1540x80). Gwrthodir hwy yma am nas ceir hwy yn b a hefyd am reswm mwy goddrychol, sef eu bod yn darllen braidd yn anghydnaws â gweddill y disgrifiad o uffern. Y mae *Rhag uffern boenau a'i phoethion beiriau* yn benodol yn swnio braidd yn rhy syml ochr yn ochr â'r gynghanedd ddwys a geir yng ngweddill y disgrifiad o uffern. Ar dir cadarnach, nodir bod y llau. hyn yn aml yn cymryd lle'r cwpled dilys 43–4, sydd naill ai'n dod ar ôl 45–6 neu'n diflannu'n llwyr. Y tebyg yw fod y ll. *Uffern llin Addaf drymaf dromwedd* yn adffurfiad o l. 44 *Llin Addaf fyddin, gorddin gyrddedd*.
- ii Cwpled arall nas ceir yn llsgr. b. Teimlir mwy o ansicrwydd ynghylch dilysrwydd hwn am ei fod ar gael ym mhob testun arall ond z a'r rheini sy'n ddbynnol ar b. Os ychwanegiad ydyw, y mae'n un a ychwanegwyd yn gynnar yn hanes y gerdd. Ar y llaw arall, hawdd dychmygu sut y gallai fod wedi ei golli o destun b. Yn betrus iawn dilynir b a'i hepgor.
- iii Englyn a ychwanegwyd wrth gwt y testun yn z ac yn a (ac a gyhaeddodd llsgrau. py drwy llsgr. a). Perthyn i gerdd arall, 'Trugarog frenin wyt tri cynefin' (MCF (2004) cofnod 6970), a briodolir i Lywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon, Gwilym ap Hywel Felyn a Dafydd ap Gwilym. Y mae cryn debygrwydd rhwng y gerdd hon ac awdl Gruffudd ap Maredudd o ran mesur a phwnc, a cheir y ddwy gerdd gyda'i gilydd yn BL Add 14936 a Llst 122.

## *Llawysgrifau*

*Nodir isod y llawysgrifau y mae'r cerddi a olygir yn y gyfrol hon yn ymddangos ynddynt. Diolchir i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth nas crybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.*

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor*

**Bangor 1268:** Rowland Lewis, hanner cyntaf yr 17g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 1217–3133 (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor); Rhinnon Francis Roberts a Geraint Gruffydd, 'Rowland Lewis o Fallwyd a'i Lawysgrifau', Cylchg LIGC ix (1955–6), 495–6.

**Bangor (Mos) 6:** John ap Humffrey, c. 1600 (cyn 1615), gw. E. Gwynne Jones ac A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection', i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1967).

**Bangor (Mos) 9:** llaw anh., ail hanner yr 17g. (cyn 1681), gw. *ib.*

**Bangor (Penrhos) I.1573:** llaw anh., c. 1600 gan fwyaf, gw. 'Catalogue of the Penrhos Papers' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1940).

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig*

**BL Add 14866 [= RWM 29]:** David Johns, 1586–7, gw. RWM ii, 1022–38.

**BL Add 14936:** Richard Morris, gw. CAMBM 1844, 39.

**BL Add 14940:** sawl llaw, c. 1760, gw. *ib.* 40–1.

**BL Add 14964:** Owen Jones 'Owain Myfyr', 1768–99, gw. *ib.* 45.

**BL Add 14970:** Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. *ib.* 48–9.

**BL Add 14979:** John Fowk, cyn 1577, gw. *ib.* 53–4.

**BL Add 14984:** llaw anh., yn gynnar yn yr 17g., gw. *ib.* 55–6.

**BL Add 15001:** John Walters, cyn 1792, gw. *ib.* 61–2.

**BL Add 15004:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', 18g., gw. *ib.* 63.

**BL Add 24980 [= RWM 39]:** llaw anh., 1600–25, gw. RWM ii, 1082–7.

**BL Add 31063:** Hugh Maurice, c. 1800, gw. CAMBM 1876–81, 154.

*Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Brog (y gyfres gyntaf) 5:** llaw anh., diwedd yr 17g., gw. 'Catalogue of

Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 10–12; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylch LIGC v (1947–8), 237.

*Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd*

**Card 1.1:** Dafydd Jones, Trefriw a John Davies, Pentrefidog, yn cydweithio, canol y 18g., gw. G.C.G. Thomas & D. Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"' (Aberystwyth, 1994), 1.

**Card 1.52:** Iaco ap Dewi, 1713, gw. *ib.* 16.

**Card 2.40 [= RWM 26]:** John Morgan, Matching, c. 1714, gw. RWM ii, 214–24.

**Card 2.114 [= RWM 7]:** llaw anh., 1564–5, gw. *ib.* 110–28.

**Card 2.201 [= RWM 63]:** Rhisiart ap Siôn, c. 1578–81, gw. *ib.* 266–72.

**Card 2.616:** llaw anh., ar ôl 1618, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 142.

**Card 2.623 [= Hafod 13]:** Iaco ap Dewi, ar ôl 1684, gw. RWM ii, 314–18.

**Card 3.4 [= RWM 5]:** Elis Gruffydd, 1527, gw. *ib.* 93–6.

**Card 4.9:** Wiliam Jones, Llangadfan, 1794, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 314–15.

**Card 4.10 [= RWM 84]:** Dafydd Jones, Trefriw, canol y 18g., gw. RWM ii, 790–3.

**Card 4.140:** Edward Davies, 1792, gw. Graham C.G. Thomas and D. Huws, *op.cit.* 332.

**Card 5.167 [= Thelwall]:** Cylch Richard Langford, c. 1565–72, gw. *ib.* 451; BaTh 303, 311–12.

*Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**CM 23:** 'llaw dybiedig Siôn Brwynog', c. 1600, gw. RWM ii, 921–3; B.G. Owens & R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1980), 26.

*Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru Bangor*

**Gwyn 3:** Jasper Gryffyth, c. 1600, gw. *ib.* 30; Gwyneddon 3, gol. I. Williams (Caerdydd, 1931).

*Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 111, 'Llyfr Coch Hergest' [= RWM 1]:** Hywel Fychan (1194–1202,

1213–20); llaw Pen 32 (1329–34), *c.* 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylch LIGC* xxi (1979–80), 246–56; D. Huws, ‘Llyfr Coch Hergest’ yn *CyT* 1–30.

**J 138 [= RWM 16]:** Robert Davies, Gwysanau, 1626, gw. RWM ii, 64–8.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LIGC 168C:** Edward Jones, 18–19g., gw. NLWCM 136–8.

**LIGC 669D:** John Thomas (Siôn Wyn o Eifion), cynnar yn y 19g., gw. HMNLW i, 46.

**LIGC 672D:** Edward Williams, *c.* 1800, gw. *ib.* 47.

**LIGC 673D:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. *ib.* 47.

**LIGC 695E:** llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 50.

**LIGC 873B [= Wrecsam 2]:** John Edmonde, Tal-y-llyn, 16g., gw. RWM ii, 360–5.

**LIGC 1559B:** Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. HMNLW i, 130; Dafydd Ifans, ‘Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 579–601.

**LIGC 1573C:** Angharad Llwyd, 19g., gw. HMNLW i, 133.

**LIGC 1984B [= Pant 15]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1757, gw. RWM ii, 823–4.

**LIGC 2002C [= Pant 33]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, *c.* 1760, gw. *ib.* 841–2.

**LIGC 2691D:** William Phylip, canol yr 17g., gw. HMNLW i, 232–3.

**LIGC 3056D [= Mos 160]:** Wmffre Dafis, *c.* 1600, gw. RWM i, 224–42; Daniel Huws ‘The Transmission of a Welsh Classic’, yn *Recognitions: essays presented to Edmund Fryde*, ed. Colin Richmond & Isobel Harvey (Aberystwyth, 1996), 194.

**LIGC 4973B:** John Davies, Mallwyd, *c.* 1631, gw. HMNLW ii, 59; *Dr John Davies of Mallwyd: Welsh Renaissance Scholar*, ed. Ceri Davies (Cardiff, 2004), 107.

**LIGC 5477B:** Llaw anh., 18–19g., gw. HMNLW ii, 104.

**LIGC 6209E:** William Jones, cynorthwydd Edward Lhuyd, 17/18g., gw. *ib.* 158–9.

**LIGC 6967B:** Robert Edmwnt, y Bala, ac eraill, 18–19g., gw. *ib.* 225–6.

**LIGC 8330B:** Lewis Maurice, 1634–47, gw. HMNLW iii, 36.

**LIGC 19904B [= J. Gwenogvryn Evans ii.i]:** Robert Vaughan, Hengwrt, hanner cyntaf yr 17g., gw. ‘Schedule of Manuscripts ... from the library of the late Dr. John Gwenogvryn Evans’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1930), 2.

**LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1]:** David Ellis, *c.* 1788, gw. D. Ifans, ‘Schedule of ... Minor Deposits’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1975), 4.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 30:** un o gopïwyr John Davies, Mallwyd, *c.* 1610–20, gw. RWM ii, 465–73; Ceri Davies, *op.cit.* 112.

**Llst 38:** George William Griffith, 1613–42, gw. *ib.* 492–6.

**Llst 118:** Wmffre Dafis, *c.* 1600–20, gw. *ib.* 579–92; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LIGC v (1947–8), 234; ByCy 117.

**Llst 122:** Wiliam Bodwrda, *c.* 1644–50, gw. RWM ii, 609–20; R. Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10.

**Llst 133:** Iaco ap Dewi a Samuel Williams, *c.* 1712, gw. RWM ii, 664–94; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1644–1722* (Caerdydd, 1953), 37–40.

**Llst 145:** Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 721–5; G.H. Hughes, *op. cit.* 22, 53.

**Llst 147:** un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, 1697, gw. RWM ii, 726; GP xv.

**Llst 167:** llaw anh., *c.* 1623, gw. *ib.* 754–7.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 53:** llaw anh., *c.* 1484, gw. RWM i, 403; Peniarth 53, vii.

**Pen 77:** llaw gynnar Thomas Wiliems, *c.* 1576–90, gw. RWM i, 509–18.

**Pen 82:** Huw Arwystl, *c.* 1540–80, gw. *ib.* 531–9.

**Pen 93:** llaw anh., diwedd yr 16g., gw. *ib.* 572–8.

**Pen 97:** llaw anh., *c.* 1605, gw. *ib.* 603–9.

**Pen 114:** llaw anh., *c.* 1620–40, gw. *ib.* 689–95.

**Pen 118:** Siôn Dafydd Rhys a’i gynorthwywyr, *c.* 1600, gw. *ib.* 718–25.

**Pen 124:** llaw anh., ar ôl 1713, gw. *ib.* 754–68.

**Pen 155:** llaw anh., *c.* 1565, gw. *ib.* 937–40.

**Pen 221:** John Jones, Gellilyfdy, ar ôl 1620, gw. *ib.* 1045; Nesta Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones,

Gellilyfdy' (D.Phil. Oxford, 1970), 26–7; M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.

*Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Balliol, Rhydychen*

**Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E]:** Siôn Prys o Aberhonddu, ail chwarter yr 16g.: gw. GP cx–cxi; E.D. Jones, 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104; R.A.B. Mynors, *Catalogue of the Manuscripts of Balliol College Oxford* (Oxford, 1963), 349–51.

*Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstey yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Wy 6:** Owen Gruffydd, 1678–1709, gw. 'Schedule of the Wynnstey Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1934–40), 4.





## *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

	<i>td.</i>
Arglwydd rhwydd a'n rhydd tangnefedd.....	39
Ar lwyr wared, Grist, y'th aned .....	34
Baltasar, gynnar gennad,—dug anrheg .....	85
Caraf Benrhaith côr arianwaith, carai rinwedd .....	21
Crair Cred, ced cynnydd, Creawdr llu bedydd.....	91
Duw Sul, Eurlyw byw, bwyaid—arwyrain.....	55
Dylyem (pwylllem cyn pell yniâl—yng.....	59
Gwynt, tân, awyr llwyr, llawr daearfa—mwyn .....	61
Llariaidd Fair gywair, digywyd—riain .....	79
Lliw llawr llathrdref nef, Naf y ddifai—wledd.....	71
Mau ymoralw o bwyll ddisalw, o bell ddwysawl .....	74
Na wna, Iôr nen, wen Wynedd.....	68
Nid arglwydd cyfrwydd cyfrwng nef—a llawr.....	62
Rhodes Duw, fy Llyw byw, bedwar .....	88
Tair llythyren, wen windud.....	83